
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC




Cyhoeddwyd 23 Mawrth 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3

2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn 9

3. Sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith 19

4. Newidiadau'r BBC i newyddion a radio lleol 40

5. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 54

6. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 2 70

7.Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 3 76

8. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 105


## Atodiad


A1 Geirfa 136

A2. Y Drwydded Weithredu newydd 138

A3. Cymharu'r Drwydded Weithredu gyntaf a'r un newydd 139

A4. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr 152

A5. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban 157

A6. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru 163

A7.Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon 168

A8. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 174

A9. Fframwaith Cyfreithiol 179

# 1. Trosolwg

## Rhaid i'r BBC wasanaethu holl gynulleidfaoedd y DU a darparu amrywiaeth eang o gynnwys

1.1 **Mae tirwedd cyfryngau'r DU yn newid yn gyson.** Mae arferion gwylio a gwrando'r genedl wedi newid yn gyflym dros y degawd diwethaf, ac mae gwasanaethau ffrydio fideos a sain ar-lein heddiw yn rhan ganolog o fywydau bob dydd y rhan fwyaf o bobl. Mae chwaraewyr masnachol rhyngwladol yn tynnu mwy a mwy o wylwyr a gwrandawyr oddi wrth ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, ac mae teledu sy'n cael ei ddarlledu'n draddodiadol, fel rydym yn ei adnabod, wedi gweld dirywiad tymor hir a sylweddol.

1.2 **Yn yr amgylchedd cynyddol dameidiog hwn, mae gan y BBC rôl bwysig o hyd.** Ers dros 100 mlynedd, mae'r BBC wedi cael y dasg o hysbysu, addysgu a diddanu'r DU. Gyda chartrefi ledled y wlad yn talu £3.8bn gyda'i gilydd i'r BBC mewn ffioedd trwydded yn 2022 i gyflawni'r rôl honno, mae'n hanfodol bod y BBC yn gwasanaethu pob cynulleidfa ac yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel o'r DU.

1.3 **Er mwyn i'r BBC barhau i gyflawni ei gylch gwaith, rhaid iddo drawsnewid a moderneiddio.** Mae angen iddo addasu ei wasanaethau ar-lein i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn atyniadol, gan barhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys i gynulleidfaoedd sydd ond yn defnyddio gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu, neu gynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn bennaf. Ym mis Mai 2022, amlinellodd y BBC strategaeth newydd sydd wedi'i dylunio i helpu i gwrdd â'r heriau mae'n eu hwynebu, a fydd yn golygu newid i fod yn sefydliad 'digidol yn gyntaf'. Byddai hyn yn rhannol yn golygu ailddyrannu arian at gynnwys sy'n gweithio mewn byd ar-alw a buddsoddi mwy mewn gwasanaethau ar-lein.

## Mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith ar ran gwylwyr a gwrandawyr

1.4 **Er mwyn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith, rydym yn gosod Trwydded Weithredu y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â hi.** Mae penderfyniadau strategol a golygyddol yn fater i'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb, ac mae'r Drwydded Weithredu wedi'i dylunio i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus yn effeithiol: i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd; i gefnogi dysgu; i ddangos allbwn creadigol ac unigryw o ansawdd uchel; ac i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi'r economi greadigol ar draws y DU.

1.5 **Mae angen i'n gwaith rheoleiddio adlewyrchu bod tirwedd y cyfryngau ac arferion cynulleidfaoedd yn newid a byddant yn parhau i newid.** Rydym hefyd yn cydnabod, er bod gan y BBC incwm cyson o ffi'r drwydded, mae costau cynhyrchu cynyddol, setliad ffi'r drwydded yn 2022 a chwyddiant cyffredinol yn golygu bod llai o arian ar gael iddo. O ganlyniad, mae'r BBC yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd am ei wasanaethau a'i gynnwys, a allai olygu cwtogi ar oriau.

## Rhaid i'r BBC barhau i ddarparu cynnwys a gwasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd wrth iddo foderneiddio a thrawsnewid

1.6 **Mae'r Drwydded Weithredu newydd, a gyhoeddwyd heddiw, yn cydnabod rôl bwysig y BBC, yn ogystal â'r amgylchedd newidiol y mae'n gweithredu ynddo.** Mae'n adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd i'r BBC ddarparu cynnwys a gwasanaethau ar-lein o ansawdd uchel, gan gydnabod bod teledu a radio sy'n cael eu darlledu yn dal yn bwysig iawn i lawer o wylwyr a gwrandawyr. Mae hefyd yn mynnu bod y BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys o'r DU – gan gynnwys rhaglenni arbenigol a allai ddenu cynulleidfa lai – ac i barhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu cynnwys lleol, a chynnwys i'r rhanbarthau a'r gwledydd.

1.7 **Bydd y Drwydded newydd o fudd i gynulleidfaoedd drwy ddiogelu cynnwys pwysig, gan roi digon o hyblygrwydd i'r BBC siapio ei allbwn rhaglenni er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd sy'n newid.** Mae cwotâu'n dal yn nodwedd allweddol; mae'r Drwydded yn cynnwys mwy na 70 ohonynt, ac rydym yn credu eu bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y BBC yn darparu nifer sylfaenol o gynnwys penodol. Ochr yn ochr â chwotâu, rydym yn gosod gofynion eraill ar gyfer yr hyn y dylai'r BBC ei ddarparu. Maent yn cynnwys gofynion i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y BBC – y wefan, iPlayer a Sounds – yn unigryw a bod modd dod o hyd i gynnwys pwysig yn hawdd ar wasanaethau o'r fath.

## Mae'r Drwydded newydd yn mynnu bod y BBC yn llawer mwy tryloyw gyda chynulleidfaoedd ynghylch newidiadau i'w gynnwys a'i wasanaethau

1.8 **Dylai tryloywder, didwylledd ac eglurder fod yn gonglfaen gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd y BBC.** Mae'n bwysig rhoi cyfle i gynulleidfaoedd godi pryderon â'r BBC, a all, yn ei dro, roi gwell dealltwriaeth iddo o'r hyn y mae ar gynulleidfaoedd ei eisiau a'i angen. Mae tryloywder hefyd o fudd i'r diwydiant ac mae'n hanfodol i'n galluogi i ddal y BBC i gyfrif ar ran dinasyddion a defnyddwyr.

1.9 **Mae angen i'r BBC wella sut mae'n egluro ei gynlluniau trawsnewid i gynulleidfaoedd, ac a ydynt yn llwyddiannus ai peidio.** Wrth i'r BBC geisio moderneiddio sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith, mae angen iddo wneud llawer mwy i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon a thryloyw â'r cyhoedd, rhanddeiliaid eraill ac Ofcom. Yn rhy aml o lawer, mae diffyg manylder ac eglurder yng nghyhoeddiadau'r BBC am newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau. Felly, rydym yn disgwyl newid sylweddol gan y BBC i sicrhau cyfathrebu mwy agored, manwl a rhagweithiol. Mae angen i'r BBC hefyd fod yn glir ac yn agored ynghylch a yw ei newidiadau'n llwyddiannus. Efallai nad yw holl gynlluniau'r BBC yn profi'n effeithiol yn ymarferol. Mae cydnabod hynny, a bod yn barod i newid cwrs, yn hanfodol er mwyn sicrhau ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

1.10 **Am y tro cyntaf, mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn adrodd yn gynhwysfawr ar ei gynlluniau a'i berfformiad.** Mae'n gosod gofynion llym a manwl sy'n nodi beth mae angen i'r BBC adrodd yn ei gylch, a phryd. Mae'r rhain yn gorfodi'r BBC i gyflwyno gwybodaeth helaeth, gyda'i Gynllun Blynyddol, am sut bydd yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, gan

gynnwys cyfanswm oriau darlledu ac oriau cynnwys newydd, yn ôl genre. Yna, rhaid i'r BBC werthuso a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hynny, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol. Bydd yr wybodaeth hon yn hollbwysig o ran caniatáu i Ofcom ddal y BBC i gyfrif yn y meysydd hynny o'i ddarpariaeth nad ydynt yn ddarostyngedig i gwotâu.

## Byddwn yn craffu ar gynlluniau a pherfformiad y BBC ac yn camu i'r adwy os ydym yn poeni nad yw'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd

1.11 **Mae'r Drwydded Weithredu yn cael ei chefnogi gan oruchwyliaeth gynhwysfawr drwy gydol y flwyddyn.** Mae ymgysylltiad parhaus rhwng Ofcom a'r BBC yn ategu'r cyfnodau cadw mewn cysylltiad mwy ffurfiol ar gyfer cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol y BBC. Mae'n caniatáu i ni ofyn cwestiynau a phwyso am newidiadau, fel rydym wedi'i wneud yn ddiweddar mewn perthynas â'r newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i sianel BBC News a radio lleol yn Lloegr. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan y BBC am y newidiadau hyn ac, yn ddiweddar, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC i nodi ein canfyddiadau.

1.12 **Bydd rhanddeiliaid yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o dynnu sylw at eu pryderon.** Maent yn rhoi safbwyntiau a thystiolaeth i Ofcom sy'n ein galluogi i herio cynlluniau'r BBC. Bydd yr wybodaeth ychwanegol rydym yn mynnu bod y BBC yn ei chyhoeddi hefyd yn paratoi rhanddeiliaid yn well i wneud hyn, yn ogystal â siarad â'r BBC yn uniongyrchol.

1.13 **Os ydym yn poeni nad yw'r BBC yn cyflawni ar ran cynulleidfaoedd, byddwn yn cymryd camau pellach ac yn gosod gofynion newydd, os bydd angen.** Gallem ymgysylltu â'r BBC mewn ffordd strwythuredig ond anffurfiol, gan ei gyfarwyddo i ddarparu a chyhoeddi rhagor o wybodaeth, neu hyd yn oed symud yn gyflym i osod cwotâu newydd.

1.14 **Os na fydd y BBC yn cydymffurfio â'r Drwydded, byddwn yn gweithredu.** Os na fydd y BBC yn cyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y darpariaethau tryloywder newydd yn y Drwydded, gallwn ei gyfarwyddo i gymryd camau unioni cyflym, neu ei orfodi i ddatgelu'r wybodaeth i Ofcom er mwyn i ni allu ei chyhoeddi ein hunain. Gallwn hefyd ychwanegu rhagor o ofynion tryloywder at y Drwydded Weithredu, a byddwn yn asesu hyn yn flynyddol. Mewn achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio, gallwn gymryd camau gorfodi.

## Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn asesu perfformiad y BBC

1.15 **Rydym yn defnyddio sylfaen dystiolaeth gyfoethog, sy'n annibynnol ac yn seiliedig ar wybodaeth, i lunio barn am berfformiad y BBC.** Rydym yn casglu llawer iawn o wybodaeth am y BBC a'r marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt ac rydym yn cynnal ymchwil helaeth i gynulleidfaoedd. Mae'r ymchwil yn edrych ar y cynnwys a'r gwasanaethau sydd ar gael, beth mae pobl yn ei wylio ac yn gwrando arno, a pha mor fodlon yw cynulleidfaoedd â'r BBC. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig wrth asesu cynlluniau a pherfformiad cyffredinol y BBC. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad o sut mae'r BBC yn cysylltu â chynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a byddwn

hefyd yn cynnal ymchwil i ddeall profiad cynulleidfaoedd yn well o sut mae cynnwys lleol yn cael ei ddarparu, a'u barn am hynny.

1.16 **Mae'n bwysig bod y ffordd rydym yn mesur perfformiad y BBC yn parhau i esblygu, yn benodol wrth ddarparu cynnwys mewn ffyrdd newydd.** Rydym eisoes wedi gwneud gwaith sylweddol fel rhan o'n gwaith ar y Drwydded Weithredu, fel y gwelir yn y datganiad hwn, ond byddwn yn parhau i ddatblygu a mireinio'r gwaith hwn. Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn ymgynghori ar ddiweddaru ein fframwaith mesur perfformiad i adlewyrchu datblygiadau yn y ffordd rydym yn asesu perfformiad y BBC.

## Sut byddwn yn dal y BBC i gyfrif i sicrhau ei fod yn darparu cynnwys a gwasanaethau pwysig i gynulleidfaoedd: ein penderfyniadau

Mae'r Drwydded Weithredu newydd yn gosod amrywiaeth o ofynion ar y BBC i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Mwy na 70 o gwotâu ar draws gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu ar y BBC.** Mae cwotâu o'r fath yn diogelu, ymysg pethau eraill, sut mae cynnwys newyddion a materion cyfoes yn cael eu darparu ar brif wasanaethau darlledu teledu a radio'r BBC, natur unigryw gwasanaethau radio'r BBC (drwy gwotâu ar gyfer cerddoriaeth a chwaraeon), a sut mae cynnwys gwreiddiol a newydd o'r DU yn cael eu darparu. Mae'r cwotâu hefyd yn sicrhau bod y BBC yn comisiynu nifer sylfaenol o gynnwys y tu allan i Lundain, ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- **Amrywiaeth o ofynion newydd o ran pa gynnwys a gwasanaethau y dylai'r BBC eu darparu.** Yn hollbwysig, mae'r Drwydded Weithredu nawr yn rheoleiddio gwasanaethau ar-lein y BBC yn gynhwysfawr, gan roi sylw llawn i iPlayer a Sounds. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod cynnwys pwysig, gan gynnwys cynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau a rhaglenni mewn perygl, ar gael i gynulleidfaoedd ar-lein, a'i bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwnnw. Rydym hefyd yn mynnu bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd, moeseg, cynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant, yn ogystal â rhaglenni i ddysgu Gaeleg.
- **Gofynion tryloywder ychwanegol.** Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflwyno gwybodaeth helaeth ochr yn ochr â'i Gynllun Blynyddol ynghylch sut bydd yn bodloni ei ofynion, a gyda'i Adroddiad Blynyddol, ynghylch a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hynny. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys cyfanswm oriau darlledu ac oriau cynnwys newydd, yn ôl genre.

Mae'r gofynion tryloywder, yn eu tro, yn cefnogi craffu cynhwysfawr a pharhaus ar gynlluniau a pherfformiad y BBC, ac yn caniatáu i ni gamu i mewn os nad yw'r BBC yn cyflawni ar ran cynulleidfaoedd.

Rydym wedi ymgynghori'n eang ar ein cynigion, gan gynnwys drwy alwad am fewnbwn ym mis Gorffennaf 2021, ymgynghoriad ym mis Mehefin 2022 ac ymgynghoriad arall ym mis Rhagfyr 2022. Rydym hefyd wedi siarad â nifer o randdeiliaid. Mewn ymateb i sylwadau ar ein cynigion, a'n pryderon a godwyd ynghylch penderfyniadau diweddar y BBC, yn enwedig cynlluniau'r BBC i uno ei sianel Newyddion yn y DU a'r sianel World News rhyngwladol yn un sianel deledu, a'i newidiadau arfaethedig i radio lleol yn Lloegr, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cryfhau'r gofynion tryloywder.** Rydym wedi ehangu'r amrywiaeth o wybodaeth y mae'n rhaid i'r BBC ei chyhoeddi, wedi ychwanegu esboniad manylach am yr hyn rydym yn disgwyl i wybodaeth o'r fath ei gynnwys, a byddwn yn mynnu bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu i Ofcom, gan gynnwys data am wariant lle bo hynny'n berthnasol.
- **Cadw cwota'r BBC ar gyfer cynnwys llafar 100% ar radio lleol yn ystod oriau brig amser brecwast.** Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig cynnal rhagor o ymchwil a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar gynulleidfaoedd a'r hyn maent yn ei werthfawrogi am gynnwys lleol.
- **Cadw amod mewn perthynas â BBC News.** Bydd hyn yn sicrhau bod sianel BBC News yn parhau i ddarparu newyddion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd uchel.

Yn dilyn cais gan y BBC, ac ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, rydym wedi gwneud rhagor o newidiadau i'r Drwydded Weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Disodli cwota newyddion a materion cyfoes dyddiol ac wythnosol â chwota blynyddol**, gan fynnu bod y BBC yn darparu newyddion o'r fath yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Bydd hyn yn symleiddio'r broses o weinyddu'r Drwydded ond ni fydd yn golygu unrhyw newidiadau i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC.
- **Lleihau cwota cynyrchiadau gwreiddiol BBC Four i 65%,** a fydd yn caniatáu i'r BBC ail-ganolbwyntio BBC Four ar ddeunydd o'r archif a pherfformiadau byw, gan gynyddu gwariant ar y celfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two.
- **Lleihau'r cwota ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live i 70%**; bydd hyn yn caniatáu i'r BBC ddarlledu rhywfaint o gynnwys chwaraeon ychwanegol, a fyddai'n helpu i ymestyn ei gyrhaeddiad ymysg pobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd iau.
- **Newid y cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 i 68 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth newydd wedi'i recordio'n arbennig.** Roedd y cwota hwn yn cynnwys ailddarllediadau o'r blaen, ond mae nawr yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflwynodd y BBC fel y gerddoriaeth fyw fwyaf gwerthfawr i gynulleidfaoedd.
- **Lleihau cwotâu penodol ar gyfer rhaglenni ar amrywiadau cenedlaethol a rhanbarthol y BBC o BBC One a BBC Two, gan fynnu bod y BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o'r cynnwys hwn.** Bydd hyn, yn rhannol, yn caniatáu i'r BBC fuddsoddi mwy mewn cynnwys ar-lein ac i ddangos mwy o gynnwys lleol o ansawdd uchel sy'n cael effaith fawr ar y sianeli rhwydwaith.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn

2.1 Mae'r adran hon yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio'r BBC, y cyd-destun roeddem wedi gosod y Drwydded Weithredu gyntaf ynddo, a sut mae marchnadoedd wedi esblygu ers hynny. Rydym yn nodi sut aethom ati i adolygu'r Drwydded Weithredu a gwaith cysylltiedig y BBC, yn enwedig ein hadolygiad o sut mae'r BBC yn cael ei reoleiddio ac adolygiad canol tymor Llywodraeth y DU o Siarter y BBC.

## Cafodd y Drwydded Weithredu gyntaf ei rhoi ar waith yn 2017

2.2 Daeth Ofcom yn rheoleiddiwr annibynnol cyntaf y BBC o dan Siarter a Chytundeb presennol y BBC, a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2017 ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi rolau a dyletswyddau gwahanol y BBC ac Ofcom, gan gynnwys prif swyddogaethau Bwrdd y BBC. Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y sefydliad, fel gosod cyllidebau ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC.[1]

2.3 O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i ni osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.[2] Mae'r Drwydded yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn rheoleiddio perfformiad y BBC ac yn ei ddal i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn rhoi manylion yr amodau y mae'n rhaid i ni eu gosod a'u gorfodi yn y Drwydded Weithredu. Rhaid i ni osod amodau rheoleiddio priodol sy'n mynnu bod y BBC yn:

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[3]

2.4 Mae'r Cytundeb hefyd yn mynnu ein bod yn gosod amodau penodol yn y Drwydded Weithredu ar gyfer cysylltiadau at ddeunydd ar-lein trydydd parti, a nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes a sut maent yn cael eu hamserlennu, yn ogystal â chwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a chreu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac amdanynt.[4]

2.5 Yn unol â'r gofynion hyn, fe wnaethom bennu Trwydded Weithredu gyntaf y BBC yn 2017. Mae'r Drwydded hon, sydd mewn grym nes bydd y Drwydded newydd yn dod i rym, yn cynnwys amcanion sy'n nodi ein disgwyliadau ynghylch sut dylai'r BBC gyflawni pob un o'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae Atodlen 1 yn cynnwys amodau rheoleiddio gorfodadwy, sy'n

[1] Erthygl 20(3)(a) a (b) y Siarter.
[2] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn golygu'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC o dan Ran 1 Atodlen 1 i'r Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd.
[3] Erthygl 46(3) y Siarter.
[4] Hefyd, wrth bennu'r Drwydded Weithredu gyntaf, roedd yn rhaid i ni osod amodau rheoleiddio penodol, gan roi sylw i genres mewn perygl (cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant) a chwaraeon ar wasanaethau radio'r BBC, a gwella'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ac allbwn ac addysg plant mewn perthynas â gwasanaethau ar-lein. Dim ond ar gyfer y Drwydded gyntaf yr oedd angen yr amodau hyn.


cynnwys cwotâu, yn bennaf, sy'n mynnu bod y BBC yn darparu isafswm oriau o gynnwys ar draws gwahanol genres ar wasanaethau teledu a radio penodol. Fe wnaethom osod y cwotâu hyn i adlewyrchu lefel a dull darparu allbwn y BBC yn 2017. Felly, dim ond ychydig o gydnabyddiaeth y mae'r Drwydded yn ei rhoi i wasanaethau ar-lein y BBC, fel BBC iPlayer.

2.6 Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'n gwaith o reoleiddio'r BBC ar gael yn Atodiad 9.

## Mae ymddygiad cynulleidfaoedd a'r cynnwys sydd ar gael wedi newid yn sylweddol

2.7 Fel yr awgrymir gan Ffigur 1 a 2, ers i'r Drwydded Weithredu gyntaf gael ei rhoi ar waith yn 2017, mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys wedi newid yn sylweddol. Mae llawer o bobl wedi symud rhywfaint o'u hamser gwylio a gwrando ar-lein, wedi'i sbarduno gan y cynnydd sylweddol mewn cynnwys a gwasanaethau sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU, yn ogystal â newidiadau technolegol. Mae llawer o'r cynnydd mewn cynnwys wedi dod gan ddarparwyr byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda fel Netflix, Disney+ a Spotify. Mae gan y gwasanaethau byd-eang hyn gatalogau eang; er enghraifft, mae cyfanswm yr oriau sydd ar gael ar wasanaethau fideo ar-alw (SVoD) drwy danysgrifio wedi treblu bron o 70,000 awr yn 2017 i 206,000 yn 2022.[5]


**Ffigur 1: Cyfanswm munudau gwylio dyddiol: 2017 o'i gymharu â 2021 (pob unigolyn 4 oed a hŷn, pob dyfais)[6]**




[5] Ampere Analysis, cyrchwyd 7 Chwefror 2023. Yn cynnwys oriau o lwyfannau SVoD mawr yn y DU. Mae SVoD yn wasanaeth fideo ar-alw drwy danysgrifio y telir amdano fel Netflix, Amazon Prime Video a NOW TV. Er bod y gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na dim ond fideo ar-alw (ee ffrydio, sianeli teledu a ddarlledir y telir amdanynt, yn ogystal â chynnwys i'w brynu neu rentu) maent yn cael eu categoreiddio fel SVoD yn yr ymgynghoriad hwn er hwylustod.

[6] Modelu Ofcom ar gyfanswm gwylio fideo sain gan ddefnyddio data BARB, IPA TouchPoints a Comscore. Darllenwch atodiad Cyfryngau'r Genedl i gael crynodeb o sut mae'r ffynonellau'n cael eu defnyddio i amcangyfrif sawl gwaith mae fideo wedi cael ei wylio.

**Ffigur 2: Cyfran yr amser a dreulir bob wythnos ar unrhyw fath o sain: 2017 o'i gymharu â 2022 (oedolion 15 oed a hŷn)**[7]




2.8 Er gwaethaf y dirywiad tymor hir yn lefelau gwylio gwasanaethau darlledu,[8] mae'r rhain yn dal yn hanfodol i lawer o gynulleidfaoedd. Er enghraifft, fel y gwelir yn Ffigur 1 a Ffigur 2, roedd teledu byw yn cyfrif am 46% o'r amser gwylio yn 2021[9] ac roedd radio byw ar set radio yn cyfrif am 53% o'r holl amser gwrando yn 2022.[10] Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwylwyr hŷn; yn ôl ein harolwg fideo ar-alw yn 2022, dywedodd 59% o bobl 55-64 oed a 76% o'r rheini sy'n 65 oed a hŷn eu bod yn troi at sianeli teledu yn gyntaf wrth chwilio am rywbeth i'w wylio.[11]

2.9 Fel y nodir yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, ein hadolygiad o'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae hyn yn creu heriau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig y BBC.[12] Mae angen i bob un ohonynt ymateb i gynulleidfaoedd sy'n symud fwyfwy ar-lein, yn ogystal â pharhau i wasanaethu'r gyfran sylweddol o gynulleidfaoedd sy'n gwylio ac yn gwrando ar wasanaethau darlledu.

## Rhaid i'r BBC addasu i barhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa

2.10 Mae gan y BBC rôl unigryw, a nodir yn ei Genhadaeth, i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU. Mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod y BBC yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r genedl; mae tua wyth o bob deg o bobl 16 oed a hŷn[13] a bron i saith o bob deg o blant (3-16 oed) yn parhau i ymgysylltu â chynnwys y BBC bob wythnos.[14] Mae'n perfformio'n arbennig o gryf mewn rhai meysydd – er enghraifft, mae ein hymchwil wedi canfod bod

---

[7] IPA TouchPoints.
[8] BARB, pob unigolyn (dros 4 oed). Roedd munudau gwylio dyddiol y pen, a wyliwyd o fewn 28 diwrnod, yn 158 munud yn 2022, o'i gymharu â 224 yn 2014.
[9] Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wylio fideo, wedi'i fodelu o ddata BARB, Comscore a Touchpoints.
[10] IPA TouchPoints.
[11] Ofcom, Arolwg VoD, 2022.
[12] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr: Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. (2021).
[13] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[14] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

cynulleidfaoedd yn cysylltu'r BBC yn benodol â digwyddiadau teledu mawr, digwyddiadau byw sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a newyddion.[15]

2.11 Mae sianel BBC News yn cyrraedd 73% o oedolion y DU bob wythnos[16] ac mae cynulleidfaoedd wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ehangder ac ansawdd ei ddarpariaeth. O ran digwyddiadau byw uchel eu proffil sydd o arwyddocâd cenedlaethol, cafodd angladd gwladol EM y Frenhines Elizabeth II ei ddarlledu gan 52 o sianeli yn y DU, gyda darllediad y BBC yn denu bron i ddwy ran o dair o gyfran cynulleidfa'r DU.[17]

2.12 Mae gwasanaethau ar-lein y BBC wedi parhau i dyfu; roedd gan BBC iPlayer dros 6.6 biliwn o ffrydiau yn 2021/22, cynnydd o 8% ers y flwyddyn flaenorol.[18] Roedd cynnydd o 23% hefyd yn y cynnwys sain a gafodd ei ddefnyddio drwy BBC Sounds yn ystod yr un cyfnod.[19]

2.13 Fodd bynnag, canfu ein hymchwil fod llawer o gynulleidfaoedd yn dal i weld BBC iPlayer fel gwasanaeth dal i fyny ar gyfer cynnwys sy'n cael ei golli ar deledu traddodiadol, yn hytrach na chyrchfan ar gyfer gwylio.[20] Ar ben hynny, mae radio'r BBC wedi bod yn llai llwyddiannus na radio masnachol o ran denu gwrandawyr ar-lein – mae radio masnachol yn cyfrif am 59% o'r holl oriau gwrando radio byw ar-lein, o'i gymharu â 38% ar gyfer y BBC.[21] Ar gyfer pobl ifanc 15-24 oed, mae hyn yn gostwng ymhellach i 27% ar gyfer y BBC o'i gymharu â 68% ar gyfer radio masnachol.

2.14 Mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer pob cynulleidfa, sut bynnag maent yn gwylio neu'n gwrando. Fodd bynnag, mae hefyd yn wynebu heriau o ran cyllid. Mae pob darlledwr yn wynebu heriau sy'n ymwneud â chost cynhyrchu yn y DU. O'n sgyrsiau â darlledwyr a chynhyrchwyr, rydym yn deall bod hyn yn rhannol oherwydd llwyddiant sector cynhyrchu'r DU, gyda chomisiynwyr byd-eang yn cynyddu cystadleuaeth ar gyfer gweithwyr medrus a gofod stiwdio, gan arwain at bwysau cynyddol ar gostau. Er enghraifft, roeddem wedi amcangyfrif bod cost fesul awr cynnwys gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus 9% yn uwch yn 2019 nag yn 2015.[22] Mae hyn wedi cael ei waethygu gan bwysau chwyddiant mwy cyffredinol ac effaith pandemig Covid-19.[23]

2.15 Ar ben hynny, disgynnodd cyfanswm incwm y BBC 5.5% mewn termau real[24] rhwng 2017/18 a mis Mawrth 2022,[25] wedi'i ysgogi gan ostyngiad yng nghyfanswm refeniw ffi'r drwydded o £4.3bn i £3.8bn. Fel rhan o setliad cyllido'r BBC gyda'r Llywodraeth, cafodd

[15] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, tudalennau 22, 9.
[16] Arolygon Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Oedolion a Phobl Ifanc yn eu Harddegau 2022.
[17] BARB, data gwylio'n fyw yn unig, holl unigolion 4 oed a hŷn ar set deledu yn unig.
[18] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22, tudalen 4.
[19] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22, tudalen 12.
[20] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[21] RAJAR Ch4 2022. Priodolir y 3% sy'n weddill i orsafoedd tanysgrifio nad ydynt yn RAJAR, gan gynnwys radio cymunedol, radio rhyngwladol a rhai gorsafoedd ar-lein yn unig yn y DU.
[22] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Cost fesul awr wedi'i gyfrifo mewn termau nominal gan ddefnyddio gwariant uniongyrchol a chyfraniadau trydydd parti at wariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar oriau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.
[23] Er enghraifft, canfu'r Arolwg o Gwmnïau Darlledu Annibynnol 2022 fod 92% gwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi dweud bod eu costau rhwng 10% a 25% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.
[24] Ym mis Mawrth 2022 roedd y telerau'n seiliedig ar CPI y Swyddfa Ystadegau Gwladol a dadansoddiad Ofcom o Adroddiadau Blynyddol y BBC.
[25] Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC.

lefel ffi'r drwydded ei rhewi am ddwy flynedd tan 2024, ac ar ôl hynny bydd yn codi yn unol â chwyddiant am weddill cyfnod y Siarter. O ganlyniad, mae'r BBC wedi rhagweld y bydd angen arbed £285m bob blwyddyn erbyn 2027/28 i wneud iawn am golli cynnydd chwyddiant yn ffi'r drwydded dros y ddwy flynedd nesaf.[26] Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygu'r model cyllido ar gyfer y BBC cyn diwedd cyfnod presennol y Siarter.

### Mae'r BBC wedi nodi ei strategaeth digidol yn gyntaf ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter

2.16 Mewn ymateb i'r heriau hyn, ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i ddod yn sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf, gan ei gwneud yn glir bod yn rhaid iddo ddiwygio er mwyn aros yn berthnasol.[27] Roedd y cynlluniau'n cynnwys toriadau a newidiadau i rywfaint o gynnwys a gwasanaethau'r BBC, a newid ffocws ei fuddsoddiad mewn meysydd lle mae'r BBC yn credu y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae'r BBC yn bwriadu symud gwariant sylweddol i raglenni newydd ar gyfer BBC iPlayer, ailddyrannu adnoddau lleol i ddigidol a gwneud arbedion mewn newyddion darlledu er mwyn iddo allu ail-fuddsoddi mewn newyddion fideo a digidol.

2.17 Fe wnaethom nodi yn ein hymgynghoriad, wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu, bydd angen i'r BBC egluro'n fanwl sut bydd yn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith, yn mesur eu llwyddiant ac yn adrodd ar eu heffeithiolrwydd. Yn ei adroddiad diweddar ar strategaeth ddigidol y BBC,[28] canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y BBC wedi gosod gweledigaeth glir ar gyfer sut mae'n bwriadu defnyddio technoleg ddigidol i wella'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i'w ddefnyddwyr. Fodd bynnag, roedd ei argymhellion yn cynnwys y dylai'r BBC adeiladu ar ei gyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2022 drwy gynllunio senarios ar gyfer sut gallai symud rhwng gwasanaethau darlledu a gwasanaethau rhyngrwyd yn y dyfodol, gan weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y rheini sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.

2.18 Ers ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, mae'r BBC wedi gwneud dau gyhoeddiad pwysig am ei gynlluniau, sy'n ymwneud â chreu un sianel BBC News, gan ddisodli BBC News yn y DU a BBC World News, a newidiadau i radio lleol y BBC. Rydym wedi ystyried cynlluniau'r BBC yn y meysydd hyn yn Adran 4. Hefyd, ym mis Rhagfyr 2022, traddododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol araith ynghylch lle dylai'r BBC fod erbyn y 2030au. Nododd yr opsiynau ar gyfer sut gallai'r BBC gyflymu'r broses o symud i ddyfodol sy'n cael ei arwain gan dechnoleg ddigidol.[29]

## Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC

2.19 Mae'n bwysig bod gwaith rheoleiddio Ofcom yn galluogi'r BBC i ymateb i'r newid yn ymddygiad y gynulleidfa a'r heriau ariannol, gan ei ddal yn gadarn i gyfrif am gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae ein hadolygiad o Drwydded Weithredu'r BBC wedi ystyried a oes angen ei diweddaru er mwyn aros yn effeithiol, nawr

[26] BBC, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22.
[27] Araith Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, i staff ar 26 Mai 2022. 'A digital-first BBC'.
[28] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, A digital BBC, 14 Rhagfyr 2022. Roedd hyn yn asesu gallu'r BBC i ddarparu gwerth i'w ddefnyddwyr drwy ei adolygiad technoleg strategol ac yn edrych ar gynnydd y BBC o ran rhoi ei gynlluniau digidol ar waith hyd yma yn ogystal â'r heriau mae'n eu hwynebu.
[29] Canolfan Cyfryngau'r BBC, Leading the UK into digital, 7 Rhagfyr 2022.

ac yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn rhan o'n hadolygiad ehangach o sut rydym yn rheoleiddio'r BBC, ac rydym yn trafod hyn isod.

2.20 Yn ein hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom ddweud ein bod yn credu ei bod yn briodol moderneiddio'r Drwydded Weithredu fel ei bod yn:

- ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys ar-lein;
- rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau ei Drwydded Weithredu, gan gyflwyno mwy o oruchwyliaeth a dileu rhai cwotâu lle bo angen; a
- mynnu mwy o dryloywder ac adrodd mwy effeithiol gan y BBC ar ei gynlluniau ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus a sut mae'n gwerthuso llwyddiant.

2.21 Ym mis Mehefin 2022, ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad cychwynnol, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion manylach ar gyfer moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC. Roeddem yn cynnig y byddem yn:

- Cyflwyno gofynion newydd ar gyfer gwasanaethau ar-lein y BBC, gan gynnwys sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys pwysig, a mynnu bod y BBC yn egluro sut mae'n defnyddio gwasanaethau ar-lein i gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.
- Cadw cwotâu lle mae angen mesurau diogelu penodol o hyd,[30] gan wneud rhai cwotâu yn fwy hyblyg, a disodli rhai eraill â gofynion i'r BBC ddarparu cynnwys, ynghyd â gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth fanwl.[31]
- Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi rhagor o wybodaeth a gwybodaeth well gyda'i Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol. Pan wnaethom gynnig dileu cwotâu, roeddem wedi dweud y byddai angen i'r BBC ddarparu gwybodaeth benodol gyda'i Gynllun Blynyddol ar oriau arfaethedig o gynnwys ar gyfer genres penodol ac ar ba wasanaethau y mae'n bwriadu darparu cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Fe wnaethom ddweud hefyd y byddai'n rhaid i'r BBC fod yn fwy agored ynghylch sut mae wedi cyflawni ei gylch gwaith gyda'i Adroddiad Blynyddol, ac fe wnaethom gryfhau ei ofynion adrodd ar amrywiaeth, cynrychiolaeth a phortreadu. Byddai'r mesurau hyn yn galluogi Ofcom i gamu i mewn yn gyflymach pe byddai gennym bryderon am gynlluniau neu berfformiad y BBC.

2.22 Yn olaf, roeddem yn bwriadu gwneud rhai newidiadau penodol i'r Drwydded Weithredu roedd y BBC wedi gofyn amdanynt (ee gwneud cwotâu newyddion a materion cyfoes yn gwotâu blynyddol yn hytrach na rhai dyddiol neu wythnosol, a gwneud newidiadau i'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer BBC Four a'r cwota cynnwys llafar yn ystod y cyfnod brig amser brecwast ar gyfer radio lleol y BBC yn Lloegr). Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad arall yn nodi rhai newidiadau pellach yr oedd y BBC

[30] Roedd y rhain yn cynnwys cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar y teledu a'r radio, cynnwys gwreiddiol o'r DU ar bob un o wasanaethau teledu'r BBC, natur unigryw gwasanaethau radio rhwydwaith y BBC a chynyrchiadau rhanbarthol ar deledu a radio.
[31] Roeddem yn cynnig newid y dull gweithredu ar gyfer rhai genres teledu a radio'r rhwydwaith, gwasanaethau optio allan teledu, BBC ALBA a rhaglenni gwreiddiol y rhwydwaith teledu ac iPlayer.

wedi gofyn amdanynt mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live, cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2 a rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol.[32]

# Gwaith arall sy'n gysylltiedig ag Ofcom

## Adolygiad o reoleiddio'r BBC

2.23 O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad manwl o'r graddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[33] Rhaid cyhoeddi'r adolygiad cyntaf mewn da bryd i'w ystyried yn Adolygiad Canol Tymor Llywodraeth y DU (y mae'n rhaid ei gwblhau erbyn 2024).

2.24 Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC. Roedd hyn yn rhoi sylw i brif feysydd dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â pherfformiad, cystadleuaeth a safonau golygyddol, ac yn ystyried a fyddai rheoleiddio, o ystyried y newidiadau yn y farchnad, yn parhau i ddal y BBC i gyfrif ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr.

2.25 Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer newidiadau i'r Drwydded Weithredu, a nodir mewn ymgynghoriad ar wahân, roeddem wedi argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried y newidiadau canlynol i'r Cytundeb fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor:

- caniatáu i Ofcom osod y cwotâu ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u creu y tu allan i'r M25 sy'n berthnasol i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith teledu ac ar gyfer BBC iPlayer;
- dileu'r gofyniad i Ofcom osod amodau rheoleiddio ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau; ac
- addasu'r gofyniad i Ofcom osod cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu er mwyn i ni allu gosod cwota niwtral o ran gwasanaeth ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol.

2.26 Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried y newidiadau hyn. Os bydd yn penderfynu yn y pen draw i wneud unrhyw un o'r newidiadau hyn i'r Cytundeb, bydd angen i ni ymgynghori ar addasiadau i'r Drwydded Weithredu er mwyn i'r newid/newidiadau ddod i rym yn llawn.

2.27 Mewn perthynas â safonau golygyddol, er mwyn sicrhau bod proses gwynion BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd, rydym:

- yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi ei resymau dros yr holl gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei broses gwyno;
- yn gofyn i'r BBC roi gwybod i Ofcom yn gynnar am achosion difrifol posibl o dorri'r rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys. Bydd hyn yn caniatáu i ni graffu'n well ar sut

[32] Ofcom, Newidiadau arfaethedig i'r gofynion ar gyfer rhaglennu ar BBC Radio 5 Live, BBC Radio 2 a rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol, Rhagfyr 2022.
[33] Erthygl 51(2) ac Erthygl 57 y Siarter.

mae proses gwynion y BBC yn gweithio'n ymarferol, ac os bydd angen, ymyrryd yn gynnar i ddiogelu cynulleidfaoedd;

- wedi dweud y byddem yn parhau i bwyso ar y BBC i wella hyder y cyhoedd yn ei ddull gweithredu o ran didueddrwydd dyladwy, yn monitro gweithrediad canfyddiadau Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, ac yn datblygu cysylltiadau agosach â'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol; ac
- wedi dweud y byddem yn diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC yn Gyntaf a didueddrwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn cynnal adolygiad pellach o system BBC yn Gyntaf cyn diwedd y Siarter bresennol.[34]

2.28 Fe wnaethom hefyd ddweud bod yn rhaid i'r BBC ystyried ar frys pa newidiadau sy'n ofynnol i'r broses BBC yn Gyntaf er mwyn ei gwneud yn symlach ac yn gliriach i gynulleidfaoedd lywio drwyddi, a bod yn rhaid i'r BBC fynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ganfyddiadau ynghylch didueddrwydd dyladwy.[35]

2.29 Fe wnaethom hefyd argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'r Cytundeb i roi mwy o hyblygrwydd i Ofcom ynghylch pryd a sut i gynnal asesiad o gystadleuaeth. Ar ben hynny, ym mis Tachwedd 2022, roeddem wedi ymgynghori ar rai newidiadau i'n canllawiau o dan y Cytundeb presennol. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i sicrhau bod ein prosesau'n effeithlon ac yn annog ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y BBC a'i gystadleuwyr.[36] Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniadau ar newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth maes o law.

### Gwaith arall y BBC

2.30 Yn adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC yn 2021/22, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is (sy'n cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU) yn dal yn llai bodlon â'r BBC na grwpiau cynulleidfa eraill. Gan fod Cenhadaeth y BBC yn mynnu bod y BBC yn gwasanaethu "pob cynulleidfa", rydym yn credu bod deall y cynulleidfaoedd hyn yn well yn rhan bwysig o'n gwaith yn rheoleiddio'r BBC. Felly, rydym wedi cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad thematig[37] a fydd yn cynnal ymchwil i anghenion y cynulleidfaoedd hyn, pa gynnwys sydd o ddiddordeb iddynt, a sut mae'r BBC yn rhyngweithio â nhw.

## Asesu'r effaith

2.31 Mae ein Hymgynghoriadau ym mis Mehefin a mis Rhagfyr yn asesiad effaith at ddibenion adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau (2003). Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni gynnal asesiadau effaith fel arfer lle byddai ein penderfyniadau yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau

[34] Ofcom, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, tudalen 4.
[35] Ofcom, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, tudalen 4.
[36] Ofcom, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, tudalen 3.
[37] Ofcom, Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC: Cylch Gorchwyl, Mawrth 2023.

o'r effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'i benderfyniadau polisi. Mae gan Ofcom ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf asesiad effaith, a bydd hyn yn dibynnu ar y cynigion a/neu'r penderfyniadau penodol sy'n cael eu gwneud.

2.32 Rydyn ni hefyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 8.

## Gwybodaeth am y datganiad hwn

2.33 Mae gweddill y ddogfen hon yn cynnwys:

2.34 Mae **Adran 3** yn nodi safbwyntiau ehangach rhanddeiliaid ar ein cynigion cyffredinol, ochr yn ochr â dadansoddiad pellach a'n penderfyniadau.

2.35 Mae **Adran 4** yn disgrifio datblygiadau diweddar sy'n ymwneud â newyddion a radio lleol y BBC, ochr yn ochr â'n dadansoddiad a'n camau nesaf.

2.36 Mae **Adran 5** yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad a'n penderfyniadau mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 1 - newyddion a materion cyfoes.

2.37 Mae **Adran 6** yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad a'n penderfyniadau mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 2 - dysgu.

2.38 Mae **Adran 7** yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad a'n penderfyniadau mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 3 - natur unigryw.

2.39 Mae **Adran 8** yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad a'n penderfyniadau mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 4 - amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd, a rhaglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol.

2.40 Ceir atodiadau ategol ar y meysydd canlynol:

a) **Atodiad 1:** Geirfa

b) **Atodiad 2:** Y Drwydded Weithredu newydd

c) **Atodiad 3:** Cymharu'r Drwydded Weithredu gyntaf a'r Drwydded Weithredu newydd

d) **Atodiad 4:** Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr

e) **Atodiad 5:** Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban

f) **Atodiad 6:** Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru

g) **Atodiad 7:** Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon

h) **Atodiad 8:** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

i) **Atodiad 9:** Y fframwaith cyfreithiol

j) **Atodiad 10:** Llythyr Ofcom at y BBC ynghylch newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth y BBC o gynnwys a newyddion lleol

k) **Atodiad 11:** Ymateb y BBC i lythyr Ofcom am newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth y BBC o gynnwys a Newyddion

# 3. Sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith

### Crynodeb o'n dull i ddal y BBC i gyfrif

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i gynigion ein hymgynghoriad, dyma'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud:

- Rydym wedi cadw mwy na 70 o gwotâu.
- Mae amodau'r Drwydded Newydd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu a sut mae'n rhaid iddo adrodd ar gynlluniau a darpariaeth i gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

Mae gennym raglen oruchwylio gynhwysfawr:

**Adrodd**

- Rydym yn mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau'n flynyddol ar gyfer ei ddarpariaeth ar-lein ac mewn meysydd lle rydym wedi cael gwared ar gwotâu, ac i nodi newidiadau sylweddol yn ei ddarpariaeth a'r rheswm dros y newidiadau hynny.
- Rydym yn mynnu bod y BBC yn adrodd yn flynyddol ar yr hyn mae wedi'i gyflawni yn erbyn ei gynlluniau, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynlluniau mae'n eu nodi.
- Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC barhau i nodi ei gynlluniau cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau teledu a radio ac adrodd yn erbyn ei gwotâu gyda'i Adroddiad Blynyddol.

**Monitro a goruchwylio**

- Byddwn yn casglu gwybodaeth a data, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau ar-lein, o'n hymchwil ein hunain, gan y BBC a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio ein hasesiad o gydymffurfiaeth a pherfformiad ac i helpu i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder neu sy'n bwysig. Er enghraifft, dros y flwyddyn nesaf rydym yn disgwyl rhoi sylw manwl i ddarpariaeth y gwledydd a'r rhanbarthau a radio lleol.
- Byddwn yn ymgynghori ar y fframwaith mesur perfformiad diweddaraf yn ddiweddarach eleni.

**Camu i mewn ac ymyrryd**

- Os byddwn yn nodi meysydd sy'n peri pryder, ni fyddwn yn oedi cyn camu i mewn ac ymyrryd yn gyflym, gan osod amodau Trwydded newydd os bydd angen.
- Mae gennym y pŵer i osod sancsiynau os byddwn yn canfod bod y BBC wedi torri unrhyw un o amodau ei Drwydded, gan gynnwys y pŵer i gyfarwyddo'r BBC i unioni'r tor-amod a rhoi cosb ariannol.
- Byddwn yn ystyried yn flynyddol a ydym am adolygu a diwygio unrhyw amodau tryloywder yn Nhrwydded Weithredu'r BBC.

# Cyflwyniad

3.1 Ym mis Mehefin, fe wnaethom nodi sut roeddem yn bwriadu diweddaru Trwydded Weithredu'r BBC i ddal y BBC i gyfrif. Roeddem wedi nodi tair egwyddor gyffredinol ar gyfer y Drwydded newydd sef: ymgorffori darpariaeth ar-lein; rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn well; a mwy o dryloywder i ddal y BBC i gyfrif.[38] Fe wnaethom ddweud y byddai'r Drwydded newydd yn parhau i gael ei strwythuro o amgylch Pedwar Diben Cyhoeddus y BBC, gyda phob un yn cael ei gefnogi gan amcanion, amodau a gofynion tryloywder gorfodadwy y Drwydded.

3.2 Fe wnaethom egluro bod amcanion y Drwydded yn disgrifio'r elfennau allweddol y dylai'r BBC eu cyflawni wrth hyrwyddo pob Diben Cyhoeddus ac, er nad ydynt yn orfodadwy, maent yn egluro'r disgwyliadau sydd gennym o'r BBC a dyma fydd sail i'n hasesiad o berfformiad y BBC yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Roeddem hefyd wedi nodi ein dull o fonitro ac adrodd a sut byddem yn camu i mewn pe byddem yn canfod pryderon.

3.3 Cododd rhai rhanddeiliaid faterion y tu allan i gylch gwaith Ofcom neu gwmpas ein hymgynghoriad, er enghraifft mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 5,[39] penderfyniadau golygyddol, gweithredol neu benderfyniadau eraill ar ran Bwrdd y BBC.[40] Cawsom hefyd rai ymatebion yn ymwneud â newidiadau a wnaed i'r Drwydded yn y gorffennol. Er ein bod wedi ystyried yr holl ymatebion, nid ydym wedi ymateb i'r holl bwyntiau sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad.

3.4 Roeddem wedi cyhoeddi dogfen fframwaith mesur perfformiad ar gyfer y Drwydded Weithredu gyntaf yn nodi sut rydym yn mesur perfformiad y BBC ar gyfer gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu.[41] Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ddiweddaru'r ddogfen hon yn nes ymlaen eleni er mwyn iddi ystyried amodau ein trwydded ar-lein newydd. Fel rhan o hyn, rydym yn disgwyl nodi sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r BBC ei chyhoeddi ar gyfer ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol yn ein hasesiad o berfformiad y BBC.

3.5 Yn yr adran hon, rydym yn trafod safbwyntiau ehangach rhanddeiliaid ar ein cynigion cyffredinol ac yn nodi ein dadansoddiad a'n penderfyniadau. Rydym yn rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- Ymgorffori darpariaeth ar-lein.
- Rhoi hyblygrwydd i'r BBC ddarparu'n well i gynulleidfaoedd.
- Dal y BBC i gyfrif:
  - Gwella tryloywder ac adrodd
  - Newidiadau sylweddol
  - Cryfhau'r oruchwyliaeth a'r monitro
  - Ymyriadau

[38] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, Mehefin 2022, tudalen 15.
[39] Ymateb BFI, tudalen 5.
[40] Ymateb News Broadcasting, tudalen 3.
[41] Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd, Hydref 2017.

- Cystadleuaeth.
- Sylwadau eraill ar ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y Drwydded.

## Ymgorffori darpariaeth ar-lein

3.6 Yn ein hymgynghoriad ym mis Mehefin, fe ddywedom ein bod am i'r BBC allu sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith fwyaf posibl i gynulleidfaoedd drwy ei alluogi i ddarparu cynnwys mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag arferion defnyddio. Fe wnaethom nodi bod mwy o bobl yn gwylio ac yn gwrando ar-lein, ond bod nifer o bobl yn dal i ddibynnu ar wasanaethau darlledu traddodiadol. Roeddem wedi cynnig cynnwys darpariaeth ar-lein yn y Drwydded mewn tair ffordd.

3.7 Roeddem yn cynnig mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-lein, er enghraifft, drwy gynnwys rhai gofynion newydd sy'n benodol i wasanaethau ar-lein y BBC a sicrhau bod rhai amodau'n niwtral o ran gwasanaeth. Rydym yn trafod yr amodau hynny yn Adrannau 5, 6, 7 ac 8 sy'n ymwneud â'r Dibenion Cyhoeddus. Fel rhan o'r amodau newydd hynny, fe wnaethom gynnig cyflwyno amodau hwylustod er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i gynnwys pwysig yn hawdd ar wasanaethau ar-lein gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds. Rydym yn trafod hyn isod. Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar osod amodau tryloywder newydd i fynnu bod y BBC yn nodi sut mae'n bwriadu darparu gwasanaethau ar-lein, a sut mae wedi'u darparu. Rydym yn trafod y rhain isod.

**Hwylustod**

### Yr hyn a ddywedon ni

3.8 Ym mis Mehefin, fe wnaethom gynnig cyflwyno amodau newydd ar gyfer pob Diben Cyhoeddus er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i rywfaint o gynnwys penodol y BBC ar ei wasanaethau ar-lein. Roeddem hefyd wedi cynnig gofynion tryloywder, gan fynnu bod y BBC yn nodi, gyda'i Adroddiad Blynyddol, sut bydd yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i fathau penodol o gynnwys ac adrodd ar sut bydd yn cyflawni hyn ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol. Roedd y gofynion tryloywder arfaethedig yn berthnasol i'r amodau hwylustod o dan Ddibenion Cyhoeddus 1 i 3.

### Rhanddeiliaid

3.9 Roedd y rhanddeiliaid a wnaeth sylwadau ar y cynigion hyn yn mynegi cefnogaeth,[42] er bod gan rai amheuon ynghylch a fyddai ein cynigion yn effeithiol.[43]

3.10 Roedd Ymddiriedolaeth Sandford St Martin yn poeni y byddai cynulleidfaoedd yn ei chael hi'n anoddach dod o hyd i gynnwys penodol pe bai, dros amser, yn cael ei ddarparu fwyfwy ar-lein yn hytrach nag ar deledu darlledu traddodiadol.[44] Roedd rhai rhanddeiliaid yn

---

[42] Ymateb ACNI, tudalennau 3-4; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb BFI, tudalen 4; ymateb Directors UK, tudalen 3; ymateb MG ALBA, tudalennau 3-4; ymateb Radiocentre, tudalen 11; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalennau 1-2; ymateb VLV ,tudalennau 4, 8; ymateb Virgin Media, tudalen 3; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.
[43] Ymateb ACNI, tudalennau 3-4; ymateb SSMT, tudalennau 5, 8; ymateb Radiocentre, tudalen 11; ymateb Virgin Media, tudalen 1; ymateb VLV, tudalennau 4 ac 8.
[44] Ymateb SSMT, tudalen 8.

cyfateb y gallu i ddod o hyd i gynnwys ag amlygrwydd cynnwys.[45] Roedd Virgin Media yn dadlau y dylai'r gallu i ddod o hyd i gynnwys yn hawdd hefyd sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael ar lwyfannau trydydd parti fel YouTube.[46]

3.11 Mynegodd Radiocentre a Voice of the Listener & Viewer (VLV) bryderon am y diffyg eglurder ynghylch cwmpas y gofynion newydd o ran dod o hyd i gynnwys ac roeddent yn cwestiynu sut byddem yn asesu perfformiad y BBC yn eu herbyn.[47] Awgrymodd VLV hefyd y dylem sefydlu rhaglen waith i asesu pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys ar wasanaethau ar-lein y BBC.[48]

### Ein penderfyniad

3.12 Rydym wedi ymgorffori ein cynigion o ran dod o hyd i gynnwys yn y Drwydded Weithredu newydd ym mhob Diben Cyhoeddus.[49] Rydym hefyd wedi cynnwys gofyniad tryloywder newydd yn Niben Cyhoeddus 4,[50] i nodi'n glir y dylai'r BBC adrodd ar ei agwedd at hwylustod dod o hyd i gynnwys mewn perthynas â'r gwledydd a'r rhanbarthau.[51] Mae'r amod hwn yn ychwanegol at y gofynion tryloywder y buom yn ymgynghori arnynt ar gyfer Dibenion Cyhoeddus 1-3.

3.13 Rydym yn credu bod hwylustod dod o hyd i gynnwys yn golygu galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys newydd a phwysig a allai fod o ddiddordeb iddynt ac na fyddent yn dod ar eu traws fel arall. Yn draddodiadol, ar deledu a radio sy'n cael ei ddarlledu, mae amserlen y rhaglen wedi helpu cynulleidfaoedd i gyflawni hyn. Er enghraifft, gall darlledwr amserlennu gwahanol genres o raglenni wrth ymyl ei gilydd i sicrhau bod gwylwyr yn dod ar draws cynnwys nad ydynt fel arfer yn chwilio amdano. Nid oes modd gosod cynnwys llai poblogaidd rhwng cynnwys poblogaidd, neu 'hammock' fel mae'n cael ei alw'n Saesneg, mewn byd ar-lein fel sy'n cael ei wneud ar wasanaethau darlledu, lle mae cynulleidfaoedd yn gallu dewis eu cynnwys ar-alw. Rydym yn cytuno ag Ymddiriedolaeth Sandford St Martin ei bod yn bwysig bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i'r cynnwys pwysig hwn p'un ai a ydynt yn gwylio neu'n gwrando ar deledu neu radio sy'n cael ei ddarlledu neu ar-lein.

3.14 Felly, mae amodau'r Drwydded newydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i amrywiaeth eang o gynnwys yn hawdd ar draws nifer o wahanol genres a sicrhau bod modd dod o hyd yn hawdd i rywfaint o gynnwys y BBC fel newyddion a materion cyfoes, rhywfaint o gynnwys dysgu, genres mewn perygl a chynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau.[52]

[45] Ymateb ACW, tudalen 5; ymateb SSMT, tudalen 5; ymateb VLV, tudalen 4.
[46] Ymateb Virgin Media, tudalen 3.
[47] Ymateb Radiocentre ,tudalen 11; ymateb VLV, tudalen 8.
[48] Ymateb VLV, tudalen 4.
[49] Amodau 1.3.2, 1.3.3, 2.3, 3.2.4, 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62 y Drwydded Weithredu.
[50] Amod 4.68.7 y Drwydded Weithredu.
[51] Roeddem wedi cynnwys gofyniad hwylustod dod o hyd i gynnwys ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, ond nid oeddem wedi cynnwys gofyniad tryloywder cysylltiedig fel y gwnaethom ar gyfer Dibenion Cyhoeddus 1-3.
[52] Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Adrannau 5-8 sy'n ymdrin â'r Dibenion Cyhoeddus.

3.15 Er y gallai fod manteision i ddarparu cynnwys y BBC ar wasanaethau fel YouTube, rydym yn credu bod hwn yn fater i Fwrdd y BBC ac, ar hyn o bryd, mae y tu allan i gwmpas gofynion y Drwydded Weithredu.

3.16 Mewn perthynas â sylwadau rhanddeiliaid ynghylch sut bydd Ofcom yn asesu perfformiad y BBC yn erbyn y gofynion hwylustod, rydym yn nodi bod hwn yn faes rheoleiddio newydd. Mae'r BBC yn arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys ar-lein a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae eisoes yn dangos ehangder ei gynnwys ar-lein mewn amrywiaeth o ffyrdd ar BBC iPlayer a BBC Sounds drwy, er enghraifft, gadwyni o raglenni wedi'u golygu yn ôl 'rhaglenni newydd a phoblogaidd', drwy gadwyni wedi'u personoli sy'n gysylltiedig â hanes gwylio a gwrando, a thrwy ragflasau sy'n cael eu chwarae ar ddechrau rhaglenni. Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod y BBC yn dangos sut mae ei ddull hwylustod yn galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i amrywiaeth eang o gynnwys sydd o ddiddordeb iddynt, a byddwn yn disgwyl i'r BBC egluro hyn yn ei adroddiad. Er enghraifft, wrth egluro sut bydd yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'w gynnwys gwreiddiol o'r DU, byddem yn disgwyl iddo ddangos sut mae'n cydbwyso curadu a phersonoleiddio golygyddol ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

3.17 Bydd y ffordd y byddwn yn asesu perfformiad y BBC yn y maes hwn yn esblygu. Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â'r BBC ynghylch ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae'n dangos amrywiaeth o gynnwys i bob cynulleidfa a sut mae cynulleidfaoedd yn ymateb.

3.18 Wrth i gynulleidfaoedd barhau i symud o lwyfannau darlledu i lwyfannau ar-lein, byddwn yn adeiladu ar ein dealltwriaeth o agweddau cynulleidfaoedd at wasanaethau'r BBC a sut maent yn rhyngweithio â nhw. Fe wnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol yn ystod hydref 2022 i'n helpu i ddeall barn cynulleidfaoedd am natur unigryw cynnwys y BBC ar-lein a pha mor hawdd yw dod o hyd iddo. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar wefan/apiau'r BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds ac roedd yn rhoi cipolwg i ni ar sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â gwasanaethau'r BBC a sut maent yn mynd ati i ddod o hyd i gynnwys sy'n newydd iddynt. Rydym yn disgwyl datblygu ein dealltwriaeth yn y maes hwn yn ystod y misoedd nesaf. Rydym wedi cyhoeddi'r ymchwil hwn gyda'r datganiad hwn heddiw.[53]

## Rhoi hyblygrwydd i'r BBC ddarparu'n well i gynulleidfaoedd

### Yr hyn a ddywedon ni

3.19 Fe wnaethom nodi cynigion ar gyfer diweddaru'r Drwydded yn unol â'n hegwyddor i roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well. Roeddem yn cynnig cadw rhai cwotâu penodol i wasanaethau lle'r oeddem yn meddwl bod eu hangen, er enghraifft ar gyfer rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau a rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Roeddem hefyd yn cynnig addasu rhai cwotâu i fod yn niwtral o ran gwasanaeth. Hefyd, roeddem yn cynnig disodli cwotâu eraill ag amodau newydd lle roeddem yn credu y byddai'n galluogi'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well.

3.20 Pan wnaethom gynnig amodau Trwydded newydd, roeddem wedi egluro y byddai'n dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu cynnwys allweddol ac y byddai hyn yn cael ei gefnogi gan ofynion

[53] Ofcom, Ymchwil ar Wasanaethau Ar-lein y BBC, Mawrth 2023.

tryloywder cyfatebol. Byddai'r rhain yn gorfodi'r BBC i egluro ei gynlluniau ar gyfer bodloni amodau newydd y Drwydded, ac yna adrodd ar ei ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd. Fe ddywedom, pe bai gennym bryderon ynghylch sut roedd y BBC yn bodloni amodau ei Drwydded newydd, na fyddem yn oedi cyn camu i mewn a gweithredu, fel gosod amodau newydd, os bydd angen.

### Sylwadau rhanddeiliaid

3.21 Mynegodd rhanddeiliaid wahanol raddau o gefnogaeth i'r cynigion hyn. Roedd nifer fawr yn cytuno'n gyffredinol â'n cynigion,[54] gan gynnwys y Gymdeithas Cyhoeddwyr Proffesiynol (PPA) a oedd yn datgan mai "y penderfyniad i symud oddi wrth gwotâu yw'r un cywir, gan y gallai mesurau meintiol gymell y BBC i greu swmp mwy o gynnwys yn hytrach na chanolbwyntio ar greu cynnwys unigryw o ansawdd uchel."[55] Roedd y BBC hefyd yn croesawu ein cynigion, a fyddai yn ei farn ef yn ei alluogi i ymateb yn gyflym i newidiadau yn newisiadau cynulleidfaoedd a dangos yn well ansawdd ac arloesedd y cynnwys mae'n ei ddarparu.[56]

3.22 Roedd eraill yn cytuno mewn egwyddor ond yn mynegi pryder ynghylch cwotâu penodol, yn enwedig y bwriad i ddileu cwotâu genres mewn perygl.[57] Rydym yn trafod y pryderon hyn yn fanwl yn Adrannau 5 i 8 sy'n ymdrin â Dibenion Cyhoeddus 1 i 4.

3.23 Roedd Grŵp Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) yn cynnig cam cyfryngol rhwng cwotâu ac amodau Trwydded newydd i hwyluso'r broses bontio,[58] ac roedd Llywodraeth Cymru yn awgrymu gweithredu llinell sylfaen neu lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar draws genres i sicrhau allbwn cyson.[59] Roedd nifer fach o randdeiliaid yn gwrthwynebu ein dull gweithredu yn llwyr oherwydd, yn eu barn nhw, roedd yn golygu bod y BBC yn cael ei reoleiddio'n llai llym; rydym yn trafod y pryderon penodol hyn yn Adrannau 5 i 8.[60]

3.24 Er na wnaeth Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi gyflwyno ymateb i'n hymgynghoriad, roedd ei adroddiad i'r Senedd ar ddyfodol cyllid y BBC yn croesawu cynnig Ofcom i sefydlu fframwaith rheoleiddio mwy hyblyg. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y cwotâu niferus sydd gan y BBC ar hyn o bryd i neilltuo adnoddau sylweddol i fonitro.[61]

### Ein penderfyniad

3.25 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i gadw dros 70 o gwotâu,[62] gan ein bod yn credu bod y rhain yn dal yn briodol i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ac yn

---

[54] Ymateb ACS, tudalennau 1-3; ymateb ACW, tudalennau 2-5; ymateb AudioUK, tudalen 5; ymateb y BBC, tudalen 3; ymateb LTVN, tudalen 3; ymateb NMA, tudalen 2; ymateb PPA, tudalen 2; ymateb Virgin Media, tudalen 6.
[55] Ymateb PPA, tudalen 2.
[56] Ymateb y BBC, tudalen 3.
[57] Ymateb ACNI, tudalen 2; ymateb BFI, tudalen 3; ymateb CMF, tudalen 3; ymateb Directors UK, tudalennau 6 ac 8; ymateb Global, tudalennau 5, 7; ymateb ITV, tudalennau 6 a 18; ymateb News Broadcasting, tudalen 2; ymateb NUJ, tudalen 5; ymateb Pact, tudalen 6; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 3; ymateb Screen Scotland, tudalennau 5-6; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalennau 2-4; ymateb WGGB, tudalennau 1-4.
[58] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 2.
[59] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[60] Ymateb Radiocentre, tudalen 22; ymateb SSMT, tudalen 8; ymateb TAC, tudalennau 6-7; ymateb VLV, tudalen 2.
[61] Trwydded i Newid: Cyllid BBC yn y Dyfodol, paragraffau 11, 78 a 86. Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, Gorffennaf 2022.
[62] O'i gymharu â'r Drwydded Weithredu gyntaf, mae'r Drwydded newydd yn cadw mwy na dwy ran o dair o'r cwotâu.

darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Rydym hefyd wedi penderfynu y bydd cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well mewn rhai meysydd drwy ddileu cwotâu ac, yn eu lle, cyflwyno amodau Trwydded newydd, wedi'u hategu gan ofynion tryloywder er mwyn galluogi'r BBC i ymateb yn well i newidiadau yn newisiadau cynulleidfaoedd. Rydym wedi asesu'r angen am gwotâu fesul achos a lle mae gennym dystiolaeth bod amodau newydd yn fwy priodol, rydym wedi'u cynnwys yn y Drwydded Weithredu newydd. Rydym yn egluro ein rhesymeg ochr yn ochr â safbwyntiau rhanddeiliaid cysylltiedig, yn Adrannau 5 i 8.

3.26 Byddwn yn dal y BBC i gyfrif drwy gyfuniad o fwy o adroddiadau, monitro cynhwysfawr a'r gallu i ymyrryd yn gyflym lle bo angen. Rydym o'r farn y bydd y mesurau hyn, gyda'i gilydd, yn dal y BBC i gyfrif i bob pwrpas, gan ganiatáu i Ofcom gymryd camau pellach yn y dyfodol os bydd angen. Rydym yn egluro sut bydd yr elfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd isod.

3.27 Rydym wedi penderfynu y dylai'r Drwydded newydd ddod i rym ar 1 Ebrill 2023. Yr unig eithriad i hyn yw mewn perthynas â'r gofynion tryloywder, ac rydym wedi penderfynu y byddant yn dod i rym pan fyddwn yn cyhoeddi'r datganiad hwn. Byddwn yn monitro perfformiad yn ofalus wrth i'r drefn newydd ddod i rym, i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Nid ydym yn credu bod cyflwyno lefel sylfaenol o ddarpariaeth, fel yr awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cyd-fynd â'r egwyddor o ddileu rhai cwotâu er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd. Bydd cyflwyno gofynion tryloywder yn tynnu ein sylw at unrhyw newidiadau sylweddol y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud.

## Dal y BBC i gyfrif – gwella tryloywder ac adrodd

3.28 Mae Ffigur 3 isod yn nodi sut byddwn yn dal y BBC i gyfrif

**Ffigur 3: Dal y BBC i gyfrif**



## Yr hyn a ddywedon ni

3.29 Gwnaethom ymgynghori ar gyflwyno gofynion tryloywder lle'r oeddem wedi cynnig dileu cwotâu ac mewn perthynas â'n cynlluniau i ymgorffori darpariaeth ar-lein yn y Drwydded Weithredu newydd. Roedd ein cynigion yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi'n agored, yn glir ac yn dryloyw y camau roedd wedi bwriadu eu cymryd yn y meysydd hyn ac yna adrodd ar y cynlluniau hynny. Fe wnaethom ddweud y byddai'n rhaid i'r BBC nodi unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i'w ddarpariaeth, adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny gyda'i Adroddiad Blynyddol. Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar ofynion tryloywder penodol ar gyfer Diben Cyhoeddus 3 a 4.[63] Fe wnaethom ddweud nad oeddem yn credu ei bod yn briodol mynnu bod y BBC yn ymgynghori'n ffurfiol ar ei Gynllun Blynyddol a nodwyd nad yw o fewn cylch gwaith Ofcom i gymeradwyo'r Cynllun.

3.30 Fe wnaethom egluro y byddai cyflwyno mwy o dryloywder o fudd i gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac Ofcom drwy roi darlun clir o gamau gweithredu a phenderfyniadau'r BBC. Fe wnaethom ddweud y byddai'r gofynion tryloywder yn adnodd allweddol i feithrin atebolrwydd cyhoeddus yng nghyswllt cynlluniau ac adroddiadau'r BBC.

## Sylwadau rhanddeiliaid

3.31 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi ein cynigion i gyflwyno gofynion tryloywder newydd i'r Drwydded a gwella sut mae'r BBC yn adrodd ar ei gynlluniau a'i ddarpariaeth.[64] Roedd rhai rhanddeiliaid yn mynegi pryder ynghylch lefel y manylder sy'n ofynnol yn adroddiadau'r BBC.[65] Roeddent hefyd yn dadlau y dylai'r Drwydded gyflwyno rhwymedigaethau tryloywder lle mae cwotâu wedi cael eu cadw, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ar draws holl allbwn y BBC.[66]

3.32 Roedd rhai rhanddeiliaid yn gofyn am fwy o dryloywder ynghylch y gwariant a ragwelir yn y Cynllun Blynyddol.[67] Roedd News Broadcasting yn dadlau y dylai gofynion tryloywder ymestyn i'r gwariant a ragwelir er mwyn gallu asesu perfformiad y BBC yn ystyrlon. Roedd yn cynnig y dylai'r BBC ddarparu gwybodaeth am wariant a data cynhwysfawr am gynulleidfaoedd ar draws pob llwyfan, yn ogystal ag adrodd ar ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.[68] Roedd tri rhanddeiliad yn dadlau dros fwy o dryloywder ynghylch sut mae ffi'r Drwydded yn cael ei gwario gan y rhanbarthau,[69] ac roedd News Broadcasting a Pact yn

---

[63] Rydym yn trafod y rhain yn adrannau 7 ac 8.
[64] Ymateb ACNI, tudalen 1; ymateb ACS, tudalennau 2-4; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb y BBC, tudalen 17; ymateb BFI, tudalen 5; ymateb CMF, tudalen 2; ymateb Directors UK, tudalen 2; ymateb Global, tudalen 2; ymateb ITV, tudalen 19; ymateb LTVN, tudalen 2; ymateb MG ALBA, tudalen 3; ymateb News Broadcasting, tudalen 2; ymateb NMA, tudalen 15; ymateb NUJ, tudalennau 2-3; ymateb Pact, tudalen 10; ymateb PPA, tudalen 4; ymateb Radiocentre, tudalen 8; ymateb RNIB, tudalen 3; ymateb SSMT, tudalen 3; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 1; ymateb Screen Scotland, tudalennau 1-2; ymateb Virgin Media, tudalen 4; ymateb VLV, tudalennau 2, 5; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 5; ymateb WGGB, tudalen 2.
[65] Ymateb ACW, tudalen 5; ymateb CMF, tudalen 2; ymateb Directors UK, tudalennau 2-3; ymateb ITV, tudalen 19; ymateb News Broadcasting, tudalen 3; ymateb VLV, tudalennau 5-8; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 5.
[66] Ymateb ITV, tudalen 19; ymateb News Broadcasting, tudalen 6; ymateb VLV, tudalen 17.
[67] Ymateb ITV, tudalennau 20-21; ymateb NUJ, tudalennau 2-3; ymateb News Broadcasting, tudalennau 2-3; ymateb Screen Scotland, tudalen 1.
[68] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 3 a 6.
[69] Ymateb ACNI, tudalennau 2-3; ymateb NUJ, tudalennau 2-3; ymateb Screen Scotland, tudalen 1.

galw ar y BBC i egluro effaith bosibl ei gynlluniau ar y farchnad a chynhyrchwyr ehangach, nid dim ond ar gynulleidfaoedd.[70]

3.33 Cafwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr ar amserlenni'r broses adrodd. Mynegodd rhai bryder na fyddai cyfnod treigl 18 mis y cylch adrodd yn rhoi llawer o amser i ymyrryd pe bai angen.[71] Cynigiodd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) a Phwyllgor Cynghori Cymru (ACW) gynllun treigl 3-5 mlynedd gyda diweddariadau blynyddol a'r gallu i Ofcom ymyrryd ar unrhyw adeg.[72] Galwodd VLV am i'r BBC gyflwyno ei gynlluniau i Ofcom eu cymeradwyo cyn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, ac y dylai Ofcom gael pwerau i fynnu newidiadau i'w gynlluniau.[73]

3.34 Mynegodd y BBC bryder y byddai adroddiad tryloywder newydd a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'i Adroddiad Blynyddol yn lleihau ei effaith, ac felly gofynnodd am hyblygrwydd i gyhoeddi'r adroddiad hyd at bythefnos cyn neu ar ôl ei brif Adroddiad Blynyddol.[74]

3.35 Roedd galw am ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid yn y broses adrodd. Roedd News Media Association (NMA), Pact a Radiocentre yn pwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys rhanddeiliaid y BBC yn gynnar wrth gynllunio newidiadau i'w wasanaethau, gan gynnwys drwy ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch ei Gynllun Blynyddol.[75] Gofynnodd VLV i'r BBC orfod ymgynghori â'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded wrth asesu ei berfformiad a chynnig newidiadau i'w wasanaethau.[76] Roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am roi mwy o rôl i gynulleidfaoedd wrth i'r BBC ddatblygu ei gynlluniau.[77]

3.36 Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder y byddai gofynion tryloywder newydd yn galluogi'r BBC i osod ei gwotâu ei hun yn ei Gynllun Blynyddol, gyda VLV yn dadlau bod hyn yn caniatáu i'r BBC 'farcio ei waith cartref ei hun.'[78] Roedd yn dadlau y dylai argaeledd, ansawdd a hygyrchedd rhaglenni a gwasanaethau'r BBC barhau i gael eu hasesu'n annibynnol gan Ofcom.

## Ein penderfyniad

3.37 Rydym wedi penderfynu gweithredu'r gofynion tryloywder y buom yn ymgynghori arnynt yn y Drwydded Weithredu newydd, gyda rhai diwygiadau ychwanegol i wella tryloywder. Bydd y gofynion hyn yn adeiladu ar y gwaith adrodd y mae'r BBC eisoes yn ei wneud drwy gyhoeddi ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol, er mwyn darparu lefel uwch o atebolrwydd cyhoeddus. Er mwyn mynd i'r afael ag ymateb y BBC, byddwn yn gofyn i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, adroddiad ynghylch a yw wedi cymryd y camau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol.

---

[70] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 7-8; ymateb Pact, tudalen 4.
[71] Ymateb ACNI, tudalennau 2-3; ymateb ACS, tudalennau 3-4; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb Directors UK, tudalen 2; ymateb Global, tudalen 2; ymateb SSMT, tudalen 3.
[72] Ymateb ACS, tudalen 3; ymateb ACW, tudalen 5.
[73] Ymateb VLV, tudalen 18.
[74] Ymateb BBC, tudalen 17.
[75] Ymateb NMA, tudalennau 15-16; ymateb Pact , tudalennau 4, 10; ymateb Radiocentre, tudalennau 11, 23.
[76] Ymateb VLV, tudalen 5.
[77] Ymateb ACNI, tudalen 8; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb NUJ, tudalen 3; ymateb VLV, tudalen 5.
[78] Ymateb VLV, tudalen 2; ymateb SSMT, tudalen 3; ymateb CMF, tudalen 3.

3.38 Mae Ofcom wedi nodi'n flaenorol bod angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw a darparu adroddiadau mwy cyson ar draws ei holl weithgareddau. Yn ein hadroddiadau blynyddol diweddar ar y BBC, rydym wedi tynnu sylw at yr angen iddo wella ei dryloywder, fel ar BBC iPlayer, [79] ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol[80] ac mewn perthynas â chwynion ynghylch didueddrwydd.[81]

3.39 Ers 2017, mae'r BBC wedi gwneud gwelliannau pwysig yn yr holl feysydd hyn.[82] Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau cadarnhaol o'r BBC yn cyfathrebu'n fwy gweithredol â'r diwydiant ynghylch newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i sefydliadau y gallai hyn effeithio arnynt ymateb i unrhyw faterion neu bryderon cyn i gynlluniau gael eu rhoi ar waith, fel y dangosir yn strategaeth Ar Draws y DU y BBC.[83]

3.40 Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, mae diffyg manylder ac eglurder yng nghyhoeddiadau'r BBC am newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau o hyd. Felly, rydym yn disgwyl newid sylweddol gan y BBC i sicrhau cyfathrebu mwy agored, manwl a rhagweithiol. I gefnogi hynny, mae'r Drwydded newydd yn nodi tryloywder yn un o rwymedigaethau craidd y BBC. Am y tro cyntaf, bydd y Drwydded newydd nid yn unig yn mynnu bod y BBC yn adrodd yn gynhwysfawr ar berfformiad ar draws ei holl wasanaethau, ond erbyn hyn mae hefyd yn gosod gofynion yn nodi'r hyn y mae angen i'r BBC ei nodi am ei gynlluniau, cyn iddynt gael eu cyflwyno.

3.41 Rydym o'r farn y dylai'r adroddiadau ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gofynion tryloywder, ynghyd â dull mwy cyson o ymdrin â'r wybodaeth y mae'r BBC eisoes yn ei chyhoeddi yn ei Gynllun Blynyddol, roi trosolwg cynhwysfawr i ni o weithgareddau arfaethedig y BBC:

- Allbwn wedi'i gynllunio (gan gynnwys pan fydd cwotâu'n cael eu cadw) a fydd fel arfer mewn oriau.
- Esboniad pellach o'r allbwn hwn, gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol:
  i) Ar ba blatfform(au) neu wasanaeth(au) y bydd yr allbwn yn cael ei ddarparu;
  ii) y gymysgedd o genres, fformatau neu fathau o gynnwys a gynlluniwyd;
  iii) a yw'r allbwn yn wreiddiol ac yn cael ei ddangos am y tro cyntaf, yn ailddarllediad neu wedi'i gaffael; a
  iv) a yw'r allbwn wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd penodol ac, os felly, sut bydd yn diwallu eu hanghenion.

3.42 Rydym yn mynd i'r afael â sylwadau rhanddeiliaid ac yn trafod y gofynion tryloywder newydd isod, gan wahaniaethu rhwng y rheini y dylai'r BBC eu bodloni ochr yn ochr â'i Gynllun Blynyddol, a'r rheini sy'n ymwneud â'i Adroddiad Blynyddol.

---

[79] Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tudalen 9. Trydydd Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2019/20, tudalen 13.
[80] Pumed Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22, tudalen 34.
[81] Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tudalen 9.
[82] Rydym yn pwyso a mesur y gwelliannau hyn ym Mhedwerydd Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tudalen 9.
[83] Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, tudalen 10.

**Cynllun Blynyddol y BBC**

3.43 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid sy'n gofyn am fwy o eglurder ynghylch sut bydd gofynion tryloywder yn gweithio'n ymarferol, rydym wedi rhoi rhagor o fanylion ar y math o wybodaeth rydym yn disgwyl i'r BBC ei darparu yn ei Gynllun Blynyddol yn Adrannau 5 i 8.

3.44 Lle mae cwotâu ar waith, mae'r BBC yn hanesyddol wedi darparu gwybodaeth am ei wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu, ynghyd â gwybodaeth fwy cyfyngedig am ei ddarpariaeth ar-lein yn ei Gynllun Blynyddol. O ystyried hyn, ac wrth nodi bod y BBC yn rhwym wrth gwotâu yn y meysydd hyn, nid ydym yn credu ei bod yn gymesur gosod gofynion tryloywder ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, fel yr esbonnir uchod, rydym wedi nodi sut y gellir gwella'r dulliau adrodd presennol. Ar ben hynny, os nad yw'r BBC yn darparu'r wybodaeth sy'n bwysig yn ein barn ni, byddwn yn mynd ar drywydd cais am wybodaeth ac yn ei gyhoeddi lle bo hynny'n briodol.

3.45 Nid ydym yn credu ei bod yn briodol mynnu bod y BBC yn rhoi rhagor o fanylion am ei wariant arfaethedig yn gyhoeddus. Mae hon yn wybodaeth fasnachol sensitif ac mae cyllidebau'n fater i Fwrdd y BBC. Fodd bynnag, efallai y bydd sefyllfaoedd lle gallai fod yn briodol i'r BBC adrodd yn gyfrinachol i Ofcom ar ddata gwariant wedi'i gynllunio, gan gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth fanylach am gynnwys plant a chynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, fel y bo'n briodol.

3.46 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid sy'n awgrymu y dylai'r BBC roi ei dargedau arfaethedig i Ofcom ymhell cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol, rydym yn nodi nad rôl Ofcom yw cymeradwyo'r cynllun na thargedau'r BBC. Cyfrifoldeb Bwrdd y BBC yn unig yw datblygu a chyflawni ei Gynllun Blynyddol, cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.47 Er ein bod yn cytuno bod gweld cynlluniau'r BBC yn gynnar yn cefnogi atebolrwydd cyhoeddus, nid ydym yn credu ei bod yn briodol mynnu rhagolwg 3 neu 5 mlynedd o ystyried natur y sector sy'n symud yn gyflym. Rydym yn credu y bydd Cynllun Blynyddol clir sy'n cysylltu gweithgareddau â strategaeth gyffredinol y BBC yn rhoi eglurder i randdeiliaid a chynulleidfaoedd ynghylch cynlluniau'r BBC.

3.48 Rydym yn cydnabod efallai y bydd y BBC yn dymuno gwneud newidiadau sylweddol i'w gynlluniau ar ôl cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, ac os felly, bydd yn rhaid iddo adrodd ar y newidiadau arfaethedig hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; rydym yn trafod newidiadau sylweddol isod.

3.49 Rydym yn cytuno â'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n pwysleisio'r angen i'r BBC ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a thalwyr ffi'r drwydded wrth ddatblygu ei gynlluniau. Dylai'r gofynion tryloywder rydym wedi'u cyflwyno yn y Drwydded sicrhau bod gwybodaeth fanwl am y cynlluniau hyn yn cael ei chyhoeddi cyn eu rhoi ar waith. Rydym hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r BBC asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd, gan gynnwys y rheini sy'n talu ffi'r drwydded, a nodi sut bydd yn gwneud hyn yn ei Gynllun Blynyddol.[84]

[84] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, tudalennau 76-77 fel sy'n ofynnol o dan y Siarter a'r Cytundeb.

3.50 Rydym yn anghytuno â sylwadau rhanddeiliaid sy'n awgrymu y bydd y BBC o dan y Drwydded yn 'marcio ei waith cartref ei hun'. Mewn meysydd lle nad ydym yn credu bod cwotâu'n briodol mwyach, bydd angen i'r BBC gydymffurfio ag amodau Trwydded newydd sy'n nodi'r hyn y dylai ei gyflawni ynghyd â gofynion tryloywder cysylltiedig. Byddwn yn parhau i asesu perfformiad y BBC ac os bydd gennym unrhyw bryderon am gynlluniau neu ddarpariaeth y BBC, byddwn yn ymyrryd, fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adran hon.

**Adroddiad Blynyddol y BBC**

3.51 Rydym wedi gweithredu'r gofynion tryloywder roeddem wedi'u cynnig, a fydd yn sicrhau bod y BBC yn adrodd ynghylch a yw wedi cyflawni'r cynlluniau a nodwyd gyda'i Gynllun Blynyddol. Ar ben hynny, rhaid i'r BBC adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol rhwng ei gynlluniau a'i ddarpariaeth a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Rydym wedi gosod gofyniad newydd i'r BBC adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol y mae wedi'u cyhoeddi y tu allan i broses ei Gynllun Blynyddol, gyda'i Adroddiad Blynyddol. Rydym yn nodi rhagor o fanylion am hyn isod ac am ofynion tryloywder ar gyfer Adroddiad Blynyddol y BBC yn Adrannau 5 i 8.

3.52 Bydd rhywfaint o wybodaeth sydd eisoes wedi cael ei rhannu'n gyfrinachol ag Ofcom ar gyfer adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC nawr yn cael ei chyhoeddi gan y BBC ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol ei hun; er enghraifft y camau a gymerodd y BBC i wella perfformiad ymysg cynulleidfaoedd llai bodlon fel y nodir yn Adran 8 Diben Cyhoeddus 4.

3.53 Bydd y gofynion tryloywder rydym wedi'u cynnwys yn y Drwydded Weithredu newydd yn ategu'r wybodaeth a'r data y mae'r BBC eisoes yn eu cyhoeddi yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni y mae wedi'u darparu drwy gydol y flwyddyn, cyrhaeddiad ei rhaglenni a'i wasanaethau, canfyddiadau cynulleidfaoedd o gynnwys y BBC a'r BBC yn fwy cyffredinol, a gwybodaeth am wariant. Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn bwriadu cynyddu tryloywder ac mae wedi dweud y bydd yn cynnwys metrigau perfformiad newydd ar gyfer ei wasanaethau ar-lein, a ddatblygwyd fel rhan o'i strategaeth digidol yn gyntaf, yn ei Adroddiad Blynyddol nesaf.[85] Mae hefyd wedi ymrwymo i wella lefel a chysondeb ei broses adrodd yn yr Adroddiad Blynyddol.

3.54 Bydd blwyddyn gyntaf y cylch adrodd o dan y Drwydded Weithredu newydd yn sefydlu llinell sylfaen wedi'i diweddaru ar gyfer tryloywder, gan nodi am y tro cyntaf fetrigau digidol yn gyntaf newydd y BBC yn ogystal â'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r BBC ei darparu i gydymffurfio â'i ofynion tryloywder yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC dros y flwyddyn nesaf i helpu i fireinio a gwella'r broses adrodd.

## Dal y BBC i gyfrif – newidiadau sylweddol

### Yr hyn a ddywedon ni

3.55 Roeddem yn cynnig y dylai'r BBC adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud i lefel y ddarpariaeth adeg adroddiadau'r BBC neu i'w gynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, a rhoi rhesymau dros hynny. Fe wnaethom egluro nad mân newidiadau

[85] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2021/22', tudalen 49.

busnes yn ôl yr arfer yw newidiadau sylweddol, ond newidiadau sy'n newid yn ystyrlon sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Fe wnaethom hefyd egluro y byddai ceisiadau ar gyfer newidiadau i'r Drwydded Weithredu neu newidiadau a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn parhau i gael eu cynnwys mewn prosesau ar wahân.[86] I ddangos beth allai gyfrif fel newid sylweddol, roeddem wedi rhoi'r enghraifft ddamcaniaethol o'r BBC yn lleihau ei allbwn yn sylweddol mewn maes penodol, naill ai oherwydd symud cynnwys ar-lein neu ei derfynu er mwyn arbed arian. Roedd ein hymgynghoriad hefyd yn nodi y gall newidiadau cynyddrannol fod yn sylweddol os ydynt, o'u cyfuno â blynyddoedd blaenorol, yn cynrychioli gostyngiadau sylweddol dros amser.

### Sylwadau rhanddeiliaid

3.56 Gwnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau penodol ar elfen 'newidiadau sylweddol' gofynion tryloywder. Gofynnodd PPA, Radiocentre a Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) am fwy o eglurder ynghylch beth fyddai 'newid sylweddol' yn ei olygu a'r math o resymau y dylai'r BBC eu darparu wrth roi gwybod amdanynt.[87] Nododd PPA, wrth egluro'r rhesymau dros newidiadau sylweddol, y dylai'r BBC wneud mwy na rhoi "*arwydd lefel uchel o'i gyfeiriad tebygol yn ei Gynllun Blynyddol... Yn hytrach, dylai fod gofyniad i'r BBC ddarparu digon o fanylion er mwyn i Ofcom a chyhoeddwyr masnachol allu asesu'n ystyrlon beth fydd y cynlluniau'n ei olygu'n ymarferol, a'r effaith ar y farchnad sy'n deillio o hynny*".[88] Er nad oedd yn ymateb yn uniongyrchol i'r mater o roi gwybod am newidiadau sylweddol, cynigiodd ITV y dylai Ofcom osod "*sbardunau a fyddai'n galw am adolygiad cyhoeddus*", a rhoddodd enghraifft o newid o 10% yng nghynnwys y BBC.[89] Roedd rhai pryderon ynghylch y mecanwaith newidiadau sylweddol sy'n ymwneud â'r maes genres mewn perygl, ac roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion presennol ar gyfer newidiadau sylweddol yn caniatáu i'r BBC hwyluso gostyngiad graddol mewn oriau genre hyd yn oed os nad ydynt yn eu lleihau'n 'sylweddol' mewn unrhyw flwyddyn benodol.[90]

3.57 Ar ben hynny, roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am i'r BBC ystyried yr effaith ar y cyflenwyr/cynhyrchwyr a'r farchnad ehangach, ochr yn ochr â'r effaith ar gynulleidfaoedd, wrth adrodd ar newidiadau sylweddol a'u hegluro.[91]

### Ein penderfyniad

3.58 Rydym wedi diweddaru'r Drwydded Weithredu i ddiffinio newidiadau sylweddol fel newidiadau "*a allai effeithio ar sut mae'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd*".[92] Mae'r diffiniad o 'newidiadau sylweddol' rydym wedi'i fabwysiadu yn eang er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi'r amrywiaeth eang o newidiadau ar draws weithgareddau'r BBC, gan gynnwys os bydd y BBC yn gwneud newidiadau bach ar draws gwahanol flynyddoedd sydd, gyda'i gilydd, yn sylweddol. Rydym yn disgwyl i'r BBC asesu a yw unrhyw un o'i gynlluniau ar gyfer cyflawni yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn, ar sail yr hyn mae'n ei wybod am

[86] Ofcom, Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, Mawrth 2017. Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd, Hydref 2017.
[87] Ymateb PPA , tudalen 4; ymateb Radiocentre, tudalen 11; ymateb TAC, tudalennau 5-6.
[88] Ymateb PPA, tudalen 4.
[89] Ymateb ITV, tudalennau 1 a 21.
[90] Ymateb Audio UK, tudalen 5; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[91] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 7-8; ymateb Pact, tudalen 4; ymateb PPA, tudalen 4.
[92] Atodiad 2.

ei gynulleidfaoedd, eu dewisiadau a'u disgwyliadau. Byddwn yn ymgysylltu'n agos â'r BBC ar hyn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cadw golwg glir ar newidiadau posibl a byddwn yn ategu hyn gyda cheisiadau am wybodaeth i'r BBC lle bo angen.

3.59 Dan y Drwydded, mae'n rhaid i'r BBC adrodd am unrhyw newidiadau sylweddol gyda'i Gynllun Blynyddol ac os yw'n bwriadu gwneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn, y tu allan i broses y Cynllun Blynyddol, dylai adrodd ar y rhain cyn gynted ag sy'n rhesymol yn ymarferol. Dylai adrodd ar gyflawni neu gynnydd y newidiadau hyn gyda'i Adroddiad Blynyddol.

3.60 Mae'r newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w weithgareddau a fyddai'n sylweddol, yn ein barn ni, yn cynnwys y cynllun a gyhoeddodd ym mis Hydref 2022 i rannu mwy o raglenni ar draws radio lleol y BBC, a'r cynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 i ddod â sianeli BBC News a World News at ei gilydd i greu un sianel deledu o'r enw BBC News. Mae'r ddau gynnig yn effeithio ar sut mae'r BBC yn diwallu anghenion ei gynulleidfaoedd ac felly, o dan y Drwydded newydd, byddai'n rhaid i'r BBC egluro ei resymeg a sut bydd yn parhau i ddarparu cynnwys allweddol i gynulleidfaoedd.

3.61 Dylai'r BBC ddangos sut mae unrhyw newid sylweddol arfaethedig yn cyd-fynd â'i strategaeth ehangach ar gyfer cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Wrth nodi ei gynlluniau, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu gwybodaeth glir am y newidiadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud, a'r rhesymeg drostynt. Dylai ddangos sut mae wedi ystyried effeithiau posibl ar wahanol grwpiau cynulleidfa a sut mae wedi ystyried y rhain wrth ddatblygu ei gynlluniau terfynol. Dylai'r wybodaeth y mae'r BBC yn ei nodi hefyd roi dealltwriaeth dda i Ofcom, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid o'r hyn a fydd yn newid a'r gwasanaethau y gall cynulleidfaoedd ddisgwyl eu cael o ganlyniad. Er enghraifft, o ran y newidiadau i radio lleol, byddem wedi disgwyl i'r BBC ddarparu rhagor o wybodaeth yn ei gyhoeddiadau cychwynnol am y mathau o raglenni a fyddai'n cael eu rhannu, sut byddai elfennau neu nodweddion allweddol ei ddarpariaeth leol yn dal i gael eu darparu, a chynlluniau cynnar ar gyfer grwpiau gorsafoedd.

3.62 Mewn ymateb i farn rhanddeiliaid y dylai'r BBC ystyried yr effaith ar gyflenwyr/cynhyrchwyr a'r farchnad ehangach wrth ystyried ac egluro newidiadau sylweddol, rydym yn nodi bod gan y BBC ddyletswydd gyffredinol i ystyried effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth,[93] fel y nodir yn Adran 2. Rydym hefyd yn disgwyl, os yw'r BBC yn cynllunio newidiadau sylweddol a allai effeithio ar y cynhyrchwyr mae'n gweithio gyda nhw, y dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar.

3.63 Bydd Ofcom yn craffu ar sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'r gofynion adrodd hyn a, lle bynnag y mae'n cynllunio newidiadau sylweddol sy'n gofyn am resymu ychwanegol yn ein barn ni, byddwn yn gofyn yn brydlon i'r BBC am ragor o wybodaeth. Mae hyn yn ymestyn i newidiadau sylweddol y gallai'r BBC ddymuno eu gwneud y tu allan i broses y Cynllun Blynyddol.

[93] Erthygl 11 y Siarter.

# Dal y BBC i gyfrif – monitro a goruchwylio perfformiad

### Yr hyn a ddywedon ni

3.64 Rydym wedi amlinellu y byddai cylch adrodd o gyhoeddiadau, wedi'i ategu gan ein goruchwyliaeth reoleiddiol annibynnol barhaus a'n gallu i gamu i mewn lle bo angen, yn sail i drefn fwy hyblyg a fyddai'n effeithiol ac yn dryloyw wrth ddal y BBC i gyfrif. Fe wnaethom amlinellu y byddai mwy o dryloywder a goruchwyliaeth yn caniatáu i ni weithredu'n gyflym os byddwn yn poeni am gydymffurfiad neu berfformiad y BBC. Fe wnaethom hefyd egluro y byddem yn parhau i olrhain agweddau cynulleidfaoedd at y BBC a'r ffordd mae'n darparu ei wasanaethau, yn ogystal â chynnal ymchwil ad hoc i gynulleidfaoedd i edrych yn fanwl ar agweddau allweddol ar ddarpariaeth y BBC a darlledwyr eraill, fel sy'n ofynnol. Tynnwyd sylw hefyd at feysydd lle'r oeddem yn disgwyl y byddai angen monitro ychwanegol.

### Sylwadau rhanddeiliaid

3.65 Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'n gyffredinol y cynnig i fonitro perfformiad y BBC yn barhaus. Gwnaeth Directors UK sylwadau ar ba mor bwysig yw monitro parhaus i alluogi Ofcom i godi pryderon am ddarpariaeth y BBC yn gynnar,[94] a phwysleisiodd Global ei bod hi'n hanfodol bod Ofcom yn monitro perfformiad y BBC yn erbyn amodau'r Drwydded er mwyn rheoleiddio'r Drwydded newydd yn effeithiol.[95]

3.66 Gofynnodd rhanddeiliaid am eglurder ynghylch y metrigau y gellid eu defnyddio i fonitro perfformiad y BBC.[96] Awgrymodd The Writer's Guild for Great Britain (WGGB) y dylai'r BBC hefyd gael ei asesu ar gyrhaeddiad aelwydydd yn ôl band incwm i sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob cynulleidfa, yn hytrach na chanolbwyntio ei ymdrechion ar aelwydydd sydd fwyaf tebygol o ddal tanysgrifiadau â chwaraewyr fideo ar-alw sy'n cystadlu â'i gilydd. Awgrymodd WGGB hefyd y dylid asesu bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn ôl demograffeg, ac y dylai asesiad perfformiad Ofcom roi mwy o bwyslais ar y cynnydd a wnaed gan y BBC o ran darparu ar gyfer cynulleidfaoedd llai bodlon.[97] Nododd Directors UK ac ACS ddiffyg metrigau adrodd clir yn y diwydiant ar gyfer gwasanaethau ar-lein a oedd, yn eu barn nhw, yn herio gallu'r gofynion tryloywder arfaethedig i ddal y BBC yn atebol am ei ddarpariaeth ddigidol. Roeddent yn gofyn i Ofcom weithio gyda'r diwydiant i helpu i ddatblygu set o fetrigau ar gyfer gwasanaethau ar-lein a fyddai'n darparu lefel debyg o hyder ag y mae metrigau BARB yn ei wneud ar gyfer mesur gwasanaethau sy'n cael eu darlledu.[98]

3.67 Roedd sylwadau eraill ar fonitro'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer meysydd y dylai'r BBC eu monitro, gan gynnwys darpariaeth radio lleol,[99] amrywiaeth y gweithlu,[100] mynediad at gynnwys digidol yn unig,[101] darpariaeth newyddion lleol[102] a chomisiynau yn y gwledydd a'r

[94] Ymateb Directors UK, tudalen 2.
[95] Ymateb Global, tudalen 7.
[96] Ymateb ACNI , tudalen 13; ymateb Radiocentre , tudalen 18; ymateb VLV, tudalen 11.
[97] Ymateb WGGB, tudalen 1.
[98] Ymateb ACS, tudalen 3; Ymateb Directors UK, tudalen 2.
[99] Ymateb M Manning, tudalen 4; ymateb Radiocentre, tudalen 18; ymateb VLV, tudalennau 15-16.
[100] Ymateb NUJ, tudalen 6; ymateb WGGB, tudalen 1
[101] Ymateb Directors UK, tudalen 8; ymateb Virgin Media, tudalen 5.
[102] Ymateb VLV, tudalen 11; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 3.

rhanbarthau.[103] Dywedodd Virgin Media y dylid monitro newidiadau i Ddiben Cyhoeddus 3 yn ofalus.[104]

## Ein penderfyniad

3.68 Rydym yn gwella ein rhaglen monitro a goruchwylio i sicrhau ein bod yn gallu craffu'n gynhwysfawr ar berfformiad y BBC a'n bod yn nodi'n gyflym unrhyw feysydd sy'n peri pryder posibl drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu i ni ymyrryd yn gyflym i fynd i'r afael â materion posibl os bydd angen. Wrth i ni lunio ein hadroddiad blynyddol ar y BBC, byddwn yn ystyried a oes achos dros ddiwygio unrhyw amodau'r Drwydded yng ngoleuni perfformiad y BBC a'i ddarpariaeth i gynulleidfaoedd. Bydd hyn hefyd yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr wythnosau ar ôl cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y BBC.

3.69 Yn ein rhaglen monitro a goruchwylio, rydym yn bwriadu dibynnu ar sawl ffynhonnell gwybodaeth. Byddwn yn defnyddio'r data a'r wybodaeth y mae'r BBC yn eu darparu yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol, a byddwn hefyd yn cael gwybodaeth o adroddiadau eraill y BBC fel ei Adroddiad ar y Cyflenwad Comisiynu. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth arall gan y BBC.[105]

3.70 Rydym yn cynnal ein dadansoddiad a'n hymchwil marchnad ein hunain, gan gynnwys Traciwr Perfformiad blynyddol y BBC, Traciwr Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion.[106] Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n canolbwyntio ar y marchnadoedd sain a fideo ar-alw ehangach. Rydym yn gallu addasu a newid y rhain yn ôl yr angen ac rydym yn comisiynu ymchwil ychwanegol lle bo angen.

3.71 Rydym hefyd yn defnyddio set eang o ffynonellau data annibynnol. Er enghraifft, rydym yn defnyddio data'r diwydiant a ddarperir gan BARB a RAJAR, yn ogystal â ffynonellau trydydd parti eraill fel Ampere Analysis ac IPA TouchPoints. Mae llawer o'r ffynonellau hyn wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu. Ond erbyn hyn, maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth a data am ddefnydd ar-lein ac argaeledd cynnwys ar-alw ac rydym yn disgwyl gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth am berfformiad ar-lein dros gyfnod y Siarter. Rydym o'r farn y bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â phwyntiau a godwyd gan randdeiliaid am fesur gwasanaethau ar-lein yn fwy cyffredinol ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar y ddogfen fframwaith mesur perfformiad newydd yn ddiweddarach eleni.

3.72 Rydym yn asesu sut mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasol-ddemograffig a gafwyd gan y BBC a'n hymchwil ein hun. Yn

[103] Ymateb Directors UK, tudalen 8.
[104] Ymateb Virgin Media, tudalen 5.
[105] Mae hyn yn cynnwys y cais blynyddol am wybodaeth cydymffurfio rydym yn ei anfon cyn adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, yn ogystal â'r ffurflenni data blynyddol rydym yn eu casglu sy'n cyfrannu at ystadegau swyddogol, gan gynnwys goruchwylio oriau a gwariant rhaglenni. Mae llawer o hyn hefyd wedi'i nodi yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol rydym yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol.
[106] Mae gwybodaeth am y ffynonellau rydym yn eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol rydym yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar y BBC.

ddiweddar, fe wnaethom lansio adolygiad cynulleidfa a fydd yn ystyried pa mor dda mae'r BBC yn darparu ar gyfer grwpiau demograffig penodol.[107]

3.73 Bydd ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid hefyd yn fewnbwn hollbwysig ar gyfer monitro. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â'r BBC, i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth am unrhyw newidiadau sydd ar y gweill, yn ogystal â chyfarfodydd â rhanddeiliaid a allai fod eisiau trafod a rhannu tystiolaeth o bryderon posibl.

3.74 Mae ein gwaith monitro perfformiad rheolaidd yn bwydo'n uniongyrchol i adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, sydd hefyd yn cynnwys asesiadau cydymffurfio a pherfformiad o'r wybodaeth a ddarperir gan y BBC yn ei Adroddiad Blynyddol yn ogystal â gwybodaeth a gafwyd drwy ein ceisiadau am wybodaeth. Lle bo'n briodol, byddwn yn adrodd ar unrhyw bryderon penodol a godir drwy ein gwaith monitro. Rydym yn bwriadu rhoi sylw penodol i ble mae'r BBC yn gwneud newidiadau a lle rydym yn dileu cwotâu, fel y newidiadau i sianel BBC News a radio lleol, darparu cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau a genres mewn perygl gan gynnwys y genre plant.[108]

## Dal y BBC i gyfrif – camu i mewn ac ymyrryd

### Yr hyn a ddywedon ni

3.75 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom ddweud y byddem yn camu i mewn ac yn ymyrryd pe byddem yn nodi pryderon am gynlluniau neu newidiadau a allai gael effaith niweidiol ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd. Fe wnaethom nodi'r ffyrdd y gallem ymyrryd a'r camau y byddem yn eu cymryd, gan nodi y byddem yn cymryd dull gweithredu hyblyg a chymesur, gan gysoni ein hymateb i effaith bosibl y mater.

### Sylwadau rhanddeiliaid

3.76 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno ei bod yn bwysig bod Ofcom yn gallu ymyrryd yn gyflym pan fydd gennym bryderon ynghylch sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd.[109] Dywedodd Llywodraeth Cymru, er enghraifft, fod gallu Ofcom i ymyrryd yn "*fecanwaith pwysig i helpu i liniaru rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymreolaeth a hyblygrwydd*", ac y "*bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y tymor byr pan fydd effaith newidiadau i'r drwydded, yng nghyd-destun natur gyflym newid yn y sector, yn dal i gael ei hasesu*".[110] Cynigiodd TAC y dylai Ofcom bennu lefel y gostyngiad mewn rhaglenni a fyddai'n sbarduno ymyriad.[111]

3.77 Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon am yr amserlenni hir sy'n gysylltiedig â chynllunio, datblygu, cynhyrchu ac yna darparu'r cynnwys hwn a sut gallai hyn gyfyngu ar allu Ofcom i

[107] Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC: Cylch Gorchwyl (ofcom.org.uk).
[108] Trafodir amrywiaeth y gweithlu yn Adran 8.
[109] Ymateb ACNI, tudalen 13; ymateb ACS, tudalennau 3-4; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb Directors UK, tudalen 5; ymateb Pact, tudalen 4; ymateb Radiocentre, tudalen 8; ymateb TAC, tudalennau 5-6: ymateb VLV, tudalen 8: ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 5.
[110] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 5.
[111] Ymateb TAC, tudalennau 5-6.

gamu i mewn yn gyflym.[112] Nododd Virgin Media y gallai'r llinellau amser fod yn rhwystr i ddal y BBC i gyfrif petai Ofcom yn dibynnu ar gylch adrodd y BBC i nodi meysydd sy'n peri pryder. Roedd yn rhybuddio mai dim ond ar ôl y digwyddiad y byddai Ofcom yn gallu camu i mewn, ac erbyn hynny byddai cynulleidfaoedd eisoes wedi cael eu niweidio.[113] Roedd rhai rhanddeiliaid yn amcangyfrif petai Ofcom yn defnyddio ei Adroddiad Blynyddol ar y BBC i gamu i mewn, y gallai hyn fod rhwng 14 ac 20 mis ar ôl i gynlluniau'r BBC gael eu rhoi ar waith.[114]

3.78 Roedd rhai yn cwestiynu'n gyffredinol gallu Ofcom i ddal y BBC i gyfrif o dan y Drwydded newydd.[115] Gofynnodd Global am fwy o eglurder ynghylch sut a phryd y byddai Ofcom yn gallu cymryd camau gorfodi lle bo angen.[116]

### Ein penderfyniad

3.79 Rydym wedi nodi'n gynharach yn yr adran hon ein bod yn credu y gallwn gamu i mewn yn gyflym ac ymyrryd os bydd problemau'n codi. Rydym hefyd yn credu bod gennym yr adnoddau angenrheidiol a fydd yn ein galluogi i ymyrryd yn effeithiol os bydd angen.

3.80 Yn y lle cyntaf, byddem fel arfer yn disgwyl ymgysylltu'n anffurfiol â'r BBC i ofyn am ragor o wybodaeth. Os na roddir digon o sylw i'n pryderon ar y cam hwn, mae gennym amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gweithredu. Efallai y byddwn yn cynnal gwaith monitro wedi'i dargedu ar feysydd lle'r oedd y BBC yn cynllunio newidiadau i'w ddarpariaeth neu'n cynnal adolygiad manwl. Gallai'r rhain gynnwys cyhoeddi ymgynghoriad i gasglu tystiolaeth o effeithiau posibl ar gynulleidfaoedd. Efallai y byddwn hefyd yn ymgynghori ar amodau amrywiol yn y Drwydded Weithredu.

3.81 Os oedd ein pryderon yn ymwneud â thorri'r Drwydded, mae gennym bwerau a gweithdrefnau cadarn sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae'r rhain yn ein galluogi i ymchwilio i achosion posibl o dorri amodau rheoleiddio, dod o hyd i dor-amod ac, yn y pen draw, gosod sancsiynau am unrhyw achosion o dorri amodau o'r fath, sy'n cynnwys rhoi cyfarwyddiadau i'r BBC.

3.82 Byddwn yn defnyddio'r adnoddau hyn mewn ffordd gymesur. Bydd ein dewis o ymateb yn seiliedig ar debygolrwydd a thystiolaeth o effeithiau niweidiol ar gynulleidfaoedd, yn ogystal â difrifoldeb ein pryderon. Byddwn yn asesu pob achos yn ôl ei rinweddau er mwyn penderfynu ar yr ymateb cymesur. Fodd bynnag, rydym yn nodi hanes y BBC o gydymffurfio a pherfformiad yn ystod cyfnod y Siarter hon.

3.83 Byddwn hefyd yn ystyried sut mae'r Drwydded Weithredu newydd yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC. Wrth asesu hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC arbrofi ac arloesi ac rydym yn nodi y gallai fod adegau lle mae'r BBC yn defnyddio ei hyblygrwydd mewn ffyrdd nad ydynt yn llwyddiannus ar unwaith neu sy'n cael effeithiau anfwriadol. Byddwn yn ymwybodol nad yw'r rhain ynddynt eu hunain yn sefyllfaoedd a

---

112 Ymateb ACNI, tudalen 13; ymateb ACS, tudalennau 3-4; ymateb ACW, tudalen 5; ymateb Global, tudalen 2; ymateb Pact, tudalen 4; ymateb SSMT, tudalen 3; ymateb TAC, tudalennau 5-6; ymateb Virgin Media, tudalen 4; ymateb VLV, tudalen 8.
113 Ymateb Virgin Media, tudalen 4.
114 Ymateb ACNI, tudalen 13; ymateb Directors UK, tudalen 2; ymateb VLV, tudalen 8.
115 Ymateb Global, tudalen 2; ymateb News Broadcasting, tudalen 17; ymateb SSMT, tudalen 3.
116 Ymateb Global, tudalen 3.

fyddai o reidrwydd yn codi materion rheoleiddio os bydd y BBC, dan ei ofynion tryloywder, yn nodi'n gynnar lle nad yw penderfyniadau wedi cael eu cyflawni yn ôl y disgwyl ac yn gweithredu i ddatrys hyn.

# Cystadleuaeth

### Yr hyn a ddywedon ni

3.84 Fe wnaethom egluro ym mis Mehefin bod ein hasesiad o effaith bosibl ein cynigion wedi cael ei lywio gan ymatebion i'n hymgynghoriad a'n hymchwil cychwynnol. Roeddem yn credu bod ein cynigion yn gymesur ac y byddent yn sicrhau bod Ofcom yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau er budd cynulleidfaoedd. Fe wnaethom egluro hefyd nad oeddem yn credu y byddai ein cynigion yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

3.85 Ar ben hynny, fe wnaethom nodi mai'r BBC sydd â'r cyfrifoldeb cychwynnol dros ystyried effeithiau posibl newidiadau i'w wasanaethau o ran cystadleuaeth, ac os byddai'r BBC yn gwneud newidiadau sylweddol yn y dyfodol, byddai angen i'r BBC, ac Ofcom o bosibl, ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth o dan y prosesau presennol.[117]

### Ymatebion rhanddeiliaid

3.86 Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau y dylid rhoi sylw i bryderon ynghylch cystadleuaeth yn y Drwydded Weithredu.[118] Roedd yr NMA yn dadlau ei bod yn fwy effeithlon gosod ffiniau yn y Drwydded yn hytrach na'i gadael i'r fframwaith cystadleuaeth.[119] Roedd ITV yn galw am ffiniau cliriach yn y Drwydded Weithredu, gan gynnwys gosod capiau rhwymol mewn meysydd o risg yn y farchnad. Roedd hefyd yn awgrymu ymgorffori'r egwyddor y dylid gosod gofynion y Drwydded mewn ffordd sy'n *"cadw'r effaith ar y farchnad mor isel â phosibl i gyflawni'r gwerth cyhoeddus a gynigir"*.[120] Roedd News Broadcasting a Radiocentre yn dadlau bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu chwarae rhan yn y gwaith o ddiogelu rhag effeithiau negyddol ar gystadleuaeth o ganlyniad i weithgarwch y BBC.[121]

### Ein penderfyniad

3.87 Rydym wedi ystyried barn rhanddeiliaid am gystadleuaeth yn ofalus wrth wneud ein penderfyniadau ar y Drwydded Weithredu newydd. Mae'r Drwydded Weithredu'n canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad, a sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ac mae fframwaith penodol ar wahân ar gyfer ystyried cystadleuaeth. Fodd bynnag, wrth gyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â'r Drwydded Weithredu, mae gennym ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i ba mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, ac rydym wedi ystyried hyn wrth wneud y penderfyniadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwn. Yn y cyswllt hwn, rydym yn nodi nad yw darparu mwy o hyblygrwydd i'r BBC o dan y Drwydded newydd ynddo'i hun yn effeithio

---

[117] Ofcom, Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, Mawrth 2017.
[118] Ymateb ITV, tudalennau 2 a 22; ymateb News Broadcasting, tudalennau 2 a 7-8; ymateb NMA, tudalennau 15-16; ymateb Pact, tudalen 4; ymateb PPA, tudalen 4; ymateb Radiocentre, tudalennau 7-8 a 23.
[119] Ymateb NMA, tudalen 3.
[120] Ymateb ITV, tudalennau 2 a 20-21.
[121] Ymateb News Broadcasting, tudalen 2, Ymateb Radiocentre, tudalen 23.

ar gystadleuaeth; yr hyn sy'n berthnasol o ran cystadleuaeth yw sut mae'r BBC yn mynd ymlaen i weithredu o dan yr hyblygrwydd hwn. Bydd ein dyletswydd gyffredinol yn parhau i fod yn berthnasol i'n swyddogaethau yn y maes hwn.

3.88 Os bydd y BBC yn cynnig gwneud newidiadau i'w wasanaethau, bydd yn rhaid i'r BBC ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth yn unol â'i ddyletswydd.[122] Wrth wneud hynny, bydd yn rhaid i'r BBC geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei Genhadaeth neu hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Os gallai'r newid penodol fod yn berthnasol,[123] byddai angen ei ystyried yn unol â'r fframwaith cystadleuaeth presennol. Mae ein rôl yn cynnwys ystyried a yw newid arfaethedig y BBC yn berthnasol ac, os felly, penderfynu a all fwrw ymlaen.[124] Roeddem wedi ymgynghori ar newidiadau i'n fframwaith ym mis Tachwedd, gan gynnwys cynigion i ychwanegu canllawiau i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC roi cyhoeddusrwydd i newidiadau arfaethedig, i egluro i'r BBC a rhanddeiliaid eraill beth yw 'ymgysylltu'n rhesymol ac yn gymesur' wrth adolygu perthnasedd, ac i ehangu'r canllawiau ynghylch yr wybodaeth y dylai'r BBC ei darparu i randdeiliaid yn ystod Prawf Budd y Cyhoedd.[125] Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniadau ar newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth maes o law.

3.89 Rydym yn trafod ymhellach sylwadau rhanddeiliaid ar effeithiau penodol posibl ar gystadleuaeth yn Adrannau 5 a 7.

## Sylwadau eraill ar ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y Drwydded

### Yr hyn a ddywedon ni

3.90 Roeddem yn cynnig y dylid cael un Drwydded Weithredu aml-lwyfan, sy'n cynnwys darpariaeth ar-lein. Fe wnaethom hefyd egluro y dylai'r Drwydded Weithredu newydd barhau i gael ei strwythuro gan Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gyda phob un yn cael ei hategu gan amcanion, amodau a gofynion tryloywder clir.

### Ymatebion rhanddeiliaid

3.91 Roedd News Broadcasting yn argymell y dylai Ofcom sicrhau bod gwasanaethau amrywiol y BBC dan y Drwydded yn rhwym wrth nifer cyfartal o amodau, gan awgrymu y byddai'r dull roeddem wedi ymgynghori yn ei gylch yn arwain at reoleiddio anghyson ar draws gwasanaethau'r BBC.[126] Roedd eraill yn cwestiynu geiriad rhai o amcanion y Drwydded

[122] Erthygl 11 y Siarter.
[123] Dan Gymal 7(7) y Cytundeb, mae newid sylweddol yn cael ei ddiffinio fel: (a) cynnal unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU; a (b) unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
[124] I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch 'Asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC:, gweithdrefnau a chanllawiau Ofcom, Mawrth 2017.
[125] Ofcom, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, Tachwedd 2022.
[126] Ymateb News Broadcasting , tudalennau 14-15.

roeddem yn eu cynnig, neu pam roedd rhai rhaglenni'n dod o dan amodau un Diben Cyhoeddus yn hytrach nag un arall.[127]

## Ein penderfyniad

3.92 Rydym yn ymateb i bwyntiau penodol ynghylch gweithredu amodau unigol fel sy'n briodol yn Adrannau 5-8. Mae'n bwysig nodi y gallai nifer o amodau rheoleiddio fod yn berthnasol i fwy nag un Diben Cyhoeddus. Er enghraifft, mae nifer o'r amodau rheoleiddio ar draws y drwydded yn cyfrannu at sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu. Ar wahân, nid yw nifer o amodau'r Drwydded yn adlewyrchu pwysigrwydd na graddfa rheoleiddio.

[127] Roedd ACS a Screen Scotland yn argymell y dylai rhaglenni ffeithiol gael eu cynnwys yn Amcan 2 Diben Cyhoeddus 1 (ymateb ACS , tudalennau 4-5, ymateb Screen Scotland, tudalen 2); roedd MG ALBA yn dadlau na ddylai cynnwys Gaeleg gael ei gwmpasu'n llwyr gan Ddiben Cyhoeddus 4, gan ddadlau, er enghraifft, bod cynnwys dysgu Gaeleg yn cael ei gwmpasu'n well gan Ddiben Cyhoeddus 2 (ymateb MG ALBA , tudalen 2).

# 4. Newidiadau'r BBC i newyddion a radio lleol

## Newidiadau'r BBC i newyddion a radio lleol – crynodeb

Fel rhan o'i strategaeth digidol yn gyntaf, mae'r BBC wedi cyhoeddi newidiadau i BBC News a radio lleol. Ym mis Chwefror, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC[128] ynghylch y newidiadau hynny. Yn yr adran hon, rydym yn egluro ein dadansoddiad o'r newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud a, lle bo'n briodol, yr effaith mae hyn wedi'i chael ar ein newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu.

Yn gryno, rydym wedi penderfynu:

- **Cadw'r amod bod BBC News yn darparu newyddion o safon uchel ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU a rhyngwladol i gynulleidfaoedd y DU.** Byddwn yn monitro sianel BBC News yn ofalus i sicrhau ei bod yn bodloni'r gofyniad hwn ac nad oes effaith niweidiol ar y gynulleidfa.
- **Gofalu bod y BBC yn cadw at ei ymrwymiadau ar radio lleol yn Lloegr mewn perthynas â newyddion a theithio, newyddion sy'n torri a digwyddiadau mawr, a'i gyfraniad at ddemocratiaeth leol.** Byddwn yn monitro effaith y newidiadau ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys lefelau rhannu rhaglenni, ac yn cynnal ymchwil i'r hyn sydd ei angen ar gynulleidfaoedd gan gynnwys lleol, a beth sy'n bwysig i gynulleidfaoedd mewn cynnwys lleol.
- **Cadw'r cwota bod 100% o'r cynnwys yn gynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast ar radio lleol yn Lloegr.** Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflwyno gofyniad newydd ar y BBC i ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod oriau brig amser brecwast.
- **Monitro effaith y newidiadau i radio lleol yn y gwledydd** – os bydd ein hymchwil yn dangos nad yw anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu, byddwn yn ystyried a ddylid gosod amodau Trwydded ychwanegol.

4.1 Fel y trafodwyd yn Adran 2, cyhoeddodd y BBC ei strategaeth digidol yn gyntaf ym mis Mai 2022. Mae'r strategaeth yn amlinellu cynlluniau'r BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa wrth iddyn nhw barhau i symud ar-lein, gan sicrhau'r gwerth gorau posibl o ffi'r drwydded. Fel rhan o'r cynlluniau, mae'r BBC yn ceisio lleihau ei wariant ar wasanaethau darlledu traddodiadol mewn sawl elfen, er mwyn iddo allu ailfuddsoddi'r arian hwnnw mewn darpariaeth ddigidol. Ers hynny, mae'r BBC wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am rai o'r newidiadau i sianeli BBC News a BBC World News, radio lleol yn Lloegr, a rhai o orsafoedd radio'r gwledydd.

4.2 Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau golygyddol ac amserlennu. Byddwn yn edrych ar y newidiadau mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud i'w wasanaethau cyhoeddus pan: a) rydym ni'n credu y gallai'r newid(iadau) gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a/neu b) os ydym ni'n credu y gallai'r newid(iadau) effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Drwydded Weithredu.

4.3 Nid oeddem ni o'r farn bod y newidiadau i wasanaeth BBC News yn gyfystyr â gwasanaeth newydd neu y byddent yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg

[128] Gweler Atodiad 10.

ac effeithiol.[129] Fel y trafodir isod, gan fod y newidiadau y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud i'w orsafoedd radio lleol a chenedlaethol ar adeg lle mae'r lefelau gwrando'n is a gan nad ydym wedi cael unrhyw bryderon gan gystadleuwyr y BBC am y gwasanaethau hyn, rydym o'r farn eu bod hefyd yn annhebygol o effeithio ar gystadleuaeth yn y DU.

4.4 Fodd bynnag, rydym wedi bod yn cynnal asesiad manwl o gynlluniau'r BBC i ystyried a fydd y newidiadau'n galluogi'r BBC i barhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Wrth ystyried y newidiadau, rydym wedi pwyso a mesur yr heriau mae'r BBC yn eu hwynebu. Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'n rhaid i'r BBC addasu a moderneiddio ei wasanaethau i adlewyrchu'r ffyrdd newydd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys. Ar yr un pryd, mae'n dod o dan fwy o bwysau ariannol. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r heriau hyn, rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn dal i gyflawni ei ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU gyda chynnwys unigryw o safon uchel o'r DU. Rhaid iddo hefyd barhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys, gan gynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n defnyddio dim ond gwasanaethau radio a theledu sy'n cael eu darlledu'n fyw.

4.5 Isod, rydym yn nodi rhagor o fanylion am ein dadansoddiad sy'n edrych ar rai o'r newidiadau allweddol y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud, a sut rydym wedi cymryd camau i sicrhau y bydd cynulleidfaoedd yn dal i gael gwasanaeth da gan y BBC. Fe wnaethom ysgrifennu at y BBC ym mis Chwefror yn amlinellu ein canfyddiadau, ac yn nodi'r ymrwymiadau roedd y BBC wedi'u gwneud mewn sgyrsiau ag Ofcom. Fe wnaethom hefyd ofyn i'r BBC am ragor o wybodaeth, gan ddweud ein bod yn disgwyl iddo fonitro effaith ei newidiadau ar gynulleidfaoedd. Ymatebodd y BBC i'r llythyr i gadarnhau'r ymrwymiadau yr oedd wedi'u gwneud ynghylch BBC News a radio lleol, a'i ymateb i gwestiynau Ofcom. Rydym wedi cyhoeddi ein llythyr ac ymateb y BBC ochr yn ochr â'r datganiad hwn.[130]

4.6 Fel y nodir yn Adran 3, mae'n bwysig iawn bod y BBC yn bod yn glir gyda chynulleidfaoedd ac Ofcom am y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'r gwasanaethau, a sut bydd yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd y DU, cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Nid oeddem yn fodlon â lefel y manylion ac eglurder yng nghyhoeddiadau'r BBC am y newidiadau penodol hyn, a arweiniodd at ansicrwydd i gynulleidfaoedd sydd heb allu deall yn glir beth fydd y newidiadau'n ei olygu'n ymarferol i'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio. Yn benodol, yn achos radio lleol, rydym wedi gorfod gofyn am lawer iawn o wybodaeth ychwanegol gan y BBC er mwyn deall y newidiadau. Rydym wedi codi'r materion hyn gyda'r BBC gan ein bod o'r farn bod angen iddo wella tryloywder pan fydd yn cyhoeddi newidiadau tebyg yn y dyfodol.

---

[129] Edrychwch ar Newidiadau i BBC News a'r fframwaith rheoleiddio perthnasol, 26 Awst 2022.
[130] Gweler Atodiad 2 a 11.

# BBC News

## Newidiadau i sianel BBC News

### Trosolwg o gynlluniau'r BBC

4.7 Fel rhan o'i gyhoeddiad am y strategaeth digidol yn gyntaf ym mis Mai 2022, dywedodd y BBC ei fod yn bwriadu creu un "*sianel newyddion 24 awr ar y teledu sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol*". Y bwriad oedd y byddai hyn yn cynnig mwy o gynnwys sy'n cael ei rannu, ond dywedodd y BBC y byddai'n dal yn gallu "*cynnig darllediadau ar wahân gan ddibynnu ar yr hyn sy'n digwydd gartref a thramor"*.[131]

4.8 Cyhoeddodd y BBC ragor o fanylion am y sianel newydd ym mis Gorffennaf 2022.[132] Roedd hyn yn egluro y bydd y gwasanaeth newydd, a fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2023, yn rhoi sylw i newyddion sy'n torri ar lefel fyd-eang a, lle bo hynny'n berthnasol, yn cynnwys ffrwd i'r DU yn unig ar gyfer digwyddiadau newyddion sy'n benodol i'r DU. Bydd gwylwyr yn y DU yn dal i weld cynnwys penodol ar adegau penodol o'r dydd (ee, BBC Breakfast). Bydd rhaglenni blaenllaw newydd yn cael eu datblygu o amgylch newyddiadurwyr uchel eu proffil, a bydd rhaglenni'n cael eu comisiynu ar gyfer nifer o lwyfannau. Bydd y sianel newydd yn cael ei darlledu o Lundain yn ystod oriau gwaith y DU, yn ogystal â Singapore a Washington DC. Bydd newyddion chwaraeon yn cael eu darparu drwy raglen *Sportsday* ar gyfer y DU yn unig (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) a rhaglenni chwaraeon byd-eang newydd.

4.9 Dywedodd y BBC fod y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion yn newid, a welir wrth i ddegau o filiynau o bobl ddilyn ei ddarllediadau byw o ddigwyddiadau arwyddocaol yn y DU ac yn rhyngwladol. Rhan o'r rheswm dros wneud y newid yw er mwyn buddsoddi mewn capasiti newydd i roi sylw i straeon newyddion sy'n torri a ddefnyddir ar draws holl wasanaethau newyddion y BBC (tudalennau gwe, apiau, BBC iPlayer a sianel BBC News).

### Ein dadansoddiad

4.10 Mae darparu newyddion a materion cyfoes dibynadwy o safon uchel yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Mae'r Siarter yn mynnu bod y BBC *yn "cynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus*".[133]

4.11 Rydym ni wedi bod yn cydweithio â'r BBC ar ei gynlluniau ar gyfer sianel newydd BBC News wrth iddyn nhw ddatblygu. Yn benodol, rydym wedi bod yn asesu'r cynlluniau i sicrhau bod gwylwyr yn y DU yn dal i gael y straeon ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a'r DU sy'n

---

[131] BBC Media Centre, Plan to deliver a digital-first BBC, 26 Mai 2022.
[132] BBC Media Centre, BBC sets out plans for new TV news channel to launch in 2023, 14 Gorffennaf 2022.
[133] Erthygl 6(1) y Siarter.

debygol o fod o ddiddordeb yn y DU yn unig;[134] nad oes unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grŵp penodol o'r gynulleidfa; a bod sianel BBC News sydd ar gael yn y DU yn parhau'n sianel o safon uchel ni waeth a yw'n gyd-ddarllediad neu'n ffrwd i'r DU yn unig.

4.12 Ar hyn o bryd mae llawer iawn o'r cynnwys ar sianel BBC News yn cael ei gyd-ddarlledu â sianel World News (er enghraifft, rhwng hanner nos a 6am). Rydym yn deall y bydd gan wasanaeth newydd BBC News oriau cyd-ddarlledu ychwanegol, yn enwedig yn ystod diwedd y bore a'r prynhawn yn y DU.

4.13 Rydym wedi bod yn poeni y bydd unrhyw ostyngiad o ran straeon newyddion y DU, neu safon y gwasanaeth, yn effeithio ar rai grwpiau cynulleidfa yn fwy na'i gilydd, yn enwedig gan mai yn ystod yr oriau cyd-ddarlledu newydd yn y prynhawn y mae'r BBC yn denu'r nifer cyfartalog uchaf o wylwyr yn ystod yr wythnos ar hyn o bryd.[135] Mae hyn yn cynnwys cynulleidfaoedd hŷn sy'n dal i ddibynnu ar wasanaethau darlledu i gael newyddion[136] a chynulleidfaoedd lleiafrif ethnig sy'n gwylio sianel BBC News mwy na chynulleidfaoedd Gwyn.[137]

4.14 Wrth ymateb i lythyr Ofcom, dywedodd y BBC y bydd y sianel newydd yn "*Ymfalchïo yn ei Phrydeindod, ac yn Unigryw yn ei natur Fyd-eang"*, ac y bydd yn cynnig gwell gwasanaeth i wylwyr yn y DU. Roedd yn ymrwymo i sicrhau y bydd straeon newyddion y DU yn dal i gael eu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU, ac y bydd y BBC yn gallu newid i ffrwd i'r DU yn unig pan fydd straeon pwysig yn y DU na fyddant yn taro tant â chynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud newidiadau ac addasu'r gwasanaeth fesul cam i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yn parhau. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i adolygu perfformiad y gwasanaeth newydd, gan gynnwys ymchwil ar ymatebion cynulleidfaoedd, i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion o dan y Siarter, y Cytundeb a'r Drwydded Weithredu. Mae'r BBC hefyd wedi dweud y bydd yn rhannu data perfformiad ac ymchwil ag Ofcom.

4.15 Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau hyn gan y BBC ar ansawdd a pherfformiad sianel newydd BBC News. Bydd yn bwysig bod y gwasanaeth yn parhau i fod o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd y DU gyda straeon newyddion y DU ochr yn ochr â newyddion rhyngwladol. Fel y nodwyd isod, rydym hefyd wedi penderfynu cadw gofyniad bod BBC News yn darparu newyddion o safon uchel ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU a rhyngwladol.[138]

### Y camau nesaf

4.16 Rydym yn disgwyl y bydd y BBC, gan ei fod wedi ymrwymo i wneud hynny, yn cynnwys yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 (sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2023) ragor o fanylion ynghylch sut bydd sianel newydd BBC News yn cael ei redeg. Byddwn yn monitro'r gwasanaeth newydd yn ofalus wrth iddo gael ei dreialu a'i

---

[134] Codwyd y pryder hwn hefyd gan VLV – roedd yn poeni a fyddai lefel y newyddion lleol/rhanbarthol yn cael ei chynnal ar y sianel newydd. Ymateb VLV, tudalennau 10-11.
[135] Data cynulleidfa cyfartalog ar gyfer BBC News dros 24 awr wedi'i wahanu yn ôl dydd Llun i ddydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul, data BARB a ddarperir gan y BBC.
[136] Proffil oedran gwylwyr BBC News – darparodd y BBC ddata BARB.
[137] Darparodd y BBC ddata BARB 2022, pob oedolyn (16 oed a hŷn).
[138] Amod 1.8 y Drwydded Weithredu.

gyflwyno, gan gynnwys asesu'r effaith ar gynulleidfaoedd ac a yw'n effeithio ar grwpiau penodol o gynulleidfaoedd.

4.17 Os oes gennym unrhyw bryderon ynghylch y BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau neu dystiolaeth nad yw anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu, byddwn yn ystyried a oes angen i ni gyflwyno gofynion ychwanegol yng nghyswllt y Drwydded Weithredu ar gyfer y BBC. Yn ein hadroddiadau blynyddol ar y BBC, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ynghylch perfformiad y gwasanaeth newydd.

## Y Drwydded Weithredu: newyddion o safon uchel ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU a rhyngwladol

### Yr hyn a ddywedon ni

4.18 Yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig dileu'r amod ar sianel BBC News i ddarparu mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianeli newyddion di-dor eraill y DU. Fe ddywedom nad oeddem yn credu bod asesu ehangder darpariaeth newyddion y BBC drwy gymharu hynny â darpariaeth newyddion sianeli eraill yn ychwanegu llawer o werth, er bod angen i sianel BBC News barhau i roi sylw i amrywiaeth eang o straeon newyddion lleol, rhanbarthol a rhyngwladol. Fe ddywedom ein bod ni'n meddwl bod y safbwynt hwn yn rhy gul ac y byddem yn monitro perfformiad y sianel fel rydym yn ei wneud ar gyfer gwasanaethau eraill y BBC.

### Sylwadau rhanddeiliaid

4.19 Roedd y BBC yn cefnogi ein cynnig.[139] Fodd bynnag roedd VLV, Llywodraeth yr Alban, News Broadcasting ac ychydig o ymatebwyr unigol i gyd yn gwrthwynebu dileu'r amod hwn.[140] Roedd VLV yn gwrthwynebu'n gryf cael gwared ar y rhwymedigaeth ac yn dadlau bod yr amod hwn yn allweddol i sicrhau bod y sianel yn parhau'n unigryw ac yn darparu cynnwys lleol/rhanbarthol pwysig.[141] Awgrymodd Llywodraeth yr Alban y dylid cryfhau'r amod i sicrhau bod mwy o newyddion sy'n berthnasol i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn cael ei ddarparu.[142]

### Ein penderfyniad

4.20 Rydym yn cydnabod bod yr amod yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod y BBC yn darparu cynnwys unigryw sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ar sianel BBC News. Yn benodol, mae'n bwysig sicrhau bod y BBC yn parhau i roi sylw i faterion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU ar sianel BBC News, o ystyried ei gynllun i greu un sianel newyddion 24 awr i wasanaethu cynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Ond, rydym yn dal o'r farn mai'r ffordd orau o asesu hyn yw peidio â chymharu nifer y categorïau newyddion â sianeli eraill. Felly, rydym wedi penderfynu cadw'r amod a'i ddiwygio i ddileu'r cyfeiriad at sianeli eraill. Rydym hefyd wedi penderfynu mynnu bod rhaid i newyddion o'r fath fod o safon uchel, a

---

[139] Ymateb BBC, tudalen 8.
[140] Ymateb M. Manning, tudalennau 1-3; Ymateb dienw, tudalen 1; Ymateb News Broadcasting, tudalen 10; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; Ymateb T. Havenhand, tudalen 1; Ymateb VLV, tudalennau 3 a 10-11.
[141] Ymateb VLV, tudalennau 10-11.
[142] Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2.

nodi bod y rhwymedigaeth yn cynnwys newyddion cenedlaethol a newyddion y DU ochr yn ochr â newyddion lleol, rhanbarthol a rhyngwladol.[143]

# Radio lleol yn Lloegr

## Newidiadau i radio lleol

### Trosolwg o gynlluniau'r BBC

4.21 Ar 31 Hydref 2022, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau lleol yn Lloegr. Nod y cynlluniau yw lleihau gwariant ar elfennau darlledu traddodiadol ei wasanaethau lleol, er mwyn iddo allu buddsoddi mwy mewn cynnwys lleol ar-lein. Mewn perthynas â radio lleol yn Lloegr, dywedodd y BBC y byddai mwy o raglenni'n cael eu rhannu ar ôl 2pm yn ystod yr wythnos a dros y penwythnos. Yn dilyn adborth gan staff a chynulleidfaoedd, gwnaeth y BBC gyhoeddiad arall ar 18 Ionawr 2023 a oedd yn amlinellu rhywfaint o addasiadau i'w gynlluniau gwreiddiol.

4.22 Yn ymarferol, bydd cynlluniau'r BBC yn golygu'r canlynol ar gyfer yr amserlenni wythnosol ar radio lleol yn Lloegr:

- Bydd holl orsafoedd radio lleol y rhwydwaith yn Lloegr (39 gorsaf) yn cadw allbwn sydd â phwyslais lleol rhwng 6am a 2pm yn ystod yr wythnos.
- Rhwng 2pm a 6pm yn ystod yr wythnos, bydd 20 o wahanol raglenni'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd, a rhwng 6pm a 10pm yn ystod yr wythnos, bydd yr amserlen yn amrywio ar draws yr wythnos. Er enghraifft, ar nos Lun a nos Wener bydd deg o raglenni'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd, ac ar nos Iau rhwng 8pm a 10pm bydd 20 o raglenni *BBC Introducing*,[144] gyda rhai gorsafoedd yn cael eu rhaglenni unigol eu hunain.
- Ar ddydd Sadwrn rhwng 6am a 10am bydd deg o raglenni'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd, a rhwng 10am a 2pm bydd hyn yn cynyddu i 18 rhaglen. Rhwng 2pm a 6pm, bydd gorsafoedd yn dychwelyd i raglenni lleol a fydd yn rhoi sylw i chwaraeon lleol, a bydd yr amserlen gyda'r nos yn cynnwys *BBC Upload a BBC Introducing* (bydd rhai ohonynt yn cael eu rhannu, ac yn ailddarlledu rhaglenni a fu yn ystod yr wythnos).
- Ar ddydd Sul rhwng 6am a 10am bydd hefyd deg o raglenni'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd, a rhwng 10am a 2pm bydd 18 o raglenni'n cael eu rhannu.
- Bydd un rhaglen 'I Loegr i Gyd' yn cael ei lansio a'i darlledu ar ôl 10pm yn ystod yr wythnos ac ar ôl 2pm ar ddydd Sul.

4.23 Mae'r BBC hefyd wedi dweud y bydd bwletinau newyddion lleol yn cael eu diogelu ar bob gorsaf leol. Hefyd, bydd unrhyw raglenni chwaraeon byw yn dal i gael eu darlledu'n lleol ar draws yr amserlen, a byddai hyn yn cael blaenoriaeth dros raglenni sy'n cael eu rhannu.

[143] Amod 1.8 y Drwydded Weithredu.
[144] Mae rhaglenni BBC Introducing yn rhoi llwyfan i gerddorion lleol, ac mae rhaglenni BBC Upload yn rhoi llwyfan i artistiaid lleol ym myd y gair llafar.

## Ein dadansoddiad

4.24 Fel sydd wedi cael ei nodi'n gynharach, rydym wedi canolbwyntio ar asesu cynlluniau'r BBC i benderfynu a fydd unrhyw effaith bosibl ar allu'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys bodloni amodau'r Drwydded Weithredu.

4.25 Dyma amodau perthnasol y Drwydded mewn perthynas â'r newidiadau hyn:


- Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn gosod cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol (95 awr yr wythnos), gyda rhai addasiadau i'r oriau sy'n ofynnol mewn perthynas â BBC Radio Guernsey, BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset. Roedd y Drwydded gyntaf yn nodi, at ddibenion y gofyniad hwn, bod rhaglenni gwreiddiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu rhannu â gorsafoedd cyfagos a'u darlledu rhwng 6am a 7pm. Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig cadw'r amodau hyn, ond bod y cwota'n cael ei gyfrifo'n flynyddol yn hytrach nag yn wythnosol. Roeddem hefyd wedi dweud yn glir ein bod ni o'r farn y byddai gorsaf sydd yn yr un ardal ddaearyddol, ond nad yw o reidrwydd yn rhannu ffin ddaearyddol, yn orsaf gyfagos.
- Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf hefyd yn mynnu bod pob gorsaf leol yn sicrhau ei bod yn darparu newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, a hynny'n achlysurol drwy gydol y dydd; ac yn darparu cynnwys arall sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i'r amodau hyn.
- Rydym yn trafod ein cynigion ar gyfer cyfrifo cwotâu yn flynyddol yn hytrach nag yn wythnosol yn Adran 8. Rydym wedi cadw'r rhwymedigaethau hyn.

4.26 Rydym wedi ystyried beth allai'r newidiadau ei olygu i gynulleidfaoedd, yn ogystal â beth allent ei olygu yng nghyd-destun darparu cynnwys lleol.

4.27 Mae ein hasesiad o ddata gwrando yn dangos mai 9:00am a 9:30am yw'r cyfnod gwrando brig ar radio lleol y BBC yn Lloegr yn ystod yr wythnos. Mae'r lefelau gwrando yn gostwng wedyn yn ystod y dydd, gydag uchafbwynt bach gyda'r nos am 9:30pm. Mae'r lefelau gwrando ar y penwythnos yn llawer is, ac ar eu hisaf ar ddydd Sul. Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod 70% o gyfanswm cynulleidfa radio lleol y BBC yn Lloegr yn gwrando rhwng 6am a 2pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 2pm a 6pm ar ddydd Sadwrn,[145] sef y cyfnodau lle mae'r BBC yn bwriadu cadw rhaglenni lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r BBC wedi'i nodi yn ei gynlluniau; mae'n cyfyngu ei newidiadau arfaethedig i'r adegau pan fydd y lefelau gwrando'n is ar y cyfan.

[145] Ffynhonnell: RAJAR Ch4 2022.

**Ffigur 4: Radio lleol y BBC yn Lloegr, lefelau gwrando drwy gydol y dydd (cyrhaeddiad wythnosol – 000oedd)**[146]




4.28 Rydym hefyd wedi ystyried a allai'r newidiadau effeithio'n arbennig ar unrhyw grwpiau cynulleidfa, wrth ystyried pa mor bwysig ydyw bod y BBC yn parhau i wasanaethu pob cynulleidfa ac nad yw'n gadael unrhyw wrandawyr ar ôl wrth iddo geisio moderneiddio ei wasanaethau. Mae proffil cynulleidfa radio lleol yn Lloegr yn gwyro tuag at bobl 65 oed a hŷn, ac felly mae'r newidiadau'n fwy tebygol o gael effaith ar gynulleidfaoedd hŷn. Fodd bynnag, mae proffil gwrando radio lleol yn tueddu i fod yn debyg drwy gydol y dydd, ac nid oes grŵp penodol o'r gynulleidfa sy'n gwrando dim ond ar yr adegau yn yr amserlen y bydd y newidiadau'n canolbwyntio arnynt. O'r herwydd, nid oes gennym reswm i gredu y bydd y newidiadau'n cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o'r gynulleidfa.

4.29 Rydym hefyd wedi bod yn ystyried yr effaith bosibl ar ddarparu cynnwys lleol. Yn ein dadansoddiad cychwynnol, fe wnaethom nodi mathau penodol o gynnwys rydym ni'n credu sy'n arbennig o bwysig o ran sicrhau lleolrwydd. O ganlyniad i hynny, roeddem wedi gofyn i'r BBC sut bydd yn parhau i ddarparu cynnwys o'r fath i gynulleidfaoedd yn ystod rhaglenni sy'n cael eu rhannu. Wrth ymateb i'n cwestiynau, mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiadau ynghylch sut bydd yn sicrhau bod elfennau allweddol o'i allbwn yn parhau:

- **Newyddion a theithio:** Mae'r BBC wedi dweud wrthym ni y bydd yn parhau i ddarlledu bwletinau newyddion unigryw ar bob un o'r 39 o orsafoedd rhwng 6am a 6pm (gyda phenawdau lleol bob hanner awr yn ystod yr oriau brecwast rhwng 6am a 9am). Ar y penwythnos, bydd y ddarpariaeth yn aros fel y mae ar hyn o bryd, gyda bwletinau lleol unigryw ar draws pob gorsaf rhwng 6am ac 1pm. Bydd diweddariadau teithio lleol yn dal yn gallu cael eu darparu o fewn bwletinau newyddion lleol, a bydd y cyflwynydd yn gallu rhoi sylw i ddigwyddiadau teithio o bwys cyn gynted ag y bo angen mewn rhaglenni lleol a rhaglenni sy'n cael eu rhannu.
- **Newyddion sy'n torri a digwyddiadau lleol o bwys:** Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn disgwyl y bydd digwyddiadau lleol o bwys neu straeon newyddion lleol sy'n torri

[146] Ffynhonnell: RAJAR Ch4 2022.

yn debygol o fod o ddiddordeb mewn ardal rannu, ac felly y byddent yn cael lle amlwg iawn mewn rhaglenni sy'n cael eu rhannu. Felly, nid yw'r BBC yn disgwyl y byddai angen iddo gynyddu ei weithrediadau'n gyson i ddarparu rhaglenni penodol i ddelio â digwyddiadau o'r fath, ond gallai wneud hynny pan fydd amgylchiadau eithriadol yn galw am hynny. Mae'r BBC hefyd wedi dweud y bydd y capasiti newyddiadurol ym mhob canolfan leol yn cryfhau, ac y bydd Tîm Stori Leol yn gallu ymateb i ddigwyddiadau lleol o bwys a chynnig darpariaeth ar draws llwyfannau, gan gynnwys ar y gorsafoedd radio lleol perthnasol.

- **Cyfrannu at ddemocratiaeth leol:** Fe wnaethom ofyn i'r BBC sut mae'n bwriadu rhoi sylw i bynciau sy'n berthnasol i ddemocratiaeth leol mewn rhaglenni sy'n cael eu rhannu. Mewn ymateb, mae'r BBC wedi dweud wrthym fod ganddo rwydwaith o Uwch Ohebwyr Gwleidyddol ar draws Lloegr a bod y lefel hon o staff yn cael ei chynnal, ac y bydd y gohebwyr hyn yn darparu cynnwys i wasanaethau sain a rennir a gwasanaethau lleol, ac ar deledu ac ar-lein hefyd.

4.30 Rydym hefyd wedi ystyried sut bydd cynnwys sy'n cael ei rannu yn dal yn berthnasol i wrandawyr. Nodwn fod y BBC eisoes yn rhannu rhywfaint o gynnwys rhwng gorsafoedd lleol. Gwyddom fod rhaglenni sy'n cael eu rhannu yn dal yn gallu rhoi sylw i bynciau a fydd yn berthnasol i wrandawyr ar draws ardal rannu (ee, trafodaeth ar ffioedd parcio mewn maes awyr y gallai teithwyr o ardal ddaearyddol eang ei ddefnyddio). Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd rhaglenni sy'n cael eu rhannu yn tueddu i fod yn llai lleol oherwydd eu bod yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol ehangach. Er hynny, byddem hefyd yn nodi nad yw rhaglenni pwrpasol ar gyfer pob gorsaf leol bob amser yn rhai lleol chwaith, a'u bod yn dal yn gallu cynnwys trafodaethau a phynciau sy'n berthnasol yn rhanbarthol, neu'n genedlaethol hyd yn oed.

4.31 Mae'r cwestiwn a fyddai nifer mwy o raglenni sy'n cael eu rhannu yn dal yn berthnasol i wrandawyr yn dibynnu ar natur y rhaglenni, a hefyd ar y grwpiau gorsafoedd a sut mae'r rhain wedi cael eu pennu. Dywedodd y BBC wrthym ei fod yn hyderus y bydd rhaglenni newydd sy'n cael eu rhannu yn taro tant â chynulleidfaoedd yn yr un modd â bwletinau newyddion rhanbarthol 6:30pm ar y teledu (ac mewn nifer o achosion, bydd ei raglenni radio lleol sy'n cael eu rhannu yn gwasanaethu ardaloedd tebyg). Mae wedi dweud bod grwpiau gorsafoedd yn ceisio gweithio o fewn diwylliannau a hunaniaethau rhanbarthol cydnabyddedig.

4.32 Ar sail yr wybodaeth y mae'r BBC wedi'i rhannu â ni am ei gynlluniau ar gyfer grwpiau gorsafoedd, fe wnaethom nodi y bydd y BBC, ar nos Fawrth a nos Fercher pan nad oes chwaraeon lleol i'w darlledu, yn rhannu rhaglenni dros ardaloedd mawr iawn mewn rhai achosion. Yn yr achosion hyn, roedd gennym bryderon ynghylch sut byddai'r rhaglenni'n dal yn berthnasol i gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae'r cynlluniau presennol yn cynnwys rhannu un rhaglen rhwng ardaloedd mor eang â Norfolk a Dorset. Mae'r BBC wedi dweud wrthym mai anaml y bydd rhaglenni'n cael eu rhannu felly, gan ei fod yn rhoi llawer iawn o sylw i chwaraeon ar radio lleol.

4.33 Fel y nodwyd uchod, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC ym mis Chwefror. Yn ogystal â ffurfioli ei ymrwymiadau (fel y trafodwyd uchod) fe wnaethom ofyn am y rhesymau a oedd wrth wraidd ei benderfyniadau ar gyfer nosweithiau Mawrth a Mercher, ac am ragor o wybodaeth ynghylch y rhaglenni a fydd yn cael eu rhannu.

4.34 Yn ei ymateb, dywedodd y BBC mai'r BBC fyddai'r gwasanaeth radio mwyaf lleol yn Lloegr o hyd. Dywedodd y bydd ei raglenni min nos a fydd yn cael eu rhannu yn dal yn fwy lleol nag oeddent yn 2017 (pan oedd yn arfer darlledu rhaglen 'I Loegr i Gyd'). Mae hefyd yn amcangyfrif y bydd yn darparu sylwebaeth fyw i 3,000 o gemau pêl-droed y flwyddyn. Mewn trafodaethau ag Ofcom, mae'r BBC wedi dweud bod hyn yn golygu mai anaml iawn y bydd rhaglenni o nos Lun i nos Wener yn cael eu rhannu ar draws rhai o'r ardaloedd eang a nodwyd gennym yn ein dadansoddiad.

### Y camau nesaf

4.35 Mae darparu cynnwys lleol i bob cynulleidfa, ar draws amrywiaeth o lwyfannau, yn dal yn allweddol er mewn cyflawni cylch gwaith y BBC. Rydym yn disgwyl i'r BBC adolygu effaith ei newidiadau i radio lleol yn Lloegr wrth iddynt gael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Byddwn hefyd yn monitro perfformiad y BBC yn yr elfen hon yn ofalus, gan gynnwys ei ddal yn atebol am ei ymrwymiadau a monitro'r gorsafoedd lle bydd y BBC yn rhannu ei raglenni, a'r rhaglenni sy'n cael eu rhannu. Mae hyn yn cynnwys ar nos Fawrth a nos Fercher pan nad oes unrhyw chwaraeon lleol i'w darlledu. Hefyd, er bod y Drwydded yn caniatáu rhannu cynnwys rhwng gorsafoedd radio lleol, byddwn hefyd yn edrych ar set ehangach o ddangosyddion i benderfynu a yw'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd ar lefel leol. Er enghraifft, rydym yn bwriadu comisiynu ymchwil newydd i ddeall yn well beth mae ar gynulleidfaoedd ei angen gan wasanaethau lleol, a beth sy'n bwysig iddynt mewn gwasanaethau lleol.

4.36 Os bydd y BBC yn ceisio gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwasanaethau hyn neu'n symud y tu hwnt i'r ymrwymiadau sydd wedi cael eu hamlinellu uchod, byddem yn disgwyl iddo drafod y rhain yn fanwl gydag Ofcom cyn gwneud hynny. Byddem hefyd yn disgwyl iddo gyfleu unrhyw newidiadau pellach yn glir, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau o'r fath.

4.37 Os byddwn yn nodi unrhyw bryderon ynghylch darpariaeth cynnwys lleol y BBC, byddwn yn ystyried a oes angen i ni gyflwyno rhagor o ofynion yn y Drwydded Weithredu.

## Y Drwydded Weithredu: cynnwys llafar, gwybodaeth a newyddion lleol yn ystod oriau brig amser brecwast

### Yr hyn a ddywedon ni

4.38 Mae'r Drwydded yn cynnwys cwotâu sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys llafar ar ei orsafoedd radio lleol yn Lloegr yn ystod oriau craidd a'r oriau brig amser brecwast.[147] Mae'r BBC wedi gofyn am ddileu'r gofyniad ar orsafoedd radio'r gwledydd a'i orsafoedd radio lleol yn Lloegr i ddarparu 100% o gynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast. Dywedodd fod ymchwil cynulleidfa yn dangos bod diffyg cerddoriaeth amser brecwast yn cael effaith negyddol ar ganfyddiadau gwrandawyr o radio lleol yn Lloegr. Dywedodd hefyd fod y pwysau ariannol cynyddol y mae'n ei wynebu yn ei gwneud yn fwyfwy anodd darparu 100% o gynnwys llafar gan gynnal lefelau ansawdd ar draws yr holl gynnwys newyddion a nodwedd. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod bod rhanddeiliaid fel Radiocentre yn

[147] Mae'r oriau brig amser brecwast ar radio lleol yn Lloegr yn golygu rhwng 7am ac 8:30am o ddydd Llun i ddydd Gwener.

credu bod y cwotâu llafar yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol y BBC yn wahanol i wasanaethau masnachol.[148]

4.39 Nid oeddem yn credu ei bod yn briodol lleihau'r cwota cynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast ar wasanaethau radio'r gwledydd oherwydd bod y gorsafoedd hyn yn darlledu allbwn llafar yn ystod y bore'n bennaf. Nid oeddem chwaith o'r farn ei bod yn briodol dileu'r cwota cynnwys llafar yn ystod oriau brecwast yn gyfan gwbl ar radio lleol yn Lloegr. Fodd bynnag, roeddem yn credu y dylai'r BBC gael mwy o hyblygrwydd yn ystod ei raglenni brecwast er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well. Rydym wedi sylwi bod data gwrando ar gyfer Lloegr yn dangos bod cyrhaeddiad wythnosol y gorsafoedd hyn wedi bod yn dirywio ar y cyfan dros y tymor hir, gan gynnwys lefelau gwrando yn ystod oriau brig amser brecwast. Felly, roeddem wedi cynnig lleihau'r cwota cynnwys llafar yn ystod oriau brecwast i 75%. Roeddem hefyd wedi cynnig ychwanegu gofyniad newydd ar y BBC i ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod oriau brig amser brecwast.

### Sylwadau rhanddeiliaid:

4.40 Roedd y BBC yn cefnogi ein cynigion yn yr elfen hon.[149] Fodd bynnag, roedd gan Global a Radiocentre bryderon ynghylch ein cynnig i leihau'r cwota 100% ar gyfer cynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast i 75%. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo y byddai'r newid yn effeithio ar allu'r BBC i gynnig opsiwn gwahanol i radio masnachol.[150] Teimlai Global yn arbennig y byddai natur unigryw gorsafoedd y BBC yn lleihau nid yn unig o ran y math o allbwn (lefelau cerddoriaeth mewn cymhariaeth â lefelau cynnwys llafar), ond hefyd o ran y math o gerddoriaeth y gallent ei chwarae, oherwydd mae ei ddadansoddiad wedi dangos bod cyfran y caneuon cyfredol a'r caneuon a fu yn y siartiau'n ddiweddar sy'n cael eu chwarae ar radio lleol y BBC yn Lloegr wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf.[151] Er nad oedd Global na Radio Centre yn cefnogi'r newid arfaethedig hwn i'r amod, pe baem yn bwrw ymlaen â'r amod roedd y ddau'n awgrymu y dylid rhoi gofyniad ychwanegol ar waith i sicrhau bod y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn gerddoriaeth leol ac yn hyrwyddo talentau llawr gwlad.[152]

4.41 Roedd Global a Radiocentre hefyd yn teimlo bod ymchwil y BBC, y cyfeiriwyd ati yn ein hymgynghoriad, wedi dyddio. Dywedodd Global a Radiocentre fod Global wedi cynnal ymchwil fwy diweddar a oedd wedi canfod mai cynnwys llafar oedd elfen bwysicaf a mwyaf gwerthfawr radio lleol y BBC, ac mai dim ond cyfran fach o wrandawyr sy'n dweud eu bod eisiau clywed mwy o gerddoriaeth prif ffrwd ar y gorsafoedd hyn.[153]

### Ein penderfyniad:

4.42 Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'n cynnig i leihau'r cwota cynnwys llafar yn ystod oriau brecwast i 75%, ond byddwn yn mynd ati i ychwanegu amod newydd i fynnu bod y BBC yn sicrhau ei fod yn darparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn

---

[148] Ymateb Radiocentre i Sut mae Ofcom yn Rheoleiddio'r BBC, tudalennau 36-37.
[149] Ymateb y BBC, tudalen 16.
[150] Ymateb Global, tudalen 11; Ymateb Radiocentre, tudalennau 2 a 21.
[151] Ymateb Global, tudalen 12.
[152] Ymateb Global, tudalen 13, Ymateb Radiocentre, tudalen 21.
[153] Ymateb Global, tudalennau 9-10, Ymateb Radiocentre, tudalen 19.

ystod oriau brig amser brecwast.[154] Rydym yn nodi isod ein rhesymeg ar gyfer y ddau amod hyn.

4.43 Yn gyntaf, rydym yn nodi ein bod wedi cael ymchwil cynulleidfa wrthgyferbyniol ar y pwnc hwn. Felly, nid yw'n glir a yw gwrandawyr yn awyddus i weld mwy o gerddoriaeth yn cael ei chwarae yn ystod y sioeau brecwast ar radio lleol y BBC. Gyda hyn mewn golwg, nid ydym yn credu ei bod yn briodol bwrw ymlaen â'r cynnig i leihau'r cwota cynnwys llafar yn ystod oriau brecwast. Fel y nodwyd yn gynharach, byddwn yn comisiynu ymchwil newydd i ddeall beth mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi gan wasanaethau lleol.

4.44 Ochr yn ochr ag ymatebion rhanddeiliaid i'r cynnig hwn, rydym hefyd wedi bod yn ystyried effaith newidiadau arfaethedig y BBC i radio lleol yn ehangach, gan fod y rhain wedi cael eu cyhoeddi ar ôl i'n hymgynghoriad gael ei gyhoeddi. Fel y nodir uchod, gallai'r newidiadau ehangach leihau 'natur leol' gyffredinol gorsafoedd radio lleol y BBC. O ystyried hyn, rydym yn credu ei bod yn bwysig diogelu allbwn lleol, yn enwedig ar adegau o'r dydd sydd â'r lefelau gwrando uchaf. Mae cadw 100% o gynnwys llafar yn ystod yr oriau brig amser brecwast yn cefnogi hyn.

4.45 Nid yw'r amod 100% o gynnwys llafar o reidrwydd yn gwarantu allbwn lleol, ond mae'r BBC wedi nodi o'r blaen bod yr allbwn llafar yn ystod y slot amser brecwast yn cyflawni rôl bwysig o ran helpu i osod yr agenda newyddion leol ar gyfer y diwrnod. Er mwyn sicrhau bod newyddion a gwybodaeth leol yn cael eu darparu ar yr adeg hon o'r dydd, rydym ni'n credu bod angen bwrw ymlaen i ychwanegu gofyniad newydd i'r BBC ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod oriau brig amser brecwast.

4.46 Yn gyffredinol, rydym ni'n credu y bydd ein penderfyniadau terfynol yn helpu i sicrhau lefelau lleolrwydd, yn enwedig yn ystod cyfnodau yn yr amserlen lle rydym yn gwybod bod llawer yn gwrando ar radio lleol. Os yw'r BBC yn dymuno ailgyflwyno ei gais ar ôl i'r newidiadau ehangach y mae'n eu gwneud i radio lleol gael amser i ymwreiddio, byddwn wrth gwrs yn ystyried hyn ac yn ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd yn bwriadu comisiynu ymchwil newydd a fydd yn ystyried y gwahanol fathau o ffynonellau mae pobl yn eu defnyddio i gael newyddion a gwybodaeth leol er mwyn helpu i lywio gwaith yn yr elfen hon yn y dyfodol.

4.47 Fel y nodwyd uchod, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylem gynnwys mesurau diogelu ychwanegol os byddem yn penderfynu diwygio'r amod. Gan ein bod wedi penderfynu yn erbyn y diwygiad arfaethedig, rydym ni o'r farn na fyddai unrhyw fesurau diogelu o'r fath yn briodol nac yn angenrheidiol.

## Radio'r gwledydd

### Trosolwg o gynlluniau'r BBC

4.48 Mae'r BBC wedi cyhoeddi newidiadau i raglenni ar orsafoedd radio'r gwledydd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gynnwys ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle. Ym mis Tachwedd, fel rhan o gyhoeddiad ehangach ynghylch dileu nifer o swyddi yng Ngogledd Iwerddon,

[154] Amod 4.40.4 y Drwydded Weithredu.

cyhoeddodd y byddai'n cael gwared ar y rhaglen frecwast ac ar y bwletinau newyddion bob awr ar BBC Radio Foyle, a'r rhaglen Inside Business wythnosol ar BBC Radio Ulster.

### Ein dadansoddiad

4.49 Er mai'r BBC sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar raglenni penodol, fel rhaglen *Inside Business*, rydym wedi ystyried yr effaith bosibl ehangach ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hyn.

4.50 Ar gyfer BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, dyma amodau'r Drwydded Weithredu sy'n berthnasol i'r newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud:

- Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn gosod cwota i neilltuo o leiaf 35 awr ar gyfer newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar BBC Radio Ulster bob wythnos.
- Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf hefyd yn gosod cwota i neilltuo o leiaf 20 awr ar gyfer newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar BBC Radio Foyle bob wythnos.
- Roeddem wedi cynnig cadw'r ddau amod hyn, ond cyfrifo'r cwota'n flynyddol yn hytrach nag yn wythnosol. Rydym yn trafod y cynigion hynny yn Adran 8, lle rydym yn egluro ein bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion hyn.
- Mewn perthynas â BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn mynnu bod y BBC yn sicrhau ei fod yn darparu cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Ogledd Iwerddon. Rydym wedi cadw'r amod hwn.
- Rydym hefyd bellach wedi cyflwyno dau ofyniad newydd:
  - i BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon;[155] a
  - i BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle ddarparu bwletinau newyddion yn rheolaidd drwy gydol y dydd.[156]

4.51 Ni fu'n bosibl dadansoddi'n fanwl na chymharu ffigurau gwrando BBC Radio Ulster â rhai BBC Radio Foyle, gan nad yw RAJAR yn cyhoeddi unrhyw ddata ar gyfer BBC Radio Foyle. O'r herwydd, nid ydym wedi gallu mesur maint y cynulleidfaoedd y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnynt, na phenderfynu a allai'r rhain effeithio'n arbennig ar unrhyw grwpiau penodol o'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi dweud wrthym fod Holl Ardal Arolwg[157] BBC Radio Foyle yn un o'r lleiaf yn y DU, gyda phoblogaeth oedolion o tua 136,000 (dim ond dibyniaethau'r goron yn Jersey a Guernsey sy'n llai).

4.52 Rydym wedi gallu ystyried yr effaith bosibl ar y cynnwys lleol y gallai cymunedau yng Ngogledd Iwerddon ei gael. Yn gyntaf, mae'n bwysig ystyried pa mor lleol yw cynnwys y BBC ar BBC Radio Foyle o'i gymharu â'r allbwn ar BBC Radio Ulster, ac a fyddai BBC Radio

[155] Amod 4.59 y Drwydded Weithredu. Mae hyn yn rhan o rwymedigaeth ehangach sydd hefyd yn berthnasol i BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan y BBC, BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland.
[156] Amod 4.66.3 y Drwydded Weithredu.
[157] Dywed RAJAR fod Holl Ardal Arolwg (TSA) yn golygu'r ardal lle mae cynulleidfa gorsaf yn cael ei mesur. Mae hyn yn cael ei ddiffinio gan yr orsaf, gan ddefnyddio ardaloedd cod post fel blociau adeiladu. Nodyn: Er bod y BBC yn cyfeirio at TSA RAJAR BBC Radio Foyle, nid yw RAJAR yn cyhoeddi'r ffigurau ar gyfer yr orsaf hon, ac felly nid ydynt ar gael i'w dadansoddi.

Ulster yn parhau i ddarparu cynnwys sy'n berthnasol i wrandawyr yn ardal Foyle. Nodwn fod BBC Radio Foyle yn wasanaeth optio allan lleol o BBC Radio Ulster, a'i fod felly eisoes yn rhannu cyfran sylweddol o'i amserlen. Mae'r BBC yn bwriadu canslo'r rhaglen fwyaf o blith rhaglenni unigryw BBC Radio Foyle (y tu allan i'w ddarpariaeth chwaraeon; y sioe frecwast dwy awr o hyd y mae'n ei darlledu rhwng 7am a 9am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Drwy ein gwaith ymgysylltu â'r BBC, mae wedi dweud wrthym fod sioe frecwast BBC Radio Ulster, ar hyn o bryd, yn rhoi sylw i lawer o'r un straeon â sioe frecwast BBC Radio Foyle, ac mai dim ond tua 2%-15% o'r eitemau sy'n cael eu darlledu o ddydd Llun i ddydd Gwener sy'n straeon lleol o ardal Foyle ei hun.

4.53 Fe wnaethom hefyd ofyn i'r BBC sut bydd yn parhau i ddarparu cynnwys lleol i wahanol ardaloedd a chymunedau Gogledd Iwerddon yn dilyn y newidiadau. Yn ei ymateb dywedodd ei fod wedi penderfynu, yn dilyn adborth, y bydd y rhaglen newyddion 30 munud o hyd o ddydd Llun i ddydd Gwener yn cael ei darlledu am 8:30am yn hytrach nag yn y slot amser cinio presennol. Mae hefyd wedi dweud ei fod bellach yn bwriadu cadw'r bwletinau newyddion bob awr ar BBC Radio Foyle tan 3pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a gadarnhawyd gan y BBC yn ei ymateb i'n llythyr ym mis Chwefror, ac mewn cyhoeddiad ehangach. Yn ogystal â'r ddarpariaeth hon ar y radio, mae'r BBC wedi dweud y bydd gwell darpariaeth newyddion digidol yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan BBC Radio Foyle.

## Y camau nesaf

4.54 Fel y nodwyd mewn perthynas â radio lleol yn Lloegr, rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith y newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd yn ofalus, a byddwn ni hefyd yn parhau i adolygu'r elfennau hyn, gan gynnwys drwy gynnal rhagor o ymchwil i'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan gynnwys lleol. Os yw'r BBC yn bwriadu gwneud rhagor o newidiadau i'w ddarpariaeth yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys newidiadau i'r ymrwymiadau y mae wedi'u gwneud yma, rydym yn disgwyl iddo gydweithio'n llawn ag Ofcom a chynulleidfaoedd wrth ddatblygu cynlluniau o'r fath.

4.55 Os bydd gennym bryderon am ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, byddwn yn ystyried a oes angen cyflwyno gofynion newydd yn y Drwydded Weithredu.

# 5. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 1

## Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

### Crynodeb o'n dull gweithredu ar gyfer Diben Cyhoeddus 1

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i gynigion ein hymgynghoriad, dyma'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud:

**Cadw'r holl gwotâu, gyda rhai diwygiadau**

- Rydym wedi cadw cwotâu newyddion a materion cyfoes y Drwydded Weithredu gyntaf ar gyfer gwasanaethau radio a theledu sy'n cael ei ddarlledu ar yr un lefel, ar wahân i BBC Radio 5 Live, sydd wedi lleihau o 75% i 70%.
- Rydym wedi gwneud y cwotâu radio'n rhai blynyddol. Mae'r BBC yn dal yn gorfod darparu'r un faint o newyddion o dan y Drwydded newydd. Rydym hefyd wedi egluro ei bod yn rhaid darparu newyddion rheolaidd ar y radio yn achlysurol drwy gydol y dydd.

**Gosod gofynion ynghylch pa gynnwys a gwasanaethau y dylai'r BBC eu darparu**

- Rydym wedi gosod gofyniad newydd sy'n berthnasol i BBC Ar-lein, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds, i ddarparu amrywiaeth eang o newyddion a gwybodaeth fanwl bob dydd i bob cynulleidfa, gan gynnwys plant. Rhaid gallu dod o hyd i raglenni newyddion a materion cyfoes yn hwylus ar BBC iPlayer a BBC Sounds.
- Rydym wedi cadw gofyniad i'r BBC ddarparu digon o ddolenni ar BBC Ar-lein.

**Cyflwyno gofynion tryloywder newydd**

- Rydym wedi cyflwyno gofynion tryloywder newydd sy'n mynnu bod y BBC yn cyhoeddi, ar yr un pryd â'i Gynllun Blynyddol, ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau newyddion a materion cyfoes BBC Ar-lein, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud, a'i fod yn adrodd ar y cynlluniau hynny o fewn pythefnos i gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol.

## Cyflwyniad

### Y cefndir, a chynigion ein hymgynghoriad

5.1 Mae Diben Cyhoeddus 1 yn mynnu bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:

> "Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiadau manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus."
>
> *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

5.2 Y BBC yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU, ac mae cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel yn gyson i berfformiad y BBC o ran ansawdd.[158] Wrth ddiweddaru'r Drwydded Weithredu, ein nod fu sicrhau bod y BBC yn cynnal allbwn newyddion o safon uchel ac yn gallu addasu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar yr un pryd. Er enghraifft, er mai teledu yw'r brif ffordd o hyd i bobl gael gafael ar newyddion y BBC, mae bron i draean o'r holl oedolion ar-lein yn y DU yn dweud eu bod yn defnyddio gwefan/ap y BBC.[159]

5.3 Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn canolbwyntio ar radio a theledu sy'n cael ei ddarlledu, gyda dim ond dau amod yn y Drwydded ar gyfer BBC Ar-lein[160] (a oedd yn ymwneud â newyddion ar-lein i blant a bod digon o ddolenni at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon).

5.4 Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod cynulleidfaoedd yn cael cynnwys newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau ar-lein y BBC. Rydym hefyd am sicrhau bod y BBC yn darparu straeon o wledydd a rhanbarthau'r DU ar ei wasanaethau ar draws y DU, ac yn sicrhau bod y cynnwys hwn yn taro tant â chynulleidfaoedd. Yn ein hadolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC, fe wnaethom ddweud bod rhai cynulleidfaoedd yn ystyried bod y BBC yn cynrychioli safbwynt gwyn, dosbarth canol a Llundeinig sy'n amherthnasol i'w bywydau.

5.5 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig cadw cwotâu i sicrhau bod y BBC yn dal i ddarparu llawer iawn o newyddion a materion cyfoes ar draws ei wasanaethau radio a theledu sy'n cael ei ddarlledu. Hefyd, roeddem yn cynnig cyflwyno gofynion newydd i'r BBC ddarparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar BBC iPlayer a BBC Sounds a sicrhau bod modd dod o hyd iddo'n hwylus, a darparu amrywiaeth eang o newyddion manwl ar wefan ac apiau'r BBC. Roeddem hefyd yn cynnig disodli cwotâu

[158] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[159] Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021 - Sampl ar-lein yn unig. Cwestiwn: Gan feddwl yn benodol am <llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn, 2021=3327. Edrychwch ar Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, tudalennau 29-30.
[160] Yn y Cytundeb, mae BBC Ar-lein yn cael ei ddisgrifio fel gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, gyda chynnwys sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer oedolion iau. Ers dyddiad y Cytundeb, mae'r BBC wedi lansio gwasanaethau cynnwys ar-lein eraill, gan gynnwys BBC Sounds. Mae ystyr y termau yn y Drwydded yr un fath ag yn y Siarter a'r Cytundeb. Yn y datganiad hwn, pan fyddwn yn defnyddio "BBC Ar-lein" neu "wasanaethau ar-lein y BBC", rydym yn cyfeirio at holl wasanaethau ar-lein y BBC, gan gynnwys Gwefan y BBC, apiau'r BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds, oni nodir yn wahanol.

newyddion a materion cyfoes dyddiol ac wythnosol, sy'n berthnasol i rai o wasanaethau radio'r BBC, gyda chwotâu blynyddol, a chyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC amlinellu ei gynlluniau i ddarparu newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau ar-lein, ac adrodd ar ganlyniad y cynlluniau hynny.

## Ymatebion rhanddeiliaid a'n penderfyniadau

5.6 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn trafod safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion, ac yn egluro'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud. Rydym yn rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- gwasanaethau ar-lein;
- newyddion teledu; a
- newyddion radio.

5.7 Rydym wedyn yn egluro sut rydym yn disgwyl i'r prosesau mesur perfformiad weithio ar gyfer Diben Cyhoeddus 1.

## Gwasanaethau ar-lein

5.8 Mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys newyddion a materion cyfoes ar-lein fwy a mwy, ac mae'r BBC eisoes yn darparu cynnwys o'r fath ar BBC iPlayer, BBC Sounds ac ar ei wefan a'i apiau. Ym mis Mehefin, fe wnaethom gynnig cyflwyno amodau i gydnabod darpariaeth bresennol y BBC ac i ffurfioli newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd yn ein gwaith rheoleiddio.

### BBC Ar-lein: newyddion a gwybodaeth ddyddiol

#### Yr hyn a ddywedon ni

5.9 Roeddem yn cynnig cyflwyno amod ar gyfer BBC Ar-lein i fynnu bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth ddyddiol i bob cynulleidfa, gan roi sylw manwl i amrywiaeth eang o bynciau. Roeddem hefyd yn cynnig cadw gofyniad penodol ar y BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddyddiol i blant ar ei wasanaethau ar-lein.

5.10 Roeddem yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau i ddarparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau ar-lein, ac adrodd ar ganlyniad y cynlluniau hynny.

#### Sylwadau rhanddeiliaid

5.11 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o blaid ein hamodau newydd arfaethedig.[161] Tynnodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) a Llywodraeth yr Alban sylw at bwysigrwydd

[161] Ymateb ACNI, tudalennau 3-4; Ymateb ACS, tudalen 4; Ymateb y BBC, tudalen 9; Ymateb NUJ, tudalen 3; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; Ymateb Virgin Media O2, tudalen 5; Ymateb VLV, tudalen 10; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.

cynnwys newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd, ac felly at werth diogelu'r ddarpariaeth hon ar draws gwasanaethau ar-lein y BBC drwy'r amodau arfaethedig.[162]

5.12 Gan ystyried anghenion cynulleidfaoedd iau yn arbennig, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai ein cynnig yn helpu i *"leihau pryderon ynghylch cynulleidfaoedd iau yn cael gafael ar newyddion drwy gyfryngau nad ydynt yn cael eu rheoli na'u rheoleiddio – pryderon y gellir mynd i'r afael â nhw, i ryw raddau, drwy ddarpariaeth y BBC o gynnwys materion cyfoes drwy ddulliau ar-lein."*[163]

5.13 Roeddem yn cynnig y dylai newyddion dyddiol ar BBC Ar-lein roi sylw i amrywiaeth eang o bynciau. Mynegwyd pryder gan NMA a PPA y gellid ystyried bod ein hymagwedd yn cymeradwyo'r cynnwys 'newyddion ysgafn' sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar wefan BBC News, ac yn annog y BBC i gynyddu'r ddarpariaeth yn yr elfen hon.[164] Roedden nhw'n galw ar Ofcom i osod canllawiau yn y Drwydded Weithredu i gyfyngu ar y math hwn o gynnwys. Er bod PPA yn cydnabod bod gosod cyfyngiadau penodol ar y cynnwys y gall y BBC ei ddarparu y tu hwnt i gylch gwaith Ofcom, roedd yn dadlau y dylai Ofcom osod disgwyliadau cliriach i gynnwys newyddion ar-lein y BBC ganolbwyntio ar straeon 'newyddion caled' drwy nodi'r math o gynnwys a fyddai'n cyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 1, ac na fyddai'n cyfrannu at hynny.[165]

5.14 Roedd yr NMA yn dadlau na ddylai'r BBC allu defnyddio ffi'r drwydded i dresmasu ar farchnad sydd eisoes yn orlawn a dargyfeirio cynulleidfaoedd (a refeniw hysbysebu) oddi wrth ddarparwyr masnachol, gan ddweud y byddai hyn yn cryfhau goruchafiaeth y BBC yn y sector ymhellach.[166] Roedd hefyd yn awgrymu nad yw'r sylwebaeth a'r dadansoddiad a ddarperir gan y BBC ar ei allbwn newyddion ar-lein yn eistedd yn gyfforddus gyda'r gofyniad ei bod yn rhaid i'r BBC sicrhau didueddrwydd dyladwy.[167]

5.15 Roedd National World yn dadlau y dylai'r BBC dynnu'n ôl ei gynigion ar newyddion lleol ar-lein, ac y dylai'r Drwydded Weithredu hefyd ei gwneud yn ofynnol iddo leihau ei gyfran o'r farchnad newyddion ar-lein i lai na 25%, a dod ag e-bost dyddiol BBC News i ben.[168]

5.16 Yn ogystal â'r gefnogaeth gyffredinol i'n cynnig i gyflwyno gofynion tryloywder yn y Drwydded, soniodd rhai rhanddeiliaid[169] yn benodol am werth y gofynion tryloywder a gynigiwyd ar gyfer gwasanaethau ar-lein o dan Ddiben Cyhoeddus 1, er i NMA fynegi pryder nad oedd ein cynigion yn mynd yn ddigon pell.[170]

## Ein penderfyniad

5.17 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu cyffredinol a roddwyd ger bron, er mwyn i BBC Ar-lein orfod darparu newyddion a gwybodaeth ddyddiol i bob cynulleidfa,

[162] Ymateb y NUJ, tudalen 3; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2.
[163] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[164] Ymateb NMA, tudalen 3; ymateb PPA, tudalen 2.
[165] Ymateb PPA, tudalennau 2-3.
[166] Ymateb NMA, tudalen 11.
[167] Ymateb NMA, tudalen 12.
[168] Ymateb National World, tudalen 1.
[169] Ymateb y BBC, tudalen 9; Ymateb Directors UK, tudalen 5; Ymateb NMA, tudalen 3; Ymateb VLV, tudalen 10; Ymateb WGGB, tudalen 3.
[170] Ymateb NMA, tudalen 15.

sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau ac yn gorfod cynnwys newyddion a dadansoddiad manwl.[171] Rydym hefyd wedi cadw'r amod sy'n mynnu bod BBC Ar-lein yn darparu newyddion a gwybodaeth ddyddiol i blant.[172]

5.18 Mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid y gallai ein newidiadau ganiatáu i'r BBC ehangu i 'newyddion ysgafn', rydym yn disgwyl iddo roi sylw i amrywiaeth eang o newyddion o safon uchel ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU a rhyngwladol drwy ei wasanaethau ar-lein. Wrth i gynulleidfaoedd droi fwy a mwy at wasanaethau ar-lein, rydym o'r farn ei bod yn briodol gosod rhwymedigaethau i sicrhau bod y BBC yn hyrwyddo Diben Cyhoeddus 1 ar gyfer y cynulleidfaoedd ar-lein hyn. O fewn hynny, rydym yn credu y gallai fod yn briodol i newyddion ar-lein y BBC gynnwys rhywfaint o gynnwys nodwedd a phrofiadau personol, ond byddem yn poeni pe byddai hynny'n rhan rhy fawr o gymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC. Roedd ein hymchwil ansoddol ar wasanaethau ar-lein y BBC[173] yn awgrymu bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo bod newyddion difrifol yn dominyddu gwefan BBC News, a allai annog rhai pobl i beidio â threulio amser yn pori drwy wefan y BBC.

5.19 O ran yr awgrymiadau y dylem osod canllawiau ar ba gynnwys newyddion y gall BBC Ar-lein ei ddarparu, neu y dylem annog y BBC i ganolbwyntio ar 'newyddion caled' drwy amlinellu'r cynnwys a fyddai'n cyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 1, rydym o'r farn y byddai hyn yn amharu ar benderfyniadau golygyddol y BBC ac y byddai felly'n amhriodol. Ond, mae'n rhaid i wasanaethau'r BBC fod yn unigryw, ac yn y cyd-destun hwnnw dylai'r BBC ystyried, ymysg pethau eraill, sut mae'n darparu newyddion eang a chynhwysfawr.

5.20 Rydym yn anghytuno â sylw NMA am ddidueddrwydd dyladwy. Gan ddibynnu ar ffeithiau pob achos, ac yn unol â'r hawl rhyddid mynegiant, rydym yn cydnabod bod gan y BBC y rhyddid golygyddol i gynnwys sylwebaeth a dadansoddiad fel ffordd o ddiogelu didueddrwydd dyladwy yn ei allbwn newyddion ar-lein.[174] Mae sylwebaeth a dadansoddiad o'r fath yn un adnodd golygyddol ymysg nifer sy'n cynyddu diddordeb a dealltwriaeth cynulleidfaoedd.

5.21 O ran awgrym National World y dylai'r Drwydded sicrhau bod y BBC yn lleihau ei gyfran ar-lein o newyddion lleol, nid ydym ni o'r farn mai'r Drwydded Weithredu yw'r lle i ddelio â phryderon ynghylch cystadleuaeth. Nodwn ein penderfyniad diweddar ar newyddion lleol y BBC.[175] Byddwn yn parhau i adolygu a oes angen i ni ystyried y sector hwn yn fanylach.

5.22 Rydym wedi penderfynu cyflwyno'r gofynion tryloywder arfaethedig i fynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ac unrhyw newidiadau sylweddol, ac wedyn yn adrodd ar y broses

---

[171] Amod 1.2.1 y Drwydded Weithredu.
[172] Amod 1.2.2 y Drwydded Weithredu.
[173] Ofcom, Ymchwil ar Wasanaethau Ar-lein y BBC, Mawrth 2023.
[174] Yn wahanol i gynnwys teledu, radio ac ar-alw y BBC, sy'n gorfod cydymffurfio â'r Cod Darlledu, nid oes gan Ofcom bwerau gorfodi mewn perthynas â deunydd BBC Ar-lein. O dan Drefniant rhwng y BBC ac Ofcom, mae'n rhaid i Ofcom ystyried a rhoi barn, gan gynnwys unrhyw argymhellion sy'n briodol ym marn Ofcom, ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC ar gynnwys y deunydd ar-lein yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae "deunydd ar-lein" yn golygu cynnwys ar wefan ac apiau'r BBC. Mae hyn yn cynnwys testun ysgrifenedig, delweddau, fideos a chynnwys sain. Nid yw'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol, Bitesize, deunydd y BBC ar wefannau trydydd parti na chynnwys World Service, ymysg pethau eraill.
[175] Ofcom, Adolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth newyddion ar-lein lleol yn Lloegr, Rhagfyr 2022.

gyflawni gyda'i Adroddiad Blynyddol. Rydym hefyd wedi gosod gofyniad newydd i'r BBC adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol y mae wedi'u cyhoeddi y tu allan i broses ei Gynllun Blynyddol, gyda'i Adroddiad Blynyddol. Dylai hyn roi mwy o eglurder ynghylch sut mae'r BBC yn darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar BBC Ar-lein.[176]

## BBC Ar-lein: digon o ddolenni

### Yr hyn a ddywedon ni

5.23 Roeddem ni'n cynnig cadw'r amod yn y Drwydded sy'n mynnu bod y BBC yn darparu digon o ddolenni o BBC Ar-lein i ddeunydd ar-lein trydydd parti. Mae'r Cytundeb yn mynnu ein bod yn cynnwys gofyniad o'r fath[177]. Rydym o'r farn y gall cynulleidfaoedd elwa'n sylweddol o allu cael gafael ar amrywiaeth o straeon newyddion o wahanol ffynonellau yn ychwanegol at gynnwys y BBC.

5.24 Roeddem hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder a fydd yn mynnu bod y BBC yn adrodd ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â'r amod uchod, ac a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hynny.

### Sylwadau rhanddeiliaid

5.25 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno y dylem gadw'r amod ar ddarparu digon o ddolenni, ond yn awgrymu newidiadau er mwyn i bethau fod yn fwy eglur a thryloyw.[178] Dywedodd News Broadcasting y dylai'r amod i ddarparu digon o ddolenni fod yn berthnasol i BBC iPlayer a BBC Sounds, nid dim ond i BBC Ar-lein.[179]

5.26 Roedd y term 'digon' yn aneglur yn ôl PPA ac NMA[180], ac roedden nhw'n awgrymu ei ddiffinio fel o leiaf un ddolen trydydd parti[181] ac un ddolen at gyhoeddwr newyddion yn y DU.[182]

5.27 Roedd rhai rhanddeiliaid yn poeni nad yw'r BBC yn priodoli ddigon i ffynonellau trydydd parti[183], gan ddweud y dylai wneud mwy i annog a chyfeirio cynulleidfaoedd at straeon gwreiddiol er budd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a lluosogrwydd yn y cyfryngau.[184] Dywedodd NMA a'r Rhwydwaith Teledu Lleol (LTVN) y dylai'r BBC weithio mewn

---

[176] Amodau 1.17-1.19 y Drwydded Weithredu.
[177] Paragraff 3, Atodlen 2 i'r Cytundeb: Rhaid i Ofcom osod ar y BBC y gofynion y mae Ofcom yn credu sy'n briodol i sicrhau bod digon o ddolenni o BBC Ar-lein sy'n arwain at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon.
[178] Dyma'r elfennau ychwanegol hynny: rhagor o eglurder drwy osod gofynion meintiol; priodoli'n well; cyfeirio at gynnwys ychwanegol; cryfhau partneriaethau; tryloywder; dal y BBC i gyfrif; a gwasanaethau ar-lein. Ymateb News Broadcasting, tudalennau 11-12; Ymateb NMA, tudalennau 13-15; Ymateb NUJ, tudalen 5; Ymateb PPA, tudalennau 3-4.
[179] Ymateb News Broadcasting, tudalen 11.
[180] Ymateb PPA, tudalen 3; Ymateb NMA, tudalen 15.
[181] Ymateb PPA, tudalen 4.
[182] Ymateb NMA, tudalen 15.
[183] Ymateb NUJ, tudalen 5. Ymateb NMA, tudalennau 13-15.
[184] Ymateb NMA, tudalennau 13-15; Ymateb PPA, tudalennau 3-4. Ychwanegodd NMA y dylai'r BBC fod yn defnyddio ei safle blaenllaw ymddangosiadol i gyfeirio cynulleidfaoedd at newyddion lleol trydydd parti yn arbennig. Darparodd ddata dienw gan ei aelodau, er enghraifft dywedodd 'Cyhoeddwr C' mai dim ond 0.06% o gyfanswm eu traffig oedd wedi dod o URLs y BBC dros gyfnod o bum mlynedd. Edrychwch ar Ymateb NMA, tudalennau 9-10 a 15.

partneriaeth a chydweithredu â'r sector masnachol ac eraill sy'n darparu newyddion a gwybodaeth leol, gan gynnwys cryfhau cynlluniau fel y Bartneriaeth Newyddion Lleol.[185]

5.28 Tynnodd NMA a PPA sylw at ddiffyg tryloywder o ran darpariaeth dolenni allanol y BBC, gan awgrymu bod angen i'r BBC adrodd mwy ar hynny, gan gynnwys nifer yr erthyglau a'r gyfran ohonynt sydd â dolenni trydydd parti.[186] Nododd NMA bryderon hefyd ynghylch gallu Ofcom i ddal y BBC i gyfrif am ddarparu digon o ddolenni.[187]

## Ein penderfyniad

5.29 Rydym yn cytuno bod darparu digon o ddolenni'n gallu helpu cynulleidfaoedd i fentro ymhellach na'r straeon gwreiddiol, a chynnig manteision ar gyfer lluosogrwydd yn y cyfryngau drwy gefnogi'r diwydiant newyddion ehangach. Felly, rydym wedi penderfynu gweithredu ein cynigion i gadw'r amod i ddarparu digon o ddolenni a chyflwyno gofyniad tryloywder.[188] Byddwn yn monitro hyn yn y rhaglen newydd ar fonitro perfformiad, fel y nodwyd yn Adran 3.

5.30 Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid nad yw'r term 'digon' yn ddigon eglur. Rydym yn disgwyl i'r dolenni fod yn ddigon i ddarparu gwybodaeth berthnasol, gysylltiedig i gynulleidfaoedd ac i gefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant, gan gynnwys drwy briodoli ffynonellau gwreiddiol straeon pan fydd hynny'n berthnasol. Rydym ar ddeall bod y BBC yn trafod â darparwyr am y ffordd y mae'n cynnwys dolenni ar ei wefan. Mae'r sgyrsiau hynny'n bwysig yn ein barn ni er mwyn sicrhau bod y dolenni'n wirioneddol ddefnyddiol i gynulleidfaoedd, ac yn gallu eu helpu i gael gafael ar gynnwys gan ddarparwyr eraill.

5.31 Nid ydym ni'n credu y byddai'n briodol gosod gofynion meintiol ar nifer y dolenni na'r gyfran o straeon sy'n cynnwys dolenni. Rydym o'r farn na fydd modd priodoli pob stori, ac mai lle'r BBC yw gwneud penderfyniadau golygyddol ynghylch faint o ffynonellau ychwanegol y mae'n darparu dolenni iddynt. Nodwn fod y BBC – fel rhan o'i archwiliad blynyddol – yn rhannu ag Ofcom, yn gyfrinachol, nifer y dolenni a'r gyfran o straeon sy'n cynnwys dolenni. Byddwn yn ystyried hyn ochr yn ochr â gwybodaeth arall a gyflwynir gan y BBC, fel rhan o'n proses fonitro.

5.32 Mae'r BBC wedi datblygu partneriaethau adeiladol â sefydliadau eraill yn y cyfryngau,[189] ac rydym yn ei annog i barhau i gydweithredu felly pan fydd hynny'n briodol, gan ein bod ni o'r farn bod manteision amlwg i gynulleidfaoedd. Byddai'n ddefnyddiol i'r BBC adrodd ar unrhyw gynlluniau a allai fod ganddo i sefydlu neu gryfhau'r partneriaethau hyn. Rydym yn trafod partneriaethau yn Adran 6, gan gyfeirio'n benodol at ddysgu. Rydym hefyd yn

---

[185] Ymateb NMA, tudalen 9. Ymateb LTVN, tudalen 1.
[186] Ymateb NMA, tudalen 15; Cynigiodd PPA y dylai'r BBC adrodd ar y canlynol: nifer y dolenni trydydd parti ym mhob un o erthyglau BBC News ar-lein – fertigol ac isfertigol, a chyfran yr erthyglau a oedd yn cynnwys dolen trydydd parti yn y categorïau hyn; cyfran y dolenni a briodolir i sector penodol yn y cyfryngau; a datganiad ansoddol ynghylch sut mae'r BBC wedi cyflawni amodau'r Drwydded, neu heb eu cyflawni: Ymateb PPA, tudalen 4.
[187] Ymateb NMA, tudalennau 13-14.
[188] Amodau 1.2.3 ac 1.17 y Drwydded Weithredu.
[189] Er enghraifft, mae'r BBC wedi adnewyddu'r Bartneriaeth Newyddion Lleol, sy'n ei gwneud yn bosibl i rannu data a chynnwys rhwng y BBC a darparwyr newyddion lleol. O fis Gorffennaf 2022 ymlaen, roedd 180 o sefydliadau cyfryngau o bob cwr o'r DU yn rhan o'r bartneriaeth, gan gefnogi dros 1000 o straeon a theitlau newyddion. Mae adnewyddu'r Bartneriaeth Newyddion Lleol yn arwydd o ymrwymiad y BBC i gydweithredu â darparwyr newyddion masnachol.

ystyried materion yn ymwneud â phlwraliaeth y cyfryngau newyddion ar-lein yn fwy cyffredinol drwy ein hadolygiad o blwraliaeth y cyfryngau a phrosiect newyddion ar-lein.[190]

5.33 O dan ein gofynion tryloywder newydd, bydd yn rhaid i'r BBC nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni at gynnwys trydydd parti, ac adrodd ar gyflawni'r camau hyn ar yr un pryd â'i Gynllun Blynyddol.[191] Er mwyn bod yn fwy tryloyw, dylai'r BBC egluro sut bydd yn defnyddio gwahanol fathau o ddolenni trydydd parti i ddarparu amrywiaeth ehangach o wybodaeth i ddefnyddwyr. Dylai'r BBC hefyd egluro sut bydd yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld dolenni'n rhwydd.[192] Byddwn yn parhau i drafod â rhanddeiliaid sut gallai'r BBC gefnogi hyn.

5.34 O ran dal y BBC i gyfrif, ers Adolygiad Ofcom o Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn 2019, mae'r BBC wedi gwella'r ffordd y mae'n adrodd ar ddarparu dolenni, a bob blwyddyn ers hynny mae wedi rhannu ag Ofcom ganlyniadau archwiliad blynyddol o'i ddarpariaeth dolenni trydydd parti. Byddwn yn defnyddio archwiliad y BBC a gwybodaeth arall i greu darlun cyflawn o'r dolenni y mae'r BBC yn eu darparu, gan gynnwys dadansoddiad meintiol o leoliadau dolenni allanol.[193]

5.35 O ran awgrym News Broadcasting y dylai'r gofyniad i ddarparu digon o ddolenni fod yn berthnasol i BBC iPlayer a BBC Sounds hefyd, mae ein hamod yn berthnasol i bob rhan o BBC Ar-lein (BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan ac apiau'r BBC). Mae'r gofyniad yn galluogi'r BBC i gynnwys dolenni yn y lleoedd y mae'n teimlo y byddai hynny'n addas, ac nid yw'n mynnu ei fod yn cynnwys dolenni ar bob gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r BBC ddangos ei fod yn cynnwys digon o ddolenni ar ei wefan, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, ac os yw'n gweld bod hyrwyddo cynnwys trydydd parti yn ehangach ar rannau eraill o BBC Ar-lein yn arwain at fanteision i'r gynulleidfa, byddem yn croesawu hynny.

## BBC iPlayer a BBC Sounds

### Ein cynigion

5.36 Ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds, fe wnaethom gynnig cyflwyno amod newydd i fynnu bod y BBC yn diweddaru rhaglenni newyddion yn rheolaidd, ac yn sicrhau bod modd dod o hyd i raglenni newyddion a materion cyfoes yn hwylus. Fe wnaethom hefyd gynnig gosod gofynion tryloywder ar y BBC i ddarparu manylion gyda'i Gynllun Blynyddol ynghylch sut roedd yn bwriadu sicrhau bod modd dod o hyd i'r math hwn o gynnwys yn hwylus, unrhyw

---

[190] Ym mis Tachwedd 2022 fe wnaethom gyhoeddi dogfen drafod a oedd yn amlinellu ein dealltwriaeth o sut mae cyfryngwyr ar-lein yn gweithredu yn ecosystem newyddion y DU. Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu ar y cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon, gan ein bod yn bwriadu datblygu argymhellion ffurfiol i Lywodraeth y DU eu hystyried. I gael rhagor o wybodaeth a diweddariadau am y gwaith hwn, edrychwch ar Ofcom Plwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, Tachwedd 2022.

[191] Amodau 1.17 ac 1.19 y Drwydded Weithredu.

[192] Er enghraifft, byddem eisiau i'r BBC ddisgrifio'r mathau o ffynonellau mae'n credu y mae'n briodol darparu dolenni iddynt, a sut mae'n penderfynu a ddylid darparu dolen i ffynhonnell trydydd parti neu un o ffynonellau'r BBC. Byddem hefyd eisiau deall sut mae'r BBC yn mynd ati i sicrhau bod y dolenni'n weladwy a'i bod yn hawdd i gynulleidfaoedd eu gweld.

[193] Gallai hyn gynnwys y gwahanol fathau o sefydliadau cyfryngau y mae'r BBC yn darparu dolenni iddynt, er enghraifft, p'un a ydynt yn rhai lleol, cenedlaethol neu arbenigol.

newidiadau sylweddol roedd yn bwriadu eu gwneud, a'i fod yn adrodd ar y broses gyflawni gyda'i Adroddiad Blynyddol.

### Sylwadau rhanddeiliaid

5.37 Roedd ymatebion y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi ein hamodau newydd arfaethedig.[194] Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y gwasanaethau hyn fel ffynhonnell newyddion a materion cyfoes, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau, a chytunodd fod angen i'r BBC sicrhau bod modd dod o hyd i'r cynnwys hwn yn fwy hwylus.[195]

5.38 Roedd MG ALBA yn dadlau y dylai'r gofyniad i sicrhau bod modd dod o hyd i gynnwys newyddion a materion cyfoes yn hwylus o dan Ddiben Cyhoeddus 1 gael ei ymestyn er mwyn cynnwys allbwn newyddion Gaeleg BBC ALBA.[196]

### Ein penderfyniad

5.39 Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r amod a fydd yn mynnu bod y BBC yn sicrhau bod modd dod o hyd i raglenni newyddion a materion cyfoes yn hwylus ar BBC iPlayer a BBC Sounds.[197]

5.40 Fel y nodwyd yn Adran 3, rydym yn credu bod dod o hyd i gynnwys yn hwylus yn golygu galluogi cynulleidfaoedd ar-lein i ddod o hyd i gynnwys newydd a phwysig a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw, ac na fydden nhw'n dod ar ei draws fel arall o bosibl. Mae'r gofynion o ran hwylustod cynnwys yn berthnasol i'r holl raglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC iPlayer, gan gynnwys newyddion ar gyfer y gwledydd sy'n cael ei gyd-ddarlledu drwy BBC iPlayer (fel newyddion BBC ALBA). Rydym yn nodi y dylai'r BBC, wrth ymdrin â hwylustod cynnwys, ystyried y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd; er enghraifft, ni fyddem yn disgwyl i newyddion rhanbarthol ar gyfer un ardal fod ar gael yn hwylus i gynulleidfaoedd mewn rhanbarth gwahanol.

5.41 Wrth nodi ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod modd dod o hyd i'r rhaglenni newyddion diweddaraf yn hwylus, byddem yn disgwyl i'r BBC egluro sut mae'n gofalu bod rhaglenni newyddion ar gael yn hwylus i gynulleidfaoedd sy'n llai tebygol o'u gwylio. O ran BBC iPlayer, nodwn fod y BBC wedi dweud y canlynol yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23: "*Byddwn yn mynd ati fwy a mwy i drefnu o amgylch straeon a materion, i helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys perthnasol, ac i wneud yn fawr o gyfleoedd i gyfeirio cynulleidfaoedd newyddion o BBC News at BBC iPlayer.*"[198] Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol; byddem yn disgwyl i'r BBC ddatblygu hyn ymhellach, a hefyd nodi ei gynlluniau ar gyfer BBC Sounds.

---

[194] Ymateb y BBC, tudalen 9; Ymateb NUJ, tudalen 3; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; Ymateb Virgin Media O2, tudalen 5; Ymateb VLV, tudalen 10; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.
[195] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.
[196] Ymateb MG ALBA, tudalennau 1-2.
[197] Amodau 1.3.2 a 1.3.3. y Drwydded Weithredu.
[198] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, tudalen 51.

# Newyddion teledu

## Yr hyn a ddywedon ni

5.42 Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys newyddion a materion cyfoes manwl o safon uchel ar ei wasanaethau teledu sy'n cael ei ddarlledu. Roeddem yn cynnig cadw'r rhan fwyaf o amodau'r Drwydded a oedd yn mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau teledu penodol, ond roeddem wedi cynnig:

- dileu'r amod ar sianel BBC News, fel y trafodwyd yn Adran 4; a
- newid yr amod presennol i eithrio'r BBC rhag dangos newyddion bob dydd yn ystod cyfnod y Nadolig ar CBBC (roedd y Drwydded gyntaf yn mynnu bod y BBC yn dangos newyddion ar CBBC bob dydd).

## Sylwadau rhanddeiliaid

5.43 Roedd chwe rhanddeiliad, gan gynnwys y BBC, yn cytuno â'n cynlluniau i gadw cwotâu ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes ar deledu rhwydwaith.[199]

5.44 O ran CBBC, roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn anghytuno â'n penderfyniad i ganiatáu i'r BBC beidio â darlledu *Newsround* ar deledu sy'n cael ei ddarlledu dros bythefnos y Nadolig. Roedd yn dadlau bod newyddion i blant a phobl ifanc yr un mor bwysig â newyddion i oedolion, ac felly y dylid parhau i gynnig rhywfaint o ddarpariaeth darlledu, hyd yn oed os yw'n fyrrach. Dywedodd y byddai cynnig *Newsround* ar wefan y BBC hefyd yn arbennig o bwysig o ran ymgysylltu â phobl ifanc, gan eu bod yn fwy tebygol o gael dyfeisiau newydd yn anrhegion yn ystod y cyfnod hwn.[200]

## Ein penderfyniad

5.45 Rydym wedi penderfynu cadw holl amodau'r Drwydded gyntaf sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau teledu penodol, gyda rhai diwygiadau sydd wedi'u nodi isod.[201]

5.46 Fel y trafodwyd yn Adran 4, rydym wedi penderfynu cadw amod sy'n ymwneud â sianel BBC News.[202]

5.47 Rydym wedi adolygu pryderon Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ynghylch CBBC. Ein cynnig ni oedd ffurfioli dull gweithredu presennol y BBC, sy'n adlewyrchu ei ddealltwriaeth o newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd dros gyfnod y Nadolig. Rydym wedi derbyn cais y BBC yn y gorffennol i beidio â darlledu *Newsround* dros gyfnod y Nadolig, yn sgil y newidiadau hyn mewn ymddygiad gwylio ymysg cynulleidfaoedd. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn cyd-fynd ag amodau newyddion eraill. Felly, rydym wedi penderfynu diwygio'r amod yn y Drwydded gyntaf er mwyn eithrio'r BBC rhag dangos newyddion ar CBBC bob dydd yn ystod cyfnod y Nadolig, a fydd yn caniatáu i'r BBC wneud newidiadau i

---

[199] Ymateb y BBC, tudalen 8; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 10; Ymateb NUJ, tudalen 3; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 3; Ymateb VLV, tudalen 10.
[200] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 4.
[201] Amodau 1.4-1.8 y Drwydded Weithredu.
[202] Amod 1.8 y Drwydded Weithredu.

amserlen newyddion CBBC heb orfod dod atom ni'n gyntaf.[203] Rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu cynnwys newyddion i blant ar ei wefan.

5.48 O ran tryloywder ac adrodd, rydym yn nodi bod y BBC, mewn blynyddoedd a fu, wedi cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ei gynlluniau ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu (a gwasanaethau radio) yn ei Gynllun Blynyddol, ac fel y trafodwyd yn Adran 3, rydym yn credu ei bod yn ddefnyddiol iddo barhau i wneud hynny. Mae hefyd wedi mynd ati fel arfer i nodi gwybodaeth ddefnyddiol am y mathau o fformatau y bydd yn eu defnyddio i ddarparu newyddion a materion cyfoes, yn ogystal â'i gynlluniau yn ôl gwasanaethau a llwyfan, gyda gwybodaeth am oriau arfaethedig yr allbwn ar draws ei wasanaethau.

# Newyddion radio

## Gwneud cwotâu newyddion radio yn rhai blynyddol

### Yr hyn a ddywedon ni

5.49 Roeddem yn cynnig diwygio'r cwotâu yn Niben Cyhoeddus 1 sy'n mynnu bod y BBC yn darparu lefel benodol o newyddion a materion cyfoes bob dydd neu wythnos, er mwyn iddynt fod yn berthnasol dros y flwyddyn yn lle hynny.[204] Roeddem yn cynnig defnyddio'r un dull gweithredu ar gyfer cwotâu wythnosol newyddion radio'r gwledydd a'r rhanbarthau yn Niben Cyhoeddus 4.[205] Er mwyn bod yn gyson, roeddem hefyd yn cynnig newid y cwotâu wythnosol eraill yn y Drwydded nad ydynt yn ymwneud â newyddion er mwyn iddynt fod yn berthnasol dros y flwyddyn. Byddai hyn yn effeithio ar y cwotâu rhaglenni gwreiddiol a wneir yn lleol ar gyfer radio lleol y BBC yn Niben Cyhoeddus 4 a'r cwota cerddoriaeth arbenigol wythnosol ar gyfer BBC Radio 1 yn Niben Cyhoeddus 3, sy'n cael eu trafod mewn adrannau ar wahân.

5.50 Wrth symud i gwotâu blynyddol, roeddem yn cydnabod bod risg bosibl y byddai'r BBC yn darparu newyddion yn llai aml. I leihau'r risg hon, roeddem yn cynnig cyflwyno amodau ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol i ddarparu bwletinau newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd. Mae'r BBC wedi dweud wrthym nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i newid ei allbwn newyddion ar y gorsafoedd radio rhwydwaith yr effeithir arnynt, ac rydym yn disgwyl iddo barhau â'i ddarpariaeth bresennol.

5.51 Felly, roeddem yn cynnig cyflwyno lefelau cwota blynyddol sy'n adlewyrchu faint o gynnwys y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu dros flwyddyn ar hyn o bryd. Fe wnaethom nodi ein cyfrifiadau ar gyfer cwotâu blynyddol yn fanwl yn ein hymgynghoriad.

---

[203] Amod 1.7.1 y Drwydded Weithredu.
[204] Roedd hyn yn golygu newid y cwotâu ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra, BBC Radio 2, BBC 6 Music a BBC Asian Network.
[205] Byddai hyn yn effeithio ar yr amodau ar gyfer BBC Radio Scotland, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.

### Sylwadau rhanddeiliaid

5.52 Roedd y BBC yn croesawu ein cynigion i wneud y cwota newyddion radio yn un blynyddol, gan ddweud ei fod yn cynrychioli newid cwbl weinyddol a fyddai'n helpu i leihau'r baich o ran adnoddau a chostau ar y BBC.[206]

5.53 Mynegodd rhanddeiliaid eraill bryder y byddai gwneud y cwotâu dyddiol ac wythnosol blaenorol ar gyfer newyddion ar wasanaethau radio'r BBC yn gwotâu blynyddol yn gallu arwain at leihau amlder y bwletinau.[207] Rhybuddiodd News Broadcasting, VLV ac NUJ y byddai modd bodloni cwotâu blynyddol drwy roi sylw anghymesur i 'ddigwyddiadau newyddion mawr' drwy gydol y flwyddyn, ac roedd Radiocentre yn dadlau y gallai cwotâu blynyddol arwain yn anfwriadol at leihau lefel gyffredinol y newyddion a'r wybodaeth a roddir i gynulleidfaoedd.[208] Pwysleisiodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon bwysigrwydd amodau arfaethedig y Drwydded a oedd yn galw am fwletinau achlysurol drwy gydol y dydd er mwyn lleihau'r risg hon.[209]

5.54 Roedd Global a Radiocentre yn dadlau y byddai gwneud cwotâu newyddion yn rhai blynyddol yn golygu bod darparwyr radio masnachol yn gaeth i reolau llymach na'r BBC i bob pwrpas, a oedd yn anghymesur yn eu barn nhw.[210] Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddarlledwyr radio masnachol lleol ddarparu cynnwys newyddion bob awr neu'n rheolaidd o dan y canllawiau lleolrwydd. Yn ôl Global, pe na bai'r rheolau cysylltiedig ar gyfer radio masnachol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r rheolau a gynigir ar gyfer y BBC, byddai hyn yn gadael Ofcom yn agored i her gyfreithiol.

5.55 Roedd yr un rhanddeiliaid hyn yn dadlau nad oedd cynnig Ofcom i fynnu bod y BBC yn darparu newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd yn ddigon i leihau'r risg o leihau amlder bwletinau newyddion. Er enghraifft, dywedodd Global y gellid bodloni'r amod arfaethedig hwn yn y Drwydded *"drwy ddarparu dim ond dau fwletin newyddion hir bob dydd (er enghraifft, un yn hwyr y nos ac un yn gynnar yn y bore) – byddai hyn yn cyflawni'r rhwymedigaeth newydd, wannach hon."*[211]

### Ein penderfyniad

5.56 Rydym wedi penderfynu gwneud cwotâu radio'r BBC yn rhai blynyddol.[212]

5.57 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, mae'r BBC wedi dweud wrthym ei bod yn aneffeithlon ac yn feichus gorfod monitro ac adrodd ar amodau dyddiol ac wythnosol. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn gallu gwneud cais ysgrifenedig i atal amodau wythnosol/dyddiol am gyfnod penodol, mewn amgylchiadau lle gallai fod yn briodol gwneud hynny – fel arfer mae'n cyflwyno cais bob blwyddyn i atal amodau dros gyfnod y

---

[206] Ymateb BBC, tudalen 8.
[207] Ymateb Global, tudalennau 4-5; Ymateb News Broadcasting, tudalen 10; Ymateb Radiocentre, tudalennau 10-11; Ymateb NUJ, tudalen 4.
[208] Ymateb Radiocentre, tudalen 11.
[209] Ymateb ACNI, tudalen 4.
[210] Ymateb Radiocentre, tudalen 11; Ymateb Global, tudalen 5.
[211] Ymateb Global, tudalen 4.
[212] Amodau 1.9-1.16 y Drwydded Weithredu.

Nadolig. Bydd cwotâu blynyddol yn golygu na fydd angen i'r BBC wneud y ceisiadau hyn mwyach, ac na fydd rhaid i Ofcom eu prosesu.

5.58 Rydym wedi gwneud newid i'r Drwydded Weithredu newydd. Mewn perthynas â'r amodau yn y Drwydded Weithredu arfaethedig,[213] byddwn yn disodli'r testun canlynol: "*ei fod yn darparu bwletinau newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd*", gyda'r testun hwn: "*ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn achlysurol drwy gydol y dydd*." Mae'r newid hwn yn egluro y bydd yn rhaid i'r BBC barhau i ddarparu bwletinau newyddion yn rheolaidd ac yn achlysurol ar wasanaethau radio cyhoeddus perthnasol yn y DU. Rydym yn disgwyl iddo barhau i ddarparu bwletinau fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r diwygiad hwn hefyd yn golygu na all y BBC gydymffurfio â'i ofynion rheoleiddio drwy ddibynnu ar ddigwyddiadau newyddion mawr, gan y bydd yn rhaid iddo ddarparu newyddion rheolaidd yn achlysurol drwy gydol y dydd, bob dydd o'r flwyddyn.

5.59 Yn ein barn ni, mae amod diwygiedig y Drwydded yn gam cymesur i ddiogelu'r broses o ddarparu cynnwys newyddion rheolaidd i gynulleidfaoedd radio. Byddwn yn adolygu cydymffurfiad y BBC â'r gofyniad hwn, ac os bydd y BBC yn newid y ffordd y mae'n ymdrin â bwletinau newyddion achlysurol a rheolaidd, byddem yn camu i mewn heb oedi er mwyn ymgynghori ar ailgyflwyno cwotâu dyddiol/wythnosol.

5.60 Rydym yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi dweud y dylem wneud newidiadau cyfatebol i'r gofynion newyddion ar gyfer radio masnachol os bydd Ofcom yn mynd ati i wneud cwotâu radio'r BBC yn rhai blynyddol. Mae hyn y tu hwnt i ffiniau'r adolygiad hwn.[214]

## Cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio 5 Live

### Yr hyn a ddywedon ni

5.61 Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad ym mis Mehefin, gofynnodd y BBC am gael gostwng lefel y cynnwys newyddion a materion cyfoes y mae'n rhaid iddo ei darparu ar BBC Radio 5 Live. Dywedodd y byddai mwy o allbwn chwaraeon yn ei alluogi i ymateb i ddymuniadau cynulleidfaoedd, a'i helpu i gyrraedd dynion iau a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cystal gan y BBC yn gyffredinol. Dywedodd hefyd y gallai fod yn fwy uchelgeisiol o ran ei ymrwymiad i roi sylw i ystod ehangach o chwaraeon.

5.62 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roeddem yn cynnig gostwng lefel cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio 5 Live o 75% i 70%.

### Sylwadau rhanddeiliaid

5.63 Roedd y BBC yn croesawu'r cynnig[215], ac roedd y VLV yn cytuno ag asesiad dros dro Ofcom, a oedd o'r farn y gallai'r newid fod o fudd i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.[216]

---

[213] Amodau'r drwydded 1.8.3, 1.9.3, 1.10.2, 1.11, 1.14.2 a 1.15.2 yn y Drwydded Weithredu arfaethedig.
[214] Mae'r ddarpariaeth newyddion ar radio masnachol lleol yn cael ei rheoleiddio o dan fframwaith ar wahân a nodwyd yn Neddf Darlledu 1990 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.
[215] Ymateb BBC, tudalennau 2-3.
[216] Ymateb VLV, tudalen 3.

5.64 Roedd NUJ yn cydnabod gwerth cynyddu'r cynnwys chwaraeon, ond yn dadlau na ddylai hynny fod ar draul newyddion.[217] Roedd News Broadcasting yn dadlau y byddai lleihau'r sylw a roddir i newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live yn effeithio ar y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Awgrymodd y gallai'r BBC apelio i'r cynulleidfaoedd hyn mewn ffyrdd gwahanol, fel agor y drws ar BBC Sounds i sefydliadau trydydd parti sydd â pherthynas dda â nhw ar hyn o bryd.[218]

5.65 Roedd Radiocentre a News Broadcasting yn dadlau y gallai'r newid fod yn fwy sylweddol na'r hyn a ddisgrifiwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr, gan fod 5% o newid yn y cwota yn cynrychioli 20% o gynnydd mewn oriau chwaraeon a ganiateir.[219] Soniodd News Broadcasting hefyd am y diffyg manylder yng nghynigion y BBC, gan gynnwys ynghylch ble byddai'r newidiadau hynny'n digwydd yn yr amserlen a'r rhesymeg y tu ôl iddynt, a oedd yn ei gwneud yn anodd rhagweld yr effaith yn llawn.[220]

5.66 Roedd Radiocentre a News Broadcasting yn dadlau y byddai'r BBC, yn hytrach na defnyddio'r allbwn chwaraeon ychwanegol hwn i roi sylw i chwaraeon sy'n cael eu tangynrychioli, yn rhoi mwy o sylw fwy na thebyg i'r chwaraeon uchaf eu proffil sy'n apelio i gynulleidfaoedd iau a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, fel pêl-droed a bocsio.[221] Dywedodd News Broadcasting fod y BBC eisoes yn cynnig y cynnwys y dywedodd fod angen newid y cwota ar ei gyfer, sef i gwmpasu ystod ehangach o chwaraeon, mwy o ddarllediadau cofleidiol o gemau byw, digwyddiadau chwaraeon allweddol a phodlediadau chwaraeon. Roedd yn dadlau na fyddai'r newid yn gwneud BBC Radio 5 Live yn fwy unigryw.[222] Roedd Radiocentre yn annog Ofcom i adolygu sut mae'r BBC yn defnyddio'r hyblygrwydd hwn i sicrhau ei fod yn unigryw ac i hyrwyddo darllediadau o chwaraeon mwy ymylol.[223]

5.67 Awgrymodd News Broadcasting hefyd, o ystyried y lefelau gwrando isel yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau, fod newidiadau arfaethedig y BBC yn debygol o dynnu gwrandawyr oddi wrth talkSPORT yn hytrach na denu cynulleidfaoedd newydd i radio chwaraeon, a allai arwain at golli incwm.[224]

5.68 Hefyd, roedd News Broadcasting yn dadlau y gallai mwy o gystadleuaeth gynyddu costau ar gyfer hawliau chwaraeon masnachol allweddol, a allai wasgu allan weithredwyr masnachol, ac roedd yn galw am gyfyngiadau ar allu'r BBC i gael hawliau ecsgliwsif ar sail y gwerth cyhoeddus a'r effaith ar y farchnad y mae'n eu cynrychioli.[225] Cyflwynodd News Broadcasting ddadansoddiad hefyd i ddadlau bod gan y BBC ddigon o hyblygrwydd yn barod i ddarparu cynnwys chwaraeon a gwaith modelu i ddangos effeithiau posibl y cynnig ar gystadleuaeth.

[217] Ymateb NUJ, tudalen 1.
[218] Ymateb News Broadcasting, tudalen 3.
[219] Ymateb Radiocentre, tudalennau 1-2; Ymateb News Broadcasting, tudalennau 2-3.
[220] Ymateb News Broadcasting, tudalen 4.
[221] Ymateb Radiocentre, tudalen 1; Ymateb News Broadcasting, tudalennau 2-3.
[222] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 7-9.
[223] Ymateb Radiocentre, tudalen 2.
[224] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 2 a 5-6.
[225] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 2 a 10.

## Ein penderfyniad

5.69 Yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar y BBC, fe wnaethom ddweud bod rhaid iddo wneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan fod hynny'n rhan o gylch gwaith y BBC, ac oherwydd bod sicrhau cysylltiadau â phob cynulleidfa yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol. Rydym wedi penderfynu lleihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live gan ein bod ni'n credu y bydd hyn yn helpu'r BBC i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gael effaith gyfyngedig ar ddarparwyr masnachol am y rhesymau isod.[226]

5.70 Rydym yn cydnabod y gall y BBC ddewis defnyddio ei hyblygrwydd ychwanegol i ddarparu ar gyfer chwaraeon uchel eu proffil. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai'n briodol cyfyngu ar sut gall y BBC ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn, gan y gallai hyn gyfyngu ar ei allu i gyrraedd a gwasanaethu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, sef y prif reswm pam y gofynnodd y BBC am newid i'r cwota.

5.71 O ran yr effaith ar gystadleuaeth, rydym yn nodi bod y cwmpas ar gyfer newid y mae'r gostyngiad yn y cwota yn caniatáu ar ei gyfer yn gymharol gyfyngedig. Mae'n golygu cynnydd o 8 awr mewn cynnwys chwaraeon bob wythnos ar y mwyaf, gan gyfyngu ar y tebygolrwydd bod y BBC yn denu nifer sylweddol o wrandawyr o orsafoedd radio eraill. Hefyd, mae'r BBC wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu cynyddu cyllidebau hawliau chwaraeon sain na dilyn hawliau gwerth uchel ychwanegol oherwydd y newid hwn.[227] Rydym hefyd wedi adolygu'r gwaith modelu a ddarparwyd gan News Broadcasting. Yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod ein newidiadau'n debygol o arwain at effaith sylweddol ar gystadleuaeth. Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw effaith wirioneddol ar gystadleuaeth yn dibynnu ar beth yn union mae'r BBC yn penderfynu ei wneud, o ran newidiadau i'r sylw a roddir i gynnwys chwaraeon ar BBC Radio 5 Live ac unrhyw newidiadau i'r broses o brynu hawliau chwaraeon. Byddwn yn monitro dull gweithredu'r BBC, yn enwedig unrhyw newidiadau i'r broses o gaffael hawliau chwaraeon, wrth symud ymlaen. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 3, os yw'r BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol, bydd angen ystyried hyn o dan y fframwaith cystadleuaeth presennol.

5.72 O ran natur unigryw BBC Radio 5 Live, hyd yn oed gydag allbwn o 70% o newyddion a 30% o chwaraeon, rydym yn credu y bydd y gwasanaeth yn dal yn wahanol iawn i orsafoedd chwaraeon radio eraill. Rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu amrywiaeth eang o ddarllediadau chwaraeon, gan gynnwys chwaraeon mwy ymylol. Bydd cyrraedd dynion iau a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is hefyd yn cynyddu amrywiaeth y cynulleidfaoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan BBC Radio 5 Live, gan gyfrannu at ei natur unigryw yn unol â'r diffiniad yn Atodlen 2 y Cytundeb.[228] Yn unol â'n gofynion tryloywder newydd a phryderon rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu monitro amrywiaeth a nifer y chwaraeon y mae'r BBC yn darparu sylwebaeth fyw ar eu cyfer. Rydym hefyd yn cael gwybodaeth am y mathau o gynnwys a gynigir, ac am faint a chyfansoddiad cynulleidfa'r orsaf.

---

[226] Amod 1.14.1 y Drwydded Weithredu.
[227] Ymateb BBC, tudalen 22.
[228] Atodlen 2, paragraff 1.(2)(e) y Cytundeb.

## Mesur perfformiad

5.73 Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio nifer o fesurau i asesu perfformiad y BBC yn erbyn Diben Cyhoeddus 1. Mae hyn yn cynnwys siarad â chynulleidfaoedd ar draws y DU i ddeall eu barn am allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC a gofyn amrywiaeth o gwestiynau iddynt, gan gynnwys rhai ynglŷn â chywirdeb, ymddiriedaeth a didueddrwydd. Rydym hefyd yn edrych ar y cynnwys newyddion a materion cyfoes sydd ar gael, a sut a pha gynulleidfaoedd sy'n gwylio ac yn gwrando ar y cynnwys hwn. Pan fydd yn berthnasol, rydym yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill; er enghraifft, yn ddiweddar lansiwyd adolygiad cynulleidfa ar y BBC a fydd yn cynnwys darpariaeth newyddion[229] a byddwn yn comisiynu ymchwil i newyddion a gwybodaeth leol.

5.74 Rydym yn nodi bod Radiocentre a'r VLV yn cwestiynu sut byddem yn mesur perfformiad y BBC o ran sicrhau bod cynnwys newyddion a materion cyfoes ar gael yn hwylus.[230] Fel y nodwyd yn Adran 3, mae hwylustod cynnwys yn elfen newydd o'n gwaith i reoleiddio'r BBC; rydym yn datblygu ein dull mesur, a byddwn yn defnyddio ein gwaith ymgysylltu â chynulleidfaoedd, y BBC a darlledwyr eraill. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth y mae'r BBC yn ei darparu gyda'i Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol.

[229] Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC: Cylch Gorchwyl (ofcom.org.uk).
[230] Ymateb Radiocentre, tudalen 11, Ymateb VLV, tudalen 10.

# 6. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 2

## Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

### Crynodeb o'n dull gweithredu ar gyfer Diben Cyhoeddus 2

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i gynigion ein hymgynghoriad, dyma'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud:

**Gosod gofynion ynghylch pa gynnwys a gwasanaethau y dylai'r BBC eu darparu**

- Rydym wedi cyflwyno gofynion i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n hwyluso ac yn annog dysgu anffurfiol i oedolion a phlant o bob oed, a'i gwneud yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwnnw. Mae'r rhain yn berthnasol i deledu, radio a gwasanaethau ar-lein y BBC (yn cynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds).
- Rydym wedi cadw gofynion sy'n ymwneud â darparu cynnwys sy'n cefnogi plant yn eu dysgu ffurfiol, gan gynnwys CBeebies a BBC Ar-lein.

**Cyflwyno gofynion tryloywder newydd**

- Rydym wedi cyflwyno gofynion tryloywder newydd sy'n mynnu bod y BBC yn cyhoeddi, ar yr un pryd â'i Gynllun Blynyddol, ei gynlluniau ar gyfer darparu cynnwys dysgu anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud, a'i fod yn adrodd ar y cynlluniau hynny o fewn pythefnos i gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol.

## Cyflwyniad

### Cefndir a chynigion ein hymgynghoriad

6.1 Mae Diben Cyhoeddus 2 yn mynnu bod y BBC yn cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:

> "Dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant."
> *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

6.2 Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn cynnwys amcanion lefel uchel i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu sy'n helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau a dysgu, gan gynnwys drwy bartneriaethau â sefydliadau addysgol, diwylliannol a chwaraeon.[231]

[231] Rydym wedi rhannu cynnwys dysgu yn ddau gategori – 'dysgu ffurfiol', sy'n cael ei ddarparu'n bennaf ar gyfer plant ac mae'n gallu bod yn gysylltiedig â chwricwlwm yr ysgol, a 'dysgu anffurfiol.' Mae'r ail yn cyfeirio at wybodaeth a sgiliau sy'n cael eu hennill y tu allan i gyd-destun addysgol ac mae'n cynnwys creu cyfleoedd ac annog cynulleidfaoedd i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol fel celf, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth a natur.

6.3 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, fe wnaethom ddweud yn gyffredinol bod yr amodau yn ein Trwydded Weithredu gyntaf yn cyflawni canlyniadau da o ran dysgu. Yn ôl ein hymchwil, er enghraifft, mae rhieni a phlant yn ymddiried yn y cynnwys addysgol a ddarperir gan y BBC.[232] Roeddem am i'r BBC barhau i sicrhau canlyniadau da, ond roeddem hefyd o'r farn y gellid cryfhau rhai agweddau ar y Drwydded gyntaf, gan gynnwys tryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn cefnogi dysgu ar gyfer pob cynulleidfa, a sut mae'n defnyddio ei wasanaethau ar-lein i hwyluso dysgu. Roeddem am i'r BBC sicrhau bod ei allbwn dysgu yn gallu chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi cynulleidfaoedd yn eu haddysg ledled y DU.

6.4 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem wedi nodi cynigion i wneud y canlynol:

- cadw'r gofynion sy'n ymwneud â darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu plant;
- cyflwyno gofynion newydd i'r BBC ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion ac i blant o bob oed ar draws ei wasanaethau a sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn;
- cyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau i gefnogi dysgu, ac adrodd ar ganlyniad y cynlluniau hynny.

## Ymatebion rhanddeiliaid a'n penderfyniadau

6.5 Yng ngweddill yr adran hon, fe wnaethom nodi safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion yn fanwl ac ymateb i'r pwyntiau a wnaed gyda'n penderfyniadau. Rydym yn rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- dysgu ffurfiol ac anffurfiol; a
- phartneriaethau.

## Dysgu ffurfiol ac anffurfiol

### Yr hyn a ddywedon ni

6.6 Yn gyffredinol, roeddem wedi dweud bod amodau'r Drwydded gyntaf wedi sicrhau canlyniadau da o ran dysgu, ac felly roeddem yn cynnig cadw'r gofynion sy'n ymwneud â darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu ffurfiol plant.[233] Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r BBC wneud mwy i adrodd ar ddarpariaeth ac effaith ei gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion.[234]

6.7 Felly, gwnaethom gynnig amodau newydd i'r BBC ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion ac i blant o bob oed ar draws ei wasanaethau, a sicrhau ei bod yn hawdd dod o

[232] Ymchwil Ofcom: Archwilio disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn yr amgylchedd cyfryngau presennol, 2021, tudalen 24.
[233] Dyma'r gofynion a gedwir i gefnogi dysgu ffurfiol plant: mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn eu harddegau i ddysgu'n ffurfiol ym mhob rhan o'r DU; ac, mewn perthynas â CBeebies, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o gynnwys sy'n cefnogi dysgu plant cyn oed ysgol bob blwyddyn ariannol.
[234] Yn ein hadroddiad 2020/21 ar y BBC (tudalennau 37-38) fe wnaethom nodi y gallai'r BBC wneud mwy yn ei adroddiad ar gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion. Yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf (tudalennau 24-26), fe wnaethom nodi rhywfaint o welliant gan y BBC o ran adrodd yn y maes hwn, ac fe wnaethom ailadrodd pa mor bwysig yw rôl y BBC fel darparwr dibynadwy o gynnwys dysgu anffurfiol.

hyd i'w gynnwys dysgu ar-lein. Roeddem yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau i gyflawni'r amodau hyn.

6.8 Roedd yr amodau newydd hyn yn sail i'r amcanion newydd roeddem wedi'u cynnig i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu, a sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn.

6.9 Roeddem hefyd yn cynnig symud gofynion mewn perthynas â genres, rhaglenni dogfen a chynnwys cerddoriaeth BBC Radio 3 o Ddiben Cyhoeddus 2 i Ddiben Cyhoeddus 3. Y rheswm am hyn yw oherwydd ein bod yn ystyried bod yr amodau hyn yn elfennau pwysig i sicrhau natur unigryw (ac y byddent yn parhau i gyfrannu at ddarpariaeth y BBC o gynnwys dysgu i gynulleidfaoedd).

### Sylwadau rhanddeiliaid

6.10 Roedd y BBC a Llywodraeth yr Alban yn cefnogi ein cynnig i gadw'r gofynion ar gyfer cynnwys dysgu ffurfiol i blant.[235] Roedd nifer o randdeiliaid hefyd yn cytuno â'r amodau newydd roeddem yn eu cynnig ynghylch darparu dysgu anffurfiol i gynulleidfaoedd o bob oed.[236] Rhybuddiodd Llywodraeth Cymru rhag caniatáu i'r ffocws ar graffu ac adrodd gael ei dynnu oddi wrth gynnwys ar gyfer plant ac oedolion iau.[237] Dywedodd ITV nad yw'r amcanion arfaethedig ar gyfer Diben Cyhoeddus 2 yn cynnig digon o arweiniad ynghylch beth mae 'da' yn ei olygu.[238]

6.11 Roedd Radiocentre yn cydnabod bod gwasanaethau radio yn dod o dan ofyniad cyffredinol i gefnogi dysgu i bob oed ond yn cwestiynu pam nad yw'r Drwydded newydd arfaethedig yn cynnwys amodau penodol ar radio i gefnogi hyn, yn enwedig mewn perthynas â BBC Radio 1 a BBC Radio 2 a oedd yn arfer cynnwys cwotâu ar nifer y rhaglenni dogfen, rhaglenni celfyddydau ac allbwn crefyddol.[239]

6.12 Mynegodd pump rhanddeiliad gefnogaeth i'r gofynion tryloywder newydd, gan gynnwys i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni a sut bydd yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn.[240]

6.13 Mynegodd WGGB gefnogaeth i'n cynnig i symud monitro genres o Ddiben Cyhoeddus 2 i Ddiben Cyhoeddus 3 ar yr amod na fydd yn arwain at unrhyw ostyngiad yn lefel y craffu ar ddarpariaeth y BBC.[241]

---

[235] Ymateb y BBC, tudalen 10; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2.
[236] Ymateb y BBC, tudalen 10; ymateb BFI, tudalen 2; ymateb WGGB, tudalen 2; ymateb VLV, tudalen 11; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[237] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[238] Ymateb ITV, tudalen 4.
[239] Ymateb Radiocentre, tudalen 13.
[240] Ymateb y BBC, tudalen 10; ymateb VLV, tudalen 11; ymateb WGGB, tudalen 2; ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 2; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4.
[241] Ymateb WGGB, tudalen 2.

## Ein penderfyniad

6.14 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r amod newydd a gynigiwyd gennym ym mis Mehefin ar ddysgu anffurfiol ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed.[242]

6.15 Rydym wedi cadw'r amodau sy'n mynnu bod y BBC, yng nghyswllt BBC Ar-lein, yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau ym mhob rhan o'r DU, a'r amod i ddarparu amrywiaeth o gynnwys i gefnogi dysgu plant cyn oed ysgol ar CBeebies.[243] Rydym o'r farn y bydd yr amodau hyn, ynghyd â gofynion tryloywder,[244] yn rhoi eglurder ac yn caniatáu craffu ar ddarpariaeth y BBC o gynnwys dysgu i blant. Rydym hefyd wedi cyflwyno amod i'r BBC sicrhau bod modd dod o hyd i'w gynnwys dysgu anffurfiol ar-lein yn hwylus.[245] Rydym wedi trafod ein disgwyliadau o ran hwylustod yn Adran 3.

6.16 Rydym wedi cyflwyno rhwymedigaethau tryloywder sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i gyflawni pob un o'r amodau Trwydded hyn ac yn adrodd yn eu herbyn, gan nodi cefnogaeth rhanddeiliaid. Mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn adrodd gyda'i Gynllun Blynyddol, ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds, ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i sut mae'n bodloni amodau ei Drwydded ar draws ei wasanaethau.[246] Yna, mae'n rhaid i'r BBC adrodd yn eu herbyn gyda'i Adroddiad Blynyddol.[247] Ar ben hynny, bydd rhaid i'r BBC gyhoeddi manylion unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn ystod y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, a chyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.[248]

6.17 Yn unol â'r amod sy'n mynnu bod y BBC yn sicrhau ei fod yn darparu cynnwys dysgu anffurfiol sy'n helpu pobl o bob oed i ddysgu ar draws ei wasanaethau, rydym yn disgwyl i'r BBC egluro ehangder y genres a fydd yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu anffurfiol ac i egluro sut mae'r cynnwys ar ei wefan a'i apiau ac ar BBC Sounds yn cefnogi dysgu. Gallai'r BBC hefyd ddymuno nodi, er enghraifft, sut mae ei raglenni newyddion, rhaglenni o'r gwledydd a'r rhanbarthau, a rhaglenni ieithoedd brodorol, yn cefnogi dysgu.

6.18 I ategu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y gofynion tryloywder, rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i nodi ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau teledu a radio presennol sy'n cael eu darlledu yn ei Gynllun Blynyddol fel y mae ar hyn o bryd, gan gyfeirio at y gwelliannau roeddem wedi'u trafod yn Adran 3. Er enghraifft, mae'r BBC wedi nodi faint o allbwn dysgu y mae'n bwriadu ei ddarparu, gan gynnwys newidiadau i allbwn.[249] Mae'r BBC hefyd wedi

[242] Amod 2.2 y Drwydded Weithredu.
[243] Amodau 2.4-2.5 y Drwydded Weithredu.
[244] Amodau 2.6-2.8 y Drwydded Weithredu.
[245] Amod 2.3 y Drwydded Weithredu.
[246] Amod 2.6 y Drwydded Weithredu. Yn yr un modd â'r Dibenion Cyhoeddus eraill, mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn adrodd gyda'i Gynllun Blynyddol, ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds, ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i sut mae'n bodloni amodau ei Drwydded ar draws ei wasanaethau.
[247] Amod 2.8 y Drwydded Weithredu. Ar gyfer ei Adroddiad Blynyddol, ochr yn ochr ag adrodd ar y gofynion o ran tryloywder, rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i nodi'r defnydd o'i ddarpariaeth addysgol a dysgu yn ôl gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant fel y bo'n briodol. Er enghraifft, yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf, darparodd y BBC ddata o ddefnydd plant 0-6 oed a 7-12 oed o gynnwys Plant ac Addysg y BBC, ac ar gyfer BBC Bitesize. Roedd hefyd yn adrodd ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o gynnwys dysgu. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, tudalennau 170-171.
[248] Amod 2.7 y Drwydded Weithredu.
[249] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, tudalennau 54-59.

nodi o'r blaen sut bydd ei raglenni ehangach yn darparu dysgu anffurfiol; er enghraifft, nododd *"Byddwn yn darlledu o leiaf 675 awr o raglenni Ffeithiol ar CBBC i helpu plant i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Eleni, bydd CBBC yn darparu cyfresi newydd o'n teitlau ffeithiol mwyaf llwyddiannus fel Operation Ouch, My Life, Horrible Histories, a Blue Peter, yn ogystal â bwletinau dyddiol Newsround a dau Newsround Specials. Bydd CBBC hefyd yn lansio teitlau ffeithiol gwreiddiol newydd, Deadly Preaders a Football Academy."*[250]

6.19 Rydym hefyd wedi symud gofynion mewn perthynas â genres, rhaglenni dogfen a chynnwys cerddoriaeth BBC Radio 3 o Ddiben Cyhoeddus 2 i Ddiben Cyhoeddus 3.[251] Rydym yn parhau i ddisgwyl i gynnwys mewn amrywiaeth o genres a phynciau gefnogi dysgu anffurfiol. Mae rhagor o wybodaeth am yr amodau a'r gofynion tryloywder rydym yn eu rhoi ar waith o dan Ddiben Cyhoeddus 3 ar gael yn Adran 7.

## Partneriaethau

### Yr hyn a ddywedon ni

6.20 Mae ymgysylltu â sefydliadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol yn rhan bwysig o Ddiben Cyhoeddus 2 ac roedd yn cael ei amlygu yn amcanion y Drwydded gyntaf. Fe wnaethom nodi pryderon rhanddeiliaid bod gweithio mewn partneriaeth â'r BBC yn gallu bod yn anodd a bod diffyg tryloywder. Roeddem yn cynnig monitro sut roedd y BBC yn ymgysylltu â phartneriaid i ddatblygu ei ddarpariaeth ddysgu, o ystyried nad oedd y BBC wedi adrodd ar ei strategaeth bartneriaeth nac effeithiolrwydd.

### Sylwadau rhanddeiliaid

6.21 Ni chawsom lawer o sylwadau gan randdeiliaid am bartneriaethau'r BBC mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 2. Tynnodd Llywodraeth yr Alban sylw at ba mor bwysig yw gofyniad y BBC i gefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill, gan ddweud ei fod *"yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywydau a llesiant siaradwyr Gaeleg ledled yr Alban, y DU a thu hwnt."*[252]

6.22 Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn y dylid annog neu fynnu bod y BBC yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill nad oeddent o reidrwydd yn ymwneud â chefnogi dysgu. Roedd hyn yn cynnwys darlledwyr masnachol a darparwyr newyddion masnachol lleol.[253]

### Ein penderfyniad

6.23 Mae'r BBC wedi llwyddo i weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau ar ddysgu ledled y DU, gan gynnwys, er enghraifft, ymgyrch Bitesize Regenerators y BBC a phartneriaeth rhwng BBC History a Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth.[254] Fodd bynnag, mae'n bwysig bod

[250] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, tudalen 54.
[251] Amodau 3.4.3, 3.8.3, 3.11, a 3.14.4-3.14.6 y Drwydded Weithredu.
[252] Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 4.
[253] Ymateb News Broadcasting, tudalen 12; ymateb NMA, ymateb 9.
[254] Mae Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth yn bartner amgueddfa mawr i'r BBC, ac arweiniodd cydweithio rhwng BBC History a'r Amgueddfa Wyddoniaeth at flwyddyn o ymgysylltu â'r cyhoedd yn 2022 drwy arddangos 1,000 o wrthrychau ac

y BBC yn mesur effaith y partneriaethau hyn ac yn adrodd yn gyhoeddus ar eu heffaith. Felly, rydym yn bwrw ymlaen â'n cynnig i fonitro sut mae'r BBC yn ymgysylltu â phartneriaid i ddatblygu'r hyn mae'n ei gynnig o ran dysgu. Lle bo angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y BBC i gefnogi ein gwaith monitro.

6.24 O ran partneriaethau mewn meysydd eraill, rydym yn nodi bod dyletswydd gyffredinol ar y BBC i *"gydweithio a cheisio ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, yn enwedig yn yr economi greadigol, lle byddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd."*[255] Mae'r BBC yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o bartneriaethau ledled y DU (tua 500 o sefydliadau gwahanol), gan gynnwys ym myd y celfyddydau, chwaraeon, plant, newyddion, ymchwil a datblygu, radio a cherddoriaeth, yn ogystal â datblygu sgiliau.[256]

6.25 Rydym wedi nodi'n flaenorol y dylai'r BBC ystyried dull mwy uchelgeisiol ac agored o ymdrin â phartneriaethau strategol go iawn.[257] Rydym yn argymell yn ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC y gallai Llywodraeth y DU, fel rhan o'r broses nesaf o adnewyddu'r Siarter, ystyried a allai partneriaethau strategol rhwng y BBC a sefydliadau eraill yn y DU fod o fudd i gynaliadwyedd sector darlledu'r DU yn y dyfodol.[258]

## Mesur perfformiad

6.26 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio nifer o fesurau i asesu perfformiad y BBC yn erbyn Diben Cyhoeddus 2. Mae hyn yn cynnwys ymchwil cynulleidfa i fesur canfyddiadau o sut mae'r BBC yn cefnogi dysgu ac addysg oedolion a phlant. Rydym hefyd yn ystyried argaeledd cynnwys dysgu ffurfiol ac anffurfiol, arferion defnyddio, a defnydd o gynnwys addysgol y BBC fel BBC Bitesize.

6.27 Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, rydym yn nodi bod VLV yn cwestiynu sut byddwn yn asesu perfformiad y BBC o ran sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys dysgu ar wasanaethau ar-lein y BBC[259]. Rydym wedi amlinellu ein dull o fesur pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys yn Adran 3 ac, fel rydym yn nodi, mae mesur pethau ar-lein yn faes sy'n esblygu.

---

eitemau technoleg sy'n gysylltiedig â rhaglenni o gasgliad y BBC; cyn cynhadledd COP26 ar newid yn yr hinsawdd a gynhaliwyd yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, lansiodd y BBC ei ymgyrch BBC Bitesize Regenerators, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ac ysbrydoli plant a phobl ifanc i ystyried eu heffaith ar y blaned. Er mwyn creu cynnwys ar gyfer yr ymgyrch Regenerators, bu'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys y Brifysgol Agored, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, y Ganolfan Ynni'r Môr Ewropeaidd a'r Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol, ymysg eraill.

[255] Erthygl 13 y Siarter.

[256] Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22, Tachwedd 2022, t26.

[257] Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21, Tachwedd 2021, t2.

[258] Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, Mehefin 2022, tudalennau 17-18.

[259] Ymateb VLV, tudalen 11.

# 7. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 3

## Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau

### Crynodeb o'n dull gweithredu ar gyfer Diben Cyhoeddus 3

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i gynigion ein hymgynghoriad, dyma'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud:

**Cadw nifer fawr o gwotâu, gyda rhai diwygiadau:**

- Rydym wedi cadw'r cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol y DU, ac eithrio'r cwota ar gyfer BBC Four, lle rydym wedi lleihau'r cwota o 75% i 65%.
- Rydym wedi cadw'r cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, gyda mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau y bydd yn dangos cynnwys o'r fath. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ofynion newydd ynghylch tryloywder, gan gynnwys gofyniad i'r BBC nodi oriau'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf y mae'n bwriadu ei ddarparu ar gyfer pob gwasanaeth.
- Rydym wedi cadw cwotâu pwysig ar gyfer diogelu natur unigryw gwasanaethau radio'r BBC, fel y rheini sy'n ymwneud ag artistiaid o'r DU a cherddoriaeth newydd ar BBC Radio 1 a Radio 2, a cherddoriaeth fyw neu wedi'i recordio'n arbennig ar gyfer BBC Radio 3. Rydym wedi gosod cwota cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 ar 68 awr y flwyddyn.

**Gosod gofynion ynghylch pa gynnwys a gwasanaethau y dylai'r BBC eu darparu:**

- Ar gyfer teledu rhwydwaith, rydym wedi disodli cwotâu sy'n benodol i wasanaeth ag amod bod rhaid i'r BBC ddarparu rhaglenni ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni crefyddol, cynnwys plant a chomedi ar draws gwasanaethau. Bydd rhaid i'r BBC nodi nifer yr oriau y bydd yn eu darparu ar gyfer pob un o'r genres hynny gyda'i Gynllun Blynyddol, gan gynnwys oriau rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu. Ar gyfer cynnwys plant, rydym wedi ehangu hyn i gasglu gwybodaeth am is-genres allweddol.
- Ar gyfer radio rhwydwaith, rydym wedi disodli cwotâu ar gyfer rhaglenni celfyddydol a chrefyddol, rhaglenni dogfen, ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddorol newydd gydag amod i ddarparu ystod eang o allbwn wedi'i gefnogi gan ofynion ynghylch tryloywder. Mae hyn yn cynnwys mynnu bod y BBC yn nodi oriau arfaethedig gyda'i Gynllun Blynyddol.

**Cyflwyno gofynion tryloywder newydd eraill:**

- I'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob un o'i wasanaethau yn unigryw, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds.
- I'r BBC egluro ei ddull gweithredu ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu. Yn dilyn sylwadau gan randdeiliaid, rydym wedi ymestyn hyn i gynnwys sut mae dull gweithredu'r BBC yn hyrwyddo ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn ogystal â chefnogi natur unigryw.
- I'r BBC adrodd gyda'i Adroddiad Blynyddol ar sut mae wedi cyflawni'r cynlluniau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol.

# Cyflwyniad

## Cefndir ac ystyr natur unigryw

*7.1* Mae Diben Cyhoeddus 3 yn mynnu bod y BBC yn dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau:

> "Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol."
>
> *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

7.2 Mae'r Cytundeb yn mynnu ein bod yn rhoi sylw penodol i natur unigryw wrth osod amodau'r Drwydded Weithredu. Mae'r Cytundeb[260] yn diffinio natur unigryw fel "allbwn a gwasanaethau" sydd gyda'i gilydd, yn wahanol iawn i ddarparwyr eraill tebyg ledled pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol; ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran:

- y gymysgedd o wahanol allbwn a genres;
- ansawdd yr allbwn;
- faint o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU;
- lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg; ac
- yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu."

7.3 Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn cynnwys amcanion i'r BBC ddarparu cymysgedd unigryw o genres ac allbwn ar draws ei wasanaethau, ac i'r rhain fod o ansawdd uchel, yn cymryd risgiau ac yn arloesol, gan ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y DU. Roedd hefyd yn nodi y dylai cyfran sylweddol o raglenni teledu fod yn gynyrchiadau gwreiddiol o'r DU, gan gynnwys cynyrchiadau gwreiddiol newydd o'r DU nad ydynt wedi cael eu darlledu yn y DU o'r blaen ('rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf').

7.4 Mae amodau'r Drwydded ar gyfer teledu yn cynnwys cwotâu ar faint o gynnwys gwreiddiol o'r DU sydd ar gael, rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, a chomedi ar wasanaethau teledu. Ar gyfer radio rhwydwaith, maent yn cynnwys cwotâu ar gyfer cerddoriaeth newydd, cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU, cerddoriaeth fyw, sesiynau wedi'u recordio, cerddoriaeth arbenigol, amrywiaeth o gerddoriaeth wrth gymharu â darparwyr tebyg, gweithredu cymdeithasol a sylwebaeth chwaraeon.

7.5 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, fe wnaethom nodi cynigion ar gyfer sut byddai'r Drwydded Weithredu newydd yn sicrhau bod natur unigryw yn parhau i gael ei darparu. Yn gyffredinol, fe wnaethom gynnig cyflwyno pedwar amcan sy'n cael eu hategu gan rai cwotâu presennol, sy'n cynnwys amodau newydd a gofynion tryloywder ychwanegol. Ein bwriad oedd:

[260] Y Cytundeb, Atodlen 2, paragraff 1.(2).

- Cadw cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU. Ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, gwnaethom gynnig cadw cwotâu tra hefyd yn rhoi'r cyfle i'r BBC benderfynu lle a phryd i ddangos ei gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf.[261]
- Mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau manwl ar gyfer sut mae'n penderfynu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gynnwys nodi cynlluniau ar gyfer genres, rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu ar ei wasanaethau teledu, a BBC iPlayer gyda'i Gynllun Blynyddol; gofyn am fwy o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn arloesi ac yn sicrhau ansawdd uchel; a disgwyl iddo adrodd ar sut mae'n cymryd risgiau.
- Mynnu bod y BBC yn egluro sut mae BBC Sounds a BBC iPlayer yn wasanaethau unigryw.
- Mynnu bod y BBC yn nodi sut mae wedi cyflawni'r cynlluniau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol gyda'i Adroddiad Blynyddol.

## Ymatebion rhanddeiliaid a'n penderfyniadau

7.6 Yng ngweddill yr adran hon, fe wnaethom nodi safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion ac yn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gyda'n penderfyniadau. Rydym yn rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- Cynyrchiadau gwreiddiol;
- Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf;
- Darparu ystod eang o gynnwys clyweledol;
- Cynnwys plant;
- Darparu ystod eang o gynnwys sain a nodweddion unigryw ar y radio; a
- Thryloywder**.**

## Cynyrchiadau gwreiddiol

### Yr hyn a ddywedon ni

7.7 Fe wnaethom nodi ein barn sef bod cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi natur unigryw gwasanaethau'r BBC. Roeddem yn cynnig cadw'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ar eu lefelau presennol, ac eithrio BBC Four lle roeddem yn cynnig lleihau'r cwota.[262]

7.8 Wrth i'r sector darlledu esblygu, gallai fod adeg yn y dyfodol pan allai fod yn well i Ofcom roi mwy o hawliau i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd drwy strwythuro ei raglenni gwreiddiol ar draws ei wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu a BBC iPlayer yn wahanol. Gwnaethom argymell yn ein hadolygiad o sut rydym yn rheoleiddio'r BBC y dylai

[261] Fe wnaethom hefyd awgrymu caniatáu'r BBC i benderfynu sut mae siapio ei genres a'i gymysgedd allbwn ar ei wasanaethau, gyda gofynion tryloywder yn eu hategu.
[262] Amod 3.7 y Drwydded arfaethedig.

Llywodraeth y DU ystyried diwygio'r Cytundeb, fel na fyddai'n rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu mwyach.[263]

## Sylwadau rhanddeiliaid

7.9 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid a wnaeth sylwadau ar ein cynigion cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU yn cytuno â'n dull gweithredu i'w cadw ar y lefelau presennol, [264] ond roedd rhai yn galw am gynnydd.[265] Roedd ITV yn feirniadol o'n cynigion i gadw'r cwotâu presennol, a oedd yn rhy isel i sicrhau natur unigryw o'i gymharu â chwaraewyr eraill yn y farchnad meddai nhw.[266] Ar BBC Three yn benodol, dywedodd ITV fod risg y gallai'r BBC gyflawni'r cwota gydag ailddarllediadau. Dywedodd hefyd y gallai'r diffyg rhwymedigaethau o ran ansawdd (megis ynghylch y gyllideb neu amserlennu) ganiatáu i'r BBC *"wario'r rhan fwyaf o'i gyllideb... ar gynnwys wedi'i brynu o'r Unol Daleithiau ar gyfer darlledu yn ystod yr oriau brig."*[267]

7.10 Mynegodd WGGB bryder y gallai cwotâu sy'n niwtral o ran gwasanaeth ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol yn y dyfodol gael effaith negyddol ar gynulleidfaoedd a'r gymuned ysgrifennu, gan fod cynyrchiadau "digidol yn gyntaf" yn draddodiadol â chyllidebau is, sy'n golygu y gallai cwotâu niwtral o ran gwasanaeth arwain at lai o gyllidebau cynhyrchu ar gyfer cynnwys sydd mewn perygl[268] a chynnwys o ddiddordeb lleiafrifol. [269]

## Ein penderfyniad

7.11 Rydym o'r farn bod y cwotâu'n parhau i chwarae rhan bwysig o ran cefnogi natur unigryw gwasanaethau'r BBC, felly rydym wedi cadw cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ym mhob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU ar y lefelau presennol, ac eithrio BBC Four, fel y trafodir isod.[270]

7.12 Rydym yn credu bod y lefelau presennol yn briodol i sicrhau bod gwasanaethau'r BBC yn unigryw, ac i roi digon o gyfle i'r BBC ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd gyda chymysgedd o gynnwys.

7.13 Fel y dywedodd ITV, mae'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn gallu cynnwys ailddarllediadau. Mae'r diffiniad ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol wedi'i nodi yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 ac mae'n berthnasol i holl gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn gallu gweld faint o'r rhaglenni sy'n gymwys ar gyfer cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, sy'n diogelu rhag gormod o ailddarllediadau yn unol â'n gofynion ar gyfer

[263] Fe wnaethom awgrymu y byddai'n rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol sy'n rhoi hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau teledu ac ar-lein y byddai'n cyflawni'r cwotâu..
[264] Ymateb ACNI, tudalen 5; Ymateb BBC, tudalen 11; Ymateb BFI, tudalennau 3-4; Ymateb Directors UK, tudalennau 6-7; Ymateb LTVN , tudalen 4; Ymateb Pact, tudalen 5; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 3; Ymateb VLV ,tudalen 13; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 3; Ymateb WGGB, tudalen 3.
[265] Ymateb Dienw 1, tudalen 1. Ymateb ITV, tudalennau 5-6.
[266] Ymateb ITV, tudalennau 5-6.
[267] Ymateb ITV, tudalen 13.
[268] Mae'r Cytundeb yn rhestru genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol ar draws darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn cyfeirio at y genres hyn fel rhai 'mewn perygl'.
[269] Ymateb WGGB, tudalen 3.
[270] Amod 3.7 y Drwydded Weithredu.

rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf. Fel y nodir mewn man arall yn yr adran hon, mae gennym fesurau eraill ar waith i ddiogelu cynnwys newydd, gan gynnwys cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf a mesurau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu. Nid ydym wedi cyflwyno gofynion ar ffactorau fel cyllidebau nac amserlennu mewn perthynas â BBC Three na gwasanaethau eraill, gan ein bod o'r farn bod y rhain yn faterion golygyddol i'r BBC.

## Cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer BBC Four

### Yr hyn a ddywedon ni

7.14 Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn cynnwys amodau a oedd yn mynnu bod y BBC yn dyrannu o leiaf 175 awr y flwyddyn ar BBC Four i raglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu prynu); ac yn mynnu bod 75% o raglenni ar draws 'pob awr' a 60% ar draws oriau brig ar BBC Four yn gynyrchiadau gwreiddiol.[271]

7.15 Mewn Cynlluniau Blynyddol olynol,[272] nododd y BBC ei fwriad i ddyblu gwariant ar y celfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two ac i wneud BBC Four yn sianel archif yn bennaf. Mewn cynnig i Ofcom,[273] dywedodd y BBC y byddai angen newidiadau i'r Drwydded Weithredu er mwyn rhoi'r strategaeth hon ar waith. Felly, gofynnodd i'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer BBC Four gael ei ostwng i 60%.

7.16 Mewn ymateb i gynnig y BBC, fe wnaethom ymgynghori ar ein safbwynt cychwynnol:

- roedd lleihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' ar gyfer BBC Four yn ymddangos i fod yn rhesymol. Roeddem o'r farn y byddai'r dull hwn yn addas ar gyfer defnydd priodol o berfformiadau celfyddydol a cherddoriaeth a gafodd eu prynu, ac yn helpu'r BBC i gadw BBC Four fel sianel aml-genre unigryw.
- byddai cwota cynyrchiadau gwreiddiol o 60% 'pob awr' yn isel o'i gymharu â gwasanaethau teledu eraill y BBC.[274] O ganlyniad i hyn, fe wnaethom gynnig gosod un cwota cynyrchiadau gwreiddiol 'pob awr' ar gyfer BBC Four o 65%, yn hytrach na chais y BBC o 60%.

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.17 Mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid gefnogaeth gyffredinol i'n cynigion ar gyfer cwota cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU sydd ar BBC Four,[275] ac eithrio un ymatebydd unigol a ddywedodd y dylid gosod y cwota ar gyfer yr holl oriau ar 70%.[276] Er ein bod yn cynnig gosod cwota uwch na'r hyn roedd y BBC wedi gofyn amdano, dywedodd y BBC y byddai ein cynigion yn ei alluogi i gynnal BBC Four fel sianel aml-genre unigryw, ac eglurodd y byddai

[271] Roedd amod 2.21 y Drwydded Weithredu gyntaf yn gosod y gofyniad 175 awr ac roedd amod 2.32 yn gosod y gofynion 75% a 60% ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol.
[272] Dyma'r Cynlluniau Blynyddol ar gyfer 2020/21, 2021/22 a 2022/23.
[273] Mae cynnig y BBC wedi'i nodi yn Atodiad 10 ein hymgynghoriad ym mis Mehefin.
[274] Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom nodi pryderon gan randdeiliaid am yr effaith ar gynulleidfaoedd pe bai rhaglenni a brynir yn chwarae rhan amlycach na chynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig ar BBC Four o ganlyniad i effeithiau cyfun dileu cwota oriau brig a gostyngiad yn y cwota 'pob awr'.
[275] Ymateb ACNI, tudalen 5; Ymateb ACS, tudalen 6; Ymateb y BBC, tudalen 11; Ymateb Directors UK, tudalen 6; Ymateb Screen Scotland , tudalen 4; Ymateb VLV, tudalen 14-15 Ymateb WGGB, tudalen 3.
[276] Ymateb T. Havenhand, tudalen 1.

unrhyw gynnydd mewn rhaglenni sy'n cael eu prynu yn cael ei "olygu'n ofalus i sicrhau eu bod yn ychwanegu at gymysgedd cynnwys unigryw BBC Four".[277]

7.18 Soniodd rhanddeiliaid am yr effaith y gallai ein cynigion ei chael ar gynulleidfaoedd. Er bod TAC yn cefnogi elfennau o'n cynigion, nododd efallai nad yw cynnwys newydd ar BBC Two yn gwasanaethu pobl sydd â chwaeth arbenigol yn ogystal â chomisiynau BBC Four[278], a gofynnodd Screen Scotland a allai cyfanswm oriau ychwanegol cynnwys newydd ar BBC Two wneud iawn am y golled ar BBC Four oherwydd pwysau amserlennu.[279]

7.19 Roedd Pact yn croesawu ymrwymiadau'r BBC i ddyblu eu gwariant ar gelfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two, gan ddweud y byddai'n poeni petai gwariant ychwanegol BBC Two ar y celfyddydau a cherddoriaeth yn cael ei wario ar raglenni sy'n cael eu prynu yn hytrach na rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[280] Dywedodd y dylai'r BBC egluro sut bydd cyfanswm y gwariant ar y celfyddydau a cherddoriaeth yn cael ei rannu rhwng rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac y dylai Ofcom egluro pa lefel o raglenni sy'n cael eu prynu fyddai'n peri pryder yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC. Nododd ITV fod Ofcom wedi *"cyrraedd barn benodol iawn ynghylch pam y gallai defnydd y BBC o gynnwys sy'n cael ei brynu mewn perthynas â BBC Four fod yn dderbyniol"* ond nad oedd wedi asesu'r defnydd o raglenni sy'n cael eu prynu ar draws gwasanaethau eraill y BBC i'r graddau hyn.[281]

7.20 Soniodd rhai rhanddeiliaid am effaith bosibl newidiadau i BBC Four ar y sector cynhyrchu.[282] Soniodd rhai hefyd am yr effaith y gallai dileu cwotâu a chwota rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sy'n niwtral o ran gwasanaeth ei chael ar y sector.[283] Rydym yn ystyried y sylwadau hyn ar y sector cynhyrchu gyda'i gilydd yma. Tynnodd rhanddeiliaid sylw'n benodol at risgiau i fuddsoddiad y BBC i gynyrchiadau mewn genres sydd mewn perygl,[284] gan gynnwys pynciau 'arbenigol' ar BBC Four a rhaglenni plant. [285] Dywedodd Directors UK, Pact a WGGA fod y BBC yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu talent newydd ar draws genres mewn perygl.[286] Ar ben hynny, er eu bod yn cefnogi'r rhesymeg dros symud i gwotâu sy'n niwtral o ran gwasanaeth, mynegodd Directors UK a Pact bryderon am yr effeithiau posibl ar refeniw cynhyrchwyr oherwydd nad oes gan gomisiynau ar-lein yn unig ystodau tariff wedi'u nodi yn y Telerau Masnach.[287] Dywedodd Pact hefyd ei fod wedi disgwyl i Ofcom gyhoeddi asesiad effaith a oedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC.[288]

[277] Ymateb BBC, tudalen 11.
[278] Ymateb TAC, tudalennau 2-3.
[279] Ymateb Screen Scotland, tudalen 4.
[280] Ymateb Pact, tudalen 11.
[281] Ymateb ITV, tudalen 20.
[282] Ymateb Pact UK, tudalen 11; Ymateb TAC, tudalen 3.
[283] Ymateb Pact, tudalennau 5-6; Ymateb Directors UK, tudalen 4.
[284] Ymateb Pact, tudalen 11; Ymateb TAC, tudalen 2; Ymateb Directors UK, tudalen 4.
[285] Ymateb Pact, tudalen 3.
[286] Ymateb Directors UK, tudalennau 4 a 5; Ymateb WGGB, tudalennau 3-4. Ymateb Pact, tudalennau 3 a 8.
[287] Ymateb Pact, tudalennau 6-7 ac 14, Ymateb Directors UK, tudalen 6.
[288] Ymateb Pact, tudalen 13.

## Ein penderfyniad

7.21 Ar ôl ystyried pryderon rhanddeiliaid ynghylch pwysigrwydd y celfyddydau a cherddoriaeth yn ofalus, rydym wedi penderfynu rhoi ein cynigion ar gyfer BBC Four[289] ar waith, ynghyd â monitro a goruchwylio gwell.

7.22 Rydym wedi cyflwyno gofynion adrodd newydd i gynyddu tryloywder o ran sut mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys faint o gynnwys celfyddydol a cherddoriaeth mae'r BBC yn bwriadu ei ddarparu. [290] Bydd yr amodau hefyd yn mynnu bod y BBC yn egluro unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud mewn perthynas â'r math hwn o gynnwys.[291]

7.23 Mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu prynu, rydym wedi ychwanegu gofynion manylach at y Drwydded newydd, sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei ddull gweithredu ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu, fel sy'n cael ei nodi isod yn yr adran hon.[292]

7.24 O ran genres a rhaglenni sy'n cael eu prynu, mae'r BBC hefyd yn darparu data cyfrinachol i ni sy'n ein galluogi i fonitro oriau a gwariant ar gynnwys celfyddydol neu gerddoriaeth fesul sianel deledu.[293]

7.25 Mae'n bwysig bod y BBC wedi ymrwymo i barhau i ddarparu cynnwys celfyddydol a cherddoriaeth, gan gynnwys arddangos perfformiadau newydd ynghyd â chynnwys unigryw o'i archif ar BBC Four. Rydym yn credu y gall rhaglenni sy'n cael eu prynu sydd wedi cael eu dewis yn ofalus gyfrannu at natur unigryw BBC Four. Er enghraifft, rhaglenni sy'n cael eu prynu ar gyfer perfformiadau byw drwy bartneriaethau â sefydliadau celfyddydol a cherddoriaeth y DU yn adlewyrchu cynnwys diwylliannol y DU, yn ogystal â chefnogi economi greadigol a sector cynhyrchu'r DU.

7.26 Rydym yn cydnabod y gallai strategaeth y BBC arwain at lai o oriau o gynnwys celfyddydol a cherddoriaeth newydd yn gyffredinol gan ei fod yn cynyddu gwariant ar y genres hyn ar BBC Two. Fodd bynnag, mae strategaeth y BBC wedi'i chynllunio i'w helpu i ddarparu'r math hwn o gynnwys i gynulleidfa ehangach.[294] Mae ein hymchwil wedi dangos yn gyson bod y BBC yn cael trafferth diwallu anghenion rhai cynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, ac mae hwn yn faes blaenoriaeth i'w wella.[295]

7.27 Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith y posibilrwydd o leihau allbwn ar y sector cynhyrchu, yn enwedig mewn genres sydd mewn perygl, gan gynnwys BBC Four. Bydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud yn rhoi cyfle i'r BBC newid ei strategaeth i ymateb i gynulleidfaoedd, a'r ffordd orau o'u cyflawni wrth i'w harferion barhau i newid. Mae strategaeth y BBC ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth ar draws BBC Four a BBC

---

[289] Amod 3.7 y Drwydded Weithredu.
[290] Amod 3.14.4 y Drwydded Weithredu.
[291] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.
[292] Amod 3.14.2 y Drwydded Weithredu.
[293] Caiff y data hwn ei gasglu gan ddefnyddio ceisiadau ffurfiol am wybodaeth ac rydym yn ei ddefnyddio i asesu perfformiad a chynhyrchu ystadegau swyddogol.
[294]Yn ei gynnig, dywedodd y BBC fod "*BBC Two yn cyrraedd cynulleidfa ehangach na BBC Four o ran oedran, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol, er enghraifft, yn 2021, ar gyfartaledd fe wnaeth BBC Two gyrraedd 13.9% o bobl 16-34 oed bob wythnos, gyda BBC Four ond yn cyrraedd 1.7% o bobl 16-34 oed.*"
[295] Fel y nodir yn Adran 2, ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gyhoeddi Cylch Gorchwyl ar gyfer ein Hadolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC, ar ôl i ni gyhoeddi hyn ym mis Tachwedd 2022.

Two yn enghraifft o hyn. Bwrdd y BBC sy'n goruchwylio penderfyniadau ynghylch sut mae'r BBC yn dyrannu ei gyllidebau ac yn negodi â chynhyrchwyr. O'r herwydd, rydym yn credu bod unrhyw benderfyniadau i ddiweddaru'r Telerau Masnach i adlewyrchu comisiynau ar-lein yn unig yn fater masnachol i Pact a'r BBC yn bennaf.[296]

7.28 Fodd bynnag, bydd y cwota o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yr ydym yn ei gyflwyno yn sicrhau cynnwys newydd yn y DU ar gyfer cynulleidfaoedd, ac ar yr un pryd yn darparu cyfleoedd ar gyfer economi greadigol y DU.[297] Mae gennym gwotâu penodol i ddiogelu cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ar ben hynny, rydym yn cyflwyno gofynion newydd o ran adrodd,[298] a fydd, ar y cyd â'r wybodaeth rydym yn ei chasglu fel rhan o'n gwaith mesur perfformiad ac adroddiadau comisiynu cyflenwi'r BBC, yn ein helpu i ddal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth i gynulleidfaoedd a chymorth i'r economi greadigol.

## Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf

### Yr hyn a ddywedon ni

7.29 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, gwnaethom gynnig un cwota cyfun ar lefel cyfanswm y cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y Drwydded gyntaf i BBC One, BBC Two, CBBC/BBC iPlayer a CBeebies/BBC iPlayer: 6,650 awr.[299] Wrth wneud hynny, roeddem yn cynnig rhoi mwy o gyfle i'r BBC ddarparu'r oriau hyn, gan gynnwys drwy BBC iPlayer yn ehangach. Er mwyn dal y BBC i gyfrif, roeddem hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder newydd mewn perthynas â gwasanaethau darlledu ac ar-lein, gan gynnwys ar gyfer genres penodol.[300]

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.30 Roedd y BBC yn cefnogi ein cynnig i gyfuno'r cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac i integreiddio gwasanaethau ar-lein y BBC ymhellach yn ein Trwydded Weithredu, gan egluro y byddai hyn yn ei alluogi i addasu i newidiadau yn y galw am gynulleidfaoedd.[301] Roedd nifer o randdeiliaid eraill yn cefnogi ein cynnig cyffredinol ar yr un pryd â mynegi pryderon am ganlyniadau anfwriadol posibl, yn enwedig y gallai cynulleidfaoedd heb fynediad at wasanaethau ar-lein a'r rheini sydd â diddordeb mewn cynnwys arbenigol fod o dan anfantais oherwydd y dull gweithredu niwtral o ran gwasanaeth.[302]

7.31 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder y gallai niwtraliaeth gwasanaethau a strategaeth 'digidol yn gyntaf' ehangach y BBC fod o fudd i gynulleidfaoedd ar-lein ar draul

[296] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn llunio Cod Ymarfer Comisiynu ac i ystyried ein canllawiau wrth wneud hynny, ond dim ond mewn perthynas â Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. O'r herwydd, mae'r Telerau Masnach ac unrhyw newidiadau iddynt y tu allan i gwmpas Trwydded Weithredu'r BBC, gan eu bod yn cael eu pennu gan ddyletswydd sy'n cael ei gosod yn uniongyrchol ar y BBC gan Lywodraeth y DU.
[297] Amodau 3.5-3.6 y Drwydded Weithredu.
[298] Amodau 3.13, 3.14.3, 3.14.4 a 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[299] Amodau 3.5 - 3.6 y Drwydded arfaethedig.
[300] Amodau 3.14.3 - 3.14.4 y Drwydded arfaethedig.
[301] Ymateb BBC, tudalen 11.
[302] Ymateb ACS, tudalen 4; Ymateb NUJ, tudalen 1; Ymateb VLV, tudalen 6; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalennau 1-2; ymateb WGGB, tudalen 1.

cynulleidfaoedd sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn unig. Yn benodol, nodwyd yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd hŷn ac agored i niwed, yn ogystal â'r rheini sy'n byw mewn tlodi digidol neu mewn ardaloedd gwledig.[303] Roedd hwn yn fater arbennig o bwysig i randdeiliaid yn y gwledydd. Nododd ACS mai dim ond 68%[304] sy'n manteisio ar fand eang cyflym iawn yn yr Alban a nododd Llywodraeth Cymru bod cynulleidfaoedd yng Nghymru wedi gwylio 3 awr yn fwy o deledu sy'n cael ei ddarlledu o'i gymharu â chyfartaledd y DU yn 2021.[305]

7.32 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai genres 'llai proffidiol' a chynnwys arbenigol, yn ogystal â chynnwys sy'n benodol i'r gwledydd a'r rhanbarthau, gael eu gwthio ar-lein.[306] Roedd VLV a NUJ yn dadlau y gallai hyn leihau cyrhaeddiad ac effaith rhaglenni allweddol, ac roeddent yn awgrymu na ddylai rhaglenni sy'n cael eu cynnig ar-lein gael eu cyfrif yn yr un ffordd â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar deledu yn ystod oriau brig.[307] Er bod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) yn dweud bod cwotâu niwtral o ran gwasanaeth yn ymddangos yn synhwyrol, roedd yn dadlau mai dim ond cynnwys sy'n hygyrch ac y gellir mynd ato'n hawdd ddylai gyfrif tuag at y cwotâu.[308]

7.33 Roedd Directors UK a Pact yn cefnogi'r rhesymeg dros symud i gwotâu sy'n niwtral o ran gwasanaeth, ond yn nodi pryderon y gallai effeithio ar refeniw cynhyrchwyr oherwydd nad oes gan gomisiynau ar-lein yn unig ystodau tariff wedi'u nodi yn y Telerau Masnach.[309]

7.34 Roedd Directors UK yn cwestiynu ansawdd data ar-lein ar gyfer mesur defnydd ac yn dadlau bod gwella hyn yn bwysig ar gyfer mesur perfformiad y BBC yn effeithiol.[310]

## Ein penderfyniad

7.35 Ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rydym yn credu bod cwotâu niwtral o ran gwasanaeth yn caniatáu i'r BBC ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i gael cynnwys o ansawdd uchel ni waeth pa wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio gan y BBC. Felly, rydym wedi gosod cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar deledu sy'n cael ei ddarlledu ac ar BBC iPlayer, gyda chyfanswm cyfun blynyddol o 6,650 awr o leiaf.[311]

7.36 Rydym wedi nodi'n glir ein bod yn disgwyl i'r BBC sicrhau bod pob cynulleidfa yn gallu cael gafael ar yr ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel, gan gynnwys y rheini sy'n dibynnu ar

---

[303] Ymateb ACS, tudalen 4; Ymateb Directors UK, tudalen 2; Ymateb SSMT, tudalen 4; Ymateb VLV, tudalennau 3 a 5-7; ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.
[304] Ymateb ACS, tudalen 4.
[305] Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 2.
[306] Ymateb SSMT, tudalen 5; Ymateb VLV, tudalennau 6-7; Ymateb WGGB, tudalen 3.
[307] Ymateb VLV, tudalen 8; Ymateb NUJ, tudalen 3
[308] Ymateb RNIB, tudalen 2.
[309] Ymateb Pact, tudalennau 7 a 14; Ymateb Directors UK, tudalen 6. Rydym yn ymateb i sylwadau sy'n ymwneud â'r sector cynhyrchu ym mharagraffau 7.27-7.28.
[310] Ymateb Directors UK, tudalen 4.
[311] Mae hyn yn ymwneud â BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies a BBC iPlayer gyda'i gilydd. Amodau 3.5-3.6 y Drwydded Weithredu.

deledu sy'n cael ei ddarlledu.[312] Rydym hefyd yn nodi mai ychydig iawn o gynnwys ar-lein yn unig mae'r BBC yn ei gomisiynu ar hyn o bryd ar gyfer BBC iPlayer.[313] Er mwyn dal y BBC i gyfrif, rydym wedi cyflwyno nifer o ofynion tryloywder sy'n ymwneud â genres a gwasanaethau.[314] Bydd y rhain yn ein galluogi i nodi unrhyw feysydd lle gallai fod angen i'r BBC wneud mwy i barhau i ddarparu cynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf yn y DU ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ar-lein.

7.37 Mae'n hanfodol bod pob cynulleidfa'n gallu cael gafael ar gynnwys y BBC, ac mae'r Cytundeb yn galluogi Ofcom i ddefnyddio canllawiau hygyrchedd mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae eisoes yn ofynnol i'r BBC gadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad Teledu ynghylch darparu gwasanaethau mynediad ar ei sianeli teledu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau newydd ar hygyrchedd BBC iPlayer ar yr un pryd ag ymgynghori ar ganllawiau ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw eraill wedi'u rheoleiddio, unwaith y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno rheoliadau newydd yn y maes hwn.[315] Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod gennym ddull gweithredu effeithiol mewn perthynas â chanllawiau hygyrchedd ar gyfer y BBC a'r diwydiant ehangach.

7.38 O ran data defnydd, rydym yn nodi'r datblygiadau ym maes mesur y diwydiant fel BARB, sydd bellach yn cynnwys defnydd ar gyfer BBC iPlayer a gwasanaethau fideo ar-alw eraill, er nad oes system sain gyfatebol yn y diwydiant eto ar gyfer sain ar-lein. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i sicrhau tryloywder o ran ei berfformiad a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni o ran defnydd ac effaith.

## Darparu ystod eang o gynnwys clyweledol

### Yr hyn a ddywedon ni

7.39 Roeddem yn cynnig disodli'r cwotâu genre teledu yn Niben Cyhoeddus 2 a 3 a oedd yn ymdrin â'r celfyddydau a cherddoriaeth, comedi, rhaglenni crefyddol, a rhaglenni plant (gan gynnwys rhaglenni drama a ffeithiol) gyda rhwymedigaethau newydd.[316] Byddai'r rhwymedigaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu amrywiaeth o allbwn sy'n cwmpasu amrywiaeth o genres a mathau[317] o gynnwys ar ei wasanaethau (gan gynnwys BBC iPlayer).[318] Roeddem yn cynnig ategu hyn â gofynion tryloywder i sicrhau bod y BBC yn nodi'n gyhoeddus ei gynlluniau ar gyfer darparu ystod eang o allbwn ar draws

[312] I danlinellu hyn, mae ein Hamcan newydd P3(4) yn datgan *"Wrth sicrhau bod pob cynulleidfa yn y DU yn gallu dod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd, dylai'r BBC barhau i archwilio sut gall arloesi'r ffyrdd mae'n ymgysylltu ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd".*
[313] Data cyfrinachol a ddarparwyd gan y BBC.
[314] Amodau 3.14.3-3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[315] I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar dudalen 7 adolygiad Ofcom o ganllawiau ar hygyrchedd y BBC ac argymhellion 2018 a 2021 i'r Llywodraeth ar ddrafftio rheoliadau ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw.
[316] Mae'r Cytundeb yn ystyried y genres hynny nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys: cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall; comedi; a rhaglenni plant. Cytundeb, Atodlen 2 paragraff 2(2)(a). Cyfeirir at y rhain fel 'genres mewn perygl'.
[317] Mae 'mathau o gynnwys' yn cyfeirio at raglenni nad ydynt efallai'n ffitio i un genre, er enghraifft animeiddiadau neu raglenni dogfen, ond sy'n cyfrannu at amrywiaeth o gynnyrch.
[318] Amodau 3.2.3 a 3.4.3 y Drwydded arfaethedig.

gwasanaethau, ac yn adrodd yn erbyn hyn. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i'r BBC nodi'r oriau arfaethedig, gan gynnwys oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni a gafodd eu prynu, ar gyfer pob genre 'mewn perygl'.[319] Fel gyda Dibenion Cyhoeddus eraill, fe wnaethom hefyd ddweud y byddai'n ofynnol i'r BBC gyfiawnhau ac egluro unrhyw newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth.

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.40 Roedd y BBC yn croesawu ein cynigion i ddisodli'r cwotâu ar gyfer genres teledu ac yn cytuno y byddai ein dull gweithredu newydd yn helpu i sicrhau bod gwerth cyhoeddus yn cael ei ddarparu.[320]

7.41 Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon y byddai dileu cwotâu ar gyfer genres penodol yn arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth o genres mewn perygl ar y teledu. Roeddent yn dadlau nad oedd y gofynion tryloywder arfaethedig yn cynnig digon o amddiffyniadau i liniaru'r effaith ar gynulleidfaoedd a'r sector creadigol.[321] Tynnodd Directors UK ac Ymddiriedolaeth Sandford St Martin sylw at ddileu'r rhwymedigaethau ar ITV a Channel 4 yn 2003 a'r gostyngiad dilynol yng nghynnyrch rhaglenni crefyddol[322] a chynnwys i blant.[323] Dywedodd VLV y dylem barhau i bennu niferoedd sylfaenol ar gyfer cynnwys ffeithiol a mynnu bod y BBC yn cynnal neu'n cynyddu lefelau gwariant ar gyfer genres.[324]

7.42 Roedd nifer o randdeiliaid yn poeni y byddai dileu cwotâu mewn genres sydd mewn perygl yn arwain at lai o allbwn ac effaith ar y sector cynhyrchu, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer talentau cyfarwyddo ac ysgrifennu newydd. [325]

### Ein penderfyniad

7.43 Rydym yn dal o'r farn bod cwotâu genres, o ran maint neu wariant, sy'n gysylltiedig â sianeli teledu penodol yn llai effeithiol na'r gofynion newydd y gwnaethom eu cynnig. Nid ydynt yn rhoi hyblygrwydd i'r BBC addasu ei gynnig cynnwys yn wyneb newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd a hinsawdd ariannol heriol. Er mwyn i'r BBC allu diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y ffordd orau, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n galluogi'r BBC i ddarparu genres lle a sut y mae cynulleidfaoedd am ei wylio. Yn unol â hynny, bydd y Drwydded newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu ystod eang o allbwn sy'n cwmpasu genres gwahanol a mathau o gynnwys ar ei wasanaethau teledu a BBC iPlayer.[326]

---

[319] Mae 'genres mewn perygl' yn cynnwys y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, rhaglenni ffeithiol arbenigol, comedi a rhaglenni plant. Amod 3.14.4 y Drwydded arfaethedig.
[320] Ymateb BBC, tudalen 11.
[321] Ymateb Directors UK, tudalen 1; Ymateb T. Havenhand, tudalen 1; Ymateb y ITV, tudalen 17; Ymateb News Broadcasting, tudalen 14; Ymateb Screen Scotland , tudalen 3; Ymateb VLV, tudalen 3; Ymateb VLV, tudalen 3; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 4; Ymateb SSMT, tudalen 6.
[322] Ymateb SSMT, tudalen 3.
[323] Ymateb Directors UK, tudalen 1.
[324] Ymateb VLV, tudalen 3.
[325] Ymateb Pact, tudalen 8; Ymateb Directors UK, tudalen 5; Ymateb WGGB, tudalennau 3-4. Rydym yn ymateb i sylwadau sy'n ymwneud â'r sector cynhyrchu ym mharagraffau 7.27-7.28.
[326] Amodau 3.2.3 a 3.4.3 y Drwydded Weithredu. Rydym wedi penderfynu addasu'r geiriad yn yr amodau hyn i ddisodli 'ehangder eang' gydag 'ystod eang' – mae hyn at ddibenion cysondeb yn unig ac nid yw'n bwriadu newid ei ystyr. Yn y datganiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau hyn yn gyfnewidiol.

7.44 Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid y byddai dileu cwotâu yn arwain at leihau allbwn, yn enwedig genres 'mewn perygl'. Nid yw dileu cwotâu genres ar y BBC yn anogaeth lwyr i awgrymu y dylai leihau allbwn yn yr ardaloedd hynny. Rydym yn gweithredu cyfres o amodau Trwydded ategol i ddwyn y BBC i gyfrif yn lle cwotâu. Rydym hefyd wedi mabwysiadu gofynion tryloywder i fonitro cynlluniau'r BBC mewn perthynas â genres sydd mewn perygl y mae eu darpariaeth eisoes yn cael ei hystyried yn annigonol ac nad yw'n cael ei ddarparu'n ddigonol ar draws darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[327]. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi'r oriau arfaethedig ym mhob genre sydd mewn perygl ar gyfer gwasanaethau teledu gyda'i gilydd ac ar wahân ar gyfer BBC iPlayer gyda'i Gynllun Blynyddol. Rydym wedi addasu'r gofyniad tryloywder hwn o'n cynigion yn Ymgynghoriad mis Mehefin i ganiatáu i'r BBC adrodd am oriau ar gyfer genres y celfyddydau a cherddoriaeth mewn perygl fel un genre. Y rheswm am hyn yw bod y BBC wedi adrodd am y genres yn y ffordd hon yn hanesyddol. Fodd bynnag, bydd ein hasesiadau perfformiad o'r BBC yn parhau i ystyried y celfyddydau a cherddoriaeth fel genres ar wahân. Bydd angen i'r BBC hefyd adrodd ar gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn gyda'i Adroddiad Blynyddol.[328] Bydd hyn yn rhoi amlygrwydd i'r cyhoedd o ran nifer a chymysgedd y genres sydd mewn perygl y mae'r BBC yn eu darparu ac yn ein helpu i ddal y BBC i gyfrif.

7.45 Os yw'r BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth o genres penodol, bydd rhaid iddo egluro a chyfiawnhau hyn yn glir.[329] Fel y nodir yn Adran 3, dylai'r wybodaeth y mae'r BBC yn ei nodi roi dealltwriaeth glir i Ofcom, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid o'r hyn yn union a fydd yn newid a'r hyn y gall cynulleidfaoedd ddisgwyl eu cael o ganlyniad i hynny. Dylai'r BBC ddangos sut mae newid sylweddol arfaethedig yn cyd-fynd â'i strategaeth ehangach ar gyfer cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

7.46 Bydd natur unigryw yn un o'r prif feysydd y mae'n rhaid i'r BBC roi sylw iddo pan fydd yn egluro ei resymeg dros newid sylweddol yn ei ddarpariaeth o genres penodol. Rhaid iddo ystyried yr angen i ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n wahanol o ran cymysgedd y genres, ansawdd yr allbwn, allbwn gwreiddiol y DU, lefel y risg sy'n cael ei chymryd ac arloesedd, a'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu. Yn ogystal â hynny, mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn unigryw.[330] Mae ein dull o fesur natur unigryw wedi'i nodi ar ddiwedd yr adran hon. Pan fydd gennym bryderon, byddwn yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

## Rhaglenni sy'n cael eu prynu

### Yr hyn a ddywedon ni

7.47 Gall rhaglenni sy'n cael eu prynu ac sydd wedi'u dewis yn ofalus chwarae rhan bwysig yng nghyfansoddiad gwasanaethau'r BBC. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi dweud y byddem yn bryderus pe byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn chwarae rhan rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC. Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, fe

[327] Amod 3.14.4 a 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[328] Amod 3.16.1 y Drwydded Weithredu
[329] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.
[330] Amod 3.14.1 y Drwydded Weithredu.

wnaethom nodi pryderon roedd rhanddeiliaid wedi'u nodi ynghylch effaith rhaglenni sy'n cael eu prynu ar natur unigryw'r BBC.

7.48 I ategu'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, sy'n rhoi cap ar faint o raglenni sy'n cael eu prynu y gall y BBC eu darlledu ar ei sianeli teledu rhwydwaith, fe wnaethom gynnig cyflwyno gofyniad tryloywder newydd a fyddai'n mynnu bod y BBC yn esbonio'r rôl y byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn ei chwarae yn ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau unigryw, gan gynnwys ar gyfer ei wasanaethau ar-lein.[331] Roeddem hefyd yn cynnig gofynion tryloywder penodol ar yr oriau o raglenni sy'n cael eu prynu y mae'r BBC yn bwriadu eu darparu ym mhob genre sydd mewn perygl (ynghyd ag oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf).[332]

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.49 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y byddent yn poeni petai'r BBC yn cynyddu ei allbwn o raglenni sy'n cael eu prynu.[333] Roedd dau randdeiliad yn dadlau mai'r rheswm am hyn oedd bod y BBC yn prynu cynnwys nad yw'n cefnogi ei genhadaeth i fod yn unigryw.[334] Mynegodd ITV bryder penodol ynghylch cynnwys prif ffrwd yr Unol Daleithiau. Dywedodd nad oedd hyn yn hyrwyddo cymryd risgiau creadigol i'r BBC gan nad yw'n wynebu'r un risgiau cynhyrchu â chynnwys gwreiddiol o'r DU, a gall ffigurau gwylio'r Unol Daleithiau ddangos siawns o lwyddo ym marchnad y DU.[335] Cynigiodd ITV y dylai Ofcom felly fynnu bod y BBC yn sicrhau bod pob pryniant yn unigryw.[336]

7.50 Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym na ddylai rhaglenni sy'n cael eu prynu chwarae rhan rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC[337] ac na ddylid rhoi'r un pwys ar raglenni gwreiddiol.[338] Awgrymodd Pact y dylai Ofcom nodi lefel y rhaglenni sy'n cael eu prynu yn y cymysgedd hwn a fyddai'n peri pryder i ni.[339] Mynegodd ITV hefyd awydd i Ofcom ddal y BBC i gyfrif am raglenni sy'n cael eu prynu drwy osod rheolaethau llymach. Roedd yn argymell bod Ofcom yn rhoi cap ar gyfanswm y rhaglenni mae'r BBC yn gallu eu prynu, ac ar y swm y gall y BBC ei wario ar gynnwys wedi'i brynu.[340]

7.51 Nododd Directors UK ac ITV hefyd y gallai cynnydd mewn rhaglenni sy'n cael eu prynu niweidio'r economi greadigol drwy dynnu arian oddi ar farchnad gynhyrchu'r DU.[341] Dywedodd ITV fod y BBC yn cystadlu yn erbyn darlledwyr eraill am brynu rhaglenni yn achosi chwyddiant prisiau yn y farchnad.[342]

[331] Amod 3.14.2 y Drwydded arfaethedig.
[332] Amod 3.14.4 y Drwydded arfaethedig.
[333] Ymateb Directors UK , tudalen 8; Ymateb ITV, tudalennau 7-8; Ymateb VLV , tudalen 13.
[334] Ymateb Directors UK , tudalen 8; Ymateb ITV , tudalen 7.
[335] Ymateb ITV, tudalen 7.
[336] Ymateb ITV, tudalen 20.
[337] Ymateb Directors UK , tudalen 8; Ymateb VLV, tudalen 13; Ymateb Pact , tudalen 11.
[338] Ymateb Screen Scotland, tudalen 3.
[339] Ymateb Pact, tudalen 11.
[340] Ymateb ITV, tudalennau 17 a 19-20.
[341] Ymateb Directors UK , tudalen 8; Ymateb ITV , tudalen 2. Rydym yn ymateb i sylwadau sy'n ymwneud â'r sector cynhyrchu ym mharagraffau 7.27-7.28.
[342] Ymateb ITV, tudalen 8.

7.52 Mynegodd ITV bryder nad oes digon o wybodaeth am strategaeth prynu'r BBC yn y parth cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn anodd deall maint ei weithgareddau yn y maes hwn. [343] Nododd Pact hefyd y diffyg tryloywder presennol a chroesawodd y cynnig am ofyniad adrodd ychwanegol. [344]

## Ein penderfyniad

7.53 Mae'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, i bob pwrpas, yn cyfyngu ar faint o'r allbwn sy'n cael ei ddarlledu ar sianeli teledu rhwydwaith sy'n gallu bod yn rhaglenni wedi'u prynu. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Ofcom ar y BBC roedd llai na 2% o gyfanswm yr oriau teledu a gafodd ei ddarlledu yn 2021 yn rhaglenni wedi'u prynu, ac roedd y rhaglenni a gafodd eu prynu gan BBC iPlayer yn cynrychioli cyfran fach o oriau (6.4% yn 2021/22).[345] Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr effaith y gallai mwy o raglenni sy'n cael eu prynu ei chael ar economi greadigol a chystadleuaeth o fewn y BBC. Fodd bynnag, ar sail y niferoedd a welwyd ar hyn o bryd, nid ydym yn credu bod rhaglenni sy'n cael eu prynu yn chwarae rhan rhy fawr yn yr hyn mae'r BBC yn ei gynnig. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ofalus. Byddwn hefyd yn cadw golwg ar yr oriau o raglenni sy'n cael eu prynu ar wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu, ynghyd â gwariant gan ddefnyddio'r data blynyddol mae'r BBC yn ei gyflwyno i Ofcom.

7.54 Yn unol â'n cynigion ym mis Mehefin, rydym wedi cyflwyno gofynion adrodd newydd sy'n mynnu bod y BBC yn adrodd ar yr oriau o raglenni sy'n cael eu prynu y bydd yn eu darparu ym mhob genre 'mewn perygl' sef y celfyddydau a cherddoriaeth, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant[346], a byddwn yn olrhain hyn. O ystyried ymrwymiad y BBC yn ei Gyflwyniad Prawf Budd y Cyhoedd ar BBC iPlayer (2022) i gadw rhaglenni sy'n cael eu prynu ar BBC iPlayer i gyfran fach o gynnwys, rydym yn disgwyl iddo gyhoeddi cyfran yr oriau o raglenni sy'n cael eu prynu ar BBC iPlayer a BBC Sounds gyda'i Adroddiadau Blynyddol. Os bydd angen, byddwn yn ceisio casglu'r wybodaeth hon ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds, gan ddefnyddio ceisiadau am wybodaeth atodol. Petai'r BBC yn cynllunio newidiadau sylweddol i lefel y rhaglenni mae'n bwriadu eu prynu, bydd angen iddo ddarparu esboniad fel sy'n ofynnol gan y Drwydded Weithredu newydd.[347]

7.55 Nid ydym yn cytuno â safbwynt rhanddeiliaid sy'n nodi y dylai fod yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod pob un rhaglen sy'n cael ei phrynu yn unigryw – nid ydym yn edrych ar natur unigryw fesul rhaglen. Gall amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu prynu chwarae rhan bwysig yn y broses o gefnogi ymdrechion y BBC i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol, yn ogystal â denu gwylwyr newydd ar draws amrywiaeth ei gynnig unigryw.

7.56 Fodd bynnag, ar wahân i fonitro allbwn, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch ei ddull gweithredu cyffredinol ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu. Rydym wedi penderfynu addasu'r gofyniad tryloywder roeddem wedi'i gynnig yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin a byddwn nawr yn gofyn i'r BBC egluro gyda'i Gynllun Blynyddol sut mae ei ddull gweithredu ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu prynu yn cefnogi

[343] Ymateb ITV, tudalen 10.
[344] Ymateb Pact, tudalen 10.
[345] Data darlledu teledu gan Ofcom/BBC. Data BBC iPlayer gan y BBC, Hydref 2022. Cyflwyniad Prawf Budd y Cyhoedd y BBC, Adran 4.3.3.
[346] Amodau 3.14.4 a 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[347] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.

natur unigryw ac yn hyrwyddo ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau ar-lein.[348]

7.57 Rydym felly'n disgwyl i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer sut mae'n ceisio defnyddio rhaglenni sy'n cael eu prynu i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd a'u hannog i archwilio ei gynnig ehangach, ac i adrodd ynghylch a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hyn gyda'i Adroddiad Blynyddol. Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ynghylch perfformiad ei strategaeth. Dylai'r BBC hefyd egluro sut bydd ei strategaeth rhaglenni wedi'u prynu yn gyffredinol yn cefnogi natur unigryw ac yn cyfrannu at gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Dylai'r esboniad hwn gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds.

# Cynnwys plant

## Cynnwys plant

### Yr hyn a ddywedon ni

7.58 Gwnaethom gynnig gosod amod yn lle cwotâu mewn perthynas â drama a chynnwys ffeithiol ar CBBC (ynghyd â chwotâu eraill sy'n benodol i wasanaethau, fel yr amlinellwyd uchod) i'r BBC ddarparu ystod eang o allbwn sy'n cwmpasu ystod o genres a mathau o gynnwys ar ei wasanaethau. Roeddem yn cynnig ategu hyn â gofyniad tryloywder sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i ddarparu'r ehangder hwn, gan gynnwys oriau ym mhob genre sydd mewn perygl (y mae plant yn un ohonynt), yn ogystal ag oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu prynu.[349]

7.59 Roeddem hefyd yn cynnig cyfuno cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gan gynnwys y rheini ar CBeebies/BBC iPlayer a CBBC/BBC iPlayer, yn un cwota niwtral o ran gwasanaeth sy'n mynnu bod y BBC yn darparu 6,650 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws holl wasanaethau teledu rhwydwaith nad ydynt yn newyddion ac ar BBC iPlayer. Roedd hyn yn seiliedig ar ofyniad tryloywder i'r BBC nodi sut bydd yn dosbarthu'r cwota ar draws gwasanaethau ac yn caniatáu i bob cynulleidfa elwa o amrywiaeth o gynnwys newydd o ansawdd uchel yn y DU.[350] Fe wnaethom ddweud y byddem yn disgwyl i'r BBC hefyd esbonio sut y bydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd plant ag amrywiaeth o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf.

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.60 Y prif bryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â chynnwys i blant oedd y byddai dileu cwotâu yn arwain at leihau ehangder a nifer y rhaglenni gwreiddiol newydd i blant yn y DU.[351] Roedd llawer o hyn yn adlewyrchu'r pwyntiau ehangach a wnaed gan randdeiliaid ynghylch dileu cwotâu, ond roedd dadleuon penodol ynghylch cynnwys plant.

[348] Amod 3.14.2 y Drwydded Weithredu.
[349] Amodau arfaethedig 3.2.3 a 3.4.4; a 3.14.4 y Drwydded yn y drefn honno.
[350] Amodau arfaethedig 3.5-3.6; a 3.14.3 y Drwydded yn y drefn honno.
[351] Ymateb UK, tudalennau 4-5; Ymateb Directors CMF, tudalen 2; Ymateb Pact, tudalennau 8-10; Ymateb TAC, tudalen 2; Ymateb VLV, tudalen 9 a 11-12; Ymateb WGGB, tudalen 2-3.

7.61 Dywedodd y Children's Media Foundation (CMF) nad yw rhaglenni plant yn genre ond ei fod yn wasanaeth; ac na ddylid ei ddosbarthu a'i grwpio gyda genres eraill sydd 'mewn perygl'.[352] Roedd rhanddeiliaid yn dadlau bod dileu cwotâu yn dileu amddiffyniadau ar gyfer cynulleidfaoedd plant. [353] Mynegodd Pact a Directors UK bryderon hefyd ynghylch effaith dileu cwotâu ar gynhyrchwyr cynnwys plant.[354]

7.62 Dywedodd VLV a CMF eu bod yn poeni am y cynnydd yn nifer yr animeiddiadau yn rhaglenni plant y BBC, a oedd, yn eu barn nhw, yn lleihau 'Prydeindod' y cynnwys ac argaeledd cymysgedd o gynnwys sy'n benodol i ddiwylliant ac yn berthnasol i fywydau plant.[355] Roeddent yn teimlo y byddai dileu cwotâu plant yn gwaethygu'r pryder hwn. Ychwanegodd y CMF bryderon ynghylch masnacheiddio cynnwys plant a'r newid i fod ar-lein, gan adael rhai plant ar ôl.[356]

## Ein penderfyniad

7.63 Mae'r Cytundeb yn rhestru rhaglenni plant fel un o chwe genre sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol ar draws darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[357] Rydym yn cyfeirio at y genres hyn fel rhai sydd 'mewn perygl' ac rydym yn credu bod rhaglenni plant yn dal yn cyd-fynd â'r categori hwn, o ystyried yr amrywiadau yn narpariaeth gyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus rhaglenni gwreiddiol i blant yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf.[358]

7.64 Mae'r BBC yn darparu rhaglenni teledu i blant yn bennaf drwy sianeli teledu CBBC a Cbeebies sy'n cael eu darlledu, yn ogystal ag ar BBC iPlayer. Mae natur unigryw cynnig y BBC i blant yn cael ei ddiogelu'n rhannol gan gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, ac rydym yn cynnal hyn yn y Drwydded Weithredu newydd (fel y nodir uchod). Mae'r cwotâu hyn yn nodi faint o'r holl allbwn ar CBBC a CBeebies sy'n gorfod cael ei gomisiynu gan y BBC ac ar gyfer y BBC, ac maent yn rhoi cap ar faint o raglenni sy'n cael eu prynu. Rydym yn credu bod y cwotâu hyn yn parhau i fod yn rhwystr adeiladu allweddol i natur unigryw.

7.65 O ran rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ac ehangder y cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd plant, rydym wedi penderfynu:

- Symud ymlaen i weithredu cwota rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf sy'n niwtral o ran gwasanaeth ac sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws holl wasanaethau teledu rhwydwaith heb fod yn newyddion a BBC iPlayer, yn hytrach na gosod cwota ar wahân ar gyfer cynnwys plant.[359] Gall cwota niwtral o ran gwasanaeth helpu'r BBC i addasu'n gyflym i newidiadau i arferion plant wrth

---

[352] Ymateb CMF, tudalennau 1 a 3.
[353] Ymateb CMF, tudalen 2; Ymateb Pact, tudalennau 9-10.
[354] Ymateb Pact, tudlaennau 3 a 8; Ymateb Directors UK, tudalen 4. Rydym yn ymateb i sylwadau sy'n ymwneud â'r sector cynhyrchu ym mharagraffau 7.27-7.28.
[355] Ymateb VLV, tudalennau 11-12; Ymateb CMF, tudalen 4.
[356] Ymateb CMF, tudalennau 3-4.
[357] Y Cytundeb, Atodlen 2, paragraff 2.(2).
[358] Roedd rhaglenni gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn y genre plant yn 525 awr yn 2021 – sy'n llai na'r blynyddoedd blaenorol. Er bod elfen o hyn wedi'i sbarduno gan effeithiau Covid-19 ar gynhyrchu, nid yw rhaglenni gwreiddiol i blant yn y blynyddoedd diwethaf wedi rhagori ar y lefelau a welwyd yn 2016, pan oedd 673 awr. Edrychwch ar *Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu 2022* - data rhyngweithiol, tudalen 10.
[359] Amodau 3.5 a 3.6 y Drwydded Weithredu.

ddefnyddio'r cyfryngau y mae eu cyrhaeddiad wedi lleihau'n ddramatig ar deledu sy'n cael ei ddarlledu.

- Mabwysiadu ein cynnig i ddisodli'r cwotâu presennol ar gyfer drama a chynnwys ffeithiol ar CBBC â rhwymedigaeth ar y BBC i ddarparu amrywiaeth o allbwn ar draws gwasanaethau. Rydym yn addasu'r gofynion tryloywder cysylltiedig i fynnu'n benodol bod y BBC yn nodi cynlluniau ar gyfer is-genres allweddol yn y genre plant.[360]

**Maint a buddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf**

7.66 Erbyn hyn, dim ond 11% o blant 6-12 oed sy'n gwylio CBBC ar deledu sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos, o'i gymharu â 27% yn 2015. Mae'r amser mae plant yn ei dreulio'n gwylio CBBC ar gyfartaledd bob dydd wedi gostwng 29% rhwng 2021 a 2022, ac roedd lefelau gwylio dyddiol CBeebies ar gyfer plant 4-6 oed wedi cynyddu ychydig dros yr un cyfnod.[361] Ar yr un pryd, mae mwy o blant yn defnyddio'r rhyngrwyd (canfu ein hymchwil fod bron pob plentyn yn mynd ar-lein yn 2021), ac YouTube a TikTok yw'r llwyfannau ar-lein sy'n cael eu defnyddio amlaf. Canfu ein hymchwil hefyd fod plant yn fwy tebygol o wylio gwasanaethau ffrydio ar-alw y telir amdanynt fel Netflix ac Amazon Prime Video (78%) na gwylio teledu byw (47%). Yn y cyd-destun hwn, mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu cynnwys dibynadwy o ansawdd uchel o'r DU i blant ac mae'r BBC wedi darparu'r rhan fwyaf o'r holl oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant syn cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyson. Fodd bynnag, dim ond os yw'r allbwn hwn yn cyrraedd plant y gall y BBC ddarparu ei werth gwasanaeth cyhoeddus.

7.67 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol bod y BBC yn parhau i ddarparu a buddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer plant. Fodd bynnag, nid ydym yn credu mai cwotâu sy'n pennu isafswm oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer y sianeli plant yw'r dull cywir o sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd plant orau. Mae'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad i CBBC yn benodol yn awgrymu nad yw'r sefyllfa bresennol yn darparu i blant yn y ffordd yr oedd yn arfer ei wneud. Mae'n rhaid i'r BBC ddod o hyd i ffordd o ddarparu ar gyfer y grŵp cynulleidfa hwn. Rhaid i'n gwaith rheoleiddio beidio â chyfyngu'r BBC rhag moderneiddio ac addasu ei ddarpariaeth ar gyfer plant, ac rydym yn credu mai cwota rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ac sy'n niwtral o ran gwasanaeth yw'r mecanwaith gorau i alluogi hyn.

7.68 Nid ydym yn cytuno â rhanddeiliaid y byddai bod yn niwtral o ran gwasanaeth, ynddo'i hun, yn arwain at gynnig o ansawdd is i blant. Mae gan y BBC gymhelliant sylfaenol i fuddsoddi mewn plant ac ymgysylltu â nhw ar draws ei wasanaethau gan eu bod yn allweddol i'w gynaliadwyedd yn y dyfodol ac i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym yn disgwyl y bydd y BBC yn gweithio'n galed i ddod o hyd i ddulliau gweithredu arloesol i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd plant o ystyried newidiadau i'w harferion wrth ddefnyddio'r cyfryngau.

[360] Amodau 3.2.3, 3.4.3 a 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[361] Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 28-diwrnod 3+ munud BARB o fewn oriau darlledu'r sianel.

7.69 Rydym hefyd yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch niwtraliaeth gwasanaethau a newid tuag at fynd ar-lein, gan adael rhai plant ar ôl. Fodd bynnag, er bod gan y BBC y cwmpas i ddarparu mwy o'i gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar BBC iPlayer o dan y Drwydded Weithredu gyntaf, ychydig iawn o gynnwys i blant sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar-lein sydd ar gael ar BBC iPlayer ar hyn o bryd.[362] O'r herwydd, nid ydym yn credu bod angen mesurau diogelu penodol ar wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu nawr, ond byddwn yn monitro hyn.

7.70 Byddwn yn diogelu'r ddarpariaeth i blant drwy fonitro darpariaeth y BBC yn barhaus. Byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- Bydd rhaid i'r BBC nodi yn ei Gynllun Blynyddol yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf y bydd yn eu darparu ar ei wasanaethau teledu rhwydwaith, gan gynnwys CBBC a CBeebies.[363]
- Bydd rhaid i'r BBC nodi gyda'i Gynllun Blynyddol yr oriau y bydd yn eu darparu yn y genre plant, yn cynnwys oriau o raglenni sy'n cael eu prynu. Bydd gofyn iddo nodi oriau ac oriau arfaethedig rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn yr is-genres allweddol o gynnwys i blant, sef drama, ffeithiol, adloniant ac addysg (gweler 'Ehangder cynnwys plant' isod).[364]
- Byddwn yn monitro'r gwariant a ragwelir ar raglenni gwreiddiol o'r DU i blant sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, ar y cyd ag oriau arfaethedig ar gyfer unrhyw newidiadau i ymrwymiad y BBC i gynnwys i blant. Ar gyfer cyfrinachedd, byddwn yn defnyddio ceisiadau am wybodaeth i gasglu gwybodaeth am wariant a ragwelir gan y BBC. Byddwn hefyd yn ystyried darpariaeth cynnwys plant y BBC yng nghyd-destun ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn monitro'r effaith ar blant drwy ymchwil fel Traciwr blynyddol Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC.
- Os bydd y BBC yn cynllunio newidiadau sylweddol a fydd yn effeithio ar allbwn plant, bydd yn egluro a chyfiawnhau sut bydd yn dal i wasanaethu cynulleidfaoedd plant yn briodol.[365]
- Os byddwn yn poeni am unrhyw newidiadau y mae'r BBC yn eu cynllunio neu'n sylwi ar dueddiadau yn y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd plant sy'n peri pryder i ni, byddwn yn defnyddio ein pwerau i gymryd camau ac ymyrryd. Pan fo'n briodol, efallai y byddwn yn ystyried gosod amodau Trwydded newydd.

**Ehangder cynnwys plant**

7.71 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod rhaglenni plant yn wahanol i genres eraill, gan eu bod yn cael eu diffinio gan ei chynulleidfa darged yn hytrach na thestun ei chynnwys. O ganlyniad, mae'n cwmpasu ystod eang o gynnwys a genres. Ar CBeebies, mae'r amrywiaeth o gynnwys sy'n cael ei ddarparu wedi'i anelu'n benodol at addysg cyn-ysgol[366] – mae hyn yn unol â gofynion y Drwydded Weithredu gyntaf, ac rydym yn cadw at hynny.[367]

---

[362] Data cyfrinachol sy'n cael ei ddarparu i Ofcom gan y BBC.
[363] Amod 3.14.3 y Drwydded Weithredu.
[364] Amod 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[365] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.
[366] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC ar gyfer 2021.
[367] Amod 2.5 y Drwydded Weithredu.

Ar CBBC, mae'r BBC wedi darparu amrywiaeth o raglenni plant yn gyson sy'n llawer ehangach na'r hyn mae'r Drwydded Weithredu gyntaf yn gosod cwotâu ar ei gyfer: drama a chynnwys ffeithiol. Yn 2021, roedd CBBC yn darparu rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws: drama, adloniant, animeiddio, ffeithiol, newyddion ac addysg oed ysgol.[368]

7.72 Am y rheswm hwnnw, rydym o'r farn bod ein cynnig i ddisodli'r cwotâu presennol ar gyfer drama a rhaglenni ffeithiol ar CBBC gyda rhwymedigaeth i ddarparu amrywiaeth o allbwn ar draws gwasanaethau yn annhebygol o leihau'r amrywiaeth o gynnwys plant. Fodd bynnag, o ran tryloywder, rydym yn credu y byddai defnyddio 'rhaglenni plant' fel genre i'r BBC adrodd yn ei erbyn yn aneffeithiol, gan nad yw'n gwneud yr amrywiaeth o gynnwys sy'n cael ei ddarparu i blant yn amlwg. O ystyried hyn, rydym wedi penderfynu ychwanegu gofyniad tryloywder i fynnu'n benodol bod y BBC yn nodi oriau arfaethedig rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ym mhob is-genre allweddol o raglenni plant: drama, ffeithiol, adloniant ac addysg.[369] Bydd yn rhaid i'r BBC hefyd nodi'r oriau prynu cyffredinol sydd wedi'u cynllunio yn y genre plant.

7.73 Rydym yn nodi pryderon penodol rhanddeiliaid ynghylch cynnydd mewn animeiddiadau yn rhaglenni plant y BBC. Maen nhw'n dadlau bod animeiddiadau'n lleihau 'Prydeindod'[370] a pherthnasedd cynnwys i fywydau plant. Fel y nodwyd gennym yn ein penderfyniad ar newidiadau i gwota cynyrchiadau gwreiddiol CBBC ym mis Mai 2022, mae dewisiadau comisiynu a phrynu rhaglenni penodol yn benderfyniadau golygyddol a strategol i'r BBC eu gwneud. Ar yr amod bod y BBC yn parhau i ddarparu ystod eang o allbwn gwreiddiol y DU ar CBBC, y byddwn yn ei fonitro, mae cynnydd mewn animeiddio ei hun yn annhebygol o gael effaith negyddol ar ansawdd a natur unigryw CBBC a gallai hefyd apelio at gynulleidfaoedd iau. Rydym yn credu y gall animeiddio o ansawdd uchel yn y DU gefnogi natur unigryw cynnwys plant y BBC. Gellir defnyddio animeiddio i ddarparu amrywiaeth o genres, a gall gynrychioli amrywiaeth a hanesion y DU, gan gynnwys drwy ieithoedd a thafodieithoedd y DU. Ceir enghreifftiau penodol o animeiddiadau plant o ansawdd uchel yn y DU sy'n unigryw ac yn Brydeinig, gan gynnwys *Wallace a Gromit, Hey Duggee* a *Danger Mouse*.

## Darparu ystod eang o gynnwys sain a nodweddion unigryw ar y radio

### Dull cyffredinol

#### Yr hyn a ddywedon ni

7.74 Fe wnaethom gynnig disodli cwotâu radio rhwydwaith ar gyfer rhaglenni celfyddydol a chrefyddol, rhaglenni dogfen, ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddorol newydd amod sy'n ei gwneud yn

[368] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC ar gyfer 2021.
[369] Amod 3.14.5 y Drwydded Weithredu.
[370] Mae'n ddyletswydd ar y BBC i sicrhau ei fod yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan yng nghynnwys ei allbwn.

ofynnol i'r BBC ddarparu ystod eang o allbwn.[371] Fe wnaethom hefyd gynnig gofynion tryloywder i fynnu bod y BBC yn nodi oriau arfaethedig rhaglenni o'r fath gyda'i Gynllun Blynyddol.[372] Yn yr un modd â'r dull gweithredu ar gyfer cwotâu genres teledu, mae hyn yn rhoi pwyslais ar yr angen i'r BBC ddarparu ystod eang o allbwn, yn enwedig yn y genres y cyfeirir atynt yn y Drwydded, yn hytrach na phennu nifer sylfaenol o allbwn i benderfynu a yw'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

7.75 Fe wnaethom gynnig cadw'r cwotâu presennol ar gyfer cerddoriaeth ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2 ar gyfer cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig ar BBC Radio 3 ac ar gyfer sylw i chwaraeon ar BBC Radio 5 Live.[373] Cafodd hyn ei ategu gan ofynion tryloywder i'r BBC nodi gyda'i Adroddiad Blynyddol, nifer y chwaraeon y mae'n rhoi sylw iddynt ar BBC Radio 5 Live (gan gynnwys oriau y gwahanol chwaraeon), a chyfraniad cerddoriaeth arbenigol at natur unigryw BBC Radio 1 a BBC Radio 2.[374] Rydym hefyd wedi cynnig gofyniad tryloywder sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob un o'i wasanaethau yn unigryw, gan gynnwys ar gyfer BBC Sounds.[375]

7.76 Fel rhan o'n cynnig i wneud cwotâu radio'r BBC yn rhai blynyddol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol diangen ar y BBC ac Ofcom, fe wnaethom hefyd yn cynnig gwneud y cwota cerddoriaeth arbenigol wythnosol presennol ar gyfer BBC Radio 1 yn flynyddol.

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.77 Roedd y BBC yn cefnogi ein cynigion i ddisodli'r cwotâu radio rhwydwaith a ddisgrifir uchod ag amod sy'n mynnu bod y BBC yn darparu ystod eang o allbwn. Roedd hefyd yn cefnogi ein cynnig i gadw'r cwotâu cerddoriaeth ar BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3 yn ogystal â'r cwota chwaraeon ar BBC Radio 5 Live.[376]

7.78 Mynegodd amrywiaeth o randdeiliaid[377] bryderon y byddai ein cynigion i ddisodli cwotâu genres ac allbwn ar nifer o wasanaethau radio rhwydwaith y BBC ag amodau cyffredinol a gofynion tryloywder yn arwain at ostyngiad mewn cynnwys sydd 'mewn perygl'. Roedd News Broadcasting yn dadlau na fyddai disodli cwotâu â gofynion tryloywder yn galluogi rhanddeiliaid i asesu perfformiad y BBC yn effeithiol.[378] Dywedodd NUJ y dylid cadw cwotâu ar gyfer BBC Radio 3 a rhaglenni dogfen o leiaf nes bydd y strwythur newydd wedi ymsefydlu a bod y BBC wedi dangos ei ymrwymiad i ddarparu cynnwys.[379]

7.79 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y cynigion i ddisodli cwotâu yn golygu llacio'r rheoleiddio. Roedd Global yn dadlau nad yw'n ymddangos bod y gofyniad tryloywder sy'n mynnu bod y

[371] Mae'r cwotâu dan sylw yn ymwneud â nifer y rhaglenni dogfen ar BBC Radio 1, BBC 1Xtra, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC 6 Music, rhaglenni crefyddol ar BBC Radio 2 a BBC Radio 4, ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ar BBC Radio 1, rhaglenni celfyddydol ar BBC Radio 2, perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig a gweithiau cerddoriaeth newydd ar BBC Radio 3.
[372] Amodau 3.14.5.1-3.14.5.7 y Drwydded arfaethedig.
[373] Amodau 3.9 - 3.12 y Drwydded arfaethedig.
[374] Amodau 3.15.2-3.15.3 y Drwydded arfaethedig.
[375] Amod 3.14.1 y Drwydded arfaethedig.
[376] Ymateb BBC, tudalen 12.
[377] Ymateb AudioUK, tudalennau 2-7; Ymateb Global, tudalennau 7-8; Ymateb T. Havenhand, tudalen 1; Ymateb News Broadcasting, tudalennau 13-34; Ymateb NUJ , tudalennau 5-6; Ymateb Radiocentre , tudalennau 13-17; Ymateb SSMT , tudalennau 6-7; Ymateb VLV , tudalennau 13-14.
[378] Ymateb News Broadcasting, tudalen 6.
[379] Ymateb NUJ, tudalennau 5-6.

BBC yn egluro unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth bresennol yn caniatáu ar gyfer unrhyw her gan Ofcom neu randdeiliaid. Roedd yn dadlau y byddai'r cynigion yn arwain at reoleiddio llai llym ar gyfer y BBC nag ar gyfer gorsafoedd radio masnachol (sy'n gorfod ceisio cymeradwyaeth Ofcom i newid eu fformatau) ac y byddai methu â llacio'r rheoliadau ar gyfer y sector masnachol yn torri prif ddyletswydd ac egwyddorion rheoleiddio Ofcom.[380] Nododd Radiocentre bryderon tebyg ac awgrymodd yn hytrach bod rhaid i'r BBC geisio cymeradwyaeth gan Ofcom i amrywio ei allbwn o gynnwys mewn perygl, ynghyd ag esboniad o sut fyddai unrhyw newidiadau'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.[381]

7.80 Cyfeiriodd Radiocentre ac AudioUK at ddileu cwotâu Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer drama ar BBC Radio 3 a drama a chomedi ar BBC Radio 4 pan ddatblygodd Ofcom y Drwydded Weithredu gyntaf a'r dirywiad dilynol yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, roedd rhaid i BBC Radio 4 ddarlledu o leiaf 600 awr o raglenni drama a darlleniadau gwreiddiol ac o leiaf 180 awr o gomedi gwreiddiol bob blwyddyn o dan Ymddiriedolaeth y BBC. Er bod y BBC wedi adrodd i Ofcom yn 2017 nad oedd yn bwriadu lleihau cynnwys drama na chomedi, roedd y rhanddeiliaid yn dadlau bod y Cynllun Blynyddol 2022-23 yn ymrwymo i ddim ond 300 awr o ddrama a 150 awr o gomedi ar BBC Radio 4.[382]

Dywedodd yr NUJ ac Ymddiriedolaeth Sandford St Martin mai prin yw'r ffynonellau o raglenni dogfen radio a rhaglenni crefyddol nad ydynt yn rhai'r BBC, sy'n eu gwneud yn allweddol ar gyfer natur unigryw radio'r BBC.[383] Roedd Radiocentre hefyd yn poeni y byddai'r newidiadau hyn yn gwneud gwasanaethau radio'r BBC yn llai unigryw. Roedd yn cyfeirio at fodelu o'i ymateb ym mis Medi 2019[384] i'n hymgynghoriad *Sut mae Ofcom yn Rheoleiddio'r BBC* i awgrymu y byddai llai o gyfyngiadau ar gynnwys y BBC yn niweidio radio masnachol a chystadleuaeth deg ac effeithiol.[385]

7.81 O ran sylwebaeth fyw ar chwaraeon ar BBC Radio 5 Live, roedd News Broadcasting yn dadlau na fyddai'r gofyniad tryloywder roeddem wedi'i gynnig yn debygol o ganiatáu ar gyfer asesiad ystyrlon o gynlluniau'r BBC. Nododd nad oedd ein cynigion yn cynnwys gofyniad penodol i'r BBC gyhoeddi ei allbwn arfaethedig ar gyfer darpariaeth chwaraeon, dim ond mynnu bod y BBC yn adrodd yn ôl ar ei ddarpariaeth. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd y gofyniad wedi'i gyfyngu'n unig i ddarllediadau byw, sy'n golygu y gellid ei ddehongli i gynnwys cynnwys arall fel rhaglenni sgwrsio. Roedd yn argymell newid y gofyniad tryloywder sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei allbwn arfaethedig ar draws gwasanaethau unigol i gynnwys gofyniad hefyd i adrodd ar ei ddarpariaeth chwaraeon lleiafrifol ar BBC Radio 5 Live.[386]

7.82 Roedd News Broadcasting hefyd wedi nodi pryder ynghylch pennu cwota cerddoriaeth arbenigol BBC Radio 1 yn flynyddol. Roedd yn dadlau y byddai hyn yn lleihau'r gofyniad ar y

---

380 Ymateb Global, tudalen 5.
381 Ymateb Radiocentre, tudalen 15.
382 Ymateb Radiocentre, tudalen 16, Ymateb AudioUK, tudalen 3.
383 Ymateb NUJ, tudalen 6; Ymateb SSMT, tudalen 6.
384 Ymateb Radiocentre i ymgynghoriad Ofcom: Sut mae Ofcom yn Rheoleiddio'r BBC, tudalen 19.
385 Ymateb Radiocentre, tudalen 14.
386 Ymateb News Broadcasting,, tudalennau 5-6 a 14-15.

BBC i bob pwrpas ac yn golygu bod BBC Radio 1 yn dod yn wasanaeth cerddoriaeth mwy generig sy'n dyblygu rhestrau chwarae gorsafoedd masnachol.[387]

## Ein penderfyniad

7.83 Fel y trafodwyd mewn perthynas â chwotâu genres teledu, rydym yn dal o'r farn nad yw cwotâu genres un gwasanaeth yn briodol gan nad ydynt yn ystyried gwasanaethau ar-lein y BBC ac nad ydynt yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio ag ehangder gwasanaethau'r BBC. Ar ben hynny, rydym yn credu y dylid canolbwyntio mwy ar ansawdd a natur unigryw'r hyn mae'r BBC yn ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn hytrach na'r nifer yn unig. Er mwyn i'r BBC allu diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y ffordd orau, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n galluogi'r BBC i ddarparu rhaglenni sain pan mae cynulleidfaoedd yn dymuno hynny.

7.84 Awgrymodd Global a Radiocentre y byddai ein cynigion yn caniatáu i'r BBC wneud newidiadau i'w allbwn gorsaf radio heb i Ofcom na rhanddeiliaid eraill graffu a herio. Nid ydym yn cytuno â'r datganiadau hyn, gan fod ein dull gweithredu'n seiliedig ar fframwaith cadarn i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni i gynulleidfaoedd:

a) Yn gyntaf, rydym yn cyflwyno gofynion tryloywder sy'n mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i ddarparu ystod eang o allbwn.[388] Bydd rhaid i'r BBC hefyd adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth.[389] Bydd y gofynion hyn yn sicrhau tryloywder cyhoeddus ynghylch cynlluniau'r BBC, gan ganiatáu i Ofcom a rhanddeiliaid graffu arnynt.

b) Yn ail, ynghyd â mwy o dryloywder gan y BBC, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y BBC gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i lunio barn annibynnol. Mae ein rhaglen fonitro hon yn cynnwys ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.

c) Yn drydydd, os oes gennym bryderon ynghylch newid penodol i ddarpariaeth y BBC i gynulleidfaoedd, gallwn gamu i mewn i ymchwilio a mynd i'r afael â'n pryderon. Nodir y broses hon yn fanylach yn Adran 3.

7.85 Rydym yn nodi'r pryder a godwyd gan Radiocentre a AudioUK ynghylch newidiadau yn y ddarpariaeth drama a chomedi ar BBC Radio 4 a drama ar BBC Radio 3 ers i Ofcom gyhoeddi Trwydded Weithredu gyntaf y BBC yn 2017. O ran drama ar BBC Radio 4, byddem yn tynnu sylw at y ffaith bod cwota Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnwys 'darlleniadau'[390] – categori ar wahân o gynnwys yn ogystal â drama – tra bod yr ymrwymiad yng Nghynllun Blynyddol 2022/23 yn canolbwyntio ar ddrama yn unig. Yn y Drwydded gyntaf, fe wnaethom benderfynu peidio â chadw cwotâu Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer cynyrchiadau drama ar BBC Radio 3 yn ogystal â'r cwotâu gwreiddiol ar gyfer drama, darlleniadau a chomedi gwreiddiol ar BBC Radio 4. Y rheswm am hyn oedd ein bod o'r farn bod y gwasanaethau hyn eisoes yn darparu cynnig unigryw iawn i gynulleidfaoedd ac

---

[387] Ymateb News Broadcasting, tudalen 10.
[388] Amod 3.14.6 y Drwydded Weithredu.
[389] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.
[390] Mae 'darlleniadau' yn golygu rhaglenni gydag adroddwr, yn hytrach na dramodiadau.

roeddem am roi cyfle i'r BBC allu arloesi'r gwasanaethau hyn ymhellach heb ofynion cwota rhagnodol.

7.86 Fodd bynnag, mae'r enghraifft a godwyd gan Radiocentre ac AudioUK yn tynnu sylw at yr angen am fwy o dryloywder. Bydd y gofynion tryloywder newydd rydym yn eu nodi uchod yn mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i ddarparu ystod eang o allbwn.[391] Bydd rhaid iddo hefyd adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth, fel lleihau'r nifer o raglenni drama ar Radio 4 ac arloesi â'r hyn mae'n ei gynnig i bodlediadau.[392] Ynghyd ag adroddiadau'r BBC ei hun, byddwn yn parhau i fonitro ei berfformiad.

7.87 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, nid oes modd cymharu cynigion fideo a sain y BBC yn uniongyrchol ac felly rydym yn credu bod angen dull gweithredu gwahanol. Roeddem wedi dweud bod natur radio cerddoriaeth, lle nad yw traciau cerddoriaeth yn gynyrchiadau gwreiddiol gan y BBC, yn golygu bod mwy o angen diogelu natur unigryw yn y maes hwn. Nid oeddem yn ystyried bod y cwotâu genres yn debyg i amodau radio cerddoriaeth, gan eu bod yn ymwneud ag allbynnau sy'n gynyrchiadau gwreiddiol ac nad ydynt yn cael eu cynnig yn eang gan ddarparwyr eraill.

7.88 Yn unol â hynny, rydym yn cadw nifer o gwotâu mewn perthynas â thraciau cerddoriaeth.[393] Mae hyn yn cynnwys cerddoriaeth arbenigol ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2, yn ogystal â chwotâu, lle rydym yn cadarnhau ein cynnig i gyflwyno gofyniad tryloywder i'r BBC adrodd yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfraniad cerddoriaeth arbenigol at natur unigryw BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn ystod y flwyddyn.[394]

7.89 Rydym hefyd yn cadw amodau mewn perthynas â sylwebaeth fyw ar chwaraeon ar BBC Radio 5 Live.[395] Rydym yn nodi'r adborth mae News Broadcasting wedi'i ddarparu ar y gofyniad tryloywder ategol roeddem wedi'i gynnig ac rydym wedi penderfynu ei ddiwygio.[396] Yn hytrach na mynnu adrodd ar gyfanswm y sylw (byw neu heb fod yn fyw) i chwaraeon, rydym yn mynnu bod y BBC yn adrodd ar nifer y chwaraeon a chyfanswm yr oriau fesul chwaraeon, yn y sylwebaeth fyw ar BBC Radio 5 Live.[397] Rydym o'r farn bod hyn yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth yn well.[398] Nid ydym yn gwneud newidiadau i'w gwneud yn ofynnol i adrodd ar gynlluniau'r BBC ar gyfer chwaraeon am y flwyddyn i ddod, gan ein bod o'r farn bod ein dull gweithredu'n adlewyrchu'n well yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chynigion hawliau chwaraeon. Nid ydym chwaith yn ehangu'r gofynion tryloywder i geisio adrodd ar y sylw a roddir i chwaraeon lleiafrifol ar BBC Radio 5 Live. Nid ydym yn credu y byddai hyn yn adlewyrchu bwriad ein cyflwr.

7.90 Rydym yn anghytuno â phwynt News Broadcasting y bydd ein penderfyniad i bennu cwota cerddoriaeth arbenigol wythnosol BBC Radio 1 yn flynyddol yn tanseilio ei natur unigryw. Mae faint o gynnwys cerddoriaeth arbenigol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu ar BBC Radio

[391] Amod 3.14.6 y Drwydded Weithredu.
[392] Amod 3.13 a 3.15 y Drwydded Weithredu.
[393] Amodau 3.9.1-3.9.4, 3.10.1-3.10.4 a 3.11.1. y Drwydded Weithredu.
[394] Amod 3.16.3 y Drwydded Weithredu.
[395] Amod 3.12 y Drwydded Weithredu.
[396] Amod 3.15.2 y Drwydded arfaethedig.
[397] Amod 3.16.2 y Drwydded Weithredu.
[398] Amod 3.12 y Drwydded Weithredu.

1 yn aros yr un fath, ac nid yw'r newid i gwotâu blynyddol yn cynrychioli newid yn ein disgwyliadau o natur unigryw'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r cwota blynyddol barhau i gael ei ddosbarthu'n gymesur bob wythnos. Byddwn yn ystyried darparu cynnwys cerddoriaeth arbenigol ar BBC Radio 1, ynghyd ag agweddau eraill ar natur unigryw – fel cerddoriaeth fyw neu artistiaid o'r DU – yn ein hasesiad o berfformiad y BBC. Rydym hefyd yn trafod gwneud cwotâu radio yn rhai blynyddol yn Adran 5.

## BBC Sounds

### Yr hyn a ddywedon ni

7.91 Un o amcanion pwysig y Drwydded Weithredu newydd oedd dod â gwasanaethau ar-lein y BBC, gan gynnwys BBC Sounds, yn fwy cyflawn o fewn cwmpas y Drwydded. Mae BBC Sounds a rhannau eraill o BBC Ar-lein wedi dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd. Roedd ein cynigion yn ceisio sicrhau ein bod yn dal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth ar-lein i gynulleidfaoedd, yn ogystal â rhoi mwy o gydnabyddiaeth iddo am ei gyfraniad at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC.

7.92 Roeddem yn cynnig gofynion tryloywder ar gyfer BBC Sounds ar draws yr holl Ddibenion Cyhoeddus. O ran Diben Cyhoeddus 3, rydym yn nodi gofynion i'r BBC ddarparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU, i gefnogi talent newydd yn y DU ac arloesi creadigol, i ddarparu ystod eang o allbwn, ac i wneud ei gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd ei ganfod.[399] Roeddem hefyd wedi nodi gofynion penodol i'r BBC egluro ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn unigryw, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer BBC Sounds, a'r rôl y bydd rhaglenni sy'n cael eu prynu yn ei chwarae yn y cynlluniau hyn.[400]

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.93 Roedd y BBC yn cefnogi cynnwys BBC Sounds yn y Drwydded ynghyd â chyflwyno gofynion tryloywder newydd.[401] Roedd Global, Radiocentre a News Broadcasting hefyd yn croesawu cynnwys BBC Sounds ond roedd ganddynt bryderon bod yr amodau'n rhy amwys, gan nodi hefyd nad oedd y gair 'unigryw' yn yr amodau.[402] Awgrymodd Global a Radiocentre welliannau i'n hamod arfaethedig 3.2.1 i nodi *"darparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol unigryw o'r DU"* a gofyniad 3.2.3 i sicrhau bod BBC Sounds yn darparu *"ystod eang o allbwn unigryw sy'n cwmpasu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys arbenigol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y sector masnachol."*[403]

7.94 Roedd News Broadcasting yn poeni nad oedd Ofcom wedi dangos sut byddai'n mesur natur unigryw. Tynnodd sylw'n benodol at ddiffyg mesurau meintiol.[404] Nododd Radiocentre ei fod yn credu bod diffyg arolygiaeth gan Ofcom o berfformiad BBC Sounds yn rhannol oherwydd diffyg hanesyddol o ran rheoleiddio'r gwasanaeth hwn.[405] Rhoddodd News

[399] Amod 3.2 y Drwydded arfaethedig.
[400] Amodau 3.14.1 a 3.14.2 y Drwydded arfaethedig.
[401] Ymateb BBC, tudalen 9.
[402] Ymateb Global, tudalen 8 ; Ymateb Radiocentre, tudalen 2; Ymateb News Broadcasting, tudalen 2.
[403] Ymateb Global, tudalen 8, Ymateb Radiocentre, tudalen 17.
[404] Ymateb News Broadcasting, tudalen 12.
[405] Ymateb Radiocentre, tudalen 7.

Broadcasting gyfres o argymhellion penodol i ni ar gyfer y gofynion tryloywder, a oedd yn cynnwys mynnu gwybodaeth am ddata gwariant a gwrando.[406]

7.95 O ran effeithiau posibl ar gystadleuaeth, roedd Global a Radiocentre yn dadlau bod y BBC wedi dominyddu yn sector sain y DU ac o ystyried hyn, a'r gwahaniaeth yn y ffordd mae'r sectorau teledu a sain wedi datblygu, dylai gweithgareddau sain ar-lein y BBC fod yn destun mwy o reoleiddio na'i wasanaethau teledu ar-lein.[407]

### Ein penderfyniad

7.96 Ar ôl adolygu sylwadau rhanddeiliaid yn ofalus ar y gofynion arfaethedig a sut rydym yn mesur natur unigryw BBC Sounds, rydym wedi penderfynu gweithredu'r amodau roeddem wedi'u cynnig yn Ymgynghoriad mis Mehefin.[408]

7.97 Rydym yn credu bod natur unigryw yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys amrywiaeth y cynnwys, ansawdd yr allbwn, cyfran y cynnwys gwreiddiol o'r DU, lefel y risg ac arloesedd creadigol, ac mae'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'r BBC yn eu gwasanaethu. Mae'r rhain i gyd yn elfennau a fyddai'n cyfrannu at BBC Sounds unigryw. Mae'r amodau rydym wedi'u gosod ar gyfer BBC Sounds yn cynnwys yr elfennau allweddol hyn o natur unigryw a dylai sicrhau bod y BBC yn dryloyw yn ei ddull gweithredu.

7.98 Er mwyn iddo fod yn unigryw, roedd sylwadau rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r BBC yn bennaf gynnwys genres neu gynnwys arbenigol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y sector masnachol. Nid ydym yn cytuno mai dim ond ar y genres a nodwyd gan randdeiliaid y dylai BBC Sounds ganolbwyntio arnynt i fod yn unigryw, ac rydym o'r farn bod ystod eang o gynnwys unigryw o ansawdd uchel yn bwysig (fel y nodir yn amcanion y Drwydded). Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym hefyd yn ystyried natur unigryw ar lefel gwasanaeth ac nid fesul rhaglen.

7.99 Byddwn yn dal y BBC i gyfrif i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth BBC Sounds unigryw i gynulleidfaoedd. Mae'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i asesu natur unigryw BBC Sounds yn debyg i'r rheini rydym yn eu defnyddio i asesu natur unigryw gwasanaethau eraill y BBC, ac mae'r elfennau hyn wedi'u nodi uchod ac ar ddiwedd yr adran hon. Bydd y metrigau a ddefnyddir i asesu elfennau natur unigryw yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth dan sylw, ond ar gyfer BBC Sounds bydd llawer yn adlewyrchu'r rhai sy'n cael eu defnyddio mewn radio yn ogystal â'r rhai sy'n briodol ar gyfer darparu gwasanaethau sain ar-lein.

7.100 Gan fod BBC Sounds yn faes newydd sy'n cael sylw yn y Drwydded Weithredu, nid oes llawer o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd am genres rhaglenni ar y gwasanaeth, er enghraifft. Felly, rydym yn ymgysylltu â'r BBC dros y misoedd nesaf i ddatblygu ein dealltwriaeth o BBC Sounds a sut rydym yn mesur perfformiad. Wrth egluro sut bydd y BBC yn cyflawni'r amod i ddarparu ystod eang o allbwn ar BBC Sounds,[409] rydym yn disgwyl iddo roi manylion y gymysgedd arfaethedig o genres ac allbwn ar gyfer BBC Sounds. Rydym hefyd yn disgwyl gofyn am ragor o wybodaeth fel sy'n briodol er mwyn gwella ein

[406] Ymateb News Broadcasting, tudalennau 2-3.
[407] Ymateb Global, tudalennau 1-2, Ymateb Radiocentre, tudalen 1.
[408] Amodau 3.2 ac 3.3 y Drwydded Weithredu.
[409] Amodau 3.2.3 ac 3.13 y Drwydded Weithredu.

dealltwriaeth o berfformiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gofyn am 'giplun' o'r holl gynnwys sydd ar gael ar BBC Sounds i'n helpu i asesu'r natur unigryw.

7.101 Roedd News Broadcast yn galw am gyhoeddi data gwariant ar gyfer BBC Sounds. Pan allai fod yn ddangosydd perfformiad defnyddiol, rydym o'r farn y gallwn ofyn amdano'n gyfrinachol gan y BBC. Lle bo'n briodol, byddem yn disgwyl trafod hyn yn ein hasesiad o berfformiad fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC, ond nid ydym yn credu bod angen i'r BBC gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am wariant ar BBC Sounds.

7.102 Mewn perthynas â'r materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth a godwyd gan Global a Radiocentre, penderfynodd Ofcom yn ein datganiad ym mis Tachwedd 2021 ar Sefyllfa'r Farchnad BBC Sounds nad oedd gennym sail resymol i gredu ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[410] Yn fwy diweddar, rydym wedi nodi ein barn am sefyllfa bresennol y BBC yn y sector sain er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r BBC a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried effeithiau cystadleuaeth y BBC.[411] Fel y disgrifir yn y drafodaeth cystadleuaeth yn adran 3, mae gennym set eang o adnoddau rheoleiddio ar waith i fonitro effaith y BBC ar gystadleuaeth ac i ganiatáu i ni weithredu lle bo angen.

## Cwota cerddoriaeth fyw BBC Radio 2

### Yr hyn a ddywedon ni

7.103 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig cadw'r cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2, ar y lefel a bennwyd yn Nhrwydded 2017.[412] Fe wnaethom ddweud bod cerddoriaeth fyw yn gyfraniad pwysig at natur unigryw BBC Radio 2 ac y dylid ei diogelu.

7.104 Fel rhan o'i gais ychwanegol am newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC, gofynnodd y BBC i ni ddefnyddio dull tebyg ar gyfer cwota cerddoriaeth fyw BBC Radio 2 fel roeddem wedi'i gynnig ar gyfer cwotâu genres eraill yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin. Yn benodol, roedd yn gofyn i'r cwota cerddoriaeth fyw gael ei ddisodli gan amod a gofynion tryloywder ategol.

7.105 Yn hytrach na chael gwared ar y cwota cerddoriaeth fyw yn unol â chais y BBC, yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr fe wnaethom gynnig ei ddiwygio i eithrio cynnwys sy'n cael ei ailadrodd nad yw cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi cymaint. Y cynnig oedd y byddai'r cwota ond yn cynnwys cerddoriaeth wirioneddol fyw neu newydd wedi'i recordio'n arbennig ac y byddai'n cael ei osod ar 68 awr ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r hyn a gyflawnwyd yn 2022.

410 Ofcom, Safle BBC Sounds yn y Farchnad, 25 Tachwedd 2021.
411 Ofcom, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth: cynigion ar gyfer newidiadau i ganllawiau a gofynion, Tachwedd 2022.
412 Amod 3.10.3 y Drwydded arfaethedig.

### Sylwadau rhanddeiliaid

7.106 Roedd y VLV yn cytuno ag asesiad Ofcom a'n cynnig i osod y cwota ar 68 awr o gerddoriaeth fyw newydd, heb gynnwys ailddarllediadau.[413] Roedd Radiocentre hefyd yn cefnogi ein cynnig ond nododd ei bryder ynghylch y duedd i ostwng lefelau cwota ar draws gwahanol genres o gynnwys radio.[414]

7.107 Roedd y BBC yn dadlau bod 2022 yn flwyddyn annodweddiadol gyda 55 awr o gerddoriaeth fyw newydd mewn rhaglenni a digwyddiadau, a 14 o recordiadau byw ad-hoc sy'n anodd eu gwarantu. Gofynnodd i'r cwota gael ei osod ar 55 awr yn lle hynny a dywedodd ei fod yn bwriadu darparu 62 awr y flwyddyn nesaf. Roedd yn dadlau na fyddai'r arian sy'n cael ei arbed drwy leihau nifer yr ailddarllediadau yn ddigon i ariannu mwy o gerddoriaeth fyw newydd.[415]

### Ein penderfyniad

7.108 Rydym yn credu bod y cwota cerddoriaeth fyw yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at natur unigryw BBC Radio 2. Felly, rydym wedi penderfynu gosod cwota'r flwyddyn ariannol ar 68 awr heb gynnwys ailddarllediadau.[416]

7.109 I ddechrau, dywedodd y BBC y gellid defnyddio'r arian sy'n cael ei arbed o ailddarllediadau drud o gerddoriaeth fyw i ddarparu mwy o gerddoriaeth fyw newydd, felly nid oeddem yn gweld rheswm dros osod y cwota o dan lefel bresennol y BBC o gerddoriaeth fyw newydd. Rydym yn cydnabod bod y BBC yn wynebu mwy o bwysau ariannol. Fodd bynnag, mae cerddoriaeth fyw yn nodwedd sylfaenol o allbwn y BBC ar BBC Radio 2, sy'n allweddol i natur unigryw ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd. Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn rhoi cwota priodol i'r BBC yn y gofod hwn i sicrhau nad oes effaith negyddol ar gynulleidfaoedd, ac felly rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig o 68 awr.

## Mesur perfformiad

7.110 Rydym wedi nodi'n flaenorol bod natur unigryw yn gysyniad eang y mae nifer o ffactorau yn dylanwadu arno ac y gall cynulleidfaoedd gwahanol ei ystyried yn wahanol. Rydym yn ystyried natur unigryw'r BBC ar draws gwasanaethau yn hytrach nag ar sail rhaglenni, ac rydym fel arfer yn defnyddio basged o fesurau i edrych ar sut mae'r BBC yn cyflawni natur unigryw.

7.111 Yn benodol, rydym yn pwyso a mesur argaeledd, defnydd a'r effaith ar gynulleidfaoedd yn erbyn pum colofn natur unigryw: 1) yr amrywiaeth o genres ac allbwn, 2) ansawdd y cynnwys, 3) gwreiddioldeb y DU, 4) cymryd risgiau ac arloesi a 5) yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n cael eu cyrraedd. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar ymchwil a gomisiynwyd gennym yn 2017 i archwilio barn y cyhoedd am y BBC, yn canolbwyntio ar natur unigryw. I ategu ein dull gweithredu, rydym wedi bod yn datblygu set o fetrigau

---

[413] Ymateb VLV, tudalen 3.
[414] Ymateb Radiocentre, tudalennau 2-3.
[415] Ymateb BBC, tudalennau 5-7.
[416] Amod 3.10.3 y Drwydded Weithredu.

allweddol i roi cipolwg ar sut mae'r BBC yn unigryw ac i olrhain hyn dros amser. Nodwyd fersiwn cychwynnol o hyn yn adroddiad blynyddol diweddaraf Ofcom ar y BBC.[417]

7.112 Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, roedd rhai rhanddeiliaid yn ansicr ynghylch sut byddai Ofcom yn mesur natur unigryw, yn enwedig gwasanaethau ar-lein. [418] Roedd ITV yn dadlau nad oes gweledigaeth ar gyfer yr hyn sy'n gwneud set unigryw o wasanaethau, ac roedd yn argymell olrhain metrigau perfformiad allweddol dros amser ac o'i gymharu â gwasanaethau cystadleuwyr.[419] Awgrymodd News Broadcasting ein bod yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi gwariant comisiynu wedi'i ddadgyfuno, mapiau technegol ac ymchwil cynulleidfa ar ddatblygu gwasanaethau ar-lein.[420]

7.113 Mae'r Drwydded yn gosod rhwymedigaethau ar y BBC i helpu i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn unigryw. Mae hyn yn cynnwys gofynion ar y BBC i sicrhau bod BBC iPlayer a BBC Sounds yn darparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU, yn cefnogi talent newydd yn y DU ac arloesedd creadigol, yn darparu ystod eang o allbwn ar draws genres, a bod modd dod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd.[421] Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn cymryd camau mewn perthynas â BBC Ar-lein i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa, gan gynnwys arbrofi â dulliau darparu arloesol lle bo hynny'n briodol.[422] Rydym yn cadarnhau gofyniad tryloywder newydd i'r BBC adrodd ar ei gynlluniau i sicrhau bod pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn unigryw, gan gynnwys BBC iPlayer, Gwefan y BBC a BBC Sounds.[423]

7.114 Ynghyd â'r gofynion hyn, byddwn yn mesur perfformiad y BBC o ran ei natur unigryw. Rydym yn ystyried bod y dull rydym yn ei ddefnyddio i fesur natur unigryw gwasanaethau darlledu hefyd yn berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC, sef BBC iPlayer, BBC Sounds a'r wefan a'i apiau – sy'n amrywio o BBC News, BBC Sport, a Bitesize i BBC Food.

7.115 Fodd bynnag, mae elfennau sy'n unigryw i wasanaethau ar-lein. Gall gwasanaethau ar-lein gynnal cynnwys unigryw, ond mae maint y cynnwys ar-lein yn unig wedi bod yn weddol gyfyngedig ar gyfer BBC iPlayer, er enghraifft.[424] Mae natur ddigidol gwasanaethau ar-lein yn cynnig cyfleoedd unigryw i gyflwyno ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd megis rhagflasau a gemau rhyngweithiol fel y rhai ar BBC Bitesize. Ar ben hynny, mae profiad cynulleidfaoedd ar wasanaethau ar-lein yn wahanol o ystyried ei natur ar-alw ac mae rôl bwysig i'r BBC sicrhau bod modd dod o hyd i ehangder ei gynnwys. Rydym yn credu bod hyn yn elfen allweddol o wneud gwasanaethau ar-lein yn unigryw. Ar yr un pryd, mae cael catalog amrywiol ar gael yn ôl y galw yn rhoi cyfle i'r BBC gyflwyno'n well i gynulleidfaoedd sydd â diddordeb mewn cynnwys arbenigol a chyflwyno cynnwys o'r fath i amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd.

7.116 Felly, byddwn yn adeiladu ac yn ehangu ar ein dull gweithredu presennol i gynnwys yr elfennau hyn. Byddwn yn defnyddio'r pum colofn natur unigryw i lywio ystyriaethau ar yr

---

417 Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22, tudalen 27.
418 Ymateb Directors UK , tudalennau 5-6; Ymateb ITV, tudalennau 2 a 15; Ymateb News Broadcasting , tudalen 15; Ymateb Radiocentre, tudalen 16;
419 Ymateb ITV, tudalennau 2 a 15.
420 News Broadcasting, tudalen 15.
421 Amod 3.2 y Drwydded Weithredu.
422 Amod 3.3 y Drwydded Weithredu.
423 Amodau 3.14.1-3.14.2 y Drwydded Weithredu.
424 Data cyfrinachol a ddarparwyd gan y BBC.

un pryd ag edrych ymhellach, ar agweddau fel pa mor hawdd yw dod o hyd i wybodaeth. Er enghraifft, byddwn yn ystyried sut mae'r gallu i ganfod, a'r defnydd o guradu golygyddol ynghyd â phersonoleiddio algorithmig, yn cyfrannu at natur unigryw'r gwasanaeth.[425] Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r BBC i archwilio cynlluniau a mapiau ehangach ar gyfer sicrhau natur unigryw ar-lein a defnyddio'r wybodaeth mae'r BBC yn ei darparu gyda'i Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol. Rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i nodi ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu ar hyn o bryd.

7.117 Er mwyn mesur pa mor hawdd yw dod o hyd i ddata a'i berfformiad ar-lein, bydd angen darparu data newydd, ac mae'n debygol o esblygu dros amser. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd drwy waith ymchwil ac yn defnyddio hyn i lywio ein gwaith o fesur natur unigryw'r BBC, gan gynnwys ar-lein. Lle bo angen, byddwn yn cynnal ymchwil ad-hoc i lywio agweddau penodol ar ein hasesiad o berfformiad y BBC. Yn yr un modd â gwasanaethau darlledu, bydd yn ddefnyddiol gwneud cymariaethau rhwng perfformiad y BBC ar ei wasanaethau ar-lein gyda pherfformiad darparwyr eraill.

[425] Mae Adran 3 yn amlinellu ein dull o fesur perfformiad y BBC o ran sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod.

# 8. Penderfyniadau ar gyfer Diben Cyhoeddus 4

## Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

### Crynodeb o'n dull gweithredu ar gyfer Diben Cyhoeddus 4

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i gynigion ein hymgynghoriad, dyma'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud:

**Cadw nifer fawr o gwotâu, gyda rhai diwygiadau. Rydym wedi cadw:**

- Yr holl gwotâu sy'n sicrhau bod cyfran o'r oriau a'r gwariant ar raglenni'r rhwydwaith teledu yn cael eu gwneud yn y DU (y tu allan i'r M25) ac yng Nghymru, Lloegr (y tu allan i'r M25), yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Y cwotâu sy'n sicrhau bod cyfran o'r gwariant ar gynhyrchu rhaglenni ar gyfer radio'r rhwydwaith yn cael ei dyrannu y tu allan i'r M25, a'u diweddaru i ganiatáu i gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer BBC Sounds gyfrannu at y gyfran.
- Y cwota i sicrhau bod 95% o'r holl raglenni ar draws amrywiadau rhanbarthol BBC One a BBC Two (neu 'wasanaethau optio allan') yn cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol, a bod 90% o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC Scotland yn cael eu gwneud yn yr Alban.
- Cwotâu ar wahân ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes ar gyfer pob un o wasanaethau optio allan BBC One yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Cwotâu cyffredinol ar gyfer cynnwys newyddion, cynnwys heb fod yn newyddion a chyfanswm cynnwys o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar draws yr holl wasanaethau optio allan ar BBC One a BBC Two gyda'i gilydd. Fodd bynnag, rydym wedi gostwng lefel y cwotâu hyn. [426]
- Y cwota i sicrhau bod BBC Parliament yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig.
- Yr holl gwotâu i sicrhau bod y BBC yn darparu cynnwys llafar ar wasanaethau radio ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys 100% o gynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast yn Lloegr, a'r cwotâu sy'n mynnu bod gorsafoedd radio lleol yn Lloegr yn dyrannu amser i raglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn lleol.
- Y cwota sy'n ymwneud â darpariaeth y BBC o raglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y radio.

**Gosod gofynion ynghylch pa gynnwys a gwasanaethau y dylai'r BBC eu darparu. Rydym wedi disodli:**

- Cwotâu ag amod i ddarparu cynnwys (ar wahân i newyddion a materion cyfoes) ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys rhai rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Mae gofynion tryloywder yn cyd-fynd â'r amod.
- Y cwota i BBC ALBA ddarparu cynnwys sydd wedi'i anelu at bobl sy'n dysgu Gaeleg gydag amod i ddarparu'r cynnwys hwn, wedi'i ategu gan ofynion tryloywder.
- Rydym wedi cyflwyno gofynion i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant pob gwlad ar ei wasanaethau ar-lein, ac iddo sicrhau bod modd dod o hyd i'r cynnwys hwn yn hwylus.

**Cyflwyno gofynion tryloywder newydd eraill**

- Rydym wedi cyflwyno gofyniad i'r BBC nodi cynlluniau ac, yn ei adroddiad blynyddol, adrodd ar sut mae'n darparu cynnwys perthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Rydym wedi gwella'r gofynion tryloywder o ran amrywiaeth er mwyn ein galluogi i ddeall yn well sut mae'r BBC yn gwasanaethu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol y DU.

# Cyflwyniad

### Cefndir a chynigion ein hymgynghoriad

8.1 Mae Diben Cyhoeddus 4 yn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, ac yn cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny:

> "Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad."
>
> *Erthygl 6 o Siarter y BBC*

8.2 Mae gan y BBC rôl unigryw, a nodir yn ei Genhadaeth, i wasanaethu pob cynulleidfa. Mae'n rhaid iddo allu cysylltu ag amrywiaeth o grwpiau o gynulleidfaoedd, sydd â hawl i ddisgwyl y dylai'r BBC adlewyrchu eu bywydau ynghyd ag amrywiaeth y DU, a dal i fod yn berthnasol iddynt. Mae Diben Cyhoeddus 4 yn mynnu bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, yn cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.

8.3 Er mwyn helpu i wella sut mae'r BBC yn adrodd ar amrywiaeth, yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin fe wnaethom gynnig gofynion tryloywder newydd i'r BBC adrodd ar ei rwymedigaethau cynrychiolaeth a phortreadu yn gyhoeddus, a chryfhau'r gofynion sy'n ymwneud â Chod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC.

8.4 Roedd y Drwydded gyntaf yn cynnwys cwotâu i'r BBC fuddsoddi a chynhyrchu canran benodol o'i gynnwys rhwydwaith o'r gwledydd a'r rhanbarthau, er nad oedd y rhain yn cynnwys buddsoddiad y BBC mewn cynnwys ar gyfer ei wasanaethau ar-lein. Felly, roeddem yn cynnig caniatáu i gynnwys a wneir ar gyfer BBC Sounds gyfrif tuag at gyflawni cwotâu gwariant cynyrchiadau radio'r rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Roeddem wedi argymell bod Llywodraeth y DU yn ystyried diwygiad i'r Cytundeb a fyddai'n

[426] Ar gyfer yr holl gynnwys newyddion, rydym wedi gostwng y lefel o 4,300 awr i 3,900 awr (pob awr) ac o 2,100 i 1,700 (oriau brig); ar gyfer materion cyfoes rydym wedi gostwng y lefel o 557 i 200 (oriau brig) ac o 179 i 150 (oriau cyfagos i'r oriau brig); ac ar gyfer cynnwys optio allan, rydym wedi gostwng y lefel o 5,909 i 5,000 awr.

caniatáu i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer BBC iPlayer gyfrannu at gwotâu'r BBC ar gyfer rhaglenni teledu sy'n cael eu gwneud yn y DU ond y tu allan i'r M25.

8.5 Roedd y Drwydded gyntaf hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gwotâu i sicrhau bod y BBC yn darparu cynnwys sy'n diwallu anghenion pob un o wledydd, rhanbarthau a chymunedau y DU ar amrywiadau BBC One a BBC Two yn y gwledydd a'r rhanbarthau, y cyfeirir atynt hefyd fel 'gwasanaethau optio allan'. Roeddem yn cynnig cadw'r rhan fwyaf o'r cwotâu hynny, gan gynnwys yr holl gwotâu sy'n targedu cynnwys newyddion a materion cyfoes. O ran cynnwys ar wahân i newyddion a materion cyfoes, roeddem yn cynnig cadw'r cwota cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau optio allan yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda'i gilydd.[427] Fodd bynnag, er mwyn rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau, roeddem yn cynnig disodli cwotâu'r BBC ar gyfer cynnwys ar wahân i newyddion a materion cyfoes ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon â gofynion i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn, wedi'i ategu gan ofynion tryloywder. Ar ben hynny, roeddem wedi cynnig gofynion tryloywder a fyddai'n mynnu bod y BBC yn nodi cynlluniau i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac yn berthnasol iddynt, yn ogystal â rhaglenni ieithoedd brodorol.

8.6 Roeddem wedi cynnig cadw'r holl gwotâu cynnwys llafar ar wasanaethau radio'r BBC ar gyfer y gwledydd. Ar gyfer radio lleol yn Lloegr, fe wnaethom gynnig lleihau'r cwotâu cynnwys llafar yn ystod oriau brig amser brecwast er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC wasanaethu gwrandawyr, ac, i gefnogi'r newid hwn, fe wnaethom gyflwyno gofyniad i'r BBC ddarparu llawer iawn o newyddion a gwybodaeth leol yn ystod oriau brig amser brecwast.[428] Mae manylion llawn yr holl gynigion ar gael yn ein dogfen ymgynghori.[429]

8.7 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mewn ymateb i gais y BBC i newid y Drwydded, fe wnaethom gynnig lleihau lefel y cwotâu ar gyfer yr holl gynnwys newyddion gyda'i gilydd, ar draws yr holl wasanaethau optio allan, yn ogystal â'r cwotâu ar gyfer cynnwys heb fod yn newyddion ar yr holl wasanaethau optio allan. Roeddem hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder newydd mewn perthynas â chynnwys heb fod yn newyddion y mae'r BBC yn bwriadu ei ddarlledu ar ei wasanaethau optio allan, gan gynnwys yr ystod o genres. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein dogfen ymgynghori.[430]

## Ymatebion rhanddeiliaid a'n penderfyniadau

8.8 Yn yr adran hon, rydym yn nodi'n fanylach safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion ac yn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gyda'n penderfyniadau. Rydym yn rhoi sylw i'r elfennau canlynol:

- amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd;
- cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau;
- rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau; a

[427] Mae'r cwota yn cynnwys materion cyfoes a chynnwys arall nad yw'n newyddion.
[428] Mae ein dadansoddiad o'r diwygiad arfaethedig i'r amod cynnwys llafar ar gyfer radio lleol y BBC yn Lloegr ar gael yn Adran 4 ochr yn ochr â'n hystyriaeth o newidiadau arfaethedig eraill y BBC i radio lleol.
[429] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, Mehefin 2022, pennod 9.
[430] Ofcom, Ymgynghoriad ar gais gan y BBC i newid y Drwydded Weithredu, Rhagfyr 2022, pennod 5.

- mesur perfformiad.

# Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

## Cynrychioli a phortreadu

### Yr hyn a ddywedon ni

8.9 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem wedi cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd yn gyhoeddus ar ei rwymedigaethau cynrychiolaeth a phortreadu, yn hytrach nag adrodd i Ofcom yn unig, er mwyn egluro'n glir ei ddull o gyflawni a sicrhau mwy o atebolrwydd am ei berfformiad.[431] Roeddem hefyd yn cynnig diwygio'r amodau perthnasol fel y dylai'r BBC fesur ac adrodd ar y grwpiau cynulleidfaoedd hynny sy'n llai bodlon, yn hytrach na'n anfodlon.

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.10 Roedd amrywiaeth o randdeiliaid yn cefnogi ein cynigion ar gynrychiolaeth a phortreadu, yn enwedig y gofyniad newydd i'r BBC adrodd yn gyhoeddus ar ei rwymedigaethau.[432]

### Ein penderfyniad

8.11 Rydym wedi penderfynu gweithredu ein cynnig i fynnu bod y BBC yn adrodd yn gyhoeddus ar ei rwymedigaethau cynrychiolaeth a phortreadu.[433] Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o gynrychiolaeth a phortreadu yn dal yn isel wrth gymharu ag agweddau eraill ar berfformiad y BBC, yn enwedig ymysg y rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd anabl.[434] Er mwyn cynyddu ei atebolrwydd am ei berfformiad, rydym yn disgwyl i'r BBC nodi'n gliriach yn ei adroddiadau cyhoeddus sut mae'n: datblygu ei strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella canfyddiadau ymysg grwpiau penodol, gan gynnwys sut mae'n defnyddio ymchwil cynulleidfa; ac yn gwerthuso darpariaeth ac effaith ei strategaeth.

8.12 O ran bodlonrwydd cynulleidfaoedd, mae'r BBC eisoes yn mesur ac yn adrodd yn wirfoddol ar grwpiau cynulleidfa sy'n llai bodlon, yn hytrach nag yn anfodlon, wrth gyflwyno data bodlonrwydd cynulleidfaoedd i Ofcom. Rydym wedi penderfynu diwygio'r amod i adrodd ar gynulleidfaoedd 'llai bodlon' er mwyn ffurfioli'r dull gweithredu hwn.[435]

---

[431] Amodau arfaethedig 4.2 - 4.6 y Drwydded.
[432] Ymateb ACS, tudalen 6; Ymateb y BBC, tudalennau 13-14; Ymateb BFI, tudalennau 4-5; Ymateb Directors UK, tudalen 7; Ymateb NUJ, tudalen 6; Ymateb SSMT, tudalen 8; Ymateb Screen Scotland, tudalen 5; Ymateb VLV, tudalen 15; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalen 5.
[433] Amodau 4.2-4.6 y Drwydded Weithredu.
[434] Ofcom, 2022. Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22, tudalen 6.
[435] Amod 4.5 yr Drwydded Weithredu.

## Amrywiaeth y gweithlu

### Yr hyn a ddywedon ni

8.13 Roeddem yn cynnig diweddaru gofynion Trwydded y BBC ar gyfer adrodd ar amrywiaeth y gweithlu i roi'r hyblygrwydd i ni addasu'r categorïau data rydym yn eu casglu ar lefelau a rolau swyddi.[436] Roeddem hefyd yn cynnig diweddaru'r derminoleg a ddefnyddir yn y gofynion sy'n ymwneud ag 'ailbennu rhywedd'. Pwrpas hynny oedd sicrhau bod adroddiadau'r BBC yn parhau i gyd-fynd â'r ffordd y mae'r diwydiant darlledu ehangach yn adrodd i Ofcom ar amrywiaeth eu gweithluoedd teledu a radio. Dylai hyn ein galluogi i adlewyrchu'r arferion gorau yn y data rydym yn ei gasglu gan y BBC, ac osgoi cymhlethdod gweinyddol diangen i'r BBC ac Ofcom.

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.14 Mynegodd y BBC bryder ynghylch ein cynnig i ddiwygio'r gofynion adrodd ar amrywiaeth y gweithlu. Nododd y fantais o gael diffiniadau categori sefydlog dros amser i sicrhau bod modd cymharu data yn y dyfodol. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y gost bosibl i'r BBC o orfod newid categorïau yn ei system ar gyfer casglu'r data petai Ofcom yn penderfynu defnyddio ei hyblygrwydd.[437]

8.15 Roedd Directors UK hefyd yn galw am i adroddiadau am amrywiaeth y gweithlu fesur y gweithlu cynhyrchu llawrydd sy'n gweithio i'r BBC. Dywedodd y dylai'r BBC fesur ac adrodd ar ganlyniadau tymor hwy ei weithredoedd o ran amrywiaeth y gweithlu.[438] Roedd NUJ yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw monitro lefelau cadw a chynnydd gyrfa newyddiadurwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y BBC.[439]

### Ein penderfyniad

8.16 Rydym wedi cynnig diweddaru gofynion Trwydded y BBC ar gyfer amrywiaeth y gweithlu i roi'r hyblygrwydd i ni addasu'r categorïau data rydym yn eu casglu ar lefelau a rolau swyddi.[440] Rydym yn nodi pryder y BBC ynghylch rhoi'r hyblygrwydd i ni addasu'r categorïau ar gyfer adrodd ar amrywiaeth y gweithlu. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi gwerth data cymharol dros gyfnod o amser, a dim ond pan fydd angen y byddem yn disgwyl diweddaru'r categorïau adrodd er mwyn i ni allu ystyried datblygiadau yn y dyfodol o ran adrodd ar amrywiaeth. Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC os ydym yn bwriadu gwneud unrhyw addasiadau, ac yn ystyried ei sylwadau ar yr addasiadau penodol y gallem fod yn bwriadu eu gwneud.

8.17 Mae sylwadau NUJ ar ddatblygiad gyrfa yn cyd-fynd â Chanllawiau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant Ofcom.[441] Rydym yn parhau i bwysleisio wrth bob darlledwr bod angen canolbwyntio mwy ar wella lefelau cadw a chynnydd grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar

[436] Amod arfaethedig 4.12 y Drwydded.
[437] Ymateb y BBC, tudalen 13.
[438] Ymateb Directors UK, tudalen 7.
[439] Ymateb NUJ, tudalen 6.
[440] Amod 4.12 y Drwydded Weithredu.
[441] Canllawiau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant Ofcom i ddarlledwyr 2022, tudalen 5 a thudalennau 8-9.

draws eu sefydliadau a'r rôl hollbwysig y gall data ei chwarae o ran canfod a mynd i'r afael â bylchau yn eu gweithluoedd.[442]

8.18 Rydym wedi ystyried pryder Directors UK ynghylch y gweithlu cynhyrchu llawrydd. Mae'r BBC yn adrodd i Ofcom ar amrywiaeth y gweithwyr llawrydd y mae'n eu contractio'n uniongyrchol, fel rhan o'i gyflwyniadau blynyddol ar amrywiaeth y gweithlu ar gyfer ein Canllawiau EDI mewn Adroddiadau Darlledu ar gyfer Teledu a Radio. Mae'r BBC hefyd yn rhan o raglen fonitro ar draws y diwydiant o'r enw Project Diamond gydag ITV, Channel 4, Paramount, UKTV a Sky, sy'n casglu data amrywiaeth gweithluoedd cynhyrchu teledu'r DU. Mae'r BBC yn adrodd ar y data hwn yn ei Adroddiad Blynyddol a'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP). Felly, nid ydym yn credu bod angen gofyniad ychwanegol.

8.19 Rydym wedi annog y BBC ynghyd â darlledwyr eraill yn gyson i fesur canlyniadau hirdymor eu camau gweithredu i wella amrywiaeth y gweithlu. Mae'r BBC eisoes yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth o hyn; er enghraifft, mae'n dweud yn ei adroddiad cynnydd diweddaraf ar y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth fod dros 30 o newyddiadurwyr anabl wedi cael contractau parhaol gyda'r BBC drwy ei raglen Extend. Rydym yn annog y BBC i barhau i ddatblygu ei adroddiadau yn y maes hwn.

## Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth

### Yr hyn a ddywedon ni

8.20 O dan y Drwydded Weithredu gyntaf, roeddem yn mynnu bod y BBC yn creu Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys mewn perthynas â phortreadu ar y sgrin a chastio, amrywiaeth gweithlu'r timau cynhyrchu a gomisiynir, a'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu a chomisiynu.

8.21 Mae'r BBC wedi defnyddio'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth i nodi ei ddisgwyliadau o ran timau cynhyrchu a gomisiynir, a sut bydd yn monitro cydymffurfiad timau o'r fath â'r disgwyliadau hyn. Roeddem yn croesawu'r elfennau hyn o'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, ac yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin roeddem yn cynnig ehangu gofynion perthnasol y Drwydded i gynnwys yr agweddau hyn ar y Cod.[443]

8.22 Rydym hefyd wedi mynegi pryderon o'r blaen nad oes cysylltiad clir rhwng adroddiadau'r BBC ar ei gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth a'r ymrwymiadau yn y Cod, ac nad yw wedi rhoi digon o fanylion ynghylch sut mae'r BBC yn dal ei hun a'i gyflenwyr yn atebol am gyflawni ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Felly, fe wnaethom gynnig egluro ei bod yn rhaid i'r BBC, fel rhan o'r adroddiadau blynyddol ar ei gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, adrodd ar y camau y mae wedi'u cymryd mewn perthynas ag unrhyw dîm cynhyrchu a gomisiynwyd nad oedd yn bodloni disgwyliadau'r Cod.[444]

[442] Ofcom, Tachwedd 2022. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2021/22, tudalen 49.
[443] Amod arfaethedig 4.8 y Drwydded.
[444] Amod arfaethedig 4.10 y Drwydded.

8.23 Yn olaf, fe wnaethom gynnig nodi ei bod yn rhaid i'r BBC adrodd ar nifer y comisiynau lle nad oedd timau cynhyrchu'n bodloni disgwyliadau'r cod, gan nodi ai comisiynau mewnol ynteu allanol oedd y rhain.

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.24 Cawsom sylwadau gan ddau randdeiliad ar yr elfen hon. Dywedodd Pact na ddylai'r cynigion ar gyfer y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth roi baich ychwanegol ar gynhyrchwyr, yn enwedig cynhyrchwyr llai sydd ag adnoddau cyfyngedig.[445] Ailddatganodd y BBC ei ymrwymiad i ddilyn y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.[446]

### Ein penderfyniad

8.25 Rydym wedi penderfynu cyflwyno'r newidiadau roeddem wedi ymgynghori yn eu cylch.[447] Rydym yn nodi pryder Pact y dylai Ofcom wneud yn siŵr nad yw'r diwygiadau i'r gofynion o ran y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn rhoi baich ychwanegol ar gynhyrchwyr. Nid ydym yn galw am ehangu'r disgwyliadau presennol ar gynhyrchwyr fel y maent wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld y BBC yn cadw gwell golwg ar gydymffurfiad cynhyrchwyr o dan ymrwymiadau presennol y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Mae'r BBC bellach wedi cyflwyno adnoddau mesur newydd i gadw golwg ar gydymffurfiad, gan gynnwys Holiadur Arweinyddiaeth Cwmnïau i wirio amrywiaeth ei gyflenwyr, a'r broses Adroddiadau Diwedd Cynhyrchu, fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar y BBC.[448]

# Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

## Cynyrchiadau teledu

### Yr hyn a ddywedon ni

8.26 Mae'r Drwydded gyntaf yn cynnwys cwotâu ar gyfer gwariant ar raglenni rhwydwaith y mae'n rhaid i'r BBC eu cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25, ac yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tu allan i ardal yr M25 yn Lloegr ar gyfer ei wasanaethau teledu, a nifer y rhaglenni hynny.[449] Roeddem yn cynnig cadw'r cwotâu hyn ar y lefelau a gafodd eu pennu yn y Drwydded gyntaf[450] ac, i gefnogi hyn, roeddem yn cynnig amcan newydd i'r BBC er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi diwydiannau creadigol y DU ar draws y DU drwy ei brosesau comisiynu a darparu allbwn.

[445] Ymateb Pact, tudalen 3.
[446] Ymateb y BBC, tudalen 14.
[447] Amodau 4.8 a 4.10 y Drwydded Weithredu.
[448] Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2021-22, tudalen 47.
[449] Amodau 2.53, 2.54, 2.56, 2.58 a 2.60 y Drwydded Gyntaf. Mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sicrhau bod cyfran addas o holl raglenni teledu rhwydwaith y BBC yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu gwneud rhaglenni teledu y tu allan i ardal yr M25 ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol.
[450] Amodau arfaethedig 4.15, 4.16, 4.18, 4.20 a 4.22 y Drwydded.

### Cynnwys BBC iPlayer

8.27 Mae'r cwotâu gwneud rhaglenni yn y Drwydded gyntaf yn canolbwyntio ar wasanaethau teledu'r BBC ac nid ydynt yn cofnodi buddsoddiad y BBC mewn cynnwys ar gyfer BBC iPlayer, ac nid ydynt chwaith yn cymell y BBC i ddarparu cynnwys sy'n cael ei wneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar gyfer gwasanaethau ar-lein. Roeddem ni o'r farn y byddai'r gwasanaethau ar-lein hyn yn dod yn rhan fwy a mwy pwysig o'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau, a'u bod yn cynnig cyfleoedd i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y gwledydd a'r rhanbarthau ar draws y DU i gyd. Fe wnaethom nodi y byddem felly'n dymuno ehangu'r cwotâu er mwyn derbyn cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer iPlayer. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am newidiadau i'r Cytundeb. Mae Adran 2 yn cynnwys trafodaeth ar MTR Llywodraeth y DU a newidiadau posibl i'r Cytundeb.

### Cyd-gomisiynau rhwng gwasanaethau rhwydwaith a gwasanaethau optio allan[451]

8.28 Fe wnaethom nodi bod y BBC wedi dangos cyd-gomisiynau rhwng y gwledydd a'r rhwydwaith ar wasanaethau rhwydwaith yn gyntaf er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cyfrif tuag at y cwotâu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi dweud wrthym y byddai darparu'r rhaglenni hyn ar y gwasanaethau optio allan yn gyntaf, a'r sianeli rhwydwaith wedi hynny, yn gallu bod o fudd i gynulleidfaoedd. Fe wnaethom nodi bod y rhaglenni hyn hefyd yn rhan gynyddol bwysig o strategaeth gomisiynu'r BBC i sbarduno portread cenedlaethol a rhanbarthol.

8.29 Roeddem yn sylweddoli gwerth cyd-gomisiynau o'r fath i gynulleidfaoedd, ac felly fe wnaethom gynnig diweddaru'r Drwydded i egluro y gall cyd-gomisiynau gyfrif tuag at y cwotâu cynhyrchu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau pan fyddant yn cael eu dangos ar wasanaeth optio allan yn gyntaf.[452]

## Sylwadau rhanddeiliaid

8.30 Roedd nifer o randdeiliaid o blaid ein cynigion i gadw cwotâu cynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[453] Eglurodd Directors UK fod y cwotâu hyn ar oriau a gwariant yn sicrhau *"bod gwaith yn cael ei greu sy'n ymgysylltu â thalentau o bob cwr o'r wlad ac sy'n adlewyrchu cynulleidfaoedd ar draws y DU"*.[454] Dywedodd Llywodraeth yr Alban y *"bydd cryfhau buddsoddiad a sicrhau bod cynyrchiadau rhwydwaith yn cael eu creu a'u cynhyrchu yn yr Alban yn arwain yn y pen draw at gynnwys sy'n fwy dilys a chynrychiadol ym marn cynulleidfaoedd"*.[455] Croesawodd Pact ein cynnig am amcan newydd ar gyfer y BBC i gefnogi diwydiannau creadigol y DU. Defnyddiodd Pact sector creadigol Caerdydd fel enghraifft, sydd wedi tyfu 54% ers 2012 pan agorodd y BBC ganolfan

[451] Gwasanaeth optio allan yw'r amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC One Wales).
[452] Amod arfaethedig 4.26 y Drwydded.
[453] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 9; Ymateb ACS , tudalennau 7-8; Ymateb ACW, tudalennau 7-8; Ymateb y BBC, tudalen 14-15; Ymateb BFI, tudalen 5; Ymateb Directors UK, tudalen 8; Ymateb NUJ, tudalennau 6-7; Ymateb Pact, tudalen 12; Ymateb SSMT, tudalen 7; Ymateb VLV, tudalen 16; Ymateb Llywodraeth Cymru, tudalennau 3-4.
[454] Ymateb Directors UK, tudalen 8.
[455] Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 4.

stiwdio Porth y Rhath ym Mae Caerdydd, i ddangos y manteision sylweddol y gall gwariant y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau eu cynnig i ardal leol.[456]

8.31 Nododd y BBC y targedau newydd a osododd yn ei strategaeth Ar Draws y DU[457], sef bod o leiaf 60% o wariant teledu rhwydwaith yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 erbyn diwedd 2027, a sicrhawyd drwy ddiwygio'r Cytundeb ym mis Mai 2022.[458] Gofynnodd ACS am i'r cwota ar gyfer gwariant yn yr Alban gael ei gynyddu'n raddol i adlewyrchu'r ymrwymiad newydd hwn.[459]

8.32 Roedd rhanddeiliaid o blaid ein hargymhelliad ar y cyfan y dylai Adolygiad Canol Tymor (MTR) Llywodraeth y DU alluogi Ofcom i osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau y mae modd eu bodloni drwy gynnwys BBC iPlayer.[460] Mynegodd rhai bryderon ynghylch y BBC yn symud cyfran sylweddol o'i gynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau i BBC iPlayer a fyddai, yn eu barn nhw, yn lleihau cyllidebau ac ansawdd.[461] Roedd Directors UK yn dadlau ei bod yn hanfodol bod y BBC yn parhau i ddigolledu deiliaid hawliau'n deg am y defnydd o'u gwaith a gomisiynwyd ar gyfer gwasanaethau ar-alw.[462] Mynegodd Pact bryderon tebyg i'r rheini am gynyrchiadau gwreiddiol, ynghylch yr effaith ar gyllid cynhyrchwyr wrth beidio â chynnwys comisiynau ar-lein yn y Telerau Masnach.[463]

8.33 Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan o'n cynnig i egluro y gall cyd-gomisiynau gyfrif tuag at y cwotâu cynhyrchu pan fyddant yn cael eu dangos ar wasanaeth optio allan yn gyntaf.[464] Fodd bynnag, mynegwyd rhai amheuon i Ofcom eu hystyried. Rhybuddiodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon y gallai'r newid hwn arwain at wanhau elfennau diwylliannol-benodol y cynnwys a gynhyrchir yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn cynyddu apêl y rhwydwaith.[465] Rhybuddiodd Directors UK y dylai newidiadau i reolau cyd-gomisiynu gael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod y cynyrchiadau hyn *"wir yn cefnogi ac o fudd i'r gweithlu yn y wlad neu'r rhanbarth."*[466] Mynegodd WGGB bryder y gall cyd-gomisiynu ystumio amrywiaeth y gweithlu cynhyrchu ar brosiect, a dywedodd ei fod eisoes wedi gweld hynny'n digwydd yng Nghymru mewn ffyrdd sy'n tanseilio'r manteision i'r economi leol a'r sectorau creadigol.[467]

## Ein penderfyniad

8.34 Rydym wedi penderfynu y dylai'r Drwydded newydd gadw cwotâu cynhyrchu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar gyfer gwasanaethau teledu rhwydwaith y BBC ar y lefelau a nodwyd yn y

---

[456] Ymateb Pact, tudalen 13.
[457] Nod Strategaeth y BBC Ar Draws y DU yw ei helpu i ddod yn agosach at gynulleidfaoedd ar draws y DU, a gofalu bod mwy o benderfyniadau ailddosbarthu yn gwyro oddi wrth Lundain a thuag at y Gwledydd a'r rhanbarthau. Strategaeth y BBC Ar Draws y DU, 2021.
[458] Ymateb y BBC, tudalennau 14-15.
[459] Ymateb ACS, tudalennau 7-8.
[460] Ymateb BFI, tudalen 5; Ymateb Directors UK, tudalen 8; Ymateb Pact, tudalen 12; Ymateb SSMT, tudalen 7; Ymateb TAC, tudalen 3; Ymateb WGGB, tudalen 4.
[461] Ymateb WGGB, tudalen 4; Ymateb Screen Scotland, tudalen 5.
[462] Ymateb Directors UK, tudalen 8.
[463] Ymateb Pact, tudalen 12.
[464] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 10; Ymateb Directors UK, tudalen 10; Ymateb VLV , tudalennau 15-16; Ymateb WGGB , tudalennau 3-4.
[465] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 10.
[466] Ymateb Directors UK, tudalen 8.
[467] Ymateb WGGB, tudalen 4.

Drwydded gyntaf.[468] Rydym yn nodi bod y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno ar y gofynion newydd a ychwanegwyd at y Cytundeb i gynyddu gwariant y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau erbyn diwedd 2027. Byddwn yn cadw golwg ar berfformiad y BBC o ran y gofynion, ond nid ydym yn eu goruchwylio'n rheoleiddiol. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol yn ychwanegol at y cwotâu a osodwyd gennym ni yn y Drwydded ac, yn wahanol i'r cwotâu hyn sy'n rhai blynyddol, mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni erbyn diwedd cyfnod y Siarter. Am yr holl resymau hyn, nid ydym yn credu y byddai'n briodol diwygio cwotâu'r Drwydded.

8.35 Mae Llywodraeth y DU yn ystyried y newidiadau roeddem wedi'u hargymell i'r Cytundeb ochr yn ochr â'i Hadolygiad Canol Tymor, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2023. Felly, ar hyn o bryd ni allwn ehangu ffiniau'r cwotâu er mwyn derbyn cynnwys BBC iPlayer. Rydym yn cydnabod pryderon y gallai'r newid weld y BBC yn symud tuag at gyflawni ei rwymedigaethau gyda'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei gomisiynu ar gyfer BBC iPlayer, a'r effaith ariannol bosibl y gallai hyn ei chael ar gyfranwyr. Rydym yn nodi mai ychydig iawn o gynnwys ar-lein yn unig mae'r BBC yn ei gomisiynu ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.[469] Mae gan y BBC ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn defnyddio BBC iPlayer, a rhaid iddo ystyried hynny yn ei broses gomisiynu. Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 7, mae unrhyw benderfyniadau i ddiweddaru'r Telerau Masnach yn fater masnachol yn bennaf i Pact a'r BBC, ac nid ydynt yn rhan o ffiniau Trwydded Weithredu'r BBC.

8.36 Rydym hefyd wedi penderfynu diweddaru'r Drwydded i egluro y gall cyd-gomisiynau gyfrif tuag at y cwotâu cynhyrchu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau pan fyddant yn cael eu dangos ar wasanaeth optio allan yn gyntaf.[470] Rydym yn cydnabod pryder Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, ac rydym yn cytuno â Directors UK a WGGB bod cael gweithlu cynhyrchu amrywiol yn arwain at fanteision i'r economi greadigol. Felly, rydym yn bwriadu monitro'r elfen hon yn ofalus. Drwy Adroddiad blynyddol y BBC ar y Cyflenwad Comisiynu, rydym yn cael amrywiaeth o wybodaeth am y cynhyrchwyr y mae'r BBC yn comisiynu ganddynt, gan gynnwys cynhyrchwyr y gwledydd a'r rhanbarthau. Wrth gomisiynu a darparu allbwn, dylai'r BBC barhau i fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad, fel y nodwyd yn Niben Cyhoeddus 4.

## Cynyrchiadau radio

### Yr hyn a ddywedon ni

8.37 Roedd y Drwydded gyntaf yn cynnwys cwotâu ar gyfer gwariant ar raglenni radio y mae'n rhaid i'r BBC eu cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25, gan gynnwys gofyniad bod 30% o'r gwariant ar wasanaethau radio a gynlluniwyd ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25. Roeddem yn cynnig cadw'r cwotâu hyn ar y lefelau a nodwyd yn y Drwydded gyntaf.[471]

---

[468] Amod 4.15, 4.16, 4.18, 4.20, a 4.22 y Drwydded Weithredu.
[469] Data cyfrinachol a ddarparwyd i Ofcom gan y BBC.
[470] Amod 4.26 y Drwydded Weithredu.
[471] Amod arfaethedig 4.28 y Drwydded.

8.38 Fodd bynnag, nid yw'r amodau yn y Drwydded gyntaf yn cynnwys buddsoddiad y BBC yn BBC Sounds. Fel sy'n cael ei drafod uchod, rydym ni'n credu y bydd gwasanaethau ar-lein y BBC yn dod yn rhan fwy a mwy pwysig o'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Felly, roeddem yn cynnig ehangu ffiniau'r cwotâu hyn er mwyn i gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer BBC Sounds gyfrif tuag at fodloni'r cwotâu cynyrchiadau radio.[472]

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.39 Roedd y BBC, Radiocentre ac ACS i gyd yn croesawu ein cynnig i gadw'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i ardal yr M25 sy'n ymwneud â chynnwys radio'r BBC.[473] Tynnodd ACS sylw hefyd at y ffaith bod y Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cael ei ddiwygio ym mis Mai 2022 i gynyddu'r targed i 50% ar gyfer cynnwys radio erbyn 2027. Nododd y byddai'n disgwyl i ddarpariaeth y BBC yn yr elfen hon gynyddu yn unol â hynny, gan gynnwys ar gyfer cynnwys a wneir yn yr Alban.[474]

8.40 Galwodd AudioUK hefyd am fwy o dryloywder gan y BBC, yn benodol y dylai fod yn ofynnol iddo ddangos i ba raddau y mae'n buddsoddi mewn amrywiaeth o gwmnïau yn y sector creadigol ledled y DU. Awgrymodd AudioUK y dylai hyn gynnwys manylion gwariant cyffredinol y BBC yn y sectorau cwmnïau annibynnol sain a radio, a'r gyfran o'r gwariant ym mhob rhanbarth a gwlad.[475]

8.41 Roedd y BBC o blaid y newid a fyddai'n golygu bod cynnwys a wnaed yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar gyfer BBC Sounds yn gallu cyfrif tuag at y cwotâu hyn.[476] Er bod Radiocentre yn derbyn y rhesymeg dros y cynnig, roedd yn galw am ragor o eglurder ynghylch sut byddem yn monitro'r ffordd y byddai'r BBC yn cyflawni hynny, yn enwedig o ran y gyfran o'r cwotâu, a gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch beth fyddai'r trothwy derbyniol.[477] Roedd News Broadcasting hefyd yn dadlau bod ehangu'r cwota i dderbyn cynnwys a wnaed ar gyfer BBC Sounds yn golygu llacio ein rheoliadau ar wasanaethau sain y BBC.[478]

### Ein penderfyniad

8.42 Rydym wedi penderfynu cadw cwotâu ar gyfer gwariant ar gynyrchiadau radio yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar y lefelau a nodwyd yn y Drwydded gyntaf, a'u diweddaru i ganiatáu i gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer BBC Sounds gyfrif tuag atynt.[479]

8.43 Mae'r BBC wedi ymrwymo i gynyddu gwariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar raglenni teledu a radio erbyn diwedd 2027. Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol ar gynyrchiadau teledu, mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu gan ddiwygiad i'r Cytundeb ym mis Mai 2022 rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau

---

[472] Mewn cymhariaeth â'r cwotâu cynyrchiadau teledu, nid yw'r Cytundeb yn cyfyngu ar ein gallu i newid hyn.
[473] Ymateb y BBC, tudalennau 14-15; Ymateb Radiocentre, tudalen 17; Ymateb ACS, tudalen 7.
[474] Ymateb ACS, tudalen 7.
[475] Ymateb AudioUK, tudalen 11
[476] Ymateb y BBC, tudalen 14.
[477] Ymateb Radiocentre, tudalen 18.
[478] Ymateb News Broadcasting, tudalen 16.
[479] Amod 4.28 y Drwydded Weithredu.

a Chwaraeon a'r BBC. Byddwn yn cadw golwg ar berfformiad y BBC o ran y targedau, ond nid ydym yn eu goruchwylio'n rheoleiddiol.

8.44 Rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu gwybodaeth bob blwyddyn i ddangos sut mae wedi bodloni ei gwotâu, gan gynnwys cyhoeddi'r wybodaeth hon wedi'i dadansoddi yn ôl rhwydwaith a chynnwys lleol ar gyfer pob gwlad. Mae'r BBC hefyd yn mynd gam ymhellach na'r gofyniad ar hyn o bryd, drwy adrodd ar ei wariant ar gynnwys lleol a chynnwys rhwydwaith ar gyfer pob gwlad yn ei Adroddiad Blynyddol.[480]

8.45 Yr amcan o dderbyn cynnwys BBC Sounds ar gyfer y cwotâu cynyrchiadau radio yw galluogi'r BBC i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cynnwys i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, ac i fanteisio ar y cyfleoedd mae gwasanaethau ar-lein yn eu cynnig i adlewyrchu amrywiaeth y gwledydd a'r rhanbarthau i'r DU drwyddi draw. Nid ydym yn credu bod derbyn cynnwys sydd wedi'i wneud ar gyfer BBC Sounds yn y cwotâu cynhyrchu yn golygu llacio ein rheoliadau ar wasanaethau sain y BBC. Yn ein barn ni, mae'n debygol ar hyn o bryd y bydd y rhan fwyaf o gynnwys y BBC ar gael ar y radio, er mwyn i'r BBC allu llenwi ei amserlen amser ar yr awyr. Rydym yn credu na fyddai gosod trothwy ar gyfer cyfran y cwotâu y dylid eu cyflawni drwy wasanaethau radio'r BBC neu BBC Sounds, yn hytrach na'u hystyried gyda'i gilydd, yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Pan fydd angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth gan y BBC ar hyn fel rhan o'n hasesiad o berfformiad.

## Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

### Rhaglenni newyddion ar y teledu

8.46 Mae darparu newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar wasanaethau optio allan[481] BBC One yn cael ei ddiogelu dan y Drwydded gyntaf gan ddwy set debyg ond gwahanol o gwotâu. Yn gyntaf, mae cwotâu ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes yn berthnasol ar wahân i bob un o'r gwasanaethau optio allan yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[482] Rydym yn cyfeirio at y cwotâu hyn fel 'Cwotâu ar wahân' yn yr adran hon.

8.47 Yn ail, mae cwotâu cyffredinol ar gyfer nifer sylfaenol o oriau o gynnwys newyddion yn gyffredinol ac yn ystod yr oriau gwylio brig sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau optio allan yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda'i gilydd;[483] mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn

[480] Yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 y BBC er enghraifft, nododd y BBC ei wariant ar gynnwys rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau Teledu, Radio ac Ar-lein ar wahân, a'i wariant ar gynnwys lleol ar gyfer pob gwasanaeth optio allan perthnasol ar wahân, fesul gwlad.

[481] Gwasanaeth optio allan yw'r amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC One Wales).

[482] Amodau 2.78.1, 2.85.1 a 2.91.1 y Drwydded Gyntaf. Nid oedd y Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod y rhain.

[483] Ar draws BBC One Scotland, BBC One Wales a BBC One Northern Ireland.

pennu'r rhain ar lefel briodol.[484,485] Rydym yn cyfeirio at y cwotâu hyn fel 'Cwotâu Cyffredinol' yn yr adran hon.

### Yr hyn a ddywedon ni

8.48 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, ac yn unol â'n dull gweithredu a nodwyd ar gyfer Diben Cyhoeddus 1, fe wnaethom gynnig cadw'r Cwotâu ar wahân ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.[486] Nodwyd nad oes Cwota ar wahân i'r BBC ddarparu newyddion a materion cyfoes ar gyfer ei wasanaethau teledu optio allan yn Lloegr, ond bod cynnwys o'r fath yn cael ei ddiogelu gan y Cwotâu Cyffredinol. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, roeddem yn cynnig gofyniad tryloywder a fyddai'n golygu bod y BBC yn nodi oriau wedi'u cynllunio a'u darparu o raglenni newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau optio allan yn Lloegr.[487]

8.49 Yn ei ymateb i'n Hymgynghoriad ym mis Mehefin, gofynnodd y BBC am ostyngiad yn y Cwotâu Cyffredinol: o 4,300 i 3,900 (yn gyffredinol) ac o 2,100 i 1,700 (yn ystod oriau gwylio brig).[488] Roedd hyn oherwydd ei benderfyniad i gau gwasanaethau optio allan newyddion lleol Rhydychen a Chaergrawnt a gwneud nifer o newidiadau i amserlenni[489] ei allbwn newyddion lleol. Roedd yn bwriadu uno gwasanaethau optio allan newyddion Rhydychen a Chaergrawnt gyda *South Today* a *Look East* yn y drefn honno, gan ryddhau arian i fuddsoddi mewn newyddion lleol ar-lein. Dywedodd y BBC fod y newid hwn wedi digwydd ar 16 Rhagfyr 2022.

8.50 Gwnaethom ymgynghori ar leihau lefel y Cwotâu Cyffredinol yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr. Roeddem o'r farn bod buddsoddiad y BBC mewn cynnig newyddion lleol gwell yn bwysig wrth gyfiawnhau cau ei wasanaethau optio allan ar gyfer newyddion Rhydychen a Chaergrawnt. Felly, rydym yn nodi ein disgwyliad y dylai'r BBC gyhoeddi cynlluniau ac adrodd ar y cynnig newyddion lleol gwell hwn ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gydymffurfio â'r gofynion tryloywder a gynigiwyd yn Ymgynghoriad mis Mehefin.[490] Roeddem yn fodlon bod y newidiadau a wnaeth i'r amserlenni yn ymateb i newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd. Roeddem hefyd wedi datgan ein bod yn disgwyl i'r BBC olrhain a oedd ei strategaeth ar gyfer darparu newyddion i bob cynulleidfa, pa un a ydynt yn dymuno defnyddio gwasanaethau darlledu neu ar-lein traddodiadol, yn llwyddiannus.

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.51 Roedd y BBC yn croesawu ein cynnig i leihau'r Cwotâu Cyffredinol.[491] Roedd VLV yn cytuno â'n cynigion ac yn dweud nad oedd yn credu bod y newidiadau'n cynrychioli gostyngiad

---

[484] Amod 2.68 y Drwydded Gyntaf.
[485] Mae cwota pellach yn amod 2.67.2 y Drwydded gyntaf (amod 4.31.1 y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni heb fod yn newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol. Bydd y newidiadau i'r cwotâu newyddion a heb fod yn newyddion a drafodir yn yr adran hon a'r nesaf hefyd yn effeithio ar lefel y cwota cyffredinol hwn, gan ei leihau o 5,909 awr i 5,000 awr.
[486] Amodau arfaethedig 4.46.1, 4.55.1 a 4.63.1 y Drwydded.
[487] Amod arfaethedig 4.68.2 y Drwydded.
[488] Ymateb y BBC, tudalen 36.
[489] Mae manylion y newidiadau hyn i'r amserlen wedi'u nodi ym mharagraff 5.6 yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.
[490] Amodau arfaethedig 4.68.1 a 4.69 y Drwydded.
[491] Ymateb y BBC, tudalennau 8-9.

sylweddol yn y ffordd mae'r BBC yn darparu newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One.[492]

8.52 Roedd yr NUJ yn derbyn y cynigion ar gyfer newidiadau i amserlenni ond yn gwrthwynebu uno rhaglenni optio allan newyddion lleol Rhydychen a Chaergrawnt gyda gwasanaethau sy'n cwmpasu ardal fwy a gofynnodd a yw bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn cael ei fonitro'n agos.[493]

8.53 Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod y Cwotâu Cyffredinol yn bwysig er mwyn sicrhau bod sylw i newyddion sy'n berthnasol i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn cael ei ddiogelu a'i gryfhau ac y byddai angen monitro a chyflwyno adroddiadau tryloyw ar unrhyw hyblygrwydd."[494]

8.54 Roedd VLV yn croesawu'r gofyniad newydd i'r BBC nodi cyfanswm yr oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes y mae'n bwriadu eu darparu ar ei wasanaethau optio allan ar y teledu yn Lloegr. Dywedodd y byddai hyn yn gwella tryloywder ac atebolrwydd i gynulleidfaoedd.[495]

### Ein penderfyniad

8.55 Mae'r Drwydded newydd yn cadw'r Cwotâu ar Wahân sy'n targedu newyddion ar y gwasanaethau optio allan[496] ac yn lleihau'r Cwotâu Cyffredinol i'r lefelau y buom yn ymgynghori arnynt yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.[497]

8.56 Mewn perthynas ag uno rhaglenni optio allan newyddion lleol Rhydychen a Chaergrawnt gyda gwasanaethau sy'n cwmpasu ardal fwy, Bwrdd y BBC sy'n penderfynu ar nifer y gwasanaethau optio allan newyddion rhanbarthol y bydd y BBC yn eu darparu a maint yr ardaloedd a fydd yn cael eu gwasanaethu. Rydym yn cydnabod bod cau gwasanaethau optio allan Rhydychen a Chaergrawnt yn golygu bod cynulleidfaoedd yn y rhanbarthau hynny nawr yn cael newyddion o ardal ddaearyddol fwy nag oedden nhw wedi'i wneud o'r blaen. Mae'r BBC wedi dweud na fydd hyn yn lleihau faint o newyddion y mae cynulleidfaoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt yn ei gael.[498]

8.57 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr, rydym yn disgwyl i'r BBC gyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau ynghylch ei ddarpariaeth newyddion ar-lein well ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn unol â'i ofynion tryloywder newydd.[499] Fel rhan o'i broses adrodd, rhaid i'r BBC ystyried a yw ei strategaeth ar gyfer darparu newyddion i bob cynulleidfa yn llwyddiannus, gan gynnwys cynulleidfaoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt a'r rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau darlledu traddodiadol. Fel y trafodwyd yn yr adrannau blaenorol, byddwn yn monitro barn cynulleidfaoedd am ddarparu newyddion ac rydym yn bwriadu cynnal ymchwil i ddarpariaeth newyddion a gwybodaeth leol.

---

[492] Ymateb VLV, tudalen 4.
[493] Ymateb NUJ, tudalen 2.
[494] Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalennau 1-2.
[495] Ymateb VLV, tudalen 16.
[496] Amodau 4.46.1, 4.55.1 a 4.63.1 y Drwydded Weithredu.
[497] Amod 4.32 y Drwydded Weithredu, sydd hefyd yn adlewyrchu gostyngiad yn lefel amod 4.31.1.
[498] Ymateb y BBC, tudalen 32.
[499] Amodau 4.68.1 ac 4.70 y Drwydded Weithredu.

## Rhaglenni heb fod yn newyddion ar y teledu

8.58 Mae darparu cynnwys nad yw'n newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar wasanaethau optio allan[500] BBC One a BBC Two yn cael ei ddiogelu dan y Drwydded gyntaf gan ddwy set debyg ond gwahanol o gwotâu. Yn gyntaf, mae cwotâu ar gyfer cynnwys nad yw'n newyddion nac yn faterion cyfoes sy'n berthnasol ar wahân i bob un o'r gwasanaethau optio allan yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[501] Rydym yn cyfeirio at y cwotâu hyn fel 'Cwotâu ar wahân' yn yr adran hon.

8.59 Yn ail, mae cwotâu ar gyfer nifer sylfaenol o oriau o gynnwys ar wahân i newyddion sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau optio allan yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda'i gilydd. Mae dau gwota o'r fath: ar gyfer cynnwys ar wahân i newyddion yn ystod yr oriau gwylio brig[502] ac ar gyfer cynnwys ar wahân i newyddion ar adegau cyfagos i'r oriau gwylio brig.[503] Mae Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn pennu'r rhain ar lefel briodol.[504] Rydym yn cyfeirio at y cwotâu hyn fel 'Cwotâu Cyffredinol' yn yr adran hon.

### Yr hyn a ddywedon ni

**Cwotâu ar Wahân**

8.60 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig disodli'r Cwotâu ar Wahân ar bob un o wasanaethau optio allan y BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon â gofynion i'r BBC ddarparu'r rhaglenni hyn, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, wedi'u hategu gan ofynion tryloywder newydd.[505]

8.61 Rydym o'r farn y byddai'r dull hwn yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion, er enghraifft drwy ddarparu mwy neu lai o oriau o raglenni ar wasanaeth penodol, neu ddarparu cynnwys ar BBC iPlayer. Er nad oes cwota heb fod yn newyddion neu heb fod yn faterion cyfoes ar gyfer sianel deledu BBC Scotland ar hyn o bryd, roeddem yn cynnig ychwanegu'r un gofynion ar gyfer y gwasanaeth hwn, er cysondeb.[506]

8.62 O dan y gofynion tryloywder newydd, byddai angen i'r BBC nodi oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes ar gyfer pob un o'r gwasanaethau optio allan, yn ogystal â BBC Scotland a BBC iPlayer.[507]

---

[500] Ar draws BBC One Scotland, BBC One Scotland, BBC One Wales, BBC Two Wales, BBC One Northern Ireland, a BBC Two Northern Ireland.
[501] Amodau 2.78.2, 2.85.2, 2.87, 2.91.2 a 2.93 y Drwydded Gyntaf. Nid yw'r Cytundeb yn mynnu'r amodau hyn.
[502]Dyma'r Oriau Gwylio Brig a ddiffinnir yn y Drwydded: (a) 18:00 i 22:30 mewn perthynas â'r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU ac eithrio BBC Four; (b) 19:00 i 24:00 mewn perthynas â BBC Four.
[503] Mae cwota pellach yn amod 2.67.2 y Drwydded gyntaf (amod 4.31.1 y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni heb fod yn newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol. Bydd y newidiadau i'r cwotâu newyddion a heb fod yn newyddion a drafodir yn yr adran hon a'r adran flaenorol hefyd yn effeithio ar lefel y cwota cyffredinol hwn, gan ei leihau o 5,909 awr i 5,000 awr.
[504] Amodau 2.67.6 a 2.67.8 y Drwydded Gyntaf.
[505] Amodau arfaethedig 4.46.2, 4.55.2, 4.56, 4.63.2, 4.64 a 4.68.3 y Drwydded.
[506] Amodau arfaethedig 4.47.3 a 4.68.3 y Drwydded.
[507] Amod arfaethedig 4.68.3 y Drwydded.

### Cwotâu Cyffredinol

8.63 Fel y nodwyd, mae'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod Cwotâu Cyffredinol. Yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin, gwnaethom nodi ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth y DU, fel rhan o'i Hadolygiad Canol Tymor, ystyried cynnig yr hyblygrwydd i Ofcom ddisodli'r Cwotâu Cyffredinol hyn gydag amodau sy'n mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys heb fod yn newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol, ynghyd â gofynion tryloywder. Yn y cyfamser, roedd ein Trwydded arfaethedig a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 yn cynnig cadw'r cwotâu hyn ar y lefelau presennol.[508]

8.64 Yn ei ymateb i'r Ymgynghoriad ym mis Mehefin, gofynnodd y BBC am ostyngiad yn lefelau'r Cwotâu Cyffredinol hyn: o 557 awr i 200 awr yn ystod yr oriau gwylio brig ac o 179 awr i 150 awr ar adegau cyfagos i'r oriau gwylio brig.[509] Roedd yn nodi tri math o newidiadau yr oedd yn bwriadu eu gwneud a fyddai'n effeithio ar ei ddarpariaeth o gynnwys heb fod yn newyddion:

- **Cynyddu buddsoddiad mewn cynnwys sy'n cael mwy o effaith.** Roedd y BBC yn bwriadu lleihau rhaglenni ar y gwasanaethau optio allan er mwyn ariannu rhaglenni 'effaith fawr'. Dywedodd y BBC wrthym mai ei 'strategaeth effaith uchel' yw comisiynu nifer llai o sioeau mwy, mwy uchelgeisiol gydag ymdeimlad cryf o ardal ond gyda mwy o apêl y tu hwnt i'r wlad neu'r rhanbarth lle cawsant eu comisiynu. Byddai'r cynnwys hwn yn cael ei gomisiynu yn y gwledydd neu'n cael ei gomisiynu ar y cyd â'r rhwydwaith a byddai'n cynrychioli cynnydd mewn buddsoddiad yn y sectorau cynhyrchu lleol.
- **Gwell newyddiaduraeth ymchwiliol i faterion cyfoes yn Lloegr.** Dywedodd y BBC ei fod yn bwriadu dod â'i raglen materion cyfoes Saesneg *We Are England* i ben a rhoi rhwydwaith o newyddiadurwyr ymchwiliol yn ei le, a fyddai'n cynhyrchu cynnwys ar gyfer ar-lein, teledu a radio.
- **Newidiadau i amserlenni rhaglenni.** Roedd y BBC am gael yr hyblygrwydd i gynnig rhaglenni ar adegau pan fyddant yn darparu'r gwerth mwyaf i gynulleidfaoedd, boed hynny yn ystod neu y tu allan i oriau brig.

8.65 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr ar newidiadau arfaethedig y BBC, rydym yn cydnabod yr amrywiaeth o fanteision posibl a gynigir gan gynigion y BBC ond hefyd y risgiau posibl. Gwnaethom ymgynghori ar gynigion y BBC ynghyd â gofynion tryloywder newydd i'w ddal i gyfrif.[510] Fe wnaethom egluro y byddai'r gofynion newydd yn ategu'r rheini roeddem wedi'u cynnig yn Ymgynghoriad mis Mehefin[511] a byddem yn sicrhau ein bod yn gallu tracio sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar ei wasanaethau optio allan, drwy ei raglenni effaith uchel ac ar-lein. Roeddem hefyd wedi nodi ein disgwyliad y byddai'r BBC yn darparu gwybodaeth fanwl i ni'n gyfrinachol am ei wariant arfaethedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

---

[508] Amodau arfaethedig 4.31.4 a 4.31.5 y Drwydded.
[509] Ymateb y BBC, tudalen 36.
[510] Diwygiadau i amod arfaethedig 4.68.3 y Drwydded ac amod arfaethedig 4.68.4 y Drwydded sydd newydd gael ei chynnig fel y nodir yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.
[511] Yn benodol, amodau arfaethedig 4.67, 4.68.1 a 4.69 y Drwydded.

## Sylwadau rhanddeiliaid

8.66 Yn gyntaf, rydym yn trafod sylwadau rhanddeiliaid ar ein cynigion i ddileu'r Cwotâu ar Wahân fel y nodir yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin ac yna'n trafod barn rhanddeiliaid ar y cynnig i leihau lefel y Cwotâu Cyffredinol fel y nodir yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr. Yn olaf, rydym yn nodi safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch ein gofynion tryloywder arfaethedig.

8.67 Mewn ymateb i'r newidiadau i'r Cwotâu ar Wahân a nodwyd yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin, roedd pryderon rhanddeiliaid yn adleisio'r rheini a gawsom mewn meysydd eraill lle roeddem yn cynnig disodli cwotâu â gofynion i ddarparu cynnwys, ynghyd â gofynion tryloywder. Dywedodd rhanddeiliaid, heb Gwotâu ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gallai ehangder a swmp y cynnwys ar wahân i newyddion a materion cyfoes ar y gwasanaethau optio allan leihau, gan effeithio'n negyddol ar gynulleidfaoedd a'r sectorau cynhyrchu lleol.[512]

8.68 **Dileu Cwotâu ar Wahân – effaith ar gynulleidfaoedd.** Dywedodd ACNI y byddai cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn cael llai o wasanaeth pe bai nifer y rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn gostwng wrth i gynulleidfaoedd roi gwerth uchel unigryw ar gynnwys lleol.[513] Tynnodd ACS sylw at y tensiwn rhwng penderfyniad Ofcom i ddileu'r cwotâu hyn ac ymrwymiadau diweddar y BBC i wella ei sefyllfa yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys cynyddu buddsoddiad. Nododd y gall cynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau fod yn arbenigol ac nid yn fasnachol ddeniadol, sy'n golygu ei fod yn faes y gallai'r BBC geisio ei leihau wrth i gyllidebau gael eu hymestyn yn fwy.[514] Nododd ACS a WGGB fod lefelau bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn yr Alban â'r BBC yn llai na'r cyfartaledd ar hyn o bryd ac roedd Screen Scotland yn poeni y byddai gostyngiad yn y ddarpariaeth cynnwys lleol yn creu mwy o bellter rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd.[515]

8.69 **Dileu Cwotâu ar Wahân – effaith ar y diwydiant.** Awgrymodd ACS a TAC y byddai gostyngiad mewn cynnwys ar wahân i newyddion a materion cyfoes ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn effeithio ar gwmnïau annibynnol newydd a llai sy'n dibynnu ar y comisiynau llai y mae hyn yn eu cynnig.[516] Nododd Directors UK fod comisiynau bach yn bwysig ar gyfer cyfarwyddwyr newydd.[517] Roedd Screen Scotland yn poeni y gallai gostyngiad yn y rhaglenni hyn "*danseilio darpariaeth Diben Cyhoeddus 4 drwy wanhau economi greadigol yr Alban*".[518] Ar y llaw arall, dywedodd ACW fod perygl i'r cwotâu oriau presennol leihau'r gyllideb cynhyrchu sydd ar gael, o ystyried bod incwm ffi'r drwydded wedi'i rewi ar hyn o bryd, ond awgrymodd y gellid sefydlu gofyniad gwario i ddiogelu buddsoddiad.[519]

---

[512] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 6-7; Ymateb ACS, tudalennau 6-9; Ymateb Directors UK, tudalennau 7-8; Ymateb TAC, tudalennau 3-6; Ymateb VLV, tudalennau 15-17; Ymateb WGGB, tudalennau 3-4.
[513] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 6.
[514] Ymateb ACS, tudalennau 7-8.
[515] Ymateb ACS, tudalen 6; Ymateb Screen Scotland, tudalen 6; Ymateb WGGB, tudalennau 3-4.
[516] Ymateb ACS, tudalen 8; Ymateb TAC, tudalen 6.
[517] Ymateb Directors UK, tudalennau 2-3.
[518] Ymateb Screen Scotland, tudalen 5.
[519] Ymateb ACW, tudalen 3.

8.70 Mynegodd rhanddeiliaid lawer o bryderon tebyg i'r rheini a nodwyd uchod ynghylch cynulleidfaoedd a diwydiant mewn ymateb i gynigion Ymgynghoriad mis Rhagfyr i leihau'r Cwotâu Cyffredinol. Roedd y cynigion hyn yn cynrychioli gostyngiad gwirioneddol yn allbwn y BBC, yn wahanol i'n cynigion ar gyfer y Cwotâu ar Wahân a oedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r BBC wneud newidiadau i'w allbwn.[520]

8.71 **Gostyngiad mewn Cwotâu Cyffredinol – effaith strategaeth effaith uchel ar gynulleidfaoedd.** Roedd nifer o randdeiliaid yn poeni na fyddai'r gostyngiad sylweddol mewn oriau yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o genres mewn rhaglenni optio allan ac y gallai ffocws lleol rhaglenni effaith uchel gael ei wanhau pe bai'r BBC yn ceisio apelio at gynulleidfaoedd rhwydwaith.[521] Roedd VLV yn poeni mai drama fyddai'r rhan fwyaf o raglenni effaith uchel y BBC ac roedd yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw rhaglenni ffeithiol.[522] Roedd yr NUJ yn derbyn rhesymeg cynlluniau'r BBC ond roedd yn dadlau y dylid diogelu newyddion a materion cyfoes.[523] Nododd ACNI fod rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster y BBC yn cael cyllid drwy gyllid darlledu mewn ieithoedd brodorol, a mynegodd bryder y bydd hyn, gyda llai o oriau yn gyffredinol, yn golygu bod llai o gynyrchiadau gwreiddiol eraill yn cael eu gwneud o Ogledd Iwerddon.[524]

8.72 **Gostyngiad mewn Cwotâu Cyffredinol – effaith strategaeth effaith uchel ar y diwydiant.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon bod lleihau oriau a symud oddi wrth gomisiynau llai yn peri rhagor o risgiau i gymunedau cynhyrchu lleol.[525] Roedd Directors UK a TAC yn dadlau y byddai cyfleoedd effaith uchel ar y gyllideb fwy yn annog cynhyrchwyr mwy sy'n canolbwyntio ar Lundain i gystadlu am gomisiynau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[526] Nododd ACS ac ACNI y gellid ystyried mwy o gyd-gomisiynu fel cyllidebau lleol sy'n ychwanegu at gyllidebau rhwydwaith heb i benderfyniadau gael eu gwneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[527]

8.73 **Gostyngiad yn y Cwotâu Cyffredinol – materion cyfoes yn Lloegr.** Roedd yr NUJ yn poeni na fyddai rhwydwaith newydd y BBC o newyddiadurwyr ymchwiliol yn cael digon o amser cynulleidfa brig ar BBC One. Roedd hefyd yn dadlau, er bod cynyddu newyddiaduraeth ymchwiliol ar-lein yn gadarnhaol, na ddylai hyn fod ar draul rhaglenni darlledu traddodiadol oriau brig ar y teledu neu ar radio lleol.[528] Mynegodd VLV bryder ynghylch colli rhaglen materion cyfoes rhanbarthol ar gyfer Lloegr a dadleuodd y dylai'r gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau gael eu hadlewyrchu yn rhaglenni materion cyfoes y BBC. Roedd hefyd yn pwysleisio nad oedd modd cyfnewid cynulleidfaoedd darlledu ac ar-lein na chynulleidfaoedd newyddion a materion cyfoes.[529]

---

[520] Ymateb ACS, tudalennau 2-9; Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 2-5; Ymateb Directors UK, tudalennau 1-4; Ymateb Llywodraeth yr Alban (Rhagfyr), tudalennau 1-2; Ymateb TAC, tudalennau 2-3; Ymateb VLV, tudalennau 4-6.
[521] Ymateb ACS, tudalennau 4-9; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 3; Ymateb Directors UK, tudalennau 3-4; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalennau 1-2; Ymateb TAC, tudalen 3; Ymateb VLV, tudalennau 5-6.
[522] Ymateb VLV, tudalen 6.
[523] Ymateb NUJ, tudalen 3.
[524] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 3.
[525] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon , tudalen 4; Ymateb ACS, tudalen 7; Ymateb Directors UK, tudalen 3; Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalen 1; Ymateb TAC, tudalen 2.
[526] Ymateb Directors UK, tudalen 3; Ymateb TAC, tudalen 2.
[527] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 4; Ymateb ACS, tudalen 7.
[528] Ymateb NUJ, tudalen 3.
[529] Ymateb VLV , tudalen 7.

8.74 **Tryloywder.** Mewn ymateb i Ymgynghoriadau mis Mehefin a mis Rhagfyr, roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw mwy o dryloywder a monitro pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt.[530] Roedd ACNI yn dadlau nad yw'r lefel bresennol o dryloywder a gynigir gan y BBC yn ddigon i ddeall ei fuddsoddiad yn y gwledydd yn llawn.[531] Dywedodd Directors UK y byddai angen i Ofcom weithredu'n gyflym petai'n canfod gostyngiad mewn allbwn o genres llai poblogaidd.[532] Dywedodd ACS fod symud oddi wrth gwotâu yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Ofcom i ddarparu system fonitro sy'n caniatáu iddo godi materion cyn iddynt fynd yn rhy bell i'w newid.[533] Gofynnodd TAC i Ofcom fod yn glir ynghylch beth fyddai'n gwneud i ni gamu i mewn ac awgrymodd ein bod yn olrhain tueddiadau tymor hir fel na fydd gostyngiadau graddol yn cael eu methu. Roedd hefyd yn awgrymu ein bod yn mesur y gwariant ar gwmnïau annibynnol ym mhob gwlad.[534]

## Ein penderfyniad

8.75 **Penderfyniad ar Gwotâu ar Wahân** – Rydym yn dal o'r farn nad yw'r Cwotâu ar Wahân ar gyfer cynnwys nad yw'n newyddion neu'n faterion cyfoes sy'n berthnasol yn unigol i bob un o'r gwasanaethau optio allan yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwneud fawr ddim i ddal y BBC i gyfrif am ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd neu wella tryloywder.[535] Mae'r cwotâu hyn yn ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ailadrodd ac yn hanesyddol mae'r BBC wedi gorgyflawni yn eu herbyn o bell ffordd.[536] Mae'r dull rheoleiddio newydd rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cwotâu fel y rhain, sydd wedi'i nodi'n fanylach yn Adran 3, yn eu disodli â rhwymedigaethau sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gyflawni, ynghyd â gofynion tryloywder a monitro gwell.[537] Bydd y BBC yn gallu arloesi ac addasu'n well i anghenion cynulleidfaoedd ond bydd gofyn iddo hefyd egluro sut bydd newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well.[538]

8.76 **Penderfyniad ar Gwotâu Cyffredinol** – Mae cais y BBC i leihau lefel y Cwotâu Cyffredinol i roi cynnig ar ei strategaeth effaith uchel a'i ddull newydd o ymdrin â materion cyfoes yn Lloegr yn cynrychioli ymdrech gan y BBC i addasu er budd cynulleidfaoedd. O ystyried y newid mewn arferion defnyddio a gwrando a heriau ariannol y BBC, rydym yn credu y dylai allu arloesi a dylai ein gwaith rheoleiddio alluogi hyn. O'r herwydd, rydym wedi lleihau'r cwotâu i'r lefelau roeddem wedi ymgynghori arnynt yn Ymgynghoriad mis Rhagfyr.[539] Bydd gofynion tryloywder newydd[540] a'n trefn fonitro ein hunain yn sail i'n barn ynghylch a yw'r

[530] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 3; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 7-8; Ymateb ACS, tudalennau 8-9; Ymateb ACS, tudalennau 2-3, 5; Ymateb ACW, tudalen 2; Ymateb ACW, tudalen 5; Ymateb Directors UK, tudalen 4; Ymateb Directors UK, tudalen 2; Ymateb NUJ, tudalen 3; Ymateb TAC, tudalen 3; Ymateb TAC, tudalen 3.
[531] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 3.
[532] Ymateb Directors UK, tudalen 4.
[533] Ymateb ACS, tudalennau 8-9.
[534] Ymateb TAC, tudalen 3.
[535] Amodau 2.78.2, 2.85.2, 2.87, 2.91.2 a 2.93 y Drwydded Gyntaf.
[536] Yn 2021/22 roedd y BBC wedi rhagori ar y cwotâu hyn o 160% ar draws gwasanaethau yng Nghymru, 235% yng Ngogledd Iwerddon a 165% yn yr Alban Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, tudalen 142). Mae'r rhagori hwn yn cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol, ac eithrio rhaglenni heb fod yn newyddion ar BBC Two Wales yn 2019/20 a 2020/21, nad oeddent wedi cael eu bodloni oherwydd effaith Covid-19 (dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC).
[537] Amodau 4.46.2, 4.55.2, 4.56, 4.63.2, 4.64 a 4.68.3 y Drwydded Weithredu.
[538] Amodau 4.67 i 4.70 y Drwydded Weithredu.
[539] Amodau 4.31.4 a 4.31.5 y Drwydded Weithredu, sydd hefyd yn adlewyrchu gostyngiad yn lefel amod 4.31.1.
[540] Amodau 4.67 i 4.70 y Drwydded Weithredu.

BBC yn darparu'n briodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn dilyn y newidiadau hyn, a byddwn yn camu i mewn ac yn ystyried diwygio'r Drwydded Weithredu os bydd gennym bryderon.

8.77 Isod, rydym yn ymateb i'r pryderon mwy penodol a godwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'r cynigion Cwotâu ar Wahân a Chwotâu Cyffredinol. Yn gyntaf, rydym yn trafod yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd ac yna'n trafod yr effaith bosibl ar y diwydiant. O ystyried y materion sy'n gorgyffwrdd, rydym yn trafod y ddwy set o gwotâu gyda'i gilydd yn yr adrannau hyn. Yna, rydym yn mynd ymlaen i drafod materion cyfoes yn Lloegr a'r gofynion tryloywder.

8.78 **Effaith ar gynulleidfaoedd.** Rydym yn cytuno bod gan raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar y gwasanaethau optio allan rôl allweddol o ran darparu gwerth a meithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd lleol. Rydym hefyd yn credu bod gan gynnwys o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol sy'n cael eu comisiynu ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith y BBC, yn unol â'i strategaeth effaith uchel, rôl yn hyn hefyd. Mae gweld mwy o leoedd, talent a straeon lleol yn cael eu cyflwyno mewn rhaglenni cyllideb uwch sydd ar gael yn eang ar wasanaethau'r rhwydwaith a BBC iPlayer yn taro tant gyda chynulleidfaoedd lleol.[541] Yn y ddogfen Diwygio Trwydded Weithredu, a gafodd ei llunio gan y BBC i ni ei gyhoeddi ochr yn ochr â'n Hymgynghoriad ym mis Rhagfyr, mae'r BBC yn dangos bod rhaglenni effaith uchel presennol y rhwydwaith (sy'n cael eu galw'n rhaglenni portreadu) yn cael cyfran uwch o'r gwylio gan y wlad neu'r rhanbarth maent yn tarddu ohono nag ar draws y DU drwyddi draw.

8.79 Mae'r BBC wedi dweud wrthym y bydd yn cynnal ei gynnwys materion cyfoes, chwaraeon lleol, iaith frodorol ac addysg ar wasanaethau optio allan.[542] Mae hefyd wedi ymrwymo i nodi'r oriau arfaethedig, gan gynnwys cyfanswm a dangosiad cyntaf, ar gyfer cynnwys optio allan a theitlau enghreifftiol i ddangos ehangder y genres sy'n cael eu cynnig.[543] Rydym wedi pennu gofynion tryloywder sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi'r ystod arfaethedig a go iawn o genres sy'n cael eu darlledu ar y gwasanaethau optio allan, cyfanswm yr oriau darlledu cyntaf o gynnwys heblaw newyddion a materion cyfoes, a chyfanswm oriau rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf o raglenni materion cyfoes.[544] Bydd hyn yn sail ar gyfer ein barn o berfformiad y BBC a bydd yn ei alluogi i arloesi. Bydd y mesurau hyn yn ein galluogi i nodi unrhyw ostyngiad yn yr amrywiaeth o genres o gynnwys a gynigir ar wasanaethau optio allan.

8.80 Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i restru'n glir ei raglenni portreadu effaith uchel ac egluro sut mae'r rhain yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol y DU, gan gynnwys cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[545] Rydym hefyd wedi mabwysiadu gofyniad tryloywder iddo nodi oriau arfaethedig o raglenni rhwydwaith sydd wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[546] Rydym yn disgwyl i'w ddadansoddiad o gyfran y gynulleidfa o raglenni portreadu rhwydwaith y wlad neu'r rhanbarth, o'i gymharu â rhwydwaith llawn y DU, fod yn rhan o'i adroddiadau

[541] Gwnaed sylw tebyg yn ein dogfen Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, tudalennau 23 i 24.
[542] Ymateb y BBC, tudalen 36.
[543] BBC, 2022. Diwygio Trwydded Weithredu, tudalen 5.
[544] Amodau 4.68.3 a 4.70 y Drwydded Weithredu.
[545] BBC, 2022. Diwygio Trwydded Weithredu, tudalen 5.
[546] Amod 4.68.4 y Drwydded Weithredu.

parhaus, gyda'i Adroddiad Blynyddol. Bydd yr wybodaeth hon, yn ogystal â'r gofynion tryloywder a nodwyd gennym yn Ymgynghoriadau mis Mehefin a mis Rhagfyr,[547] yn sicrhau bod gennym farn gadarn ynghylch sut mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda'i gynnwys optio allan a'i gynnwys portreadau effaith uchel. Rydym o'r farn y bydd ymrwymiadau'r BBC a'n gofynion tryloywder yn caniatáu i ni ganfod unrhyw wanhad posibl ar y ffocws cenedlaethol neu ranbarthol o gynnwys portreadu effaith uchel y rhwydwaith. Bydd yr wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'n hasesiad perfformiad ar gyfer ein hadroddiad blynyddol ar y BBC.

8.81 Mae'r BBC yn dweud y bydd yn darparu rhaglenni portreadu effaith uchel yn y genres drama, comedi a ffeithiol ar y rhwydwaith.[548] Rydym yn disgwyl iddo drafod yr amrywiaeth o genres o gynnwys portreadu effaith uchel ei rwydwaith yn ei adroddiadau.[549] Bydd hyn, ynghyd â'r wybodaeth y bydd yn ei darparu mewn perthynas â chynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar y gwasanaethau optio allan, yn ein galluogi i fonitro lledaeniad genres ar draws y cynnwys sy'n cael ei ddarlledu gan y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

8.82 Rydym o'r farn y dylai cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon gael amrywiaeth briodol o gynyrchiadau Gwyddeleg, Sgoteg Ulster a Saesneg. Er bod cyllid ieithoedd brodorol ar wahân ar gael ar gyfer cynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster, nid ydym yn credu y gallai cynnwys o'r fath ar ei ben ei hun ar ei wasanaethau optio allan gyflawni gofyniad y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.[550]

8.83 **Effaith ar y diwydiant.** Fel rydym wedi'i nodi uchod yn ein trafodaeth ar gynyrchiadau teledu, mae gennym reoliadau penodol ar waith i gefnogi cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion i 50% o raglenni rhwydwaith y BBC, o ran oriau a gwariant, gael eu gwneud y tu allan i'r M25 a gofynion pellach i gyfran o'r rhaglenni hyn gael eu gwneud ym mhob gwlad o'i gymharu â'i phoblogaeth.[551]

8.84 Rydym eisoes wedi nodi ymrwymiad y BBC i gynyddu cyfran y gwariant ar raglenni teledu'r rhwydwaith y tu allan i'r M25 i 60% erbyn diwedd cyfnod y Siarter.[552] Fel y trafodwyd uchod, mae'r BBC yn cyhoeddi Adroddiad ar y Cyflenwad Comisiynu bob blwyddyn sy'n rhoi manylion am y cynhyrchwyr annibynnol mae wedi gweithio gyda nhw, gan gynnwys cynhyrchwyr newydd a chynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ogystal â'r cynlluniau talent, y cronfeydd a'r partneriaethau mae'n buddsoddi ynddynt.[553] Rydym yn cael rhagor o wybodaeth am y cwmnïau cynhyrchu mae'r BBC yn eu defnyddio drwy ei adrodd ar ei ofynion y tu allan i Lundain.[554]

---

[547] Amodau 4.67 i 4.70 y Drwydded Weithredu.
[548] BBC, 2022. Diwygio Trwydded Weithredu, tudalen 2.
[549] Er mwyn cydymffurfio ag amod 4.67 y Drwydded Weithredu.
[550] Amod 4.59 y Drwydded Weithredu.
[551] Amodau 4.15, 4.16 a 4.18, 4.20, a 4.22 y Drwydded Weithredu.
[552] BBC, Mawrth 2021. Y BBC ar Draws y DU: Y BBC 2022-2027. DCMS, 2022. Diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith: 26 Mai 2022.
[553] BBC, 2022. Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.
[554] Cynyrchiadau a rhaglenni teledu rhanbarthol.

8.85 Rydym yn credu y bydd y rheoliad hwn yn cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith bosibl y cynigion ar ddiwydiannau creadigol y DU.

8.86 Mae'n debygol y bydd lleihau'r Cwotâu Cyffredinol i ganiatáu i'r BBC weithredu ei ddull effaith uchel yn debygol o gynyddu lefel gyffredinol ei fuddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[555] Mae perygl y bydd nifer y comisiynau llai yn gostwng, fel yr awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid, ond ar yr un pryd bydd rhai cynhyrchwyr yn elwa o'r strategaeth newydd. Yn gyffredinol, rydym yn credu bod y cynnydd hwn mewn buddsoddiad yn debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol at gynaliadwyedd sectorau cynhyrchu'r gwledydd.

8.87 Mae'r BBC wedi dweud bod llawer o raglenni effaith uchel ei rwydwaith sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn debygol o fod wedi cael eu comisiynu ar y cyd gan dimau comisiynu'r rhwydwaith a thimau comisiynu'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae cynlluniau'r BBC ar draws y DU hefyd yn dangos bod mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain.[556] Byddai mwy o gyd-gomisiynu yn gwella cynrychiolaeth comisiynwyr y gwledydd mewn penderfyniadau am raglenni rhwydwaith, ac felly rydym o'r farn y bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid ynghylch cyd-gomisiynu, gan arwain at lai o benderfyniadau yn y gwledydd. Rydym hefyd yn credu y bydd cynnwys comisiynwyr lleol yn helpu i sicrhau bod cynhyrchwyr lleol go iawn yn cael eu comisiynu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chynhyrchwyr a chomisiynwyr lleol i fonitro effaith strategaeth newydd y BBC.

8.88 Roedd rhanddeiliaid wedi codi'r posibilrwydd o roi cwotâu gwariant ar waith yn lle cwotâu oriau er mwyn diogelu buddsoddiad. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol nac yn ymarferol gosod cwota gwariant yma, ond fel y nodwyd gennym yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, rydym yn credu bod gwariant yn ddangosydd pwysig o berfformiad dan strategaeth effaith uchel y BBC. Roeddem wedi nodi ein disgwyliad y dylai'r BBC ddarparu gwybodaeth fanwl i ni'n gyfrinachol am ei wariant arfaethedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac ar raglenni effaith uchel. Bydd yn bwysig i'r BBC fod yn glir ynghylch y gwariant sydd wedi newid o'r gwasanaethau optio allan i'r rhaglenni portreadu effaith uchel ar wasanaethau'r rhwydwaith. Byddwn yn cyfuno'r wybodaeth hon â data cyfrinachol arall a ddarperir gan y BBC i sicrhau bod gennym ddarlun cynhwysfawr o wariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r data pellach hwn yn cynnwys gwariant cymwys ar raglenni'r rhwydwaith a ddyrennir i'r gwledydd a'r rhanbarthau (hy rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain),[557] gwariant a ddyrennir i gynhyrchwyr annibynnol a gwariant ar raglenni a wneir ar gyfer y gwasanaethau optio allan. Byddwn yn olrhain hyn ac yn ymyrryd os bydd gennym bryderon.

8.89 **Materion Cyfoes Lloegr.** Mae rhaglenni materion cyfoes yn arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd, gan gynnig esboniad, dadansoddiad ac ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau cyfredol a materion allweddol yn eu gwlad neu ranbarth eu hunain. Gall materion cyfoes ar deledu sy'n cael ei ddarlledu a'r rheini sy'n cael eu darparu ar-lein apelio at gynulleidfaoedd gwahanol hefyd, ac mae gan y BBC ddyletswydd i wasanaethu pob un ohonynt.

---

[555] Ymateb y BBC, tudalen 34.
[556] BBC, Mawrth 2021. Y BBC ar Draws y DU: Y BBC 2022-2027, tudalen 5.
[557] Cynyrchiadau a rhaglenni teledu rhanbarthol.

8.90 Yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr, roeddem wedi nodi allbwn blynyddol y rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol, fel y nodwyd gan y BBC, a fyddai'n disodli 55 awr *We Are England:*

- Tua chwe stori y mis a fydd yn ymddangos ar-lein, ar deledu lleol a gwasanaethau radio lleol;
- 80 i 100 awr o gynnwys materion cyfoes yn Lloegr i'w wreiddio mewn rhaglenni presennol;
- 10-12 awr o raglenni unigol hanner awr ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu ac iPlayer;
- cynnydd o dros 20% yn y buddsoddiad mewn materion cyfoes ymchwiliol lleol yn Lloegr sy'n uwch na chyllideb *We Are England*.

8.91 Rydym yn credu bod y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â thueddiadau cynulleidfaoedd o ran cynyddu defnydd ar-lein, gan sicrhau darpariaeth materion cyfoes graidd sy'n cael ei ddarlledu ar y teledu. Rydym yn dal o'r farn bod yn rhaid i'n gwaith rheoleiddio roi lle i'r BBC arloesi a rhoi cynnig ar ddulliau newydd fel hyn. Bydd yn allweddol i'r BBC gyhoeddi cynlluniau ac adrodd yn erbyn yr ymrwymiadau y mae wedi'u gwneud uchod yn unol â'r gofynion tryloywder.[558] Bydd y gofynion tryloywder hyn, yn benodol, yn mynnu bod y BBC yn nodi'r oriau arfaethedig a gwirioneddol o raglenni materion cyfoes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar ei wasanaethau optio allan a BBC iPlayer. Bydd yn arbennig o bwysig i'r BBC egluro sut mae cynnwys yn cael ei wreiddio mewn rhaglenni eraill a sut mae'n gwasanaethu cynulleidfaoedd darlledu ac ar-lein. Rydym yn nodi bod rhaid i'r BBC sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r holl gynnwys ar-lein sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr.[559] Rydym yn credu bod hyn yn cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â phryderon y gallai'r newidiadau leihau cyrhaeddiad y gynulleidfa o ran materion cyfoes yn Lloegr, gan gynnwys yn ystod oriau brig.

8.92 **Tryloywder a monitro.** Mae llawer o'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch tryloywder y BBC a'n trefn fonitro yn gyffredinol yn cael sylw yn Adran 3.

8.93 Rydym yn gweithredu'r gofynion tryloywder a gynigiwyd yn yr Ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.[560] Ar gyfer ei wasanaethau optio allan, bydd yn rhaid i'r BBC nodi'r amrywiaeth o genres y mae'n bwriadu eu darlledu a chyfanswm oriau a dangosiad cyntaf cynnwys heb fod yn newyddion. Bydd yn rhaid iddo hefyd gyhoeddi oriau arfaethedig rhaglenni effaith uchel heb fod yn newyddion sy'n canolbwyntio ar y gwledydd a'r rhanbarthau ac sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau teledu'r rhwydwaith. Mae'n rhaid iddo nodi'r cynlluniau hyn ochr yn ochr â'i Gynllun Blynyddol ac wedyn adrodd arnynt ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol.

8.94 Rydym hefyd yn gweithredu'r gofynion tryloywder a gynigiwyd yn yr Ymgynghoriad ym mis Mehefin.[561] Er mwyn cydymffurfio â'r rhain, rydym yn disgwyl i'r BBC nodi sut mae'n bwriadu gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda'i strategaeth effaith uchel a sut bydd hyn yn sicrhau manteision i sectorau cynhyrchu lleol drwy ragor o fuddsoddiad. Rhaid iddo adrodd ar y cynlluniau hyn, gan gynnwys sut mae ei gynnwys

[558] Amodau 4.67-4.70 y Drwydded Weithredu.
[559] Amodau 4.39, 4.45, 4.54, 4.62 a 4.68.7 y Drwydded Weithredu.
[560] Amodau 4.68.3.2, 4.68.3.4, 4.68.3.5, 4.68.4 y Drwydded Weithredu.
[561] Amodau 4.67, 4.68 a 4.70 y Drwydded Weithredu.

effaith uchel yn perfformio gyda chynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac ar draws y DU.

8.95 Rhaid i'r BBC nodi cynlluniau ac adrodd ar sut mae'n darparu newyddion ar-lein sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol a chyfraniad ei newyddiadurwyr ymchwiliol newydd at faterion cyfoes yn Lloegr, fel y nodir uchod.[562]

## Ystod addas o raglenni a wneir yn yr ardal berthnasol

### Yr hyn a ddywedon ni

8.96 Roeddem yn cynnig cynnal y gofynion i sicrhau bod 95% o raglenni ar wasanaethau optio allan y BBC gyda'i gilydd yn cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol a bod 90% o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC Scotland yn cael eu gwneud yn yr Alban.[563]

### Sylwadau rhanddeiliaid

8.97 Ni chawsom sylwadau penodol ar y cynnig hwn ond mynegodd yr NUJ ac Ymddiriedolaeth Sandford St Martin gefnogaeth i'n dull gweithredu ar gyfer ein holl gynigion o ran cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[564]

### Ein penderfyniad

8.98 Rydym wedi penderfynu cadw'r cwotâu hyn ar gyfer rhaglenni ar wasanaethau optio allan y BBC i sicrhau bod y BBC yn parhau i gefnogi cynhyrchwyr lleol gyda'i raglenni ar gyfer y sianeli hyn.[565]

## Ieithoedd brodorol

### Yr hyn a ddywedon ni

8.99 Yn ein Hymgynghoriad ym mis Mehefin, roeddem yn cynnig cadw'r amodau presennol i'r BBC ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y teledu a'r radio.[566] Roeddem hefyd yn cynnig ymestyn yr amod i BBC Two Northern Ireland gynnwys BBC One Northern Ireland, a chyflwyno gofynion tryloywder i'r BBC nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y gwasanaethau hyn ac ar BBC iPlayer, gan gynnwys oriau arfaethedig ac oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[567]

8.100 Mae'r Drwydded gyntaf yn mynnu bod BBC ALBA yn darparu o leiaf 5 awr o raglenni gwreiddiol bob wythnos wedi'u hanelu at bobl sy'n dysgu Gaeleg.[568] Roeddem yn cynnig disodli'r cwota â gofyniad ar y BBC i ddarparu'r allbwn hwn ar BBC ALBA a BBC iPlayer, ynghyd â gofynion tryloywder.[569] Byddai'r rhain yn mynnu bod y BBC yn nodi cynlluniau ac

[562] Amodau 4.67-4.70 y Drwydded Weithredu.
[563] Amodau arfaethedig 4.31.3 a 4.47.1 y Drwydded.
[564] Ymateb NUJ, tudalen 6; Ymateb SSMT, tudalen 7.
[565] Amodau 4.31.3 a 4.47.1 y Drwydded Weithredu.
[566] Amodau arfaethedig 4.65 a 4.66.4 y Drwydded.
[567] Amod arfaethedig 4.68.5 y Drwydded.
[568] Amod 2.24 y Drwydded Gyntaf.
[569] Amodau arfaethedig 4.48.2 a 4.68.4 y Drwydded.

yn adrodd ar ei ddarpariaeth rhaglenni sydd wedi'u hanelu at y rheini sy'n dysgu'r iaith Gaeleg ar gyfer BBC ALBA a BBC iPlayer, gan gynnwys ei raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a chyfanswm yr oriau o raglenni perthnasol. Roeddem hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion tryloywder tebyg ynghylch sut mae'r BBC yn darparu cynnwys Gaeleg yn ehangach.[570]

8.101 Roeddem yn cynnig cynnwys BBC ALBA yn y rhestr o wasanaethau y mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban. Trafodir hyn yn yr adran isod ar amrywiaeth o gynnwys a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys ar-lein.[571]

### Sylwadau rhanddeiliaid:

8.102 Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad ym mis Mehefin, pwysleisiodd Llywodraeth yr Alban yr angen am fwy o ddiogelwch a thryloywder yng nghyswllt rhaglenni Gaeleg, ac awgrymodd y gellid cyflawni hynny drwy gwotâu ac ymrwymiadau ychwanegol gan y BBC yn ogystal â chynlluniau ac adroddiadau manylach. Yn benodol, roedd yn dadlau y dylid ymestyn cwotâu a gofynion y tu hwnt i newyddion a dysgu Gaeleg i fathau eraill o gynnwys Gaeleg. Awgrymodd Llywodraeth yr Alban hefyd y gellid cefnogi hyn drwy ymrwymiad gan y BBC i nodi sut y bydd yn gweithio gyda MG ALBA i'w alluogi i gyflawni ei gylch gwaith ar gyfer "*amrywiaeth eang ac amrywiol o raglenni mewn Gaeleg*".[572]

8.103 Roedd MG ALBA yn galw am fesurau diogelu cryfach ynghylch darpariaeth Gaeleg ac roedd yn mynegi pryder ynghylch drama, comedi a chynnwys plant Gaeleg. Roedd yn croesawu ein cynigion ar gyfer gofynion tryloywder ychwanegol ond yn awgrymu y dylem eu hehangu i gynnwys manylion ynghylch sut mae allbwn BBC ALBA yn llwyddo i gyrraedd a bodloni ei gynulleidfaoedd arfaethedig.[573] Roedd MG ALBA hefyd yn galw am wahanu'r gofynion tryloywder sy'n ymwneud â BBC ALBA oddi wrth y rheini sy'n ymwneud â chynnwys ieithoedd brodorol eraill er mwyn adlewyrchu ei sefyllfa fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus aml-genre.[574]

8.104 Yn ei ymateb i'n Hymgynghoriadau ym mis Mehefin[575] a mis Rhagfyr[576], roedd MG ALBA yn dadlau y dylai'r amodau sy'n ymwneud â gwahanol fathau o gynnwys Gaeleg ymddangos drwy'r Drwydded Weithredu yn hytrach na dim ond gael eu trafod o dan Ddiben Cyhoeddus 4 ochr yn ochr ag amodau ieithoedd brodorol eraill.[577] Roedd hefyd yn dadlau bod *"dysgu iaith Gaeleg yn fater i'r BBC yn gyffredinol, un y dylai nifer o wahanol wasanaethau'r BBC gyfrannu ato, sain a chlyweledol"*.[578]

8.105 Nododd MG ALBA bwysigrwydd sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys Gaeleg a'i fod yn hygyrch i bob cynulleidfa. Nododd fod hyn yn arbennig o bwysig ar BBC iPlayer, lle'r

---

[570] Amod arfaethedig 4.68.5 y Drwydded.
[571] Amod arfaethedig 4.42 y Drwydded.
[572] Ymateb Llywodraeth yr Alban, tudalennau 4-5.
[573] Ymateb MG ALBA, tudalennau 3-4.
[574] Ymateb MG ALBA, tudalen 2.
[575] Ymateb MG ALBA, tudalennau 3-4.
[576] Ymateb MG ALBA, 1-2.
[577] Ymateb MG ALBA, tudalen 3.
[578] Ymateb MG ALBA, tudalen 3.

oedd yn honni bod y nifer uchel o gynnwys Saesneg yn gallu lleihau gallu defnyddwyr i ymgysylltu â chynnwys ieithoedd brodorol.[579]

8.106 Roedd VLV yn deall y rhesymeg dros ddisodli'r cwota ar gyfer cynnwys dysgu Gaeleg ar BBC ALBA ag amod i ddarparu'r cynnwys hwn, wedi'i ategu gan ofynion tryloywder. Fodd bynnag, roedd yn argymell nad yw Ofcom yn caniatáu i nifer y cynnwys hwn gael ei leihau.[580]

8.107 Roedd VLV hefyd yn croesawu cadw amodau i'r BBC ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar y teledu a'r radio ac roedd yn cefnogi ehangu'r amod teledu i gynnwys BBC One Northern Ireland. Roedd yn argymell bod Ofcom yn tracio pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys ieithoedd brodorol ar wasanaethau ar-lein y BBC.[581] Roedd ACNI yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhaglenni mewn ieithoedd brodorol.[582]

### Ein penderfyniad

8.108 Mae'r BBC yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarlledu yn ieithoedd brodorol y DU yn unol â'r Cytundeb.[583] Rydym wedi penderfynu rhoi gofynion ar waith i sicrhau bod y BBC yn darparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar deledu a radio[584] a rhaglenni sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd sy'n dysgu Gaeleg,[585] ynghyd â'r gofynion tryloywder sy'n eu hategu,[586] i sicrhau bod cynnwys iaith frodorol y BBC yn cael ei ddiogelu a bod cynulleidfaoedd yn dal i gael eu gwasanaethu.

8.109 Rydym o'r farn y bydd ehangu gofyniad y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban, fel ei fod yn cynnwys BBC ALBA a BBC Radio nan Gàidheal, yn sicrhau amrywiaeth o gynnwys Gaeleg.[587] Mae'r gofyniad i BBC Ar-lein ddarparu cynnwys mewn Gaeleg yn cefnogi'r ddarpariaeth hon ymhellach.[588] Bydd y gofynion tryloywder rydym wedi penderfynu eu mabwysiadu hefyd yn rhoi darlun mwy manwl i ni a rhanddeiliaid o ddarpariaeth y BBC o gynnwys Gaeleg. Os bydd gennym bryderon, byddwn yn ymyrryd i fynd i'r afael â nhw.

8.110 Rydym yn fodlon cael cyfeiriadau ar wahân at ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster yn ein gofynion tryloywder.[589] Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn y dylai'r amodau sy'n ymwneud yn benodol â BBC ALBA barhau o dan Ddiben Cyhoeddus 4 gyda'r gofynion eraill ar gynnwys ieithoedd brodorol er mwyn bod yn gyson ac yn ymarferol. Mae'r amodau o dan y Dibenion Cyhoeddus eraill sy'n berthnasol i Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU yn berthnasol i BBC ALBA.[590] Mae'n bwysig nodi nad yw trefn y Dibenion

[579] Ymateb MG ALBA, tudalennau 3-4.
[580] Ymateb VLV, tudalen 17.
[581] Ymateb VLV, tudalen 16
[582] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 1.
[583] Cymalau 38, 40(1) a 41 y Cytundeb.
[584] Amodau 4.65 a 4.66.4 y Drwydded Weithredu.
[585] Amodau 4.48.2 a 4.68.4 y Drwydded Weithredu.
[586] Amodau 4.68.5 a 4.68.6 y Drwydded Weithredu.
[587] Amod 4.42 y Drwydded Weithredu.
[588] Amod 4.44.3 y Drwydded Weithredu.
[589] Amodau 4.68.5 a 4.68.6 y Drwydded Weithredu.
[590] Mae BBC ALBA yn un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y Du o dan y Cytundeb.

Cyhoeddus na lleoliad amodau penodol yn y Drwydded yn cynrychioli unrhyw wahaniaeth o ran pwysigrwydd a bod llawer o amodau yn cyfrannu at hyrwyddo mwy nag un Diben Cyhoeddus.

8.111 Rydym yn cydnabod bod cynnwys sydd wedi'i anelu at y rheini sy'n dysgu'r iaith Gaeleg yn fater i'r BBC yn gyffredinol, yn hytrach na BBC ALBA yn unig. Rydym yn deall mai agwedd presennol y BBC yw i BBC ALBA (ac ymestyn i BBC iPlayer) fod yn wasanaeth sy'n darparu cynnwys dysgu Gaeleg. O'r herwydd, byddwn yn cynnal gofyniad yn y Drwydded i ddarparu'r rhaglenni hyn ar BBC ALBA,[591] ond rydym yn nodi nad yw hyn yn atal y BBC rhag darparu cynnwys sydd wedi'i anelu at y rheini sy'n dysgu Gaeleg ar wasanaethau eraill os bydd yn dewis gwneud hynny. Os bydd agwedd y BBC yn newid a bod angen mwy o hyblygrwydd arno i ddosbarthu cynnwys dysgu Gaeleg mewn ffyrdd gwahanol yn y dyfodol, rydym yn agored i adolygu ac ymgynghori ar gynnig o'r fath. Rydym wedi cynnwys BBC iPlayer yn y gofynion tryloywder newydd i'r BBC nodi cynlluniau ac adrodd ar raglenni dysgu Gaeleg, gan roi darlun ehangach i ni a rhanddeiliaid o ddarpariaeth y BBC.[592]

8.112 Mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch pa mor hawdd oedd dod o hyd i gynnwys, gwnaethom gynnig gofynion ychwanegol ar y BBC ac rydym yn trafod y rhain yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adran hon. Rydym o'r farn bod hwylustod dod o hyd i gynnwys Gaeleg yn cael ei gynnwys yn ddigonol o dan y gofynion hyn.

## Rhaglenni radio lleol ac i'r gwledydd

8.113 Rydym yn trafod nifer o faterion sy'n ymwneud â radio lleol yn Lloegr yn Adran 4 uchod, gan gynnwys ein cynnig i ddiwygio'r gofyniad llafar 100% yn ystod oriau brig amser brecwast. Rydym yn trafod ein cynigion i wneud cwotâu newyddion radio yn rhai blynyddol yn Adran 5 a chwota cerddoriaeth arbenigol BBC Radio 1 yn Adran 7. Rydym yn mynd i'r afael â'n cynigion i wneud cwotâu ar gyfer rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud ar radio lleol y BBC yn rhai blynyddol yn yr adran ganlynol.

### Yr hyn a ddywedon ni

8.114 Roeddem yn cynnig gwneud cwotâu ar gyfer gwasanaethau radio'r BBC yn rhai blynyddol, gan gynnwys y cwotâu rhaglenni gwreiddiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ar gyfer radio lleol y BBC yn Niben Cyhoeddus 4.[593]

8.115 Roeddem yn cynnig y newidiadau hyn oherwydd ein bod yn credu bod amodau blynyddol yn ddigon i sicrhau bod y Dibenion Cyhoeddus perthnasol yn cael eu cyflawni ac oherwydd bod y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu amodau dyddiol ac wythnosol yn anghymesur. Bydd diwygio'r cwotâu fel eu bod yn berthnasol bob blwyddyn yn lleihau'r beichiau o ran adnoddau a chostau i'r BBC ac i Ofcom. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei bod yn aneffeithlon ac yn feichus gorfod monitro ac adrodd ar amodau dyddiol ac wythnosol. Bydd hefyd yn symleiddio'r Drwydded.

[591] Amod 4.48.2 y Drwydded Weithredu.
[592] Amod 4.68.5 y Drwydded Weithredu.
[593] Amodau arfaethedig 4.40.6 a 4.41 y Drwydded.

### Sylwadau rhanddeiliaid:

8.116 Ni chawsom unrhyw sylwadau gan randdeiliaid ar ein cynnig i wneud cwotâu radio yn rhai blynyddol ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. I weld crynodeb o bryderon ehangach rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'n cynnig i wneud cwotâu radio yn rhai blynyddol ar gyfer newyddion, ewch i Adran 5.

### Ein penderfyniad

8.117 Rydym wedi penderfynu gwneud cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol sy'n berthnasol i orsafoedd radio lleol y BBC yn rhai blynyddol.[594] Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 5, bydd hyn yn lleihau baich gweinyddol diangen ar y BBC ac Ofcom ac yn symleiddio'r Drwydded.

## Amrywiaeth o gynnwys a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys ar-lein

### Yr hyn a ddywedon ni

8.118 Roedd y Drwydded gyntaf yn cynnwys nifer o amodau yn ymwneud â'r amrywiaeth o gynnwys sy'n berthnasol i wlad benodol ar wasanaethau optio allan y gwledydd a BBC Scotland,[595] gorsafoedd radio pob gwlad[596] a phob un o orsafoedd radio lleol y BBC.[597] Yn unol â'n hegwyddor i ymgorffori darpariaeth ar-lein y BBC, roeddem yn cynnig cyfuno ac ehangu'r amodau hyn i gynnwys BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan y BBC a BBC ALBA.[598] Roeddem hefyd yn cynnig cyflwyno gofyniad tryloywder ar y BBC i nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu cynnwys perthnasol ar ei wasanaethau ar-lein gyda'i Gynllun Blynyddol, ac adrodd ar a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol.[599]

8.119 Roeddem yn cynnig cadw'r dyletswyddau ar y BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth, cynnwys ieithoedd brodorol a chynnwys chwaraeon ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar BBC Ar-lein.[600]

8.120 Roeddem wedi cynnig cyfres o amodau yn mynnu bod y BBC yn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[601] Mae'r rhain yn cynnwys:

a) newyddion a gwybodaeth a'r darllediadau chwaraeon yn rhanbarthau Lloegr;

b) cerddoriaeth, newyddion a gwybodaeth, chwaraeon a chynnwys mewn Gaeleg ar gyfer yr Alban;

c) cerddoriaeth, newyddion a gwybodaeth, darllediadau chwaraeon a chynnwys Cymraeg i Gymru; a

---

[594] Amodau 4.40.6 a 4.41 y Drwydded Weithredu.
[595] Amodau 2.79, 2.80.1, 2.80.2, 2.86 a 2.92 y Drwydded Gyntaf.
[596] Amodau 2.82.3, 2.83.2, 2.88.2, 2.89.2, 2.95.3 y Drwydded Gyntaf.
[597] Amod 2.74.2 y Drwydded Gyntaf.
[598] Amodau arfaethedig 4.37, 4.40.5, 4.42, 4.43, 4.51, 4.52, 4.59 a 4.60 y Drwydded.
[599] Amod arfaethedig 4.68.1 y Drwydded.
[600] Amodau arfaethedig 4.38, 4.44, 4.53 a 4.61 y Drwydded.
[601] Amodau arfaethedig 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62 y Drwydded.

d) cerddoriaeth, newyddion a gwybodaeth, darllediadau chwaraeon a chynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar gyfer Gogledd Iwerddon.

## Sylwadau rhanddeiliaid

8.121 Mynegodd y BBC a VLV gefnogaeth i'n cynnig i ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC yn yr amodau i ddarparu amrywiaeth o gynnwys sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[602]

8.122 Mynegodd VLV gefnogaeth hefyd i'n cynnig i gadw'r rhwymedigaethau i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth, cynnwys ieithoedd brodorol a chynnwys chwaraeon ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.[603] Galwodd ACW am i'r gofynion fod yn fwy cynhwysfawr er mwyn gallu ehangu'r arlwy ar-lein gan BBC Cymru Wales; awgrymodd y dylid cynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, addysg a chynnwys ffeithiol arall yn yr amodau.[604]

8.123 Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ymwneud â pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys newyddion sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar wasanaethau ar-lein y BBC. Er enghraifft, tynnodd ACNI sylw at y ffaith bod gwefan BBC News ac ap BBC News yn cynnig profiadau gwahanol i ddefnyddwyr o ran hwylustod dod o hyd i gynnwys ar bob llwyfan. Roedd hefyd yn disgwyl i Ofcom wneud datganiad cliriach ynghylch yr hyn mae'n ei ddisgwyl gan y BBC o ran gwneud cynnwys newyddion y wlad yn hawdd ei ganfod ar wasanaethau ar-lein y BBC.[605]

8.124 Dywedodd ACNI hefyd yn ei ymateb nad yw'r ffrwd fyw ar BBC iPlayer yn cael BBC News ar gyfer Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Awgrymodd y dylai Ofcom osod amodau clir i sicrhau bod gwylwyr ym mhob gwlad a rhanbarth yn gallu gwylio eu rhaglenni eu hunain ar bob llwyfan digidol (yn fyw a dal i fyny).[606]

8.125 Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru (ACW) yn cytuno â'n dull cyffredinol o ddod o hyd i gynnwys. Fodd bynnag, roedd yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn gymharol anodd dod o hyd i gynnwys BBC Cymru Wales yn amgylchedd BBC iPlayer. Felly, cynigiodd y dylid caniatáu mwy o bersonoli ar y rhyngwyneb defnyddiwr er mwyn ei deilwra i anghenion pob gwlad.[607]

## Ein penderfyniad

8.126 Rydym wedi penderfynu cyfuno ac ehangu'r amodau sy'n ymwneud â'r amrywiaeth o gynnwys sy'n berthnasol i wlad benodol ar wasanaethau optio allan y gwledydd a BBC Scotland, gorsafoedd radio pob gwlad a phob un o orsafoedd radio lleol y BBC.[608] Mae hyn yn cynnwys gofyniad newydd i bob gwlad ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu'r wlad berthnasol ar BBC iPlayer, BBC Sounds a'i wefan a'i apiau.[609] Ar gyfer yr Alban, mae'r amod nawr hefyd yn cynnwys BBC ALBA yn ogystal â BBC Scotland. Bydd hyn

---

602 Ymateb y BBC, tudalen 16; Ymateb VLV, tudalen 17.
603 Ymateb VLV, tudalen 17.
604 Ymateb ACW, tudalen 7.
605 Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 3-4.
606 Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalen 4.
607 Ymateb ACW , tudalen 5.
608 Amodau 4.37, 4.40.5, 4.42, 4.43, 4.51, 4.52, 4.59 a 4.60 y Drwydded Weithredu.
609 Amodau 4.37, 4.42, 4.51 a 4.59 y Drwydded Weithredu.

yn cael ei ategu gan y gofynion tryloywder newydd i'r BBC i nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu cynnwys perthnasol ar ei wasanaethau ar-lein gyda'i Gynllun Blynyddol, ac adrodd ar a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol.[610]

8.127 Rydym hefyd wedi penderfynu cadw'r dyletswyddau ar y BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth, cynnwys ieithoedd brodorol a chynnwys chwaraeon ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC Ar-lein.[611] Rydym yn cydnabod pryder ACW nad yw'r amodau hyn yn hyrwyddo BBC Cymru Wales yn ddigonol i ddarparu cynnwys creadigol arloesol ar-lein, gan gynnwys genres fel cerddoriaeth, y celfyddydau a chynnwys ffeithiol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd yr amodau hyn, ochr yn ochr â'r amod ehangach i ddarparu ystod eang o gynnwys a drafodir uchod, yn cefnogi'r BBC yn ddigonol yn ei amcan i wasanaethu a chreu cynnwys ar gyfer y DU i gyd, gan gynnwys yng Nghymru. Rydym yn credu ei bod hi'n briodol i'r BBC benderfynu pa fathau o gynnwys sy'n gwasanaethu ei gynulleidfaoedd orau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn hytrach na gorfodi genres ychwanegol i'r rheini sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd.

8.128 Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r amodau sy'n mynnu bod y BBC yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.[612] Fel y nodir yn Adran 3, rydym hefyd wedi cyflwyno gofyniad tryloywder newydd i'r BBC adrodd ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â'r amodau hyn.[613] Rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid y gallai gwasanaethau ar-lein y BBC gynnig lefelau gwahanol o hwylustod o ran dod o hyd i gynnwys i gynulleidfaoedd a defnyddwyr ym mhob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Wrth adrodd yn erbyn ei amodau hwylustod, byddem yn disgwyl i'r BBC egluro sut mae'n sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n cael cynnwys, gan gynnwys newyddion, sy'n berthnasol i ble maent yn byw.

8.129 Rydym wedi ystyried awgrym ACW i bersonoli'r rhyngwyneb defnyddiwr yn well er mwyn ei gwneud yn haws i bob gwlad ddod o hyd i gynnwys. Fel y nodwyd gennym yn Adran 5 y datganiad hwn, mater i'r BBC yw sicrhau ei bod yn hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd i newyddion a gwybodaeth yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a byddwn yn asesu'r camau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r amodau hyn yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC.

## Mesur perfformiad

8.130 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio nifer o fesurau i asesu perfformiad y BBC yn erbyn Diben Cyhoeddus 4. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data mesur y diwydiant ac ymchwil cynulleidfa ar fodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth rydym yn ei chasglu i asesu perfformiad y BBC mewn perthynas â chynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol. Rydym hefyd yn adolygu cyhoeddiadau fel adroddiad cynnydd blynyddol y BBC ar ei weithrediad o'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth a chyhoeddiadau eraill i fesur perfformiad.

8.131 Rydym yn bwriadu cynnwys asesiad o berfformiad gwasanaethau ar-lein y BBC yn ein hasesiad perfformiad a, lle bo angen, byddwn yn defnyddio ffynonellau a thystiolaeth

[610] Amodau 4.67, 4.68.1, 4.69 a 4.70 y Drwydded Weithredu.
[611] Amodau 4.38, 4.44, 4.53 a 4.61 y Drwydded Weithredu.
[612] Amodau 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62 y Drwydded Weithredu.
[613] Amod 4.68.7 y Drwydded Weithredu.

newydd. Er enghraifft, byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ynghylch dod o hyd i'w gynnwys i ddeall sut mae'n sicrhau bod cynnwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau, yn ogystal â chynnwys ieithoedd brodorol, yn cael ei wneud yn hygyrch i gynulleidfaoedd perthnasol ar-lein. Rydym yn bwriadu parhau i fesur y defnydd o BBC Ar-lein ar gyfer gwahanol ddemograffeg cynulleidfa, a thracio canfyddiadau cynulleidfaoedd o wasanaethau ar-lein ar draws gwahanol grwpiau cynulleidfa. Gan fod lefelau'r Cwotâu Cyffredinol heb fod yn newyddion yn cael eu lleihau, rydym hefyd yn bwriadu rhoi sylw penodol i fonitro bodlonrwydd cynulleidfaoedd â'r BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yr amrywiaeth o genres sydd ar gael a'r gwariant ar gynnwys effaith uchel ar gyfer gwasanaethau optio allan ym mhob gwlad.

# A1. Geirfa

**Adolygiad Canol Tymor o Siarter y BBC:** mae'r Siarter yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad canol tymor sy'n canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC. Ni ddylid cynnal yr Adolygiad cyn 2022 a rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 2024[614].

**BBC Ar-lein (neu wasanaethau ar-lein y BBC):** Mae'r Cytundeb yn disgrifio hwn fel "gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer oedolion iau". Ers dyddiad y Cytundeb, mae'r BBC wedi lansio gwasanaethau cynnwys ar-lein eraill, gan gynnwys BBC Sounds. Yn y datganiad hwn, pan fyddwn yn defnyddio "BBC Ar-lein" neu "wasanaethau ar-lein y BBC", rydym yn cyfeirio at holl wasanaethau ar-lein y BBC, gan gynnwys Gwefan y BBC, apiau'r BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds, oni nodir yn wahanol.

**Cyd-gomisiynu:** proses lle mae timau comisiynu Rhwydwaith a Gwledydd y BBC yn cydweithio i gomisiynu cynnwys sy'n cynnig portread rhanbarthol i gynulleidfaoedd lleol ac sy'n apelio'n ehangach at gynulleidfaoedd ledled y DU.

**Cynnwys ar-alw:** cynnwys ydy hwn sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio ar amser o'u dewis, o blith catalog o raglenni a gynigir gan ddarparwr gwasanaeth (ee BBC iPlayer).

**Cynyrchiadau gwreiddiol:** rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC, gan gynnwys ailddarllediadau.

**Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs):** y BBC, trwyddedeion Channel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5 ac S4C.

**Fframwaith mesur perfformiad:** y mesurau mae Ofcom yn eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedwar mesur perfformiad allweddol: argaeledd, defnydd, effaith a ffactorau cyd-destunol.

**Genres mewn perygl:** genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant.

**Gwasanaethau Fideo ar-alw (VoD):** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr i wylio rhaglenni neu ffilmiau bryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen linol. Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio'n bennaf at fideo ar-alw darlledwyr sy'n wasanaethau fideo ar-alw am ddim gan y prif ddarlledwyr gan gynnwys BBC iPlayer, ITV Hub, All4 a My5. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na fideo ar-alw yn unig, ond cyfeirir atynt fel fideo ar-alw er hwylustod.

**Gwasanaeth optio allan**: yr amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).

**Newidiadau sylweddol:** newidiadau a allai effeithio ar sut mae'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar unrhyw newidiadau o'r fath gyda'i Gynllun Blynyddol.

**Niwtral o ran gwasanaeth:** darparu cynnwys drwy deledu neu radio a ddarlledir, neu ar-lein.

**Rhaglenni a brynir:** rhaglenni nad ydynt yn cael eu comisiynu gan y BBC nac ar ei gyfer, ond sy'n cael eu darlledu neu eu darparu ar un o wasanaethau'r BBC.

**Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf:** rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC, nad ydynt wedi bod ar gael ar-lein nac wedi cael eu dangos ar deledu o'r blaen yn y Deyrnas Unedig.

**Rhaglen monitro perfformiad:** rhaglen oruchwylio gynhwysfawr i alluogi Ofcom i ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol am ei ddarpariaeth i gynulleidfaoedd. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar nifer o wahanol ffynonellau gwybodaeth, ac mae'n cyd-fynd â'r dull gweithredu a nodir yn y fframwaith mesur perfformiad.

**Teledu a ddarlledir:** sydd hefyd yn cael ei alw'n deledu llinol – rhaglenni teledu sy'n cael eu dangos ar sianel deledu.

[614] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 26 Mai 2022. Adolygiad Canol Tymor y BBC:Cylch Gorchwyl.

# A2. Y Drwydded Weithredu newydd

A2.1 Caiff yr Atodiad hwn ei gyhoeddi fel dogfennau ar wahân.

# A3. Cymharu'r Drwydded Weithredu gyntaf a'r un newydd

## Pwrpas yr adran hon

A3.1 Mae ein Trwydded Weithredu arfaethedig yn cadw rhai amodau o'r Drwydded Weithredu gyntaf,[615] yn diwygio ac yn dileu rhai eraill, ac yn ychwanegu rhai newydd. Isod, ceir tabl cyfeirio sy'n nodi ar gyfer pob un o amodau'r Drwydded Weithredu gyntaf, a yw wedi cael ei drosglwyddo i'r Drwydded newydd a lle mae modd dod o hyd iddo.

A3.2 Mae pob un o Amodau'r drwydded wedi cael un o'r statws canlynol:

a. Cadw: mae'r amod wedi cael ei drosglwyddo i'r drwydded newydd. Gall hyn gynnwys mân newidiadau drafftio (er enghraifft er mwyn egluro ystyr) nad ydynt yn effeithio ar sylwedd yr amod.
b. Diwygio: mae'r amod wedi cael ei drosglwyddo i'r Drwydded newydd gyda rhai newidiadau sylweddol. Gall hyn gynnwys newid y cyfnod amser y mae amod yn berthnasol iddo, newid lefel cwota neu amrywio iaith amod yn ddigon sylweddol i newid ei effaith.
c. Disodli: mae'r amod wedi cael ei ddisodli gan ofyniad newydd o fath gwahanol. Gall hyn gynnwys cwota yn cael ei ddisodli gan amod disgrifiadol mwy cyffredinol, gofyniad tryloywder neu gyfuniad o wahanol amodau.
d. Dileu mae'r amod wedi'i dynnu o'r Drwydded newydd heb ofyniad yn ei le.
e. Newydd: mae'r amod yn un newydd i'r Drwydded newydd.

A3.3 Mae'r Drwydded newydd wedi cael ei chymharu â fersiwn Gyfunol y Drwydded Weithredu ar 19 Mai 2022.

A3.4 Darperir y tabl cymharu hwn er hwylustod yn unig ac nid oes unrhyw effaith gyfreithiol iddo. Fe'ch cynghorir i droi at rannau perthnasol y Datganiad a'r Drwydded newydd i gael esboniad o'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud.

[615] Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017 ac mae wedi cael ei diwygio ychydig o weithiau rhwng 2017 a 2022.

## Tabl cymharu trwyddedau

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **Diben Cyhoeddus 1** | | |
| **2.4** | 1.4 | Cadw |
| **2.4.1** | 1.4.1 | Cadw |
| **2.4.2** | 1.4.2 | Cadw |
| **2.4.3** | 1.4.3 | Cadw |
| **2.5** | 1.5 | Cadw |
| **2.5A** | 1,6 | Cadw |
| **2.6** | 1.7 | Cadw |
| **2.6.1** | 1.7.1 | Diwygio |
| **2.6.2** | 1.7.2 | Cadw |
| **2.7** | 1.8 | Diwygio |
| **2.7.1** | 1.8 | Diwygio |
| **2.7.2** | 1.8 | Diwygio |
| **2.8** | 1.9 | Cadw |
| **2.8.1** | 1.9.1, 1.9.2 | Diwygio |
| **2.8.2** | 1.9.3 | Diwygio |
| **2.9** | 1.10 | Cadw |
| **2.9.1** | 1.10.1, 1.10.2 | Diwygio |
| **2.9.2** | 1.10.3 | Diwygio |
| **2.10** | 1.11 | Cadw |
| **2.10.1** | 1.11.1 | Diwygio |
| **2.10.2** | 1.11.2 | Diwygio |
| **2.11** | 1.12 | Cadw |
| **2.12** | 1.13 | Cadw |
| **2.12.1** | 1.13.1 | Cadw |
| **2.12.2** | 1.13.2 | Cadw |
| **2.13** | 1.14 | Cadw |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.13.1** | 1.14.1 | Diwygio |
| **2.13.2** | 1.14.2 | Cadw |
| **2.14** | 1.15, 1.15.1, 1.15.2 | Diwygio |
| **2.15** | 1.16 | Diwygio |
| **2.16** | - | Dileu |
| **2.17** | 1.2 | Cadw |
| **2.17.1** | 1.2.3 | Cadw |
| **2.17.2** | 1.2.2 | Cadw |
| **-** | 1.1 | Newydd |
| **-** | 1.2.1 | Newydd |
| **-** | 1.3 | Newydd |
| **-** | 1.3.1 | Newydd |
| **-** | 1.3.2 | Newydd |
| **-** | 1.3.3 | Newydd |
| **-** | 1.17 | Newydd |
| **-** | 1.18 | Newydd |
| **-** | 1.19 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 2** | | |
| **2.18** | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| **2.19** | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| **2.20** | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| **2.21** | 2.2, 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| **2.22** | 2.5 | Cadw |
| **2.23** | 2.2, 3.4.3, 3.14.5 | Disodli |
| **2.23.1** | 3.4.3, 3.14.4, 3.14.5 | Disodli |
| **2.23.2** | 2.2, 3.4.3, 3.14.4, 3.14.5 | Disodli |
| **2.24** | 2.2, 4.48.2, 4.68.4, 4.68.5.1, 4.68.5.2, 4.68.5.3, 4.68.5.4 | Disodli |

| **Y Drwydded Bresennol** | **Trwydded Newydd** | **Statws** |
|---|---|---|
| **2.25** | 3.8.3, 3.14.6.1 | Disodli |
| **2.26** | 3.8.3, 3.14.6.1 | Disodli |
| **2.27** | 3.8, 3.14.6 | Disodli |
| **2.27.1** | 3.8.3, 3.14.6.2 | Disodli |
| **2.27.2** | 3.8.3, 3.14.6.1 | Disodli |
| **2.27.3** | 3.8.3, 3.14.6.4 | Disodli |
| **2.28** | 3.11 | Cadw |
| **2.28.1** | 3.11.1 | Cadw |
| **2.28.2** | 3.8.3, 3.11.1, 3.14.6.5 | Disodli |
| **2.28.3** | 3.11.2, 3.14.6.6 | Disodli |
| **2.28.4** | 2.2, 3.8.3, 3.14.6.3 | Disodli |
| **2.29** | 2.2, 3.8.3, 3.14.6 | Disodli |
| **2.29.1** | 2.2, 3.8.3, 3.14.6.1 | Disodli |
| **2.29.2** | 2.2, 3.8.3, 3.14.6.4 | Disodli |
| **2.30** | 2.2, 3.8.3, 3.14.6.1 | Disodli |
| **2.31** | 2.4 | Cadw |
| **-** | 2.1 | Newydd |
| **-** | 2.2 | Newydd |
| **-** | 2.3 | Newydd |
| **-** | 2.6 | Newydd |
| **-** | 2.7 | Newydd |
| **-** | 2.8 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 3** | | |
| **2.32** | 3.7 | Cadw (diwygio ar gyfer BBC Four) |
| **2.32.1** | 3.7.1 | Cadw |
| **2.32.2** | 3.7.2 | Cadw |
| **2.32A** | 3,7 | Cadw |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.32A.1** | 3,7 | Cadw |
| **2.32A.2** | 3,7 | Cadw |
| **2.33** | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| **2.34** | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| **2.34A** | 3.5, 3.14.3 | Disodli |
| **2.35** | 3.5, 3.14.3, 3.14.5 | Disodli |
| **2.35A** | 3.5, 3.14.3, 3.14.5 | Disodli |
| **2.36** | 3.5, 3.14.3, 3.14.5 | Disodli |
| **2.36A** | 3.5, 3.14.3, 3.14.5 | Disodli |
| **2.37** | 3.6, 5.1 | Cadw |
| **2.37.1** | 5.1 | Cadw |
| **2.37.2** | 3.6.1 | Cadw |
| **2.37A** | 3.6, 5.1 | Cadw |
| **2.37A.1** | 5,1 | Cadw |
| **2.37A.2** | 3.6, 3.6.1, 3.6.2 | Cadw |
| **2.38** | 3.4.3, 3.14.4 | Disodli |
| **2.39** | 3.9 | Cadw |
| **2.39.1** | 3.9.1 | Cadw |
| **2.39.2** | 3.9.2 | Cadw |
| **2.39.3** | 3.9.3, 3.16.3 | Diwygio |
| **2.39.4** | 3.9.4 | Cadw |
| **2.39.5** | 3.9.5 | Cadw |
| **2.39.6** | 3.9.6, 3.14.6.7 | Disodli |
| **2.40** | 3.10 | Cadw |
| **2.40.1** | 3.10.1 | Cadw |
| **2.40.2** | 3.10.2 | Cadw |
| **2.40.3** | 3.10.3 | Diwygio |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.40.4** | 3.10.4, 3.16.3 | Cadw |
| **2.40.5** | 3.10.5 | Cadw |
| **2.41** | 3.12, 3.16.2 | Cadw |
| **-** | 3.1 | Newydd |
| **-** | 3.2 | Newydd |
| **-** | 3.2.1 | Newydd |
| **-** | 3.2.2 | Newydd |
| **-** | 3.2.3 | Newydd |
| **-** | 3.2.4 | Newydd |
| **-** | 3.3 | Newydd |
| **-** | 3.4 | Newydd |
| **-** | 3.4.1 | Newydd |
| **-** | 3.4.2 | Newydd |
| **-** | 3.4.4 | Newydd |
| **-** | 3.8 | Newydd |
| **-** | 3.8.1 | Newydd |
| **-** | 3.8.2 | Newydd |
| **-** | 3.8.4 | Newydd |
| **-** | 3.13 | Newydd |
| **-** | 3.14 | Newydd |
| **-** | 3.14.1 | Newydd |
| **-** | 3.14.2 | Newydd |
| **-** | 3.15 | Newydd |
| **-** | 3.16 | Newydd |
| **Diben Cyhoeddus 4** | | |
| **2.42** | 4.2 | Diwygio |
| **2.42.1** | 4.2.1 | Diwygio |

| **Y Drwydded Bresennol** | **Trwydded Newydd** | **Statws** |
|---|---|---|
| **2.42.2** | 4.2.2 | Diwygio |
| **2.42.3** | 4.2.3 | Diwygio |
| **2.42.4** | 4.2.4 | Diwygio |
| **2.42.5** | 4.2.5 | Diwygio |
| **2.43** | 4.3 | Diwygio |
| **2.44** | 4.4 | Diwygio |
| **2.44.1** | 4.4.1 | Diwygio |
| **2.44.2** | 4.4.2 | Diwygio |
| **2.44.3** | 4.4.3 | Diwygio |
| **2.45** | 4.5, 4.6 | Diwygio |
| **2.45.1** | 4.5 | Diwygio |
| **2.45.2** | 4.6 | Diwygio |
| **2.46** | 4.7 | Cadw |
| **2.47** | 4.8 | Cadw |
| **2.47.1** | 4.8.1 | Cadw |
| **2.47.2** | 4.8.2 | Cadw |
| **2.47.3** | 4.8.3 | Cadw |
| **2.48** | 4.9 | Cadw |
| **2.49** | 4.11 | Cadw |
| **2.49.1** | 4.11.1 | Cadw |
| **2.49.2** | 4.11.2 | Cadw |
| **2.50** | 4.12 | Cadw |
| **2.50.1** | 4.12.1 | Cadw |
| **2.50.2** | 4.12.2 | Diwygio |
| **2.50.3** | 4.12.3 | Diwygio |
| **2.50.4** | 4.12.4 | Cadw |
| **2.51** | 4.13 | Cadw |
| **2.52** | 4.14 | Diwygio |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.52A** | 4,25 | Cadw |
| **2.53** | 4.15 | Cadw |
| **2.53.1** | 4.15.1 | Cadw |
| **2.53.1 (gwall rhifo, dylai fod yn 2.53.2)** | 4.15.2 | Cadw |
| **2.53.2 (gwall rhifo, dylai fod yn 2.53.3)** | 4.15.3 | Cadw |
| **2.54** | 4.16 | Cadw |
| **2.54.1** | 4.16.1 | Cadw |
| **2.54.2** | - | Dileu |
| **2.54.3** | 4.16.2 | Cadw |
| **2.55** | 4.17 | Cadw |
| **2.56** | 4.18 | Cadw |
| **2.56.1** | 4.18.1 | Cadw |
| **2.56.2** | 4.18.2 | Cadw |
| **2.57** | 4.19 | Cadw |
| **2.58** | 4.20 | Cadw |
| **2.58.1** | - | Dileu |
| **2.58.2** | 4.20.1 | Cadw |
| **2.58.3** | 4.20.2 | Cadw |
| **2.59** | 4.21 | Cadw |
| **2.60** | 4.22 | Cadw |
| **2.60.1** | - | Dileu |
| **2.60.2** | 4.22.1 | Cadw |
| **2.60.3** | 4.22.2 | Cadw |
| **2.61** | 4.23 | Cadw |
| **2.62** | 4.24 | Cadw |
| **2.63** | 4.27 | Cadw |
| **2.64** | 4.28 | Diwygio |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.65** | 4.29 | Cadw |
| **2.65.1** | 4.29.1 | Cadw |
| **2.65.2** | 4.29.2 | Cadw |
| **2.65.3** | 4.29.3 | Cadw |
| **2.65.4** | 4.29.4 | Cadw |
| **2.65.5** | 4.29.5 | Cadw |
| **2.66** | 4.30 | Cadw |
| **2.67** | 4.31 | Cadw |
| **2.67.1** | - | Dileu |
| **2.67.2** | 4.31.1 | Diwygio |
| **2.67.3** | 4.31.2 | Cadw |
| **2.67.4** | 4.31.3 | Cadw |
| **2.67.5** | - | Dileu |
| **2.67.6** | 4.31.4 | Diwygio |
| **2.67.7** | - | Dileu |
| **2.67.8** | 4.31.5 | Diwygio |
| **2.68** | 4.32 | Diwygio |
| **2.69** | 4.33 | Cadw |
| **2.70** | 4.34 | Cadw |
| **2.71** | 4.35 | Cadw |
| **2.71.1** | 4.35.1 | Cadw |
| **2.71.2** | 4.35.2 | Cadw |
| **2.72** | 4.36 | Cadw |
| **2.72.1** | 4.40.1 (oriau craidd); 4.40.2 (oriau brig amser brecwast) | Cadw amod oriau craidd; diwygio amod oriau brig amser brecwast |
| **2.72.2** | 4.36.1 | Cadw |
| **2.72.3** | 4.36.2 | Cadw |
| **2.72.4** | 4.36.3 | Cadw |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.72.5** | 4.36.4 | Cadw |
| **2.72.6** | 4.36.5, 4.36.6 | Cadw |
| **2.73** | 5.1 | Cadw |
| **2.74** | 4.40 | Cadw |
| **2.74.1** | 4.40.3 | Cadw |
| **2.74.2** | 4.40.5 | Cadw |
| **2.75** | 4.40.6 | Diwygio |
| **2.76** | 4.41 | Diwygio |
| **2.77** | 4.38 | Cadw |
| **2.77.1** | 4.38.1 | Cadw |
| **2.77.2** | 4.38.2 | Cadw |
| **2.78** | 4.46 | Cadw |
| **2.78.1** | 4.46.1 | Cadw |
| **2.78.2** | 4.46.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| **2.79** | 4.42 | Cadw |
| **2.80** | 4.47 | Cadw |
| **2.80.1** | 4.42 | Cadw |
| **2.80.2** | 4.42 | Cadw |
| **2.80.3** | 4.47.1 | Cadw |
| **2.80.4** | - | Dileu |
| **2.80.5** | 4.47.2 | Cadw |
| **2.81** | 4.48, 4.48.1 | Cadw |
| **2.82** | 4.49 | Cadw |
| **2.82.1** | 4.49.1, 4.49.2 | Diwygio |
| **2.82.2** | 4.49.3 | Cadw |
| **2.82.3** | 4.42, 4.43 | Cadw |
| **2.83** | 4.50, 4.42.4.43 | Cadw |
| **2.83.1** | 4.50 | Cadw |

| **Y Drwydded Bresennol** | **Trwydded Newydd** | **Statws** |
|---|---|---|
| **2.83.2** | 4.42, 4.43 | Cadw |
| **2.84** | 4.44 | Cadw |
| **2.84.1** | 4.44.1 | Cadw |
| **2.84.2** | 4.44.3 | Cadw |
| **2.84.3** | 4.44.2 | Cadw |
| **2.85** | 4.55 | Cadw |
| **2.85.1** | 4.55.1 | Cadw |
| **2.85.2** | 4.55.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| **2.86** | 4.51 | Cadw |
| **2.87** | 4.56, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| **2.88** | 4.57 | Cadw |
| **2.88.1** | 4.57.1, 4.57.2 | Diwygio |
| **2.88.2** | 4.51, 4.52 | Cadw |
| **2.89** | 4.58 | Cadw |
| **2.89.1** | 4.58.1, 4.58.2 | Diwygio |
| **2.89.2** | 4.51, 4.52 | Diwygio |
| **2.90** | 4.53 | Cadw |
| **2.90.1** | 4.53.1 | Cadw |
| **2.90.2** | 4.53.3 | Cadw |
| **2.90.3** | 4.53.2 | Cadw |
| **2.91** | 4.63 | Cadw |
| **2.91.1** | 4.63.1 | Cadw |
| **2.91.2** | 4.63.2, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| **2.92** | 4.59 | Cadw |
| **2.93** | 4.64, 4.68.3.1, 4.68.3.2 | Disodli |
| **2.94** | 4.65, 4.68.6 | Diwygio |
| **2.95** | 4.66 | Cadw |
| **2.95.1** | 4.66.1, 4.66.3 | Diwygio |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **2.95.2** | 4.66.2, 4.66.3 | Diwygio |
| **2.95.3** | 4.59, 4.60 | Cadw |
| **2.95.4** | 4.66.4 | Cadw |
| **2.96** | 4.61 | Cadw |
| **2.96.1** | 4.61.1 | Cadw |
| **2.96.2** | 4.61.3 | Cadw |
| **2.96.3** | 4.61.2 | Cadw |
| **2.97** | - | Dileu |
| **-** | 4.1 | Newydd |
| **-** | 4.8.4 | Newydd |
| **-** | 4.8.5 | Newydd |
| **-** | 4.10 | Newydd |
| **-** | 4.37 | Newydd |
| **-** | 4.39 | Newydd |
| **-** | 4.40.4 | Newydd |
| **-** | 4.42 | Newydd |
| **-** | 4.43 | Newydd |
| **-** | 4.45 | Newydd |
| **-** | 4.47.3 | Newydd |
| **-** | 4.51 | Newydd |
| **-** | 4.52 | Newydd |
| **-** | 4.54 | Newydd |
| **-** | 4.59 | Newydd |
| **-** | 4.60 | Newydd |
| **-** | 4.62 | Newydd |
| **-** | 4.67 | Newydd |
| **-** | 4.68 | Newydd |
| **-** | 4.68.1 | Newydd |

| Y Drwydded Bresennol | Trwydded Newydd | Statws |
|---|---|---|
| **-** | 4.68.2 | Newydd |
| **-** | 4.68.3 | Newydd |
| **-** | 4.68.3.1 | Newydd |
| **-** | 4.68.3.2 | Newydd |
| **-** | 4.68.4 | Newydd |
| **-** | 4.68.5 | Newydd |
| **-** | 4.68.5.1 | Newydd |
| **-** | 4.68.5.2 | Newydd |
| **-** | 4.68.6 | Newydd |
| **-** | 4.68.6.1 | Newydd |
| **-** | 4.68.6.2 | Newydd |
| **-** | 4.68.3 | Newydd |
| **-** | 4.69 | Newydd |
| **-** | 4.70 | Newydd |
| **Diffiniadau a dehongliadau** | | |
| **3.1** | 5.1 | Diwygio |
| **3.2** | 5.4 | Cadw |
| **3.3** | - | Dileu |
| **3.4** | 5.5 | Cadw |
| **3.5** | 5.6 | Cadw |
| **3.6** | 5.7 | Cadw |
| **3.7** | 4.26, 4.26.1 | Diwygio |
| **3.8** | 4.26, 4.26.2 | Diwygio |
| **-** | 5.2 | Newydd |
| **-** | 5.3 | Newydd |

# A4. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr

Mae'r Drwydded Weithredu yn nodi'r amodau y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da. Er bod llawer o'r amodau rydym wedi'u gosod yn y Drwydded Weithredu yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU, gan gynnwys Lloegr, mae rhai gofynion sydd hefyd yn benodol i weithgareddau'r BBC yn Lloegr, a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i gynulleidfaoedd yn Lloegr.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ofynion y Drwydded Weithredu sy'n berthnasol i'r BBC yn Lloegr yn benodol. Nid yw'n canolbwyntio ar y gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU. Yn arbennig, nid yw'n nodi'n benodol yr amodau sydd wedi'u grwpio o dan Ddibenion Cyhoeddus 1, 2 a 3 yn y Drwydded. Fodd bynnag, mae gofynion y Drwydded Weithredu rydym wedi'u gosod i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus hyn hefyd o fudd i gynulleidfaoedd yn Lloegr. Yn wir, mae'n rhaid i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys yn Lloegr, drwy ddarparu newyddion a gwybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, drwy eu helpu i ddysgu (gan gynnwys darparu cynnwys addysgol sy'n helpu addysg ffurfiol) a thrwy ddangos allbwn a gwasanaethau creadigol, unigryw o ansawdd uchel.

Paratowyd yr atodiad hwn er hwylustod yn unig; nid yw felly'n ailddatgan holl amodau perthnasol y Drwydded ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Mewn perthynas â phob amod penodol, dylai darllenwyr droi at y rhan berthnasol o'r Drwydded Weithredu a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023.

## Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

A4.1 Dan Ddiben Cyhoeddus 4, dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Er mwyn sicrhau fod y Diben Cyhoeddus hwn yn cael ei hyrwyddo, mae'r Drwydded yn gosod gofynion tryloywder i'r BBC egluro sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'r DU i gyd, mesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfa sy'n llai bodlon â chynrychiolaeth a phortread y BBC, a'r camau y bydd yn eu cymryd i wella eu bodlonrwydd. Rhaid i'r BBC hefyd adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei dargedau cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal ag amrywiaeth ei weithlu. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Lle bo'n berthnasol, mae'r BBC yn darparu data fesul gwlad.

## Creu rhaglenni yn Lloegr

### Teledu a ddarlledir

A4.2 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25). I grynhoi, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 30% o'r oriau o Raglenni Rhwydwaith[616] sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i ardal yr M25); a

b) bod o leiaf 30% o wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25).

A4.3 Ar ben hynny, mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu y tu allan i Ardal yr M25 yn y DU. Byddai Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) yn cyfrif tuag at yr amodau hyn. I grynhoi, mae'r amodau'n nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 50% o'r oriau o Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25;

b) bod rhaglenni o'r fath yn ystod addas o raglenni; a

c) bod o leiaf 50%[617] o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25.

## Darlledu ar y Radio a BBC Sounds

A4.4 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni radio yn Lloegr y tu allan i Ardal yr M25. Yn fyr, mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

a) rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 30%[618] o'r gwariant perthnasol ym mhob Blwyddyn Ariannol mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU[619] a BBC Sounds gyda'i gilydd, yn digwydd y tu allan i Ardal yr M25.

b) rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live.

c) mewn perthynas â BBC Radio 3, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 28% o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol.

---

[616] Diffiniad y Drwydded Weithredu o "Raglenni Rhwydwaith" yw rhaglenni sydd wedi'u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth sy'n berthnasol i un o'r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr.

[617] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 60% o'i wariant ar raglenni teledu perthnasol sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

[618] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 50% o'i wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth (i'w hystyried gyda'i gilydd) yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

[619] BBC Radio 1; BBC 1Xtra; BBC Radio 2; BBC Radio 3; BBC Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

# Rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr

## Teledu ac ar-lein

A4.5 Mae’r Drwydded yn mynnu bod y BBC, mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC a’r amrywiadau ar BBC One ar gyfer rhanbarthau Lloegr, yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy’n berthnasol i gynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr.

## Teledu a ddarledir

### Pob rhaglen o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol[620] ar BBC One a BBC Two

A4.6 Mae’r Drwydded yn cynnwys rhwymedigaethau penodol i’r BBC ddangos rhaglenni o ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol. Mae rhai o’r gofynion hynny’n berthnasol i’r holl raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol gyda’i gilydd, ar draws holl wasanaethau optio allan BBC One a BBC Two. Byddai rhaglenni sy’n cael eu darlledu ar amrywiadau BBC One ar gyfer rhanbarthau Lloegr yn cyfrif tuag at y cwota hwn.

A4.7 Yn benodol, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

b) bod yn rhaid i’r rhaglenni hynny gynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

c) bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni sydd wedi’u gwneud mewn gwlad neu ranbarth lle bydd y rhaglenni hynny o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

d) bod o leiaf 200 awr o’r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

e) bod o leiaf 150 awr o’r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy’n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig; a

f) bod o leiaf 3,900 awr o newyddion o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol i’w darlledu’n achlysurol drwy gydol y dydd ar BBC One, ac mae’n rhaid i o leiaf 1,700 awr o hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

## Darlledu ar y radio

A4.8 Mae’r Drwydded yn cynnwys darpariaethau penodol i ddiogelu cynnwys penodol ar orsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr. Ar bob gorsaf Radio Lleol y BBC, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

[620] Mae rhaglen o “Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol” os yw’r canlynol yn berthnasol: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy’n byw yn unrhyw un o’r gwledydd neu’r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi’i chynnwys yn yr amrywiad i’r gwasanaeth sy’n ymwneud â’r wlad neu’r rhanbarth hwnnw.

a) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 60% o'r cynnwys ar gyfartaledd yn ystod Oriau Craidd yn gynnwys llafar;

b) ym mhob Blwyddyn Ariannol bod 100% o'r cynnwys yn ystod Oriau Brig Amser Brecwast yn gynnwys llafar;

c) bod bwletinau newyddion a gwybodaeth benodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn cael eu darparu yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd;

d) bod nifer sylweddol o newyddion a gwybodaeth benodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn cael eu darparu yn ystod Oriau Brig Amser Brecwast;

e) bod cynnwys arall penodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn cael ei ddarparu; a

f) bod o leiaf 4,954 awr yn cael eu neilltuo ym mhob Blwyddyn Ariannol, ar bob un o orsafoedd Radio Lleol y BBC, i raglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol,[621] ac eithrio mewn perthynas â BBC Radio Guernsey a BBC Radio Jersey sy'n gorfod darparu o leiaf 4,171 awr yr un, a BBC Radio Somerset sy'n gorfod darparu 3,650 awr.

### Ar-lein

A4.9 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC yn benodol. Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

a) newyddion a gwybodaeth ar gyfer rhanbarthau Lloegr; a

b) darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer rhanbarthau Lloegr.

A4.10 Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr.

## Tryloywder

A4.11 Mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth gyda'i Gynllun Blynyddol yn ymwneud â'r cynnwys mae'n ei ddarparu sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr, ac yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

a) Ei gynlluniau mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds a Gwefan y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

b) Yr oriau o newyddion y mae'n bwriadu eu darparu fel rhan o'r holl amrywiadau ar BBC One ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd.

[621] Mae "rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu rhannu gyda gorsafoedd cyfagos ac yn cael eu darlledu rhwng 06:00 a 19:00.

c) Ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion fel rhan o'r holl amrywiadau ar BBC One ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd, ac ar wahân ar gyfer BBC iPlayer, gan gynnwys:

   i) oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

   ii) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes;

   iii) oriau arfaethedig o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

   iv) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu Dangos am y Tro Cyntaf; a

   v) rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

d) Oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

A4.12 Os bydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth bresennol yn y flwyddyn i ddod, mae angen i'r BBC nodi hynny yn ei Gynllun Blynyddol, ac egluro'r rhesymau dros y newidiadau hynny hefyd. Mae hefyd angen iddo gyhoeddi newidiadau sylweddol os bwriedir gwneud hynny ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, a'i fod yn bwriadu cyflwyno newidiadau o'r fath cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

A4.13 Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn nodi yn ei Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo yn ei Gynllun Blynyddol.

# A5. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban

Mae'r Drwydded Weithredu yn nodi'r amodau y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da. Er bod llawer o'r amodau rydym wedi'u gosod yn y Drwydded Weithredu yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU, gan gynnwys yr Alban, mae rhai gofynion sydd hefyd yn benodol i weithgareddau'r BBC yn yr Alban, a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ofynion y Drwydded Weithredu sy'n berthnasol i'r BBC yn yr Alban yn benodol. Nid yw'n canolbwyntio ar y gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU. Yn arbennig, nid yw'n nodi'n benodol yr amodau sydd wedi'u grwpio o dan Ddibenion Cyhoeddus 1, 2 a 3 yn y Drwydded. Fodd bynnag, mae gofynion y Drwydded Weithredu rydym wedi'u gosod i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus hyn hefyd o fudd i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Yn wir, mae'n rhaid i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys yn yr Alban, drwy ddarparu newyddion a gwybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, drwy eu helpu i ddysgu (gan gynnwys darparu cynnwys addysgol sy'n helpu addysg ffurfiol) a thrwy ddangos allbwn a gwasanaethau creadigol, unigryw o ansawdd uchel.

Paratowyd yr atodiad hwn er hwylustod yn unig; nid yw felly'n ailddatgan holl amodau perthnasol y Drwydded ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Mewn perthynas â phob amod penodol, dylai darllenwyr droi at y rhan berthnasol o'r Drwydded Weithredu a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023.

## Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

A5.1 Dan Ddiben Cyhoeddus 4, dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Er mwyn sicrhau fod y Diben Cyhoeddus hwn yn cael ei ddarparu, mae'r Drwydded yn gosod gofynion tryloywder i'r BBC egluro sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'r DU i gyd, mesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfa sy'n llai bodlon â chynrychiolaeth a phortread y BBC, a'r camau y bydd yn eu cymryd i wella eu bodlonrwydd. Rhaid i'r BBC hefyd adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei dargedau cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal ag amrywiaeth ei weithlu. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Lle bo'n berthnasol, mae'r BBC yn darparu data ar sail gwlad wrth wlad.

## Cynhyrchu rhaglenni yn yr Alban

### Teledu a ddarlledir

A5.2 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu yn yr Alban. I grynhoi, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 8% o'r oriau o Raglenni Rhwydwaith[622] sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud yn yr Alban; a

b) bod o leiaf 8% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban.

A5.3 Ar ben hynny, mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu y tu allan i Ardal yr M25 yn y DU. Byddai Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn yr Alban yn cyfrif tuag at y cwota hwn. I grynhoi, mae'r amodau'n nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) Bod o leiaf 50% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25.

b) Bod rhaglenni o'r fath yn ystod addas o raglenni.

c) Bod o leiaf 50%[623] o wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25.

## Darlledu ar y radio a BBC Sounds

A5.4 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni radio y tu allan i Ardal yr M25. Byddai rhaglenni radio sy'n cael eu gwneud yn yr Alban yn cyfrif tuag at yr amodau hyn. Yn fyr, mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

a) Rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 30%[624] o'r gwariant perthnasol ym mhob Blwyddyn Ariannol mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU[625] a BBC Sounds gyda'i gilydd, yn digwydd y tu allan i Ardal yr M25.

b) Rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live.

c) Mewn perthynas â BBC Radio 3, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 28% o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol.

---

622 Diffiniad y Drwydded Weithredu o "Raglenni Rhwydwaith" yw rhaglenni sydd wedi'u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth sy'n berthnasol i un o'r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr.

623 Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 60% o'i wariant ar raglenni teledu perthnasol sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

624 Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 50% o'i wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth (i'w hystyried gyda'i gilydd) yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

625 BBC Radio 1; BBC 1Xtra; BBC Radio 2; BBC Radio 3; BBC Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

# Rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban

## Teledu, radio ac ar-lein

A5.5 Mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban ar draws BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Scotland, BBC Scotland, BBC ALBA, BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gàidheal, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban.

A5.6 Mewn perthynas â BBC Sounds, BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gàidheal, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cerddoriaeth sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban yn benodol.

## Teledu a ddarlledir

### Pob rhaglen o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol[626] ar BBC One a BBC Two

A5.7 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhwymedigaethau penodol i'r BBC ddangos rhaglenni o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol. Mae rhai o'r gofynion hynny'n berthnasol i'r holl raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol gyda'i gilydd, ar draws holl wasanaethau optio allan BBC One a BBC Two. Byddai rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar BBC One Scotland (ond nid BBC Scotland) yn cyfrif tuag at y cwota hwn.

A5.8 Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

b) bod yn rhaid i'r rhaglenni hynny gynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

c) bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth lle bydd y rhaglenni hynny o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

d) bod o leiaf 200 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

e) bod o leiaf 150 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig; a

f) o leiaf 3,900 awr o newyddion o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol i'w darlledu'n achlysurol drwy gydol y dydd ar BBC One, ac mae'n rhaid i o leiaf 1,700 awr o hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

### Rhaglenni ar BBC One Scotland, BBC Scotland a BBC ALBA

[626]Mae rhaglen o "Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol" os yw'r canlynol yn berthnasol: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n byw yn unrhyw un o'r gwledydd neu'r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi'i chynnwys yn yr amrywiad i'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r wlad neu'r rhanbarth hwnnw.

A5.9 Mae gofynion ychwanegol i ddangos rhaglenni ar BBC One Scotland, BBC Scotland a BBC ALBA. Mae’r rhain fel a ganlyn:

a) Mewn perthynas â BBC One Scotland, mae’n rhaid i’r BBC neilltuo o leiaf 290 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes; a darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf.

b) Mewn perthynas â BBC Scotland, mae’n rhaid i’r BBC neilltuo o leiaf 250 awr o raglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig; a darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf.

c) Mewn perthynas â BBC ALBA, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnwys rhaglenni newyddion byw gyda’r nos o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys yn ystod yr Oriau Gwylio Brig, yn ogystal ag adolygiad estynedig o’r newyddion ar benwythnosau; a’i fod yn darparu rhaglenni sydd wedi’u hanelu at y rhai sy’n dysgu Gaeleg.

A5.10 Mewn perthynas â BBC Scotland, rhaid i’r BBC hefyd sicrhau bod o leiaf 90% o’r Rhaglenni Gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf ym mhob Blwyddyn Galendr yn cael eu gwneud yn yr Alban.

### Rhaglenni ar BBC Parliament

A5.11 Mae’r Drwydded yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer darlledu rhai sesiynau seneddol. Rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr o raglenni ar BBC Parliament ym mhob Blwyddyn Ariannol yn cael eu neilltuo ar gyfer sesiynau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru.

## Darlledu ar y radio

A5.12 Mae’r Drwydded yn cynnwys darpariaethau penodol i ddiogelu cynnwys penodol ar BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gàidheal. Mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) Mewn perthynas â BBC Radio Scotland:

i) ar gyfartaledd mae o leiaf 60% o’r cynnwys yn yr Oriau Craidd yn gynnwys llafar, ac mae 100% o’r cynnwys yn gynnwys llafar ac yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast;

ii) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 2,607 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau);

iii) mae'r BBC yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd; ac

iv) mae’n darparu nifer o wasanaethau ‘optio allan’ rhanbarthol o ddydd Llun i ddydd Gwener, sy’n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, yn ogystal â rhywfaint o raglenni optio allan cymunedol rhanbarthol gyda'r nos;

b) Mewn perthynas â BBC Radio nan Gaidheal:

i) ar gyfartaledd mae o leiaf 40% o’r cynnwys yn yr Oriau Craidd yn gynnwys llafar, ac mae 100% o’r cynnwys yn gynnwys llafar ac yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast;

ii) mae'r BBC yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml yn ystod y dydd, yn enwedig rhwng 07:30 a 08:30, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 09:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

### Ar-lein

A5.13 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC yn benodol. Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

a) newyddion a gwybodaeth ar gyfer yr Alban;

b) darpariaeth chwaraeon benodol ar gyfer yr Alban; a

c) chynnwys Gaeleg.

A5.14 Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban.

## Tryloywder

A5.15 Mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth gyda'i Gynllun Blynyddol yn ymwneud â'r cynnwys mae'n ei ddarparu sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn yr Alban, ac yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

a) Ei gynlluniau ar gyfer BBC iPlayer, BBC Sounds a Gwefan y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac sy'n berthnasol iddynt.

b) Ar gyfer BBC Scotland, BBC One Scotland a BBC iPlayer, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys:

i) oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

ii) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes;

iii) oriau arfaethedig o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

iv) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu Dangos am y Tro Cyntaf; a

v) rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

c) Oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

d) Ar gyfer BBC ALBA a BBC iPlayer, ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni Gaeleg a rhaglenni sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n dysgu Gaeleg. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

i) oriau arfaethedig o raglenni sydd wedi'u hanelu at y rheini sy'n dysgu Gaeleg;

ii) oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf ac sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n dysgu Gaeleg;

iii) oriau arfaethedig o raglenni Gaeleg; ac

iv) oriau arfaethedig o raglenni Gaeleg Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

A5.16 Os bydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth bresennol yn y flwyddyn i ddod, mae angen i'r BBC nodi hynny yn ei Gynllun Blynyddol, ac egluro'r rhesymau dros y newidiadau hynny hefyd. Mae hefyd angen iddo gyhoeddi newidiadau sylweddol os bwriedir gwneud hynny ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, a'i fod yn bwriadu cyflwyno newidiadau o'r fath cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

A5.17 Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn nodi yn ei Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo yn ei Gynllun Blynyddol.

# A6. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru

Mae'r Drwydded Weithredu yn nodi'r amodau y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da. Er bod llawer o'r amodau rydym wedi'u gosod yn y Drwydded Weithredu yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU, gan gynnwys Cymru, mae rhai gofynion sydd hefyd yn benodol i weithgareddau'r BBC yng Nghymru, a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ofynion y Drwydded Weithredu sy'n berthnasol i'r BBC yng Nghymru yn benodol. Nid yw'n canolbwyntio ar y gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU. Yn arbennig, nid yw'n nodi'n benodol yr amodau sydd wedi'u grwpio o dan Ddibenion Cyhoeddus 1, 2 a 3 yn y Drwydded. Fodd bynnag, mae gofynion y Drwydded Weithredu rydym wedi'u gosod i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus hyn hefyd o fudd i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Yn wir, mae'n rhaid i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru, drwy ddarparu newyddion a gwybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, drwy eu helpu i ddysgu (gan gynnwys darparu cynnwys addysgol sy'n helpu addysg ffurfiol) a thrwy ddangos allbwn a gwasanaethau creadigol, unigryw o ansawdd uchel.

Paratowyd yr atodiad hwn er hwylustod yn unig; nid yw felly'n ailddatgan holl amodau perthnasol y Drwydded ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Mewn perthynas â phob amod penodol, dylai darllenwyr droi at y rhan berthnasol o'r Drwydded Weithredu a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023.

## Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

A6.1 Dan Ddiben Cyhoeddus 4, dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Er mwyn sicrhau fod y Diben Cyhoeddus hwn yn cael ei hyrwyddo, mae'r Drwydded yn gosod gofynion tryloywder i'r BBC egluro sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'r DU i gyd, mesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfa sy'n llai bodlon â chynrychiolaeth a phortread y BBC, a'r camau y bydd yn eu cymryd i wella eu bodlonrwydd. Rhaid i'r BBC hefyd adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei dargedau cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal ag amrywiaeth ei weithlu. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Lle bo'n berthnasol, mae'r BBC yn darparu data fesul gwlad.

## Cynhyrchu rhaglenni yng Nghymru

### Teledu a ddarlledir

A6.2 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu yng Nghymru. I grynhoi, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 5% o'r oriau o Raglenni Rhwydwaith[627] sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud yng Nghymru; a

b) bod o leiaf 5% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.

A6.3 Ar ben hynny, mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu y tu allan i Ardal yr M25 yn y DU. Byddai Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yng Nghymru yn cyfrif tuag at y cwota hwn. I grynhoi, mae'r amodau'n nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) Bod o leiaf 50% o oriau'r rhaglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25.

b) Bod rhaglenni o'r fath yn ystod addas o raglenni.

c) Bod o leiaf 50%[628] o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25.

## Darlledu ar y radio a BBC Sounds

A6.4 Mae'r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni radio y tu allan i Ardal yr M25. Byddai rhaglenni radio sy'n cael eu gwneud yng Nghymru yn cyfrif tuag at y cwota hwn. Yn fyr, mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

a) mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU[629] a BBC Sounds gyda'i gilydd, rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 30%[630] o'r gwariant perthnasol yn digwydd y tu allan i Ardal yr M25 ym mhob Blwyddyn Ariannol.

b) rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live.

c) mewn perthynas â BBC Radio 3, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 28% o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol.

---

[627] Diffiniad y Drwydded Weithredu o "Raglenni Rhwydwaith" yw rhaglenni sydd wedi'u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth sy'n berthnasol i un o'r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr.

[628] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 60% o'i wariant ar raglenni teledu perthnasol sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

[629] BBC Radio 1; BBC 1Xtra; BBC Radio 2; BBC Radio 3; BBC Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

[630] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y'i diwygiwyd yn 2022, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 50% o'i wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth (i'w hystyried gyda'i gilydd) yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

# Rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru

## Teledu, radio ac ar-lein

A6.5 Mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Wales, BBC Two Wales, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, mae'r Drwydded yn mynnu bod yn rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.

A6.6 Mewn perthynas â BBC Sounds, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cerddoriaeth sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn benodol.

## Teledu a ddarlledir

### Pob rhaglen o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol[631] ar BBC One a BBC Two

A6.7 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhwymedigaethau penodol i'r BBC ddangos rhaglenni o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol. Mae rhai o'r gofynion hynny'n berthnasol i'r holl raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol gyda'i gilydd, ar draws holl wasanaethau optio allan BBC One a BBC Two. Byddai rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar BBC One Wales a BBC Two Wales yn cyfrif tuag at y cwota hwn.

A6.8 Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

b) bod yn rhaid i'r rhaglenni hynny gynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

c) bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth lle bydd y rhaglenni hynny o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

d) bod o leiaf 200 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

e) bod o leiaf 150 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig; a

f) o leiaf 3,900 awr o newyddion o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol i'w darlledu'n achlysurol drwy gydol y dydd ar BBC One, ac mae'n rhaid i o leiaf 1,700 awr o hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

### Rhaglenni ar BBC One Wales a BBC Two Wales

[631] Mae rhaglen o "Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol" os yw'r canlynol yn berthnasol: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n byw yn unrhyw un o'r gwledydd neu'r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi'i chynnwys yn yr amrywiad i'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r wlad neu'r rhanbarth hwnnw.

A6.9 Mae gofynion ychwanegol i ddangos rhaglenni ar BBC One Wales a BBC Two Wales. Mae'r rhain fel a ganlyn:

a) Mewn perthynas â BBC One Wales, mae'n rhaid i'r BBC neilltuo o leiaf 275 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes; a darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

b) Mewn perthynas â BBC Two Wales, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

### Rhaglenni ar BBC Parliament

A6.10 Mae'r Drwydded yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer darlledu rhai sesiynau seneddol. Rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr o raglenni ar BBC Parliament ym mhob Blwyddyn Ariannol yn cael eu neilltuo ar gyfer sesiynau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru.

## Darlledu ar y radio

A6.11 Mae'r Drwydded yn cynnwys darpariaethau penodol i ddiogelu cynnwys penodol ar BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru. Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) Ar BBC Radio Wales:

i) ar gyfartaledd mae o leiaf 60% o'r cynnwys yn yr Oriau Craidd yn gynnwys llafar, ac mae 100% o'r cynnwys yn gynnwys llafar ac yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast;

ii) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,669 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); ac

iii) ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

b) Ar BBC Radio Cymru:

i) ar gyfartaledd mae o leiaf 60% o'r cynnwys yn yr Oriau Craidd yn gynnwys llafar, ac mae 100% o'r cynnwys yn gynnwys llafar ac yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast;

ii) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,199 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); ac

iii) ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

## Ar-lein

A6.12 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC yn benodol. Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

a) newyddion a gwybodaeth ar gyfer Cymru;

b) darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer Cymru; a

c) cynnwys yn y Gymraeg.

A6.13 Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru.

## Tryloywder

A6.14 Mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth gyda'i Gynllun Blynyddol yn ymwneud â'r cynnwys mae'n ei ddarparu sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yng Nghymru, ac yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

a) Ei gynlluniau ar gyfer BBC iPlayer, BBC Sounds a Gwefan y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac sy'n berthnasol iddynt.

b) Ar gyfer BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys:

  i) oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

  ii) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes;

  iii) oriau arfaethedig o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

  iv) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu Dangos am y Tro Cyntaf; a

  v) rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

c) Oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

A6.15 Os bydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth bresennol yn y flwyddyn i ddod, mae angen i'r BBC nodi hynny yn ei Gynllun Blynyddol, ac egluro'r rhesymau dros y newidiadau hynny hefyd. Mae hefyd angen iddo gyhoeddi newidiadau sylweddol os bwriedir gwneud hynny ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, a'i fod yn bwriadu cyflwyno newidiadau o'r fath cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

A6.16 Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn nodi yn ei Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo yn ei Gynllun Blynyddol.

# A7. Cynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r Drwydded Weithredu yn nodi'r amodau y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da. Er bod llawer o'r amodau rydym wedi'u gosod yn y Drwydded Weithredu yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU, gan gynnwys Gogledd Iwerddon, mae rhai gofynion sydd hefyd yn benodol i weithgareddau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, a'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ofynion y Drwydded Weithredu sy'n berthnasol i'r BBC yng Ngogledd Iwerddon yn benodol. Nid yw'n canolbwyntio ar y gofynion sy'n berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU. Yn arbennig, nid yw'n nodi'n benodol yr amodau sydd wedi'u grwpio o dan Ddibenion Cyhoeddus 1, 2 a 3 yn y Drwydded. Fodd bynnag, mae gofynion y Drwydded Weithredu rydym wedi'u gosod i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus hyn hefyd o fudd i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Yn wir, mae'n rhaid i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys yng Ngogledd Iwerddon, drwy ddarparu newyddion a gwybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, drwy eu helpu i ddysgu (gan gynnwys darparu cynnwys addysgol sy'n helpu addysg ffurfiol) a thrwy ddangos allbwn a gwasanaethau creadigol, unigryw o ansawdd uchel.

Paratowyd yr atodiad hwn er hwylustod yn unig; nid yw felly'n ailddatgan holl amodau perthnasol y Drwydded ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Mewn perthynas â phob amod penodol, dylai darllenwyr droi at y rhan berthnasol o'r Drwydded Weithredu a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023.

## Amrywiaeth, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd

A7.1 Dan Ddiben Cyhoeddus 4, dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Er mwyn sicrhau fod y Diben Cyhoeddus hwn yn cael ei hyrwyddo, mae'r Drwydded yn gosod gofynion tryloywder i'r BBC egluro sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'r DU i gyd, mesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfa sy'n llai bodlon â chynrychiolaeth a phortread y BBC, a'r camau y bydd yn eu cymryd i wella eu bodlonrwydd. Rhaid i'r BBC hefyd adrodd bob blwyddyn ar gynnydd tuag at ei dargedau cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal ag amrywiaeth ei weithlu. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Lle bo'n berthnasol, mae'r BBC yn darparu data fesul gwlad.

# Cynhyrchu rhaglenni yng Ngogledd Iwerddon

## Teledu a ddarlledir

A7.2 Mae’r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu yng Ngogledd Iwerddon. I grynhoi, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 3% o’r oriau o Raglenni Rhwydwaith[632] sy’n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon; a

b) bod o leiaf 3% o wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y DU yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon.

A7.3 Ar ben hynny, mae’r Drwydded yn gosod gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni teledu y tu allan i Ardal yr M25 yn y DU. Byddai Rhaglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon yn cyfrif tuag at yr amodau hyn. I grynhoi, mae’r amodau’n nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

a) Bod o leiaf 50% o oriau’r Rhaglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i’r M25.

b) Bod rhaglenni o'r fath yn ystod addas o raglenni.

c) Bod o leiaf 50%[633] o wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y DU i’w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i’r M25.

## Darlledu ar y radio a BBC Sounds

A7.4 Mae’r Drwydded hefyd yn mynnu bod rhai rhaglenni ar gyfer gwasanaethau radio cyhoeddus y DU yn cael eu gwneud y tu allan i’r M25. Byddai unrhyw raglenni a wneir yng Ngogledd Iwerddon yn cyfrif tuag at y cwota hwn:

a) Rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 30%[634] o’r gwariant perthnasol ym mhob Blwyddyn Ariannol mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU[635] a BBC Sounds gyda’i gilydd, yn digwydd y tu allan i Ardal yr M25.

[632] Diffiniad y Drwydded Weithredu o “Raglenni Rhwydwaith” yw rhaglenni sydd wedi’u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi’u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth sy’n berthnasol i un o’r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr.
[633] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y’i diwygiwyd yn 2022, mae’n rhaid i’r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 60% o’i wariant ar raglenni teledu perthnasol sy’n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.
[634] Sylwch, o dan y Cytundeb, fel y’i diwygiwyd yn 2022, mae’n rhaid i’r BBC gyflawni cynlluniau i sicrhau, erbyn 31 Rhagfyr 2027, bod 50% o’i wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth (i’w hystyried gyda’i gilydd) yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.
[635] BBC Radio 1; BBC 1Xtra; BBC Radio 2; BBC Radio 3; BBC 4; BBC Radio 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

b) Rhaid i’r BBC sicrhau bod rhywfaint o’r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live.

c) Mewn perthynas â BBC Radio 3, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 28% o’r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol.

# Rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon

## Teledu, radio ac ar-lein

A7.5 Mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland, BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, mae’r Drwydded yn mynnu bod yn rhaid i’r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy’n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy’n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon.

A7.6 Mewn perthynas â BBC Sounds, BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, mae’n rhaid i’r BBC ddarparu cerddoriaeth sy’n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn benodol.

## Teledu a ddarlledir

### Pob rhaglen o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol[636] ar BBC One a BBC Two

A7.7 Mae’r Drwydded yn cynnwys rhwymedigaethau penodol i’r BBC ddangos rhaglenni o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol. Mae rhai o’r gofynion hynny’n berthnasol i’r holl raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol gyda’i gilydd, ar draws holl wasanaethau optio allan BBC One a BBC Two. Byddai rhaglenni sy’n cael eu darlledu ar BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland yn cyfrif tuag at y cwota hwn.

A7.8 Yn benodol, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

b) bod yn rhaid i’r rhaglenni hynny gynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

c) bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni sydd wedi’u gwneud mewn gwlad neu ranbarth lle bydd y rhaglenni hynny o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

d) bod o leiaf 200 awr o’r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

[636]Mae rhaglen o “Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol” os yw’r canlynol yn berthnasol: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy’n byw yn unrhyw un o’r gwledydd neu’r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi’i chynnwys yn yr amrywiad i’r gwasanaeth sy’n ymwneud â’r wlad neu’r rhanbarth hwnnw.

e) bod o leiaf 150 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig; a

f) o leiaf 3,900 awr o newyddion o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol i'w darlledu'n achlysurol drwy gydol y dydd ar BBC One, ac mae'n rhaid i o leiaf 1,700 awr o hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

### Rhaglenni ar BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland

A7.9 Mae gofynion ychwanegol i ddangos rhaglenni ar BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland. Mae'r rhain fel a ganlyn:

a) Mewn perthynas â BBC One Northern Ireland, mae'n rhaid i'r BBC neilltuo o leiaf 310 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes; a darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

b) Mewn perthynas â BBC Two Northern Ireland, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

A7.10 Rhaid i'r BBC hefyd ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a rhaglenni Scoteg Ulster naill ai ar BBC One Northern Ireland neu BBC Two Northern Ireland, neu'r ddwy sianel.

### Rhaglenni ar BBC Parliament

A7.11 Mae'r Drwydded yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer darlledu rhai sesiynau seneddol. Rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr o raglenni ar BBC Parliament ym mhob Blwyddyn Ariannol yn cael eu neilltuo ar gyfer sesiynau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru.

## Darlledu ar y radio

A7.12 Mae'r Drwydded yn cynnwys darpariaethau penodol i ddiogelu cynnwys penodol ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle. Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

a) ar gyfartaledd mae o leiaf 60% o'r cynnwys yn yr Oriau Craidd yn gynnwys llafar, ac mae 100% o'r cynnwys yn gynnwys llafar ac yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast.

b) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,825 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Ulster;

c) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,043 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle;

d) ei fod yn darparu bwletinau newyddion yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle; ac

e) ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 240 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys allbwn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael).

## Ar-lein

A7.13 Mae'r Drwydded yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC yn benodol. Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

a) newyddion a gwybodaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon;

b) darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer Gogledd Iwerddon; a

c) cynnwys mewn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.

A7.14 Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

# Tryloywder

A7.15 Mae'r Drwydded yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth gyda'i Gynllun Blynyddol yn ymwneud â'r cynnwys mae'n ei ddarparu sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, ac yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

a) Ei gynlluniau ar gyfer BBC iPlayer, BBC Sounds a Gwefan y BBC i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac sy'n berthnasol iddynt.

b) Ar gyfer BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland a BBC iPlayer, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys:

   i) oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

   ii) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes;

   iii) oriau arfaethedig o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

   iv) oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu Dangos am y Tro Cyntaf; a

   v) rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

c) Oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

d) Ar gyfer pob un o'r canlynol: BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland a BBC iPlayer, ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

   i) oriau arfaethedig o raglenni mewn Gwyddeleg, a Sgoteg Ulster; ac

   ii) oriau arfaethedig ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU yn y Wyddeleg a Sgoteg Ulster.

A7.16 Os bydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'w ddarpariaeth bresennol yn y flwyddyn i ddod, mae angen i'r BBC nodi hynny yn ei Gynllun Blynyddol, ac egluro'r

rhesymau dros y newidiadau hynny hefyd. Mae hefyd angen iddo gyhoeddi newidiadau sylweddol os bwriedir gwneud hynny ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, a'i fod yn bwriadu cyflwyno newidiadau o'r fath cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

A7.17 Mae'r Drwydded hefyd yn mynnu bod y BBC yn nodi yn ei Adroddiad Blynyddol a yw wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo yn ei Gynllun Blynyddol.

# A8. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Cyflwyniad**

A8.1 Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn asesu effaith bosibl ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac ymarferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.[637] Rydym yn cyfeirio at bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig yma fel 'grwpiau cydraddoldeb'.

A8.2 Rydym yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn edrych ar effaith bosibl ein polisi arfaethedig ar bobl, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ni waeth beth ydy eu cefndir a'u hunaniaeth.

A8.3 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**Nodau ein Datganiad**

A8.4 Mae'r Datganiad yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym yn credu y bydd sicrhau bod Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni drwy'r drefn drwyddedu hon yn dod â manteision i ddefnyddwyr allbwn y BBC yn gyffredinol, ac yn enwedig grwpiau cydraddoldeb.

**Asesu'r effaith ar gydraddoldeb**

A8.5 Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân ar gyfer ein hymgyngoriadau ym mis Mehefin a mis Rhagfyr. Rydyn ni hefyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried yr ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â'n hymgynghoriadau ym mis Mehefin a mis Rhagfyr, ac rydyn ni'n rhoi crynodeb o'n hasesiad isod.

A8.6 Mae'r gofyniad i'r BBC 'wasanaethu pob cynulleidfa' yn ystyriaeth allweddol o hyd wrth bennu'r Drwydded Weithredu hon.[638] Felly, rydym o'r farn y gallai amodau'r Drwydded fod yn berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb ac y gallent gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol yn benodol:

a) Cynulleidfaoedd iau;

b) Menywod;

---

[637] Fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

[638] Cenhadaeth y BBC, fel y'i diffinnir yn y Siarter, yw "gweithredu er lles y cyhoedd, gan **wasanaethu pob cynulleidfa** drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".

c) Pobl anabl;

d) Cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;

e) Pobl sy'n ystyried bod ganddynt grefydd benodol; a

- Pobl sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

A8.7 Rydym hefyd o'r farn y gallai amodau'r Drwydded fod o fudd i bobl sy'n byw yn y gwledydd a'r rhanbarthau, y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a'r rheini sy'n dibynnu ar deledu a radio sy'n cael eu darlledu.

A8.8 Isod, rydym yn crynhoi'r cynigion ar gyfer y Drwydded Weithredu newydd yn ôl Diben Cyhoeddus, ac yn tynnu sylw at yr amodau a fyddai, yn ein barn ni, yn arbennig o berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb hyn.

## Diben Cyhoeddus 1 - newyddion a materion cyfoes

A8.9 Mae darparu newyddion cywir, dibynadwy ac o ansawdd uchel yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Am y rheswm hwn, rydym yn cadw'r cwotâu presennol i sicrhau bod allbwn o'r fath ar gael yn rhwydd. Rydym yn cydnabod bod cynulleidfaoedd yn cael gafael ar fwy o newyddion ar-lein, felly rydym yn cyflwyno gofynion newydd i'r BBC sicrhau bod rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar gael bob dydd ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

A8.10 Rydym yn credu y dylai gofynion newydd i sicrhau bod newyddion a materion cyfoes ar gael bob dydd ar-lein fod o fudd i gynulleidfaoedd iau, sy'n fwy tebygol o gael gafael ar gynnwys ar-lein (amodau 1.2 ac 1.3). Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau darlledu i sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael gwasanaeth da (amodau 1.4-1.16) ac adrodd ar ei gynlluniau i gwrdd â'r gofynion hyn (amodau 1.17-1.19). Gallai hyn fod o fudd arbennig i bobl hŷn sydd efallai'n ffafrio defnyddio gwasanaethau darlledu traddodiadol, neu bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is nad ydynt o bosibl yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd gartref.[639] Rydym hefyd yn nodi y bydd cynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU yn parhau i elwa o newyddion a materion cyfoes lleol (gweler Diben Cyhoeddus 4 isod). Yn olaf, rydym o'r farn y bydd cadw'r cwotâu newyddion radio ar gyfer BBC Radio 1Xtra (amod 1.10) a BBC Asian Network (amod 1.16) yn parhau i helpu i gyrraedd a gwasanaethu cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig ac Asiaidd gydag allbwn newyddion.

A8.11 Ar ben hynny, rydym wedi galluogi'r BBC i gael hyblygrwydd ychwanegol o ran ei ddarpariaeth o gynnwys newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 5 Live. Rydym o'r farn y bydd hyn yn caniatáu i'r BBC ymateb i ddewisiadau cynulleidfaoedd a'i helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol; yn enwedig dynion iau a'r rheini o gefndiroedd economaidd is.

[639] Nid oes gan 20% o'r rheini sy'n 65 oed a hŷn, ac 14% o'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, fynediad i'r rhyngrwyd gartref (Ofcom, Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2021: Arolwg omnibws CATI).

## Diben Cyhoeddus 2 - dysgu

A8.12 Mae’r BBC yn ddarparwr cynnwys dysgu pwysig i gynulleidfaoedd o bob oed, ac mae wedi perfformio’n gryf hyd yma o ran darparu’r cynnwys hwn. Felly, mae ein newidiadau i’r Drwydded gyntaf yn canolbwyntio ar gryfhau’r wybodaeth mae’r BBC yn ei chyhoeddi am sut mae’n cyflawni Diben Cyhoeddus 2, yn ogystal â rhoi mwy o gwmpas i’r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cynnwys dysgu i gynulleidfaoedd o bob oed ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-lein.

A8.13 Rydym o’r farn y bydd mynnu bod y BBC yn darparu cynnwys dysgu i oedolion a phlant o bob oed ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-lein, ac adrodd ar ei ddarpariaeth mewn perthynas â’r gofynion hyn, yn sicrhau bod y BBC yn parhau i hwyluso ac annog dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (amodau 2.2-2.8). Rydym yn cydnabod bod risg y gallai cynulleidfaoedd sydd heb fynediad i’r rhyngrwyd gartref fod ar eu colled. Er enghraifft, efallai na fydd plant a phobl ifanc yn eu harddegau o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn gallu cael gafael ar gynnwys dysgu ffurfiol y BBC ar-lein. Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol i’r BBC ddarparu cynnwys dysgu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ar ei wasanaethau darlledu (amodau 2.2, 2.4 a 2.5).

## Diben Cyhoeddus 3 - natur unigryw

A8.14 Mae natur unigryw yn ganolog i’r BBC – mae’n rhaid iddo gynnig allbwn a gwasanaethau sydd, gyda’i gilydd, yn wahanol iawn i ddarparwyr tebyg eraill ar draws pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol, ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran: y gymysgedd o wahanol genres ac allbwn; ansawdd yr allbwn; faint o allbwn gwreiddiol sy’n cael ei gynhyrchu yn y DU; lefel y risgiau sy’n cael eu cymryd, yr arloesi, yr herio a’r uchelgais creadigol; a’r amrywiaeth o gynulleidfaoedd y mae’n eu gwasanaethu. Cynnwys gwreiddiol o’r DU yw sylfaen y natur unigryw hon, ac rydym felly’n cadw cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf, gan roi hyblygrwydd i’r BBC ddarparu rhywfaint o allbwn sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar BBC iPlayer. Ar gyfer genres, rhaglenni dogfen a rhai rhaglenni cerddoriaeth, rydym yn disodli cwotâu â rhwymedigaethau sy’n mynnu bod y BBC yn dryloyw ynghylch ei gynlluniau a’i berfformiad. Ar gyfer gweddill yr amodau radio, rydym yn cadw’r cwotâu rydym yn credu sy’n bwysig iawn o ran sicrhau bod y BBC yn unigryw.

A8.15 Rydym wedi disodli cwotâu â gofynion tryloywder yn y meysydd lle rydym yn credu y bydd yr hyblygrwydd hwn o fudd i gynulleidfaoedd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gwasanaethu’n well. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y newidiadau hyn yn peri risg o leihau’r ddarpariaeth o genres sydd dan fygythiad, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys i blant. Er nad ydym yn credu y byddai disodli’r cwotâu hyn yn debygol o leihau’r amrywiaeth o allbwn i blant, er mwyn lliniaru’r risg hon, rydym wedi ehangu’r gofynion tryloywder sy’n mynnu bod y BBC yn nodi oriau wedi’u cynllunio ar gyfer pob genre sydd dan fygythiad (amod 3.14.4) i ofyn yn benodol am yr oriau arfaethedig ym mhob is-genre allweddol o raglenni plant. Ar ben hynny, os oes gennym bryderon nad yw’r BBC yn sicrhau bod y genres hyn yn cael eu darparu, byddwn yn defnyddio ein pwerau i gamu i mewn.

A8.16 Rydym o'r farn y bydd caniatáu i'r BBC ddarparu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol o'r DU ar wasanaethau darlledu ac ar-lein o fudd i rai grwpiau cynulleidfa, gan gynnwys pobl iau (amod 3.5). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod risg bosibl o roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC o ran sut mae'n darparu genres mewn perygl (amodau 3.2, 3.4 a 3.8). Er enghraifft, pe bai'r BBC yn lleihau ei raglenni crefyddol yn sylweddol, gallai hynny gael effaith negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau neu gredoau. Fodd bynnag, fel y nodir isod, bydd yn dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu amrywiaeth o gynnwys gan gynnwys genres sydd mewn perygl, yn ogystal â nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni a rhoi rhesymau dros unrhyw newidiadau arwyddocaol. Pan fo'n briodol, byddwn yn asesu'r newidiadau y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud ac yn ystyried yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys grwpiau cydraddoldeb, ac yn arfer ein pwerau i gamu i mewn lle bo angen.

A8.17 Ar ben hynny, rydym yn credu y bydd ehangu cwotâu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf i fod yn niwtral o ran gwasanaeth yn caniatáu i'r BBC gynnig ei wasanaethau i adlewyrchu anghenion cynulleidfaoedd ac arferion defnyddio. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn y bydd ein gofynion tryloywder yn ein galluogi i nodi unrhyw feysydd lle gallai fod angen i'r BBC wneud mwy i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn defnyddio ei wasanaethau ar-lein, a gweithredu lle bo angen, ac felly diogelu buddiannau cynulleidfaoedd o'r fath.

## Diben Cyhoeddus 4 - y gwledydd a'r rhanbarthau, amrywiaeth

A8.18 Mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU. Am y rheswm hwn, rydym wedi cadw cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym hefyd wedi cryfhau'r gofynion tryloywder sy'n ceisio dal y BBC i gyfrif am sut mae'n cynrychioli cymunedau amrywiol y DU, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Rydym hefyd yn disodli cwotâu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion nac yn rhaglenni materion cyfoes y BBC ar y fersiynau cenedlaethol a rhanbarthol o BBC One a BBC Two gyda rhwymedigaethau sy'n gofyn am dryloywder gan y BBC ar ei gynlluniau. Rydym yn credu y bydd dileu'r cwotâu hyn yn caniatáu i'r BBC arloesi a gwasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn well, a bydd y gofynion tryloywder yn ein galluogi i benderfynu a yw'r BBC wedi darparu'n briodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

A8.19 Mae ffocws amrywiaeth Diben Cyhoeddus 4 yn golygu bod amodau'r Drwydded newydd yn y maes hwn yn arbennig o berthnasol i grwpiau cydraddoldeb. Er enghraifft, bwriad amod 4.2 yw sicrhau bod y BBC yn dangos sut mae ei wasanaethau wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU gyfan yn y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, mae amodau 4.3-4.6 yn darparu gofynion adrodd ychwanegol i sicrhau bod y BBC yn gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau cynrychiolaeth a phortreadu. Rydym wedi diwygio'r amodau hyn i fynnu bod y BBC yn cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn gyhoeddus, yn hytrach nag adrodd yn uniongyrchol i Ofcom, er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r BBC yn arwain y diwydiant o ran faint o wybodaeth am amrywiaeth mae'n ei chasglu a'i chyhoeddi, a byddwn yn gweithio gyda phob darlledwr – gan gynnwys y BBC – dros y blynyddoedd nesaf i'w hannog i gasglu a rhannu set gyfoethocach o ddata am amrywiaeth eu gweithluoedd. Rydym o'r farn y dylai hyn arwain at amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol i'r grwpiau cydraddoldeb sydd wedi cael eu rhestru uchod.

A8.20 Ar ben hynny, rydym yn credu y bydd amodau'r Drwydded newydd o fudd i siaradwyr a dysgwyr ieithoedd cynhenid. Er enghraifft, bwriad amodau 4.44.3, 4.53.3 a 4.61.3 yw sicrhau bod y BBC yn darparu cynnwys Gaeleg, Cymraeg, Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar BBC Ar-lein yn y drefn honno. Rydym hefyd o'r farn y gallai disodli'r cwota ar BBC ALBA ag amod Trwydded (amod 4.48.2) a gofynion tryloywder (amod 4.68.5) wella'r ddarpariaeth o gynnwys dysgu yn yr iaith Gaeleg.

## Gogledd Iwerddon

A8.21 Roedd y Drwydded Weithredu gyntaf yn mynnu bod y BBC yn cynhyrchu ystod o raglenni ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr yng Ngogledd Iwerddon, ac yn cynhyrchu rhaglenni yng Ngogledd Iwerddon a fydd yn cael eu darlledu ar draws y DU. Rydym wedi cadw'r gofynion hyn gyda rhai diwygiadau i adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd cyfryngau ac yn arferion cynulleidfaoedd.[640] Nid ydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o gategorïau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon,[641] ac nid ydym felly wedi cynnal Asesiad manylach o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

[640] Amodau 4.59-4.61, 4.63-4.66 o'r Drwydded Weithredu.
[641] Adran 75, Northern Ireland Act 1998.

# A9. Fframwaith Cyfreithiol

A9.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[642] sy'n nodi, at ddibenion rheoleiddio'r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o'r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)[643] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[644]

A9.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 y Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[645] Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi bod yn rhaid i egwyddorion rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, rhai egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydym yn credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r Datganiad hwn:

a) Pa mor ddymunol ydy hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

b) Anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;

c) Barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac

d) Y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[646]

A9.3 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw i'r canlynol, fel sy'n ymddangos i ni'n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC:[647]

a) Amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth[648] a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) Pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a'r

c) Gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol.[649]

---

[642] Adran 198 o'r Ddeddf.
[643] Y Siarter.
[644] Y Cytundeb.
[645] Erthygl 45(1) y Siarter.
[646] Adran 3(4) o'r Ddeddf.
[647] Erthygl 45(2) y Siarter.
[648] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 yn y Siarter).
[649] Mae dyletswyddau cyffredinol y BBC wedi'u nodi yn Erthyglau 9 i 18 y Siarter ac maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ddyletswydd i hyrwyddo arloesedd technolegol, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar arloesi technolegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau cyffredinol ar y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys, yng Nghymal 61, gofyniad i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod gwylwyr,

A9.4 O'r pum Diben Cyhoeddus,[650] mae'r canlynol yn berthnasol i'r Datganiad hwn:[651]

a) Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;

b) Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

c) Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau; a

d) Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A9.5 Rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter, ei bod yn rhaid i'r BBC osod mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[652] wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau cyhoeddus.[653]

A9.6 Ar wahân i hynny, rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 46(4)(d) o'r Siarter, y gall Ofcom osod mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a osodwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.[654] Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel rydym yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.[655]

A9.7 Yn ogystal â gosod mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni osod Trwydded Weithredu (y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.[656] Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) Cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

---

gwrandawyr a defnyddwyr eraill (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) yn gallu cael gafael ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a fwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol sydd ar gael neu a all fod ar gael yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys (er enghraifft) darlledu, ffrydio neu ddarparu cynnwys ar-alw, boed hynny drwy rwydweithiau daearol, lloeren, cebl neu fand eang (sefydlog neu ddi-wifr) neu drwy'r rhyngrwyd.

[650] Erthygl 6 y Siarter.

[651] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw'r ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am osod Trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

[652] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC: Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

[653] Cymal 14(1) o'r Cytundeb.

[654] Cymal 14(2) o'r Cytundeb.

[655] Cymal 14(4) o'r Cytundeb.

[656] O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

c) Sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.[657]

A9.8 Mae Atodlen 2 o'r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu gosod drwy'r Drwydded Weithredu. Ymysg pethau eraill, mae'n darparu:

a) Y dylai Ofcom roi sylw penodol, wrth osod yr amodau rheoleiddio, i'r angen i'r BBC sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu;

b) Mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes, rhaid i ni osod gofynion, yn y Drwydded Weithredu, sy'n briodol yn ein barn ni er mwyn sicrhau'r canlynol:

   i) Mae'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU[658] yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes ar lefel briodol (fel y pennir gan Ofcom); a

   ii) Mae'r rhaglenni newyddion sydd wedi'u cynnwys yn cael eu darlledu yn aml drwy gydol y cyfnod y mae Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU yn cael eu darparu.[659]

A9.9 Mae'n rhaid i ni hefyd osod gofynion cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer pob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU.[660] Yn achos pob gwasanaeth, rhaid i'r gyfran a bennir gan Ofcom at ddibenion y gofyniad cynyrchiadau gwreiddiol fod yn gymesur i'r graddau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.[661]

A9.10 Efallai y byddwn yn amrywio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni. Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017[662] ac mae wedi cael ei diwygio ychydig o weithiau ers 2017.[663] Mae'r atodiad i'r Datganiad hwn yn cynnwys yr ail Drwydded Weithredu ar gyfer y BBC, ac mae'n Drwydded Weithredu newydd.

A9.11 Yn ogystal â gosod Trwydded Weithredu, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[664] Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y

[657] Erthygl 46(3) y Siarter.
[658] Mae Cymal 75 a rhan 1 o Atodlen 1 i'r Cytundeb, o'u cymryd â'i gilydd yw'r diffiniad o 'Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU'. Mae CBeebies a CBBC yn cael eu cynnwys yn y rhestr o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU a gyhoeddir gan y BBC.
[659] Paragraff 4(1) o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[660] Paragraff 5(1) o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[661] Paragraff 5(2) o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[662] Ofcom, Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU, 2017 (diweddarwyd ym mis Chwefror 2022).
[663] I weld newidiadau i'r Drwydded Weithredu, ewch i dudalen we'r Fframwaith Gweithredu.
[664] Erthygl 46(2) o'r Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.

'Gweithdrefnau')[665] sy'n egluro sut rydym yn gosod ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

A9.12 Mae'r Gweithdrefnau'n nodi'r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio'r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau'r Drwydded Weithredu a pha mor ddymunol ydy sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[666]

[665]Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd:Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu, 2017.
[666] Y Gweithdrefnau, paragraffau 1.11 i 1.20.